# RHANNU SYNIADAU/ CREU GWERTH/



Rhan Dau:
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/09

**Arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC**

# CYNNWYS/





002 / **TROSOLWG**
PWRPASAU'R BBC / PERFFORMIAD ARIANNOL / CIPOLWG AR Y FLWYDDYN / RHAGAIR Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL / CYFLWYNO DYFODOL CREADIGOL / PARTNERIAETHAU /

020 / **PERFFORMIAD**
AMCANION / TELEDU / RADIO / CYFRYNGAU A THECHNOLEG Y DYFODOL / NEWYDDIADURAETH / MASNACHOL /

084 / **LLYWODRAETHU**
BWRDD GWEITHREDOL / ADRODDIAD LLYWODRAETHU CRYNO /

094 / **CYFRIFOLDEB**
GWEITHREDIADAU /

104 / **DATGANIADAU ARIANNOL**
TROSOLWG / RHAGOLWG RISG / UCHAFBWYNTIAU / DATGANIAD YR ARCHWILWYR / DATGANIAD ARIANNOL CRYNO / IFRS / CYSYLLTU Â NI / GWYBODAETH ARALL /


TROSOL



004 / **PWRPASAU'R BBC/**
005 / **PERFFORMIAD ARIANNOL/**
006 / **CIPOLWG AR Y FLWYDDYN/**
008 / **RHAGAIR Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL/**
012 / **CYFLWYNO DYFODOL CREADIGOL/**
014 / **PARTNERIAETHAU/**

# WG/

# PWRPASAU'R BBC/

## MAE CHWE PHWRPAS CYHOEDDUS Y BBC – SY'N SEILIEDIG AR EIN HEGWYDDORION I 'HYSBYSU, ADDYSGU A DIDDANU' – YN SAIL I BOPETH A WNAWN, AC YN EIN HELPU I GANOLBWYNTIO AR GYNNIG CYNNWYS A GWASANAETHAU COFIADWY AC UNIGRYW SY'N CYFOETHOGI EU BYWYDAU I BAWB YN Y DU. YMHLITH YR UCHAFBWYNTIAU ELENI ROEDD:



### DINASYDDIAETH
Mae gan y BBC enw da ledled y byd am ohebu a dadansoddi'r byd sydd ohoni. Mae ein sianelau a'n gwasanaethau ledled y DU, rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn ymdrin ag amrywiaeth eang o straeon wedi'u teilwra ar gyfer amrywiaeth helaeth o ddefnyddwyr. Eleni, roeddem ar flaen y gad o ran yr argyfwng bancio a'r dirwasgiad, ac ymwelodd sioe gyngor deithiol *Money Matters* â Manceinion i egluro effaith y wasgfa gredyd i unigolion yr ardal. Bwriedir cynnal sioeau teithiol eraill.

### DYSGU
Mae'r BBC yn hyrwyddo ac yn cefnogi addysg ffurfiol ac anffurfiol i blant, pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ar y teledu, ar y radio ac ar y we. Bydd pobl sy'n awyddus i ddysgu – boed yn fyfyriwr ysgol sy'n chwilio am gymorth adolygu ar-lein gyda *Bitesize* neu'n ddyn ifanc sydd am ddysgu mwy am Francis Bacon er mwyn creu argraff dda ar ddêt pwysig – yn dod o hyd i gynnwys diddorol, diddan a heriol yn y BBC. Roedd ein partneriaeth â'r Tate Britain ar Francis Bacon y llynedd, mewn gwirionedd, yn un o blith amrywiaeth o bartneriaethau creadigol sy'n cyflwyno cynnwys sy'n bodoli eisoes i gynulleidfaoedd newydd.

### CREADIGRWYDD
Ymhlith arlwy'r BBC mae cynnwys unigryw ac arloesol sy'n diddanu cynulleidfaoedd ac yn ennyn eu diddordeb. Mae cerddoriaeth fyw yn allweddol i'r gerddoriaeth a gynigir gennym – o Elbow ar Radio 2 i hip hop ar BBC 1Xtra. Cofnodwyd 250 mlynedd ers marwolaeth Handel gennym gydag wythnos o raglennu manwl: ymhlith yr uchafbwyntiau roedd Messiah o Abaty Westminster ar Radio 3. A chofnodwyd 250 mlynedd ers geni Robert Burns gennym gyda recordiadau newydd o ddarnau o'i waith. Byddwn yn gwneud mwy o farddoniaeth yn ystod y flwyddyn nesaf.

### CYMUNED
Mae'r DU yn lle amrywiol iawn, ac rydym yn anelu at adlewyrchu'r amrywiaeth hon yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Rydym yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg, Saesneg a Gaeleg yr Alban, a rhaglenni mewn dros 30 o ieithoedd o Bengali i Wrdw. I gymunedau sydd wedi'u huno fwy gan frwdfrydedd na threftadaeth ddaearyddol neu ieithyddol, rydym yn cynnig allbwn fel *Antiques Roadshow* a *Songs of Praise*, a gwefannau lle y gall pobl gyfarfod a sgwrsio fel 'Mustardland' *The Archers*. Heb sôn am Radio 5 live i ddilynwyr chwaraeon o bob math, a radio lleol a'r gwledydd i gael sylwebaeth bêl-droed ar ddydd Sadwrn.

### BYD-EANG
Mae ein gwasanaethau newyddion byd-eang yn darparu newyddion a dadansoddiadau annibynnol a berchir yn rhyngwladol i gynulleidfaoedd ledled y byd, gan ymdrin â straeon allweddol fel yr ymosodiadau terfysgol ym Mumbai a gwrthdaro Israel/Gaza. Ar nodyn ysgafnach, darlledodd Radio 2 o wyliau cerddoriaeth pwysig fel Glastonbury a'r artistiaid rhyngwladol gorau fel Burt Bacharach yn *Electric Proms* a U2. Lansiodd BBC Worldwide CBeebies Sbaeneg, gan gyflwyno'r goreuon o blith cynnwys y DU i gynulleidfaoedd newydd.

### DIGIDOL
Mae'r newid i ddigidol bellach ar waith yn y DU, a disgwylir i'r DU gyfan fod wedi newid yn llwyr erbyn 2012. Defnyddir BBC Online gan 22 miliwn bob wythnos, ac mae deg miliwn bellach yn gwrando ar ein gwasanaethau radio drwy lwyfannau digidol. Mae 'cyflwyno buddiannau digidol i bawb' yn golygu ein bod yn cefnogi'r bobl olaf i fabwysiadu technoleg newydd, yn ogystal â'r bobl gyntaf i wneud hynny. Cynigir help i hyd at saith miliwn o bobl 75 oed neu'n hŷn, pobl anabl neu bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal i newid i deledu digidol rhwng nawr a 2012.

# PERFFORMIAD ARIANNOL/

MAE CWMNÏAU MASNACHOL YN ATEBOL I GYFRANDDEILIAID. YN YR UN MODD, MAE GENNYM GYFRIFOLDEB I SICRHAU GWERTH AM ARIAN I DALWYR FFI'R DRWYDDED, GAN REOLI EIN HINCWM YN EFFEITHLON A'N GWARIANT YN DDOETH, YN ARBENNIG MEWN AMGYLCHEDD ANSICR.



## CASGLU FFI'R DRWYDDED

Rydym am ei gwneud hi'n haws i bobl dalu ffi'r drwydded – trafodion ar-lein a thros y ffôn yw dros draean o'r cyfanswm erbyn hyn, ac maent wedi ein helpu i gadw costau casglu ac osgoi talu ar lefelau 2007/08.

**Casglu/osgoi talu ffi'r drwydded %**




## GWARIANT FFI'R DRWYDDED YN Y GWLEDYDD A'R RHANBARTHAU

Mae gwariant y tu allan i Lundain wedi gostwng ychydig iawn flwyddyn ar flwyddyn wrth i ni gyflawni arbedion effeithlonrwydd a rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bod 50% o'n cynyrchiadau teledu rhwydwaith yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain erbyn 2016 – i fyny o ychydig dros draean eleni.

**Gwariant ffi'r drwydded yn y gwledydd/rhanbarthau £m**




## GWARIANT YN YR ECONOMI GREADIGOL

Unwaith eto, gwariwyd dros £1biliwn gennym yn economi greadigol y DU – gan gomisiynu rhaglenni gan gwmnïau annibynnol (37% o gyfanswm yr oriau cymwys yn ystod y flwyddyn) a chydweithredu â phartneriaid creadigol eraill.

**Gwariant yn yr economi greadigol £bn**




## BBC WORLDWIDE

Er gwaethaf amgylchiadau masnachu anodd i'r diwydiant, cynyddodd BBC Worldwide ei werthiannau i dros £1biliwn am y tro cyntaf (gan gynnwys ei gyfran o gyd-fentrau a gwerthiannau mewnol y grŵp), ond gostyngodd ei elw statudol – yn rhannol o ganlyniad i fuddsoddiad parhaus yn ogystal â chostau a ddilëwyd mewn perthynas â chwymp Woolworths a'r ffaith bod y Comisiwn Cystadleuaeth wedi gwrthod Kangaroo, ei gynnig fideo ar alw.


**Elw statudol BBC Worldwide cyn llog a threth £m**




## ARBEDION EFFEITHLONRWYDD

Dechreuodd ein rhaglen effeithlonrwydd newydd ym mis Ebrill 2008 – ac rydym eisoes wedi arbed £237miliwn (£192miliwn yn glir o gostau). Ein targed yw cyflawni arbediad cronnol o 3%, sef £1.9biliwn, a gaiff ei ailfuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau gwell.

**Arbedion effeithlonrwydd gros £m**



# CIPOLWG AR Y FLWYDDYN/

MAE GWASANAETHAU'R BBC WEDI'U CYNLLUNIO I'ATEGU EI GILYDD A CHYNNIG DEWIS, YSTOD AC AMRYWIAETH I WYLWYR, GWRANDAWYR A DEFNYDDWYR. NID YW POB GWASANAETH YN ADDAS AR GYFER POB CYNULLEIDFA OND DYLAI POB AELOD O'R GYNULLEIDFA ALLU DOD O HYD I RYWBETH I'W HYSBYSU, EU HADDYSGU NEU EU DIDDANU PRYD BYNNAG A LLE BYNNAG A SUT BYNNAG Y DYMUNANT.



## TELEDU RHWYDWAITH/


## RADIO RHWYDWAITH/

## CYFRYNGAU'R DYFODOL/

## NEWYDDIADURAETH/

## LLAI NA 39c

MAE POB CARTREF YN Y DU YN TALU LLAI NA 39 CEINIOG Y DYDD AM HOLL WASANAETHAU'R BBC




## DADANSODDIAD O WARIANT Y BBC/

| | £m |
|---|---|
| Teledu | 2,336 |
| Radio | 588 |
| Ar-lein | 177 |
| Arall | 295 |
| Cyfanswm | 3,396 |

## CYFRAN FFI'R DRWYDDED FISOL 2008/09

| | £ | % |
|---|---|---|
| Teledu | 8.00 | 69 |
| Radio | 2.01 | 17 |
| Ar-lein | 0.61 | 5 |
| Arall | 1.01 | 9 |
| | 11.63 | 100 |

Am ragor o fanylion, gweler Nodyn 2 yn y datganiadau ariannol.

## TELEDU
## 69%

Caiff ychydig dros ddwy ran o dair o ffi'r drwydded ei buddsoddi mewn rhaglenni teledu a gwasanaethau, sy'n gyfwerth ag £8 y mis fesul cartref.

## RADIO
## 17%

Caiff ychydig dros £2 (17%) o ffi'r drwydded fisol ei gwario ar radio. Dim ond £1.25 y mae'r deg rhwydwaith sydd ar gael i'r DU yn ei gostio.


## CYFRYNGAU'R DYFODOL
## 5%

Dim ond 5c o bob punt o ffi'r drwydded a gaiff ei buddsoddi yn BBC Online, sef cartref ein gwefannau newyddion a chwaraeon helaeth, a BBC iPlayer.

| | CYRHAEDDIAD/% (Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos) | COSTAU FESUL AWR DEFNYDDIWR/C (Faint i gyflwyno'r gwasanaeth i ddefnyddwyr) | GWARIANT FESUL GWASANAETH/£M (Cyfanswm gwariant ar gynnwys) |
|---|---|---|---|
| BBC ONE | 77.6 | 6.8 | 1,142 |
| BBC TWO | 57.4 | 7.5 | 451 |
| BBC THREE | 18.7 | 10.6 | 87 |
| BBC FOUR | 7.8 | 16.8 | 55 |
| CBBC | 5.2 | 9.5 | 36 |
| CBEEBIES | 8.0 | 1.8 | 16 |
| BBC HD | 0.6 | 7.0 | 2 |
| BBC ALBA | 0.4 | 29.4 | 3 |
| BBC RADIO 1 | 21.3 | 0.6 | 33 |
| BBC RADIO 2 | 26.1 | 0.5 | 40 |
| BBC RADIO 3 | 3.9 | 6.3 | 40 |
| BBC RADIO 4 | 19.1 | 1.3 | 86 |
| BBC RADIO 5 LIVE | 11.9 | 2.3 | 57 |
| BBC RADIO 5 LIVE SPORTS EXTRA | 1.4 | 2.6 | 3 |
| BBC 1XTRA | 1.1 | 4.5 | 7 |
| BBC 6 MUSIC | 1.2 | 3.4 | 7 |
| BBC 7 | 1.7 | 2.0 | 5 |
| BBC ASIAN NETWORK | 0.8 | 6.9 | 9 |
| | | (COST FESUL DEFNYDDIWR A GYRHAEDDIR) | |
| BBC ONLINE | 43 | 9.7 | 112 |
| BBC RED BUTTON** | 25 | 2.7 | 13 |
| BBC NEWS CHANNEL | 8.4 | 8.1 | 48 |
| BBC PARLIAMENT | 0.3 | 18.5 | 3 |
| BBC LOCAL RADIO YN LLOEGR | 18.6 | 2.9 | 109 |
| BBC RADIO SCOTLAND | 21.6 (gan gynnwys RnG) | 7.1 | 25 |
| BBC RADIO NAN GÀIDHEAL | | 18.2 | 4 |
| BBC RADIO WALES | 17.8 | 5.0 | 13 |
| BBC RADIO CYMRU | 6.4 | 11.5 | 12 |
| BBC RADIO ULSTER/FOYLE | 35.6 | 4.4 | 15 |

* Dim ond drwy Loeren Ddigidol y mae BBC ALBA ar gael ar hyn o bryd. Nid yw ar gael i gartrefi cebl na Freeview.
** Newidiodd metrig mesur y gynulleidfa ym mis Ionawr 2008; mae ffigur 2008/09 yn fwy cadarn na chymharwyr y cyflwynwyd adroddiadau arnynt yn y gorffennol.

# RHA





## BU ELENI YN UN O'R BLYNYDDOEDD PRYSURAF YN HANES Y BBC. BU'N FLWYDDYN O LWYDDIANT CREADIGOL AR DRAWS POB UN O'N GWASANAETHAU. BU'N FLWYDDYN O DDATBLYGIADAU CADARN AR Y FFORDD TUAG AT DDARLLEDU CWBL DDIGIDOL. OND ROEDD HEFYD YN FLWYDDYN A DDANGOSODD BETH ALL DDIGWYDD OS BYDD Y BBC, HYD YN OED AM YCHYDIG FUNUDAU DIFEDDWL, YN ANGHOFIO EI WERTHOEDD NEU'R BOBL SY'N BERCHEN ARNO AC SY'N TALU AMDANO, SEF POBL PRYDAIN.

Ond rwyf am ddechrau gyda thema wahanol. Ychydig wythnosau yn ôl, fel rhan o dymor ardderchog yn dathlu barddoniaeth ar y teledu, radio a'r we, cyflwynodd Simon Schama ryw fath o lythyr caru, ar ffurf rhaglen ddogfen deledu, i'r bardd John Donne. Yn ogystal â sonedau a cherddi eraill Donne, ymdriniodd y rhaglen â rhyddiaith grefyddol Donne – yn arbennig 'No man is an island'.

Eleni rydym wedi ymrwymo'n bendant i'r gred nad ynys mo unrhyw ddarlledwr – ac yn sicr nad ynys yw'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig. Yn ei rinwedd ei hun, y BBC yw un o'r darlledwyr mwyaf dylanwadol ac uchel ei barch yn y byd, ond ni ddylai'r BBC byth anghofio mai dim ond un rhan o amgylchedd ehangach y cyfryngau mohono. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi canolbwyntio fwy nag erioed o'r blaen ar ein cyfrifoldebau i'r byd ehangach hwnnw.

Yn y DU, fel ymhob rhan o'r byd, bu cyfryngau a ariennir yn fasnachol yn straffaglu â'r her ddeuol sy'n gysylltiedig â newid strwythurol – wedi'i sbarduno gan y chwyldro digidol a'r gystadleuaeth a ddeilliodd ohono – ac effaith dirwasgiad tymor agos difrifol. O ganlyniad, mae llawer o gwmnïau yn brwydro i oroesi. Yn hytrach na gorffwys ar ein rhwyfau a dibynnu ar ddiogelwch cymharol incwm ffi'r drwydded y BBC, rydym wedi gofyn i ni'n hunain beth y gallwn ei wneud i helpu i gynnal nid yn unig gweddill y system ddarlledu gyhoeddus, ond hefyd gweddill sector cyfryngau'r DU.

Nid yw partneriaethau yn syniad newydd i'r BBC. Am ddegawdau, buom wrthi'n datblygu technolegau ar y cyd drwy weithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr a chystadleuwyr drwy'r diwydiant cyfan – mae DAB a llawer o'r safonau technegol sy'n gysylltiedig â Freeview yn enghreifftiau o hyn. Ond yn 2008/09, i raddau helaeth mewn ymateb i agenda Prydain Ddigidol y Llywodraeth, cynyddodd y BBC ei ffocws ar amrywiaeth o bartneriaethau o ffyrdd i ddod o hyd i ffynonellau newyddion rhanbarthol amgen, i lwyfannau digidol newydd, i gynghreiriau diwylliannol newydd er mwyn creu cyfleoedd creadigol newydd a thrysorau archif newydd i bobl Prydain. Rydym wedi llofnodi cytundebau gyda phartneriaid sy'n amrywio o ITV plc i Gyngor y Celfyddydau Lloegr.

Mae'r agenda bartneriaeth yn ein tywys at BBC mwy agored, mwy hydraidd. Ond ni ddylai hynny byth fod ar draul unrhyw ostyngiad o ran safon y rhaglenni a'r gwasanaethau a gynigir gennym i'n cynulleidfaoedd.

# GAIR



"YN EI RINWEDD EI HUN, Y BBC YW UN O'R DARLLEDWYR MWYAF DYLANWADOL AC UCHEL EI BARCH YN Y BYD, OND NI DDYLAI'R BBC BYTH ANGHOFIO MAI DIM OND UN RHAN O AMGYLCHEDD EHANGACH Y CYFRYNGAU MOHONO."

MARK THOMPSON/
CYFARWYDDWR CYFFREDINOL/



"MAE'R AGENDA BARTNERIAETH YN EIN TYWYS AT BBC MWY AGORED, MWY HYDRAIDD. OND NI DDYLAI HYNNY BYTH FOD AR DRAUL UNRHYW OSTYNGIAD O RAN SAFON Y RHAGLENNI A'R GWASANAETHAU A GYNIGIR GENNYM I'N CYNULLEIDFAOEDD."

# "MAE CYNULLEIDFAOEDD AM GAEL EU SYFRDANU, EU HYSBRYDOLI, EU CYFFROI, WEITHIAU HYD YN OED EU SYNNU GAN YR HYN A WELANT AC Y GWRANDAWANT ARNO, OND MAENT AM WYBOD BOD GWERTHOEDD CRYF YN SAIL I HYNNY O RAN URDDAS, GONESTRWYDD AC YMDDIRIEDAETH."

Mewn gwirionedd, roedd hon yn flwyddyn benigamp i allbwn y BBC, o'r darnau gosod mwyaf fel y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn Beijing – a aeth y tu hwnt i ddarllediadau eithriadol o chwaraeon eu hun i ddatgelu rhai o wynebau lluosog Tsieina fodern – i ddramâu teledu eithriadol fel *Criminal Justice* a *Little Dorrit* – i rai o'r tymhorau o raglenni thema gorau a ddarlledwyd gennym erioed. Dangosodd ddathliad Darwin y BBC, er enghraifft, yr hyn y gallwn ei gyflawni o ran meithrin gwybodaeth ysbrydoledig drwy ddefnyddio ein gwasanaethau a chronfeydd aruthrol talent greadigol ein gwneuthurwyr rhaglenni ni ein hunain a'n partneriaid annibynnol gyda'i gilydd.

O ran ein newyddiadurwyr, sy'n gwasanaethu cannoedd o filiynau o bobl yn y DU a ledled y byd bob dydd, bu'n flwyddyn eithriadol o brysur a llwyddiannus. Wrth i mi ysgrifennu'r rhagair hwn, mae doethineb y penderfyniad i lansio gwasanaeth newyddion teledu Persiaidd newydd tua diwedd y flwyddyn yn amlwg i bawb.


Bu'n flwyddyn o dwf anhygoel i'n gwasanaethau digidol. Daeth yr iPlayer, a lansiwyd megis tri mis cyn dechrau'r flwyddyn, yn rhan hanfodol a rheolaidd o fywydau gwylio a gwrando miliynau o dalwyr ffi'r drwydded. Roedd llawer mwy o ddeunydd fideo ar gael ar ein gwefan ac ymatebodd defnyddwyr ar unwaith – i'r fath raddau fel ein bod wedi darparu mwy o ddeunydd fideo erbyn diwedd seremoni agoriadol y Gemau Olympaidd yn Beijing nag a wnaethom yn ystod y gemau cyfan yn Athen bedair blynedd cyn hynny. Torrodd ein gwasanaethau symudol sawl record. Cafodd y broses o newid i deledu digidol, un o'r heriau peirianneg a gwybodaeth gyhoeddus mwyaf a wynebwyd erioed gan y BBC, ddechrau addawol.

Ond roedd hefyd yn flwyddyn o ddadlau dwys ynghylch y BBC. Dadlau ynghylch ein lle yn nyfodol darlledu cyhoeddus – lle y dadleuodd Ymddiriedolaeth a Bwrdd Gweithredol y BBC yr achos, ac maent yn parhau i ddadlau'r achos, bod derbyn ffi'r drwydded gan y BBC yn unig yn hanfodol er mwyn cynnal ei annibyniaeth wleidyddol a golygyddol. Dadlau ynghylch fy mhenderfyniad i, fel Prif Olygydd y BBC, i beidio â darlledu apêl argyfwng arfaethedig DEC i Gaza – a'n hatgoffodd fod cydymffurfio'n llym â'r egwyddor o fod yn ddiduedd, y mae pobl Prydain, fel y gwyddom, yn ei disgwyl ac yn ei mynnu gennym, weithiau'n arwain at benderfyniadau anodd a dadleuol. A dadlau, yn anad dim, ynghylch rhifyn o *The Russell Brand Show* a aeth ymhell y tu hwnt i bob ffin dderbyniol, nid yn unig o ran chwaeth, ond o ran ymddygiad a pharch at eraill.

Cymerwyd camau gennym ar unwaith i leihau'r tebygolrwydd y bydd unrhyw beth o'r fath yn digwydd ar y BBC eto. Ond mae ymgynghori helaeth â'r cyhoedd yn dilyn helynt Brand hefyd wedi dangos yn eglur i ni nad yw'r cyhoedd am i'r BBC golli ei nerf na'i barodrwydd i gefnogi'r awduron a'r perfformwyr a'r cynhyrchwyr gorau pan fyddant am gymryd risgiau creadigol.

Dyma'r her ganolog y mae'r BBC yn ei hwynebu – her sydd yr un mor berthnasol a phwysig ym myd digidol 2009 ag yr oedd pan ddechreuodd y BBC gomisiynu comedi a drama arloesol am y tro cyntaf cyn yr Ail Ryfel Byd: sef cydnabod bod ffiniau pendant a sicrhau ein bod bob amser yn cydymffurfio â hwy, ond gan dderbyn hefyd nad yw cynulleidfaoedd am i'r BBC chwarae'n saff ychwaith. Maent am gael eu syfrdanu, eu hysbrydoli, eu cyffroi, weithiau hyd yn oed eu synnu gan yr hyn a welant ac y gwrandawant arno, ond maent am wybod bod gwerthoedd cryf yn sail i hynny o ran urddas, gonestrwydd ac ymddiriedaeth.

Mae'n drywydd anodd, ond ar ei orau gall y BBC ymateb i'r her gyda hyder a rhwysg. Dyna a wnaethom yn y rhan fwyaf o'r hyn a ddarlledwyd gennym yn 2008/09. A dyna y bwriadwn ei wneud yn y dyfodol.



**Mark Thompson**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**
18 Mehefin 2009

# CYFLWYNO DYFODOL CREADIGOL/

## MAE'N ANRHYDEDD I'R BBC ALLU ADRODD HANESION EIN CYNULLEIDFAOEDD. RYDYM YN ADLEWYRCHU EU PROFIADAU, AC YN GOHEBU AR Y NEWYDDION A'R DIGWYDDIADAU SY'N LLYWIO EU BYD.



Wrth i'w byd newid, felly hefyd ein byd ni – mae'n rhaid i ni addasu i fodloni disgwyliadau cyfnewidiol y gynulleidfa. Er enghraifft, mae'r BBC iPlayer yn helpu i gau'r bwlch rhwng darlledu llinellol a chroesawu'r byd ar alw i lawer, ac rydym yn defnyddio technoleg symudol i gyrraedd cynulleidfaoedd iau, yn arbennig, sy'n draddodiadol yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau'r BBC. Mae mentrau o'r fath yn rhan o'n strategaeth chwe blynedd Cyflwyno Dyfodol Creadigol, sy'n rhan hanfodol o'n proses ailstrwythuro elfennol wedi'i hanelu at gwtogi costau er mwyn gallu gwneud buddsoddiad cynaliadwy mewn cynnwys a gwasanaethau newydd ac arloesol.

Datblygwyd fframwaith o fesurau i ategu'r broses o gyflawni chwe amcan sylfaenol Cyflwyno Dyfodol Creadigol ac i sicrhau na fydd arbedion effeithlonrwydd yn cael effaith andwyol ar yr hyn a gynigiwn i gynulleidfaoedd. Cymeradwyodd Ymddiriedolaeth y BBC y fframwaith hwn ym mis Tachwedd 2007.

Mae gennym amrywiaeth eang o ymrwymiadau wedi'u cynllunio i'n helpu i gyflawni ein pwrpasau cyhoeddus, ac fel y'u hamlinellir yn arolwg yr Ymddiriedolaeth o'n blwyddyn. Dyma'r flwyddyn gyntaf y cyflwynir adroddiad ar berfformiad yn erbyn y mesurau perfformiad allweddol penodol hyn. Mae Bwrdd Gweithredol y BBC o'r farn ei bod yn rhy gynnar i ddweud a yw perfformiad yn gadarn neu a yw'r newidiadau wedi'u hymsefydlu, er bod yr arwyddion yn galonogol, gyda phob metrig ar draws y BBC yn parhau'n gyson neu'n gwella ychydig. Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad, a byddwn yn cyflwyno adroddiad mwy cynhwysfawr yn yr Adroddiad Blynyddol yn dilyn asesiad annibynnol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2010.

Yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol, mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu arolwg mwy cynhwysfawr o berfformiad y BBC yn erbyn chwe amcan Cyflwyno Dyfodol Creadigol. Dyma'r prif uchafbwyntiau.

## CYNYDDU NATUR UNIGRYW AC ANSAWDD

Roedd traean o'r ymatebwyr (34%) yn cytuno'n gryf fod y BBC o Ansawdd Uchel, cynnydd bach o gymharu â'r llynedd. Mae'r targed hwn yn ymestynnol ac yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad i ond cytuno bod y BBC o Ansawdd Uchel a gafodd gefnogaeth gan gyfanswm o 66%. Cynyddodd sgôr gyfartalog y BBC allan o ddeg am ansawdd uchel ychydig hefyd i 6.4.

### Sgôr o 8+/10 am Ansawdd Uchel %

| | |
|---|---|
| 07/08 | 32 |
| 08/09 | 34 |

### Sgôr gyfartalog/10 am Ansawdd Uchel

| | |
|---|---|
| 07/08 | 6.3 |
| 08/09 | 6.4 |

Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn perfformiad yng nghyfran y bobl a oedd yn cytuno'n gryf bod teledu'r BBC yn 'wreiddiol ac yn wahanol, cynnydd o 4% o gymharu â'r llynedd i 36%.

### Mae teledu'r BBC yn wreiddiol ac yn wahanol %

| | |
|---|---|
| 07/08 | 32 |
| 08/09 | 36 |

## ADFER YMDDIRIEDAETH MEWN ALLBWN

Mae'r sgôr gyfartalog allan o 10 ar gyfer 'Rwyf yn Ymddiried yn y BBC' wedi cynyddu i 6.0 ar gyfer y 29% sy'n cytuno'n gryf â'r datganiad (cynnydd bach hefyd flwyddyn ar flwyddyn).

### Sgôr o 8+/10 am 'Rwyf yn ymddiried yn y BBC'

| | |
|---|---|
| 07/08 | 28 |
| 08/09 | 29 |

### Sgôr gyfartalog/10 am 'Rwyf yn ymddiried yn y BBC'

| | |
|---|---|
| 07/08 | 5.9 |
| 08/09 | 6.0 |

Mae'r targed hwn yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad i ond cytuno â'r datganiad 'Rwyf yn ymddiried yn y BBC', a gafodd gefnogaeth gan gyfanswm o 57% (o gymharu â 55% y llynedd). Mae cyfran y rheini sy'n ymddiried yn Newyddion y BBC yn uwch byth sef 78%.

## CYNNAL CYRHAEDDIAD

Cyrhaeddodd y BBC gyfartaledd o 93% o boblogaeth y DU bob wythnos y llynedd, yr un ganran â'r flwyddyn flaenorol. Nodir y ffigur cyrhaeddiad yn ôl gwasanaeth ar y tudalennau canlynol.

### Cyrhaeddiad wythnosol ar draws y BBC %

| | |
|---|---|
| 07/08 | 93 |
| 08/09 | 93 |

## CYNNAL GWERTH YMHLITH CYMERADWYWYR UCHEL A GWELLA GWERTH YMHLITH CYMERADWYWYR ISEL

Roedd gwelliant bach o ran canfyddiad ymhlith y ddau grŵp flwyddyn ar flwyddyn.

### Sgôr o 8+/10 am Gymeradwyaeth Gyffredinol %

| | |
|---|---|
| 07/08 | 36 |
| 08/09 | 37 |


### Sgôr o 1-4/10 am Gymeradwyaeth Gyffredinol %

| | |
|---|---|
| 07/08 | 13 |
| 08/09 | 12 |

## ARBEDION EFFEITHLONRWYDD

Dechreuodd ein rhaglen effeithlonrwydd newydd ym mis Ebrill 2008 – ac rydym eisoes wedi arbed £237miliwn (£192miliwn yn glir o gostau). Ein targed yw cyflawni arbedion cronnol o 3%, sef £1.9biliwn, a gaiff ei ailfuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau gwell.

### Arbedion effeithlonrwydd gros £m



# YCHWANEGU GWERTH DRWY BARTNERIAETHAU/

## ERS 50 MLYNEDD O LEIAF, MAE'R DU WEDI MWYNHAU DIWYDIANT CYFRYNGAU DYNAMIG AC AMRYWIOL LLE MAE'R BBC, WEDI'I ARIANNU GAN FFI'R DRWYDDED, WEDI GOROESI AC WEDI FFYNNU OCHR YN OCHR Â SECTOR MASNACHOL BYWIOG A CHYSTADLEUOL.



Gyda'i gilydd, maent wedi harneisio creadigrwydd ym Mhrydain, gan annog trafodaethau cymdeithasol a gwleidyddol, ac ennill enw da am newyddiaduraeth eithriadol a gwrthrychol. A buont yn destun cenfigen ledled y byd.

### MAES Y CYFRYNGAU NEWYDD

Ni oedd y wlad gyntaf i gael darlledwr cenedlaethol, ac yn fwy diweddar, un o'r cyntaf i ddatblygu llawer o'r technolegau a'r llwyfannau newydd sydd bellach yn chwyldroi'r amrywiaeth o gyfryngau sydd ar gael i'n cynulleidfaoedd, o lansio teledu lloeren amlsianel a radio DAB yn y 1990au, a'r BBC iPlayer yn fwy diweddar. Mae'r DU hefyd wedi gwario mwy ar raglennu gwreiddiol am ddim i'w darlledu nag unrhyw wlad arall yn Ewrop, ac o ganlyniad ni yw prif allforiwr rhaglenni teledu Ewrop. Mae hyn oll wedi helpu'r wlad hon i esblygu amgylchedd darlledu hynod gyfoethog, i wylwyr a gwrandawyr, ac i wneuthurwyr rhaglenni, hysbysebwyr, cwmnïau'r cyfryngau a rhanddeiliaid masnachol eraill.

Bu gan ffi'r drwydded ran bwysig i'w chwarae yn hyn o beth o'r cychwyn, drwy wella ac ehangu'r dewis i ddefnyddwyr, a thrwy ariannu mathau o gynnwys y byddai o bosibl yn anodd eu hariannu drwy weithredwyr masnachol neu a fyddai, o leiaf, yn cael eu cyfyngu. Mae comedi yn ddrud i'w ddatblygu – ac mae'n risg uchel: heb ffi'r drwydded mae'n bosibl na fyddai *TW3*, *Monty Python*, *Not the Nine O'Clock News* neu *Little Britain* erioed wedi cael cyfle i wthio ffiniau. Efallai na fyddem wedi mwynhau rhai o'n dramâu cyfnod gorau fel *Pride & Prejudice*, *Cranford* neu *Little Dorrit* ar y fath raddfa. Ac ni fyddai cyfresi diwylliannol ac addysgol nodedig fel *Civilization* neu *Life on Earth* – lle nad yw'r elw ar fuddsoddiad yn nhermau'r gynulleidfa ynddo'i hun yn cyfiawnhau'r buddsoddiad uchel o ran amser ac arian – wedi difyrru cynulleidfaoedd.

O ganlyniad i ffi'r drwydded, llwyddodd y BBC i osod meincnod yr oedd yn rhaid i eraill ei gyrraedd. Roedd cynulleidfaoedd Prydain yn disgwyl – ac yn dal i ddisgwyl – y gorau.

Ond nawr mae heriau newydd yn gorfodi newidiadau heb eu tebyg o'r blaen, ac yn profi rhai o'r tybiaethau hirsefydledig o ran y ffordd y dylai darlledu yn y DU weithredu. Fel sy'n digwydd mewn sawl maes arall o fywyd cyhoeddus, mae dau ffactor allweddol ar waith, sef effaith technoleg newydd a realiti economaidd.

Mewn prin degawd, mae gwasanaethau digidol wedi newid o fod yn elfen ddymunol i'w chael i'r brif dechnoleg sy'n llywio'r agenda ddarlledu. O safbwynt y BBC, mae digidol bellach yn sail i bopeth a wnawn ar bob cam o'r broses gwneud rhaglenni, yn ogystal â'r ffordd y caiff cynnwys ei ddarlledu, ei ailbecynnu a'i werthu. Ac mae'n cyflwyno cyfleoedd ymhob maes o addysg a hyfforddiant, i fusnes a masnach, i gynnwys y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd.

Ar yr un pryd, mae digidol eisoes wedi gweddnewid y sector darlledu ehangach, gan bylu'r ffiniau rhwng cyfryngau traddodiadol, a'i gwneud hi'n anos segmentu cynulleidfaoedd, yn nhermau cenedlaethol, ymddygiadol neu ddemograffig. O ganlyniad, mae angen i'r sector darlledu cyfan yn y DU ddod yn fwy hyblyg, yn fwy effeithlon ac yn fwy ymatebol, gan gynnwys y BBC. Mae pob un ohonom yn gorfod gweithio'n llawer caletach i gystadlu â'r holl wahanol fathau o adloniant a chyfathrebu sydd ar




Mae cymeriad y robot 'Digit Al' yn hyrwyddo'r newid i ddigidol a'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol.

gael bellach, gydag effaith ddwys ar yr hyn a wnawn, sut y'i gwnawn, ar gyfer pwy y'i gwnawn ac i bwy y'i gwerthwn.

Ond ni allai'r cyd-destun ar gyfer y datblygiadau cyffrous hyn fod yn waeth. Mae pwysau'r dirwasgiad wedi lleihau refeniw hysbysebu yn sylweddol, gan olygu bod bywyd yn llai sicr i'r sector masnachol. Er y dylai refeniw hysbysebu net gynyddu unwaith eto yn unol ag adferiad yr economi, mae'n realistig tybio na fydd gwariant hysbysebu byth yn cyrraedd ei lefelau hanesyddol eto, a allai fygwth proffidioldeb parhaus rhai o'r prif gyfranogwyr, a golygu na fydd cyfranogwyr eraill yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

Mae ein sefyllfa ni yn wahanol iawn: rydym yn ymwybodol bod ffi'r drwydded yn rhoi breintiau unigryw i ni, a bod ein refeniw yn fwy cyson a rhagweladwy na gweddill y diwydiant o ganlyniad. Rydym bob amser wedi cymryd ein cyfrifoldebau o ddifrif – ni fu prif hyfforddwr y diwydiant, er enghraifft, a'r llynedd darparwyd hyfforddiant gennym i dros 20,000 o'r sector masnachol am ddim – ond mae angen i ni wneud mwy i gynnal diwydiant darlledu sefydlog a llwyddiannus ledled y DU gyfan. A dim ond drwy chwarae rhan fwy gweithredol a chydweithredol nag erioed o'r blaen y gallwn wneud hyn.

Er mwyn hwyluso'r broses o greu cynnwys o ansawdd uchel, a chyflwyno gwerth gwell byth am arian i dalwyr ffi'r drwydded, bydd angen i ni ddatblygu dulliau newydd o gydweithredu a fydd, o bosibl, yn herio llawer o'n dulliau gweithredu sefydledig. Ond rydym yn hyderus y gallwn wneud hyn. Wedi'r cyfan, gallwn gyfrannu'n helaeth at bartneriaethau creadigol a thechnegol, o ddarparu mynediad at adnoddau a gwasanaethau heb eu hail ledled y wlad, i arbenigedd profedig ym maes ymchwil a datblygu.





**Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein partneriaid Freesat cychwynnol ar eu gwefannau:**

www.freesat.co.uk
www.harvardplc.com
www.panasonic.co.uk
www.humaxdigital.com/uk
www.arqiva.com
www.it-solutions.siemens.com

## Rhannu ein harbenigedd gydag eraill

Lansiwyd Freesat – gwasanaeth lloeren newydd y DU a ddarlledir am ddim – ym mis Mai yn dilyn sawl blwyddyn o gynllunio a chydweithredu helaeth rhwng y BBC a'i bartneriaid, sef Freesat UK Ltd, Digital TV Group (DTG) Testing Ltd a grŵp bach cychwynnol o weithgynhyrchwyr derbynwyr, sef Panasonic, Humax a Harvard (Alba plc gynt).

Defnyddiwyd ein gwybodaeth dechnegol ni ein hunain ac amrywiaeth o ddisgwyliadau cystadleuol mewn perthynas â'r llwyfan gan holl randdeiliaid Freesat i greu'r fanyleb dechnegol y mae'n rhaid i holl randdeiliaid Freesat gydymffurfio â hi bellach. Mae'r fanyleb hon bellach ar gael am ddim i unrhyw weithgynhyrchwr sy'n awyddus i ymuno â'r farchnad Freesat – ar yr amod bod ei gynnyrch terfynol wedi'i gymeradwyo gan y ganolfan brofi annibynnol DTG Testing Ltd.

Gwnaethom weithio'n agos gyda phob parti – yn arbennig y gweithgynhyrchwyr i ddeall galluoedd posibl eu cynnyrch, a chyda Freesat i ddeall eu gofynion o ran nodweddion newydd i wella profiad y defnyddiwr. Mireiniwyd y cyfraniadau hyn, a oedd yn aml yn gwrthdaro, gan helpu i ddatrys problemau, er mwyn datblygu'r cynnyrch hyd at gam prototeip. Wedyn, gwahoddwyd Siemens ac Arqiva i gyflwyno'r darllediadau cyntaf.

Digwyddodd hyn ar 6 Mai 2008 ac ers hynny, gwerthwyd tua 400,000 o dderbynwyr Freesat. Mae mwy o weithgynhyrchwyr yn dangos diddordeb, ac o dri phartner cychwynnol, bellach ceir chwe gweithgynhyrchwr derbynwyr Freesat yn gwerthu cynnyrch yn y siopau, gyda rhagor i ddod.

Mae'r BBC wedi camu'n ôl fwy neu lai erbyn hyn, ac mae ein rôl wedi lleihau. Fodd bynnag, rydym yn cynnig cyngor technegol o hyd ac o bryd i'w gilydd, mae gofyn i ni ddiweddaru'r fanyleb i gynnwys nodweddion newydd.



## Academi Awduron y BBC

Academi Awduron y BBC yw'r unig gwrs yn y byd sy'n gwarantu cyfle i awduron weithio ar deledu oriau brig. Sefydlwyd y cwrs yn 2005 ac fe'i cynhelir bob blwyddyn ac mae pob Academi yn anelu at greu cronfa o dalent ysgrifennu i weithio ar rai o sioeau mwyaf poblogaidd BBC One: *EastEnders, Casualty, Holby City* a *Doctors* (a ddangosir yma).

Mae'r myfyrwyr yn dysgu crefftau sy'n gweithio, ac yn profi pob agwedd ar gynhyrchu drama o olygu i amserlennu. Ond yn bwysicach iddynt hwy, maent yn cael cyfle i fwynhau dosbarthiadau meistr gan rai o oreuon y busnes, gan gynnwys awduron fel: Tony Jordan (*EastEnders*), Jimmy McGovern (*The Street*), Dominic Minghella (*Robin Hood*), Jed Mercurio (*Bodies*), Tony McHale (*Holby City*), Ashley Pharoah (*Life on Mars, Ashes to Ashes*); yn ogystal â chyfarwyddwyr blaenllaw fel: Bharat Nalluri (*Spooks, Tsunami*) a Dearbhla Walsh (*Little Dorrit*).

Ers ei sefydlu bum mlynedd yn ôl, mae 25 o'r 32 o raddedigion wedi cael gwaith llawn amser yn ysgrifennu i raglenni teledu, gan gynnwys 14 ohonynt sydd bellach wedi'u sefydlu fel awduron craidd ar sioeau drama parhaus y BBC.

Bydd cwrs nesaf yr Academi yn dechrau ym mis Medi. Caiff lleoedd ar gyfer 2010 eu hysbysebu ym mis Ebrill y flwyddyn honno ar y gwefannau BBC writersroom a BBC Jobs.

Mae'r BBC bob amser yn chwilio am awduron talentog newydd ac rydym yn gwneud popeth y gallwn i roi cyfleoedd iddynt ac i gynhyrchu eu gwaith ar gyfer ffilm, teledu a radio'r BBC – ar gyfer rhaglenni drama, comedi a phlant. Os oes gennych sgript yr hoffech ei hanfon atom, yna gallwch wneud hyn drwy http://www.bbc.co.uk/writersroom/writing/submissions.shtml

Tabl 1/ **Canran yr oriau 'WOCC' a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr annibynnol ar gyfer teledu'r BBC**

| | ADLONIANT | COMEDI | PLANT | DRAMA | GWYBODAETH | CYFANSWM CYFRAN WOCC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2007/08 | 64% | 62% | 100% | 45% | 66% | 74% |
| 2008/09 | 59% | 76% | 70% | 59% | 75% | 73% |
| % NEWID | -5% | +14% | -30% | +14% | +9% | -1% |

Noder: Mae'r WOCC (Window of Creative Competition) yn fan creadigol sydd ar gael i gynhyrchwyr mewnol ac annibynnol, ac sy'n ychwanegol at y cwota annibynnol o 25%.

Tabl 2/ **Prif gwmnïau annibynnol yn seiliedig ar wariant**

| | |
|---|---|
| **Teledu** | |
| Kudos Film & Television Limited | |
| Endemol UK PLC | |
| Shine Limited | |
| Talkback Thames | |
| Hat Trick Productions | |
| **Radio** | |
| Somethin' Else | |
| Smooth Operations | |
| Unique | |
| Above The Title Productions Ltd | |
| Pier Productions | |

Yn 2008, comisiynodd teledu'r BBC gynnwys gan 289 o gwmnïau cynhyrchu annibynnol – deg yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchwyr annibynnol a oedd yn gymwys ac nad oeddent yn gymwys, a oedd gyda'i gilydd yn gyfrifol am gynhyrchu 39% o'r holl oriau cymwys yn ystod y flwyddyn.

## RHOI PETHAU AR WAITH

Credwn y bydd partneriaeth yn hanfodol o ran datblygu sector y cyfryngau yn y DU yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae Ymddiriedolaeth y BBC o'r un farn, ac mae wedi gofyn i ni ystyried sut y gellid gwneud hyn mewn ffordd a fyddai o fudd i dalwyr ffi'r drwydded, ac i'r maes darlledu cyhoeddus yn y DU yn gyffredinol. Mae'n arbennig o awyddus i ni ystyried sut y gallwn gydweithredu â chwmnïau a sefydliadau llai, yn ogystal â'n cyfoedion mwy o faint, a sicrhau bod mwy o'r partneriaethau hyn â sefydliadau wedi'u lleoli y tu allan i Lundain, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gydag Amgueddfa Genedlaethol y Cyfryngau yn Bradford a Pharc Gwyddoniaeth Glasgow, lle mae'r cymeriad ffuglennol Nina, a roddodd ei henw i raglen CBeebies *Nina and the Neurons*, yn gweithio ac un o sawl lleoliad ar gyfer *Do Something Different* ar CBBC.

Felly rydym wedi nodi cyfres o gynigion penodol ar gyfer partneriaethau ac wedi ymchwilio iddynt, ac wedi datblygu mwy o bosibiliadau pwysig ar gyfer y dyfodol:

- defnyddio ein gwybodaeth i greu safon cynhyrchu digidol gyffredin ar gyfer sector darlledu cyfan y DU sy'n cynnwys adnoddau archif a chynhyrchu. Dylai rhannu technoleg o'r fath arwain at arbedion cost sylweddol i bawb sy'n rhan o'r broses, a byddai'n cyflwyno llawer o gyfleoedd creadigol newydd.
- ar yr un pryd, rydym eisoes wedi cyhoeddi ein bod yn awyddus i rannu nid yn unig y dechnoleg, ond hefyd frand a golwg a theimlad iPlayer, a fu mor llwyddiannus i'r BBC. Gallai hyn gyflwyno buddiannau gwirioneddol a chynaliadwy i ddarlledwyr a pherchenogion cynnwys eraill, gan gynnig arbedion sylweddol iddynt ar gostau datblygu eu safleoedd annibynnol eu hunain, a gwella mynediad i'r gynulleidfa a denu refeniw hysbysebu uwch. Pe bai'n llwyddiannus, gallem weld 'ffederasiwn' o wasanaethau darlledu cyhoeddus ar alw ar iPlayer, gyda phob darlledwr yn arfer ei hawliau ei hun fel y bo'n briodol.
- rydym hefyd yn ystyried ffyrdd y gellid defnyddio graddfa a chyrhaeddiad byd-eang BBC Worldwide i gynhyrchu refeniw ar gyfer darlledwyr cyhoeddus eraill yn y DU, tra'n diogelu ei allu i gyflawni gwerth cynaliadwy i dalwyr ffi'r drwydded.

Mae'r rhain yn ychwanegol at ein cydweithrediad arfaethedig ag ITV ar newyddion rhanbarthol, a'n gwaith gyda darlledwyr eraill ar deledu wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd a theledu Manylder Uwch.

Ddiwedd 2008, asesodd Deloitte yr holl gynigion hyn, yn ogystal â nifer o fentrau eraill llai o faint, ac amcangyfrifwyd y gallai'r syniadau hyn gynhyrchu dros £120miliwn o fuddiannau ychwanegol bob blwyddyn i ddarlledwyr cyhoeddus eraill y DU erbyn 2014. Byddai rhywfaint ohono yn dod o refeniw newydd, a rhywfaint o gostau is, neu osgoi colli llifoedd refeniw presennol.

Ochr yn ochr â'r cynigion hyn, rydym hefyd yn ystyried partneriaethau â'r diwydiant cyfryngau ehangach, fel rhan o'n hymateb i adroddiad Prydain Ddigidol interim y llywodraeth.

Er enghraifft, rydym yn ymchwilio i weld a allem wneud mwy i gefnogi diwydiant papurau newydd Prydain, sydd ymhlith y mwyaf cystadleuol yn y byd. O'r haf hwn, bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant i newyddiadurwyr ar bapurau newydd lleol, gan gynnwys mynediad am ddim i adnodd hyfforddiant golygyddol ar-lein ein Coleg Newyddiaduraeth, a gellid ei ehangu i gynnwys mwy o gysylltiadau ar-lein, a chreu mwy o bartneriaethau ar gyfer cynnwys ar-lein. Bydd yr hyfforddiant hwn ar gael i newyddiadurwyr radio hefyd. Ac yn ogystal â'r partneriaethau gwaith da sy'n bodoli eisoes gennym ar radio digidol a DAB a fu'n weithredol ers sawl blwyddyn bellach, rydym nawr yn cynnig cyfres o brosiectau newydd gyda radio masnachol gan gynnwys datblygu rhyngwyneb safonol ar gyfer pob set radio ddigidol a allai ymdopi â gwrando byw a gwrando ar alw, a chreu chwaraewr radio digidol ar-lein a fyddai'n cynnig gwasanaethau radio byw o ansawdd uchel wedi'u ffrydio gan y BBC a gweithredwyr radio masnachol a chymunedol eraill. Cafodd y cynlluniau hyn groeso cyffredinol gan y sector radio masnachol.

Drwy ddod â darparwyr cyfryngau'r DU ynghyd, gallwn roi mwy o werth am arian i'r cyhoedd drwy gynnig safonau a llwyfannau digidol agored, cyffredin, hawdd eu defnyddio i gynulleidfaoedd.

## EDRYCH I'R DYFODOL

Dechreuodd diwydiant darlledu'r DU y ganrif hon gyda manteision aruthrol dros ei brif gystadleuwyr tramor. Hyd yn oed yn wyneb dirwasgiad, mae gan y DU ecoleg darlledu cyhoeddus unigryw o hyd, a gall fanteisio ar gofnod cadarn o arloesi digidol. Mae'r BBC wrth wraidd y ddau, ac mae'n cynnig ei adnoddau a'i arbenigedd i bartneriaid trydydd parti mewn ffordd na wnaeth erioed o'r blaen.

Mae hyn o fudd i ni, ac o fudd iddyn nhw. Ond yn anad dim, mae o fudd i'n cynulleidfaoedd.

## CREU PARTNERIAETHAU CYNHYRCHIOL: MANTEISION A HERIAU

Nid yw llawer o dalwyr ffi'r drwydded yn ymwybodol faint o'u harian sydd eisoes yn cael ei fuddsoddi gan y BBC yn yr economi greadigol ehangach. Caiff dros draean o holl incwm ffi'r drwydded ei wario ar gontractau gyda chynhyrchwyr annibynnol a chyflenwyr eraill, ac mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn talu'n uniongyrchol am dalent greadigol a chynnwys creadigol. Dyma fel y bu ers sawl blwyddyn; rydym bellach yn ystyried ymrwymiad llawer mwy cynhwysfawr ac eang i bartneriaethau, a allai wneud gwahaniaeth go iawn i ddarlledu yn y DU.

### Tabl 3/ **Gwariant yn yr economi greadigol**

| | **Cyfanswm 2008/09 £m** | 2007/08 £m | 2006/07 £m |
|---|---|---|---|
| Cynyrchiadau teledu, radio ac ar-lein annibynnol | **435** | 479 | 414 |
| Cyfleusterau ac adnoddau rhaglenni allanol | **265** | 248 | 271 |
| Rhaglenni a gaffaelwyd a ddarlledwyd | **101** | 90 | 88 |
| Artistiaid, cyfranwyr a hawlfraint | **305** | 299 | 299 |
| Grwpiau Perfformio'r BBC | **23** | 22 | 28 |
| | **1,129** | 1,138 | 1,100 |

### Siart 1/ **Gwariant yn yr economi greadigol £bn**




Gwariwyd £435miliwn gennym gyda'r sector annibynnol allanol ym maes cynhyrchu teledu a radio a'r cyfryngau newydd y llynedd, dim ond cyfran o'r cyfanswm o £1.1biliwn a fuddsoddwyd gennym yn yr economïau creadigol ehangach.

Tra'n cadw'r cyswllt uniongyrchol cryf rhwng ffi'r drwydded a'r BBC, mae manteision dull gweithredu o'r fath yn amlwg: mae'n lledaenu budd buddsoddiad ffi'r drwydded yn ehangach byth, mae'n cynnig ffynhonnell sefydlog o fuddsoddiad i'r economi greadigol hyd yn oed mewn dirwasgiad, ac mae'n ategu'r broses o greu cynnwys o'r radd flaenaf na fyddai'r farchnad o bosibl yn ei gyflawni ar ei phen ei hun fel arall.

Hyd yn oed yn ystod dyddiau da, mae yna rai meysydd lle na fydd y sector darlledu masnachol byth am gyfranogi – nid yw'r ffigurau'n gwneud synnwyr ac felly nid yw'r elw posibl yn cyfiawnhau'r buddsoddiad – ond yn aml mae'r rhain yn feysydd y mae'r BBC yn eu hystyried yn greiddiol i'w allbwn ei hun: os bydd rhaglennu plant, cerddoriaeth fyw a pherfformiadau cerddorfaol yn parhau i ffynnu yn y DU, mae hynny'n bennaf o ganlyniad i'r BBC. A ph'un a yw hynny o ganlyniad i'r dirwasgiad ai peidio, ceir arwyddion y gallai newyddion lleol a rhanbarthol, casglu newyddion rhyngwladol, drama deledu frodorol, comedi a rhaglenni dogfen difrifol oll fod yn wynebu pwysau tebyg.

Dywed ein cynulleidfaoedd wrthym fod y genres hyn yn dal i fod yn bwysig iddynt, ac felly mae cyfrifoldeb arnom i wneud cymaint ag y gallwn i'w diogelu a'u hyrwyddo. Dyna pam y lluniwyd ein memorandwm cyd-ddealltwriaeth diweddar gydag ITV, sy'n archwilio sut y gallwn gyfuno ein hadnoddau a'n seilwaith newyddion rhanbarthol i helpu i gynnal newyddion rhanbarthol ar ITV. Gallai hyn gynnwys rhannu ein hwyth prif ganolfan newyddion yng Nghymru a Lloegr, a lleoli'r rhan fwyaf o swyddfeydd bach a chanolig ITV yn ein swyddfeydd rhanbarthol a lleol ni. Rydym yn ystyried sut y gellid defnyddio hyn i helpu darparwyr newyddion rhanbarthol eraill pe bai rhwymedigaethau presennol yn newid.

Dim ond un enghraifft dda yw hon o'r gwerth y gellir ei gael o bartneriaethau. Ond mae heriau a risgiau hefyd ynghlwm wrth ein dull gweithredu, hyd yn oed os nad ydynt mor amlwg ar unwaith. Os ydym yn bwriadu cynyddu ein gwaith partneriaeth yn sylweddol, mae angen i ni wneud hynny gan sicrhau nad yw'n arwain – hyd yn oed yn anfwriadol – at amodau negyddol neu andwyol i randdeiliaid eraill, yn enwedig cyfranogwyr eraill yn niwydiant y cyfryngau a gwneuthurwyr rhaglenni.

Mae gennym eisoes hanes o bartneriaethau buddiol ag awduron, cynhyrchwyr a gwneuthurwyr rhaglenni annibynnol, sydd wedi rhoi clasuron i ni o'r comedi *Birds of a Feather* i adloniant gyda *University Challenge* a rhaglenni trafod gyda *Question Time*; gwelwyd hefyd nifer o gyd-fentrau technolegol llwyddiannus, fel PAL, stereo NICAM, Freeview a Freesat. Yn wir, bu gennym bob amser ran flaenllaw yn y broses o ddatblygu a hyrwyddo safonau, technolegau a llwyfannau cyffredinol ar gyfer darlledwyr cyhoeddus y DU, ac rydym bob amser wedi rhannu ein datblygiadau a'n manteision technolegol gyda rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant.

Wrth i ni ehangu ein gwaith yn y maes hwn drwy bartneriaethau newydd, rydym yn gobeithio helpu i ddatblygu technolegau a gwasanaethau yn y dyfodol a all gael eu defnyddio nid yn unig gan y BBC, ond gan ddarlledwyr eraill a rhanddeiliaid eraill yn y cyfryngau, a fydd yn ei dro o fudd i'n cynulleidfaoedd ac i dalwyr ffi'r drwydded. Er enghraifft, mae ein labordai ymchwil a datblygu yn gweithio gydag ITV a BT i ddatblygu safon agored a syml ar gyfer teledu rhyngrwyd. Os caiff ei chymeradwyo, bydd hyn yn galluogi pobl i ddefnyddio gwasanaethau fel iPlayer, ITV player a YouTube yn eu hystafell fyw, yn ogystal ag ar eu cyfrifiaduron personol. Rydym hefyd yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r safon newydd ar gyfer Manylder Uwch ar deledu daearol digidol, ac yn cydweithredu mewn technolegau protocol darlledu a rhyngrwyd arloesol eraill.

**Cyflenwi'r BBC**

Ein nod yw dewis ein holl gyflenwyr strategol yn ofalus, er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar arbenigedd penodol a'u bod yn cyflwyno gwerth am arian.

Bu cydberthnasau parhaus ar waith ers sawl blwyddyn, er enghraifft, gyda darparwyr gwasanaethau sy'n uniongyrchol hanfodol i'n gweithgareddau darlledu, megis Arqiva, Siemens a SES Astra sy'n darparu ac yn cynnal ein rhwydweithiau dosbarthu.

Caiff ein holl drefniadau cyflenwi eu rheoli drwy ein timau caffael arbenigol, er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol, ac yn defnyddio telerau masnach sy'n safonol i'r diwydiant. Gellir cael gwybodaeth am ein holl anghenion caffael – gan gynnwys tendrau newydd – ar www.bbc.co.uk/supplying





**"Mae'r oes ddigidol yn cynnig cyfleoedd anhygoel i ehangu mynediad i wrthrychau drwy adnoddau ar-lein. Bydd y wefan *History of the World* arfaethedig yn bartneriaeth unigryw ac arloesol rhwng British Museum a'r BBC, gan ddefnyddio grym gwrthrychau i adrodd hanesion i ennyn diddordeb cynulleidfa yn y DU ac yn fyd-eang yn hanes y byd. Mae'n bleser gennyf fod yn gweithio gyda'r BBC ledled y DU i gyflwyno'r prosiect hynod gyffrous ac uchelgeisiol hwn."**
Neil MacGregor, Cyfarwyddwr,
The British Museum

## Agor yr archifau

Mae archifau diwylliannol ac artistig niferus y DU yn adnodd cenedlaethol amhrisiadwy, ond ni fu llawer ohonynt bob amser yn hygyrch i'r cyhoedd. Rydym yn gweithio gyda rhai o amgueddfeydd a chasgliadau celf mwyaf blaenllaw'r wlad i sicrhau bod eu trysorau ar gael ar-lein, a thrwy hynny gyflwyno eu deunydd darlledu i gynulleidfa lawer ehangach ledled y DU gyfan, er mwyn dysgu ac addysgu, ac er mwyn diddanu.

Er enghraifft, o fis Medi i fis Ionawr eleni, lluniwyd partneriaeth gennym â'r Tate Britain ar adolygiad Francis Bacon i ddathlu canmlwyddiant ei eni – mae deunydd archif gan y BBC nas darlledwyd erioed o'r blaen i'w weld o hyd ar wefan y Tate.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd partneriaeth rhwng British Museum a Radio 4 yn creu pecyn aml-gyfrwng yn seiliedig ar *History of the World in 100 Objects*, mae cynlluniau ar waith i drefnu bod casgliad ffilmiau Arts Council ar gael ar BBC Online, ac mae gennym bartneriaeth newydd â British Film Institute a fydd yn archwilio ffyrdd newydd o sicrhau bod deunydd archif ar gael ar yr amrywiaeth ehangaf posibl o lwyfannau, a datblygu safonau diwydiant newydd ar gyfer rheoli, storio a dosbarthu cynnwys.

022 / EIN HAMCANION/
028 / TELEDU/
046 / RADIO/
064 / CYFRYNGAU A THECHNOLEG Y DYFODOL/
070 / NEWYDDIADURAETH/
080 / MASNACHOL/



# PERFFO


RMIAD/

# PORTFFOLIO O WASANAETHAU UNIGRYW WEDI'U CYNLLUNIO I DDIWALLU ANGHENION EIN CYNULLEIDFAOEDD AMRYWIOL.

O'r BBC One hynod boblogaidd – a wyliwyd gan bedwar allan o bob pump person yn y DU bob wythnos y llynedd – a Radio 2 (yr orsaf radio genedlaethol fwyaf poblogaidd yn y DU gyda thros 13 miliwn o wrandawyr) i'r rheini â chynulleidfaoedd llai fel BBC Parliament, CBBC a Radio 3, gyda phob un yn denu cynulleidfa graff a theyrngar benodol i'w harlwy unigryw – mae'r BBC yn ceisio cysylltu â chymaint o wylwyr a gwrandawyr yn y DU â phosibl ar ryw adeg bob wythnos.

Fe'n hariennir gan ffi'r drwydded – felly mae'n gwbl briodol bod pob cartref yn cael gwerth gennym yn gyfnewid am eu buddsoddiad, ac rydym yn falch o ddatgan bod 93% o boblogaeth y DU wedi ein croesawu i'w cartrefi y llynedd mewn wythnos gyffredin…



# CYRHAEDD

# EFFAITH/



DIAD/

## RHAGLENNI COFIADWY A GWREIDDIOL SY'N SEFYLL ALLAN.

…bod gan 93% o bobl Prydain sy'n cael eu denu gan ein cynnwys bob wythnos amrywiaeth eang o ddiddordebau a hoffterau, a'n huchelgais yw cynnig amrywiaeth o raglenni a chynnwys iddynt na ellir ei gael unrhyw le arall.

Felly boed yn rhaglenni sy'n adlewyrchu hwyliau'r genedl – o'r miliynau o wylwyr sy'n gwylio'r *Eurovision Song Contest* yn y dirgel (heb sôn am y rheini a wrandawodd ar Radio 2 neu drwy'r BBC iPlayer) – neu'n ddrama unigryw a gwreiddiol gyda *Little Dorrit* neu'n rhaglenni sy'n uno cymunedau o ddiddordeb fel *Antiques Roadshow*, a ddangosir yma, neu *Songs of Praise* neu'n chwaraeon byw – gwyliodd 42 miliwn ein darllediadau o'r Gemau Olympaidd ac ymwelodd miliwn o bobl ychwanegol â'n gwefannau chwaraeon o gymharu ag wythnos arferol – rydym am i gynulleidfaoedd wybod fod gan y BBC rywbeth unigryw y maent am ei brofi, a'i bod yn werth ymweld â ni.



# ANSAW




# ANSAWDD A NIFER: MAE CYNULLEIDFAOEDD YN DISGWYL Y DDAU.

Ar deledu ac ar radio, mae'r BBC yn cynnig amrywiaeth o raglenni a theitlau na fyddai'r farchnad, ar ei phen ei hun, yn eu darparu. Ymhlith y rhaglenni nodedig eleni roedd *Baroque*, a ddangosir yma, a *The Art of Italy*, y ddau gan BBC Four, a'r amrywiaeth ehangaf o berfformiadau byw a oedd i'w chael yn unrhyw le: The Proms, Electric Proms, Glastonbury, T in the Park. Cyngerdd Elbow gyda Cherddorfa Gyngerdd y BBC oedd y prosiect cerddoriaeth digidol mwyaf llwyddiannus yn hanes y BBC gyda bron i filiwn o geisiadau i weld y gyngerdd drwy'r botwm coch. Ac mae dros hanner yr holl ddarllediadau cerddorol ar BBC Radio 3 naill ai'n fyw neu wedi'i recordio'n arbennig.

Nid oes cymhariaeth i gomedi Radio 4 – ac eithrio efallai ar deledu'r BBC, a addasodd ddwy gyfres Radio 4 wreiddiol eleni – *I've Never Seen Star Wars* a *Genius*. Mae cyfres gomedi oesol boblogaidd BBC One *My Family* ar ei nawfed gyfres ac yn dal i lwyddo i ddenu tua wyth miliwn o wylwyr bob wythnos. Yn ystod 2009 bydd yn dathlu ei 100fed rhifyn, dim ond y trydydd comedi sefyllfa Prydeinig i gyrraedd y garreg filltir hon yn ddiweddar. Roedd y cyfresi eraill hefyd gan y BBC, sef *Birds of a Feather* a *Last of the Summer Wine*.

DD/

# GWERTH/



## GWERTH=CYRHAEDDIAD+ ANSAWDD+EFFAITH

### NID MATER SYML O WARIO LLAI YW DARPARU GWERTH.

Ond er ein bod yn anelu at wario'n ofalus – rydym wedi gwella ein perfformiad a'n heffeithlonrwydd bob blwyddyn ers 2000 – nid yw lleihau costau ynddo'i hun yn cyflawni gwerth.

Y llynedd, gwnaethom fuddsoddi £1.1biliwn yn economi greadigol y DU – mwy nag ITV a Channel 4 gyda'i gilydd yn ystod yr un cyfnod. Un o'n llwyddiannau yw *In The Night Garden*, a wneir gan Ragdoll ar gyfer CBeebies. Enillodd ei phlwyf fel ein rhaglen fwyaf poblogaidd i blant cyn oed ysgol cyn gynted ag y dechreuwyd ei dangos ddwy flynedd yn ôl. A thrwy BBC Worldwide, rydym wedi llwyddo i drwyddedu a gwerthu amrywiaeth o deganau a DVDs sy'n ein helpu i wneud arian ar y brand a darparu elw i dalwyr ffi'r drwydded o'u buddsoddiad trwyddom ni mewn rhaglenni a chynnwys. Mae BBC Worldwide hefyd yn gwerthu rhaglenni a fformatau, a'r llynedd gwerthodd bob un o'r 100 rhifyn o *In The Night Garden* i Tsieina, lle y bydd tua 300 miliwn o blant yn gwylio Igglepiggle a'i ffrindiau yn ddiweddarach eleni.



# TELEDU/



"NID YW RHAGLENNI GWYCH AC AMSERLENNU PRIODOL BELLACH YN DDIGON. MAE COMISIYNU DIGIDOL A 360 GRADD YN EHANGU EIN HOPSIYNAU AC YN EIN HELPU I DDIWALLU ANGHENION GWYLWYR MODERN YN WELL."


JANA BENNETT, CYFARWYDDWR GWASANAETHAU GWELEDOL

# SUT Y GWNAETHOM Y LLYNEDD

| METRIG | SUT Y GWNAETH EIN GWASANAETHAU[1] | BETH Y MAE HYN YN EI OLYGU |
|---|---|---|
| CYRHAEDDIAD | 85% | Mae 48 miliwn o bobl yn y DU (85% o'r boblogaeth) yn gwylio Teledu'r BBC bob wythnos, mwy nag unrhyw ddarlledwr teledu arall, gan gynnwys un allan o bob pump sy'n gwylio BBC Three, a'r naw miliwn sy'n gwylio CBeebies a CBBC. |
| ANSAWDD | 64% | Sgoriodd bron i ddwy ran o dair o raglenni (64%) ar draws BBC One, BBC Two, BBC Three a BBC Four werthfawrogiad uchel o 80 neu fwy – cynnydd o dros chwarter ar y flwyddyn flaenorol sy'n dangos bod cynulleidfaoedd yn cydnabod bod ansawdd yn gwella. |
| EFFAITH | 110 | Enillodd Teledu'r BBC dros 110 o wobrau y llynedd, o Emmy Ryngwladol am berfformiad prif gymeriad David Suchet yn *Maxwell* a BAFTAs am *Cranford* a *History of Modern Britain* Andrew Marr, i Festival Rose d'Or am *Kombat Opera Presents…* BBC Two a Gwobr Grierson am raglen ddogfen wyddoniaeth *Parallel Worlds, Parallel Lives*. |
| GWERTH | 7.1c | Mae cost gyfartalog fesul awr gwyliwr (cyfanswm cost y rhaglenni wedi'i rannu â nifer yr oriau gwyliwr) ar draws ein portffolio o ddeg gwasanaeth teledu i'r DU gyfan yn unol â ffigurau BBC One a BBC Two, ac yn amlygu'r gwerth cyffredinol a ddarperir i dalwyr ffi'r drwydded gan arlwy ein portffolio cymysg unigryw. |

Weithiau bydd yr amserlen yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer BBC One a BBC Two yn wahanol i amserlen rhwydwaith y DU.

[1] Mae'r ffigurau yn seiliedig ar wasanaethau, yn unol â'r system trwyddedau gwasanaeth a gaiff ei monitro gan Ymddiriedolaeth y BBC.



# TELEDU/

## ROEDD YN FLWYDDYN OLYGYDDOL GRYF I DELEDU'R BBC, GYDAG AMRYWIAETH EANG O RAGLENNI UNIGRYW O ANSAWDD UCHEL AR DRAWS EIN SIANELAU A'N GWASANAETHAU, O'R *CRIMINAL JUSTICE* CLODWIW I *JOURNEYS INSIDE THE MEDIEVAL MIND*; O'R *COMIC RELIEF* YSBRYDOLEDIG I *BUGBEARS*, GWEFAN NEWYDD SY'N DARPARU GWASANAETH UNIGRYW I BLANT.



BBC One yw sianel fwyaf poblogaidd Prydain o hyd ac, yn ystod oriau brig, mae BBC Two yn parhau i ehangu ei chyrhaeddiad i oedolion iau. Llwyddodd BBC Three i gyflawni twf o 10% ymhlith cynulleidfaoedd iau, ac mae cyrhaeddiad BBC Four yn parhau i dyfu'n gyson. Llwyddodd ein sianelau clodwiw i blant, CBBC a CBeebies, i gadw eu statws blaenllaw mewn marchnad gystadleuol iawn a chafodd BBC HD flwyddyn gyntaf lwyddiannus iawn.

Mae ffresni, arloesedd a gwreiddioldeb i'w gweld ymhob rhan o'n hamserlenni.

Ymhlith uchafbwyntiau drama mae portread Kenneth Branagh o Kurt Wallander; perfformiadau cofiadwy gan Andrea Riseborough a Lindsay Duncan, yn datgelu dau gyfnod allweddol ym mywyd gwleidyddol Margaret Thatcher; yr *House of Saddam* iasoer; a *Being Human*, a grewyd i gynulleidfaoedd BBC Three ar deledu ac ar-lein, ac un o'n sioeau mwyaf poblogaidd ar iPlayer.

Ar draws rhaglenni ffeithiol, y syniadau mawr, dewr sy'n denu ein cynulleidfaoedd. Cyflwynodd Stephen Fry a Simon Schama eu persbectif unigryw ar ddigwyddiadau yn America yn ystod y cyfnod cyn etholiadau hanesyddol 2008, a llwyddodd rhaglenni hanes naturiol arbennig, fel *Lost Land of the Jaguar* a *Yellowstone*, i greu argraff dda. Profodd rhaglenni dogfen hir, *The Fallen*, *The Agony and Ecstasy of Phil Spector* Arena, a *Man on Wire* a enillodd Oscar, a gynhyrchwyd mewn partneriaeth ag UK Film Council a Discovery Films, yr effaith y gall rhaglenni dogfen ei chael. Erys y celfyddydau yn flaenoriaeth.

Ni yw buddsoddwr mwyaf y DU mewn comedi gwreiddiol. Eleni, rydym wedi cefnogi dulliau newydd a gwreiddiol, megis y gyfres *Outnumbered* ar BBC One, a gafodd ganmoliaeth arbennig, a ddefnyddiodd waith byrfyfyr gyda phlant i ddatblygu comedi sefyllfa am y tro cyntaf. Ar draws y portffolio sianelau cyfan, rydym yn gallu rhoi cyfle i adloniant comedi ffynnu: roedd *QI* a *Gavin and Stacey*, dau o lwyddiannau BBC One eleni, yn gysyniadau a gynhyrchwyd yn wreiddiol ac a ffynnodd ar BBC Two a BBC Three.

Bu'n flwyddyn o arloesedd a blaengaredd i ni wrth i ni greu ffyrdd newydd i gynulleidfaoedd brofi ein hallbwn y tu hwnt i ddarlledu llinellol traddodiadol, gan sicrhau bod ein cynnwys yn fwy hygyrch a darparu profiad gwell iddynt. O ganlyniad, rydym wedi ennill llu o wobrau pwysig: cydnabuwyd ansawdd safleoedd fel *Survivors Interactive*, ein cynnyrch newid yn yr hinsawdd *Bloom* a *MI High* gan CBBC ledled y byd. O *Britain from Above*, a enillodd Wobr Emmy Digidol, i *The Darwin Season*, rydym wedi cynnig teithiau dysgu ategol ar deledu ac ar-lein. Ac i rai o'n digwyddiadau mwyaf, bu eleni yn flwyddyn o aeddfedu go iawn: o'r Gemau Olympaidd yn Beijing i'r Red Nose Day cyntaf cwbl ddigidol, mae cynulleidfaoedd yn ymgysylltu â'n cynnwys mewn ffyrdd newydd.

Cawsom gyfraniadau pwysig at rwydweithiau'r DU gyfan hefyd gan gydweithwyr a chyflenwyr ledled y DU. Roedd *Sesame Tree* yn gyfres newydd i blant ifanc am amrywiaeth a themâu datblygiad personol o Ogledd Iwerddon, a gafodd ei darlledu'n ddiweddarach ar deledu rhwydwaith. O Gymru, gweithiodd tîm drama *Doctor Who* gyda'r cwmni annibynnol Shine a BBC One i lansio cyfres newydd ar gyfer nos Sadwrn, *Merlin*. A chafodd *A History of Scotland*, o'r Alban, a gydgynhyrchwyd gyda'r Brifysgol Agored, gyfres lwyddiannus ar BBC One yn ei gwlad gartref cyn cael ei darlledu ar rwydwaith BBC Two.

Rydym yn anelu at sicrhau bod 50% o'r gwariant cynhyrchu y tu allan i Lundain erbyn 2016 yn cynnwys 17% o Gymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn unol â chyfran poblogaeth y DU sy'n byw yno.






Tabl 4/ **Oriau allbwn teledu rhwydwaith BBC yn ôl genre**

Mae gan rwydweithiau'r BBC yr amrywiaeth ehangaf o genres rhaglenni o blith holl ddarlledwyr y DU.

| | BBC One | | BBC Two | | BBC Three | | BBC Four | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2008/09** | 2007/08 | **2008/09** | 2007/08 | **2008/09** | 2007/08 | **2008/09** | 2007/08 |
| Ffeithiol | **1,993** | 2,021 | **1,854** | 1,757 | **1,427** | 1,333 | **991** | 969 |
| Addysg (ffurfiol) | **–** | 6 | **440** | 785 | **–** | – | **4** | 2 |
| Newyddion a thywydd | **2,330** | 2,400 | **850** | 559 | **32** | 32 | **12** | 6 |
| Materion cyfoes | **237** | 206 | **287** | 260 | **167** | 126 | **160** | 194 |
| Adloniant | **638** | 481 | **594** | 681 | **1,160** | 1,170 | **168** | 274 |
| Chwaraeon | **755** | 603 | **915** | 951 | **27** | 25 | **–** | – |
| Plant | **475** | 496 | **1,673** | 1,619 | **–** | – | **–** | – |
| Drama | **937** | 1,114 | **507** | 322 | **364** | 329 | **441** | 340 |
| Ffilm | **638** | 690 | **635** | 819 | **206** | 184 | **190** | 204 |
| Cerddoriaeth a'r celfyddydau | **91** | 109 | **315** | 315 | **72** | 71 | **1,255** | 1,251 |
| Crefydd | **104** | 105 | **34** | 30 | **–** | 5 | **25** | 15 |
| Parhad | **230** | 236 | **292** | 295 | **114** | 110 | **71** | 78 |
| Cyfanswm oriau rhwydwaith (ac eithrio rhaglenni eithrio) | **8,428** | 8,467 | **8,396** | 8,393 | **3,569** | 3,385 | **3,317** | 3,333 |







NOD BBC ONE YW SICRHAU MAI HI YW'R SIANEL A GAIFF EI GWERTHFAWROGI FWYAF YN Y DU, Â'R YSTOD EHANGAF O RAGLENNI O SAFON YMYSG YR HOLL RWYDWEITHIAU PRIF FFRWD YN Y DU. RYDYM YN CYNNIG AMRYWIAETH EANG O RAGLENNI, A NI YW PRIF ALLFA'R BBC AR GYFER DIGWYDDIADAU O BWYS YN Y DU AC YN RHYNGWLADOL.



CYRHAEDDIAD
77.6%

COST FESUL AWR GWYLIWR
6.8c

Chwith uchaf: *Criminal Justice*, drama dreiddgar gan yr ysgrifennydd Peter Moffatt.

Dde uchaf: Y ddrama boblogaidd ar nos Sadwrn, *Merlin*.

- **Yn ystod y flwyddyn, cyrhaeddiad pob awr wythnosol BBC One ar gyfartaledd oedd 77.6%/44.0 miliwn (2008: 78.2%/44.1 miliwn). Yn ystod oriau brig (6pm–10.30pm), canran ailddarlledu BBC One oedd 8.2% (2008: 8.3%). Ni hefyd oedd yr unig sianel ddaearol i wella perfformiad yn ystod oriau brig yn ystod y cyfnod hwn.**
- **Cafodd tua 60% o raglenni ar BBC One sgôr gwerthfawrogiad o 80 neu fwy.**
- **Roedd ein cost gyfartalog fesul awr gwyliwr yn gyson, sef 6.8c (2008: 6.8c).**

Ymhlith uchafbwyntiau'r llynedd roedd:

## SYNIADAU GWREIDDIOL

Syniadau newydd ac unigryw yw anadl einioes BBC One. Rydym yn parhau i fuddsoddi'n helaeth mewn comedi Prydeinig. Roedd animeiddiad Wallace and Gromit, *A Matter of Loaf and Death*, yn llwyddiant ysgubol gyda'r nifer uchaf erioed o bobl yn ei wylio ddydd Nadolig, sef 16.2 miliwn (cyrhaeddodd ffigurau gwylio cyffredinol y diwrnod eu lefelau uchaf ers 1999). Ymhlith comedi newydd roedd *Sunshine*, a ysgrifennwyd gan Craig Cash, a *Life of Riley* ac *Old Guys* gan BBC Scotland. Dychwelodd y rhaglen unigryw a llwyddiannus *Outnumbered* am ail gyfres.

Gwnaethom weithio gyda sianelau eraill y BBC i gyflwyno'r goreuon o'r byd comedi i gynulleidfa eang, gan symud cyfres BBC Three *Gavin and Stacey* a enillodd wobrau niferus a *QI* o BBC Two i'n hamserlenni. Denodd y rhaglen *Gavin and Stacey Christmas Special* 7.2 miliwn o wylwyr a chyfran o 39% o bobl ifanc 16 i 34 oed. Roedd *QI* hefyd yn llwyddiant o ran denu gwylwyr iau gan gyrraedd cyfran gyfartalog o 20% o bobl ifanc 16 i 34 oed, tri phwynt cyfran yn uwch na chyfartaledd y sianel.

Roedd *Last Choir Standing* yn ddigwyddiad adloniant gwahanol a lwyddodd i adlewyrchu'r cymunedau amrywiol sydd i'w cael ledled y DU. Rhoddwyd cyfle i bymtheg côr amatur, yn amrywio o grŵp Ysgol Glanaethwy i'r cantorion gospel, Revelation, arddangos eu doniau yn ystod oriau brig ar BBC One.

## DRAMA UCHELGEISIOL O ANSAWDD UCHEL

Ymhlith ein dramâu roedd gwaith unigryw ac uchelgeisiol megis *The Diary of Anne Frank, Wallander, A Short Stay in Switzerland, Criminal Justice* a *Fiona's Story*. Gwnaethom lwyddo i gyrraedd cynulleidfa iau gyda chyfresi fel *Merlin* ar nos Sadwrn (6.3 miliwn, cyfran o 27%) – ac rydym yn awyddus i gynnig mwy i'r gynulleidfa hon o bob genre. Roedd *No 1 Ladies Detective Agency* yn arbennig o boblogaidd gyda chynulleidfaoedd amrywiol, gan ddenu cyfran o 29% o'r gwylwyr ymhlith cymunedau Affricanaidd a



Tabl 5/
**Ailddarllediadau BBC One yn ystod oriau brig**

| | |
|---|---|
| 2004/05 | 9.7% |
| 2005/06 | 8.9% |
| 2006/07 | 8.4% |
| 2007/08 | 8.3% |
| **2008/09** | **8.2%** |

Dde uchaf: *The Andrew Marr Show* yn taflu goleuni ar beth sy'n digwydd yn y byd.

Gwaelod dde: Yn ogystal ag ailddarledu clasuron o'r archif, mae gwylwyr yn deall bod ailddarlledu rhaglenni gwreiddiol yn ddiweddarach yn ystod yr un wythnos, neu raglenni o'n sianelau eraill yn rhoi cyfleoedd pellach iddynt weld rhywbeth yr oeddent wedi'i hoffi neu'i fethu, ac mae hyn yn aml yn denu cynulleidfaoedd uwch na'r hyn sydd ar gael ar y sianelau digidol. Mae llawer o'n cynnwys hefyd i'w weld ar BBC iPlayer am saith diwrnod. Mae'r llun yn dangos y comedi arloesol *Outnumbered*.

Charibïaidd, bron i ddwywaith cyfran gyfartalog drama nad yw'n opera sebon ymhlith y cynulleidfaoedd hyn.

Yn ystod y dydd, ni oedd yr unig sianel yn y DU i gomisiynu drama wreiddiol, gyda *Doctors* a'r gyfres pum rhan *Missing*, y ddwy wedi'u cynhyrchu yn Birmingham.

## NEWYDDIADURAETH UNIGRYW A PHOBLOGAIDD

Gwnaethom ddarparu newyddion o ansawdd uchel yn ystod yr wythnos am 1pm, 6pm, 8pm a 10pm i ddiwallu anghenion amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd – yn ogystal â dadansoddiadau a newyddiaduraeth ymchwiliol arall ar adegau eraill yn yr amserlen. Gosodwyd yr agenda gennym gan gyflwyno pynciau anodd i gynulleidfa eang, ond gan hefyd greu newid. Yn dilyn *Pedigree Dogs Exposed* rhoddodd y BBC y gorau i ddarlledu'r sioe cŵn Crufts ar y teledu. Ac yn dilyn rhaglen *Panorama, Primark: On the Rack*, ymatebodd y cwmni ar fyrder gan dorri cysylltiad â chyflenwyr y canfuwyd eu bod yn defnyddio llafur plant. Denodd rhaglen arbennig yn ymateb i ddigwyddiadau newyddion gan *Panorama* a archwiliodd achos Shannon Matthews gynulleidfa o 5.8 miliwn.

Mae *The ONE Show* yn gohebu o bob cwr o'r DU bob diwrnod yn ystod yr wythnos ac yn dod yn fwyfwy poblogaidd. Cyfartaledd y gynulleidfa yn ystod y flwyddyn oedd 4.5 miliwn/22.5%, cynnydd o bron i ddau bwynt cyfran ar y cyfartaledd ar gyfer y slot cyn lansio.

Cyflwynwyd slot ddogfen newydd gennym am 10.35pm ar nos Fawrth i ohebu ar Brydain gyfoes, ac mae ein rhaglen eithrio ranbarthol wythnosol ar faterion cyfoes yn rhoi cipolwg o straeon sydd o arwyddocâd gwirioneddol i'n cynulleidfa yn eu hardal hwy.

Roedd materion cyfoes yn ein hamserlen yn ystod y dydd yn cynnwys wythnos o raglenni yn seiliedig ar y GIG a gwelwyd *Missing* yn dychwelyd. Wedi'i gyfoethogi gan bum drama newydd, denodd *Missing Live* gynulleidfaoedd sylweddol o 1.1 miliwn yn ystod y dydd, (cyfran o 24.3%) ac o ganlyniad uniongyrchol iddi, daethpwyd o hyd i saith person a fu ar goll. Atgyfnerthwyd ein harlwy newyddiaduraeth defnyddwyr gyda Watchdog ar ei newydd wedd, cyfres newydd o *Rogue Traders* a chyfres newydd *Rogue Restaurants*.

## RHAGLENNI FFEITHIOL HYGYRCH

Bu'n flwyddyn gref i wyddoniaeth gyda rhaglenni fel *Super Doctors* gyda'r Arglwydd Winston a *Make Me...* gyda Michael Mosley a *Charles Darwin and The Tree of Life* (a wyliwyd gan dros chwe miliwn). Gan adeiladu ar y llwyddiannau hyn, byddwn yn cyflwyno sioe wyddoniaeth newydd yn ystod oriau brig o ddiwedd 2009.

Ochr yn ochr â chyfresi fel *Nature's Great Events*, cyflwynwyd fformatau arloesol a ddenodd gynulleidfaoedd iau i fyd natur – perfformiodd *Tiger Spy in the Jungle* a *Lost Land of the Jaguar* yn arbennig o dda i'r genre yma gyda phobl rhwng 25 a 44 oed (cyfran o 20% a 21% o'r grŵp hwn, yn unol â'r cyfartaledd oriau brig cyffredinol).

Mae celfyddydau poblogaidd, diwylliant a hanes yn allweddol i'n hamserlen, ac eleni gwelwyd safbwynt Jeremy Paxman ar *The Victorians*, *The Story of the Guitar* a'r maes celfyddydol clodwiw *Imagine* yn dychwelyd.

## BLWYDDYN BWYSIG O CHWARAEON


Mae chwaraeon bob amser yn boblogaidd gyda'n gwylwyr a bu'n haf prysur i BBC Chwaraeon. Y llynedd, cyrhaeddodd ein cynulleidfa ar gyfer rownd derfynol Wimbledon i ddynion uchafbwynt o 12.7 miliwn o wylwyr. Er nad oedd unrhyw wledydd o'r DU yn cymryd rhan yn Ewro 2008, denodd ein darllediadau gyfartaledd o dros bum miliwn o wylwyr a chyfran arbennig o uchel o bobl ifanc 16 i 34 oed, sef 28%. Cyflawnodd y Gemau Olympaidd gyfran gyfartalog o 35%, a'n cynulleidfa fwyaf yn ystod y dydd ers wyth mlynedd. A dathlwyd yr adeg y trosglwyddwyd y Gemau Olympaidd o Beijing gyda'r *London 2012 Party* gydag un o bob tri o bobl a oedd yn gwylio'r teledu ar y pryd yn gwylio BBC One (cyfran o 32.9%).

Eleni ail-lansiwyd *Watchdog* a *The ONE Show* gennym fel cynigion gwirioneddol aml-lwyfan gyda'u gwefannau yn greiddiol i gynnwys golygyddol y sioeau teledu. Byddwn yn parhau i ymgorffori gwahanol gymwysiadau – o negesfyrddau i ddosbarthiadau meistr – yn ein gwefannau er mwyn gwella profiad y gynulleidfa, a denu gwylwyr newydd.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym hefyd yn anelu at gyflwyno rhaglenni sy'n ehangu ein hapêl ac yn ymestyn ein hamrywiaeth o wylwyr. Bydd y gyfres newydd o *Countryfile* yn ystod oriau brig yn ymdrin â materion a phryderon cymunedau gwledig nas gwasanaethir yn ddigonol; bydd y ddrama newydd *Small Island* yn ceisio denu cynulleidfaoedd ething amrywiol; a bydd ein sioe gwyddoniaeth newydd yn apelio at wylwyr iau 25 i 44 oed – oll yn grwpiau allweddol yr hoffem eu gwasanaethu'n well.







BBC TWO

# MAE BBC TWO YN CYFLWYNO RHAGLENNI Â DYFNDER A SYLWEDD I GYNULLEIDFA EANG. HI SY'N DARLLEDU'R SWM A'R AMRYWIAETH FWYAF O RAGLENNU FFEITHIOL O BLITH EIN HOLL SIANELAU, WEDI'I GYFUNO Â CHELFYDDYDAU, COMEDI A DRAMA UNIGRYW.

Uchaf: *Maestro*, lle enillodd y gomedïwraig a'r ysgrifennydd Sue Perkins yr hawl i ddal y baton yn *Proms in the Park*.

Canol: Canolbwyntiodd y rhaglen ddogfen estynedig *The Fallen* ar straeon y 300 o filwyr o Brydain a fu farw wrth wasanaethu yn Affganistan ac Irac.

Gwaelod: Adroddodd *Natural World* stori Titus, Brenin y Gorilas, o Rwanda.



- **Yn ystod y flwyddyn, parhaodd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud cyfartalog BBC Two yn gryf, sef 57.4%/32.6 miliwn (2008: 57.6%/32.5 miliwn). Er gwaethaf cystadleuaeth gynyddol gan sianelau digidol, llwyddwyd i gynnal ein cyfran pob awr ymhlith pobl ifanc 25 i 44 oed (6.4% o gymharu â 6.5% yn 2008).**
- **Cyflawnodd dros ddwy ran o dair o raglenni BBC Two sgôr gwerthfawrogiad o 80 neu fwy yn ystod y flwyddyn.**
- **Cynyddodd y gost fesul awr gwyliwr flwyddyn ar flwyddyn i 7.5c (2008: 7.0c).**

## MEITHRIN GWYBODAETH

O *John Prescott: The Class System and Me* i *An Island Parish*, dathlwyd amrywiaeth cyfoethog bywyd yn y DU gennym. Cyflwynodd *Wonderland* gipolwg ar fywydau eithriadol Prydeinwyr 'cyffredin' a dogfennwyd effaith ddinistriol dementia yn *Terry Pratchett: My Life with Alzheimer's*.

Dogfennodd cyfres glodwiw Bruce Parry *Amazon* ei daith anhygoel o'r Andes ym Mheriw i arfordir Môr Iwerydd, a chyfunodd y gyfres newydd *Explore* newyddiaduraeth teithio unigryw gyda dadansoddiadau deallus o faterion cyfoes rhyngwladol. Gwelodd Peter Owen Jones ddefodau crefyddol ar waith yn *Around the World in 80 Faiths* a dilynodd *Across the Andes: Beyond Boundaries* hynt mynyddwyr anabl yn mynd i'r afael â rhai o gopaon mwyaf heriol y byd.

Ymhlith y cyfresi hanes nodedig roedd *World War II: Behind Closed Doors* ac *A History of Scotland*, a ddenodd gyfartaledd o 1.5 miliwn a 2.2 miliwn o wylwyr. Roedd rhaglenni unigol unigryw fel *Timewatch: Stonehenge* a *Hadrian's Wall* yn gynigion o safon uchel, yn arbennig ar nos Sadwrn, lle rydym wedi gweld cynnydd o 5% o ran ein cyfran blwyddyn ar flwyddyn yn y rhan gystadleuol iawn hon o'r amserlen.

## Y CELFYDDYDAU, COMEDI A DRAMA

Roedd ein perfformiadau cerddorol byw cyfoes – gan gynnwys *Later... with Jools Holland* a'r *Electric Proms* – yn cynnwys amrywiaeth helaeth o berfformwyr fel The Stereophonics, The Killers ac Al Green. Denodd y gyfres cerddoriaeth glasurol *Maestro* gynulleidfaoedd o fwy nag 1.7 miliwn yn ystod oriau brig, ac roedd yn un o'n cyfresi a drafodwyd fwyaf eleni.

Cynhaliwyd ein hymrwymiad i newyddiaduraeth gelfyddydol yn *The Culture Show* – a gafodd gartref estynedig newydd yn ein hamserlen oriau brig. Dathlwyd gwreiddioldeb Prydain gennym yn *British Style Genius*, ac aethom y tu ôl i'r llenni i weld bale newydd Wayne McGregor *Infra* yn cael ei chreu.

Ym maes comedi, ategwyd hen ffefrynnau fel *Mock the Week* a *Never Mind the Buzzcocks* â chomedi sefyllfa deimladwy a hynod wreiddiol Jonathan Harvey *Beautiful People*. Gyda chyfartaledd o 1.2 miliwn o wylwyr, bydd yn dychwelyd am ail gyfres.

Aeth ein dramâu – yn arbennig y ddrama glodwiw *House of Saddam* – i'r afael â rhai o straeon pwysicaf ein cyfnod. Cyflwynodd *Einstein and Eddington* ddehongliad newydd i wylwyr o ddatblygiad un o'r syniadau pwysicaf ym maes gwyddoniaeth: Damcaniaeth Perthnasedd; a threiddiodd *Moses Jones* i fywydau mewnfudwyr o Wganda yn Llundain gyfoes.


Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn adlewyrchu effeithiau'r dirwasgiad economaidd parhaus gyda chyfres ddogfen *Recession Britain* a drama a ysbrydolwyd gan gwymp Lehman Brothers. Byddwn hefyd yn cynnig *Andrew Marr's Age of Churchill* a drama hir ategol wedi'i hysbrydoli gan fywyd gwleidyddol Churchill. Bydd ein rhaglenni gwyddoniaeth nodedig *How The Earth Made Us* a *Solar System* yn rhoi dealltwriaeth newydd i wylwyr o darddiad bywyd dynol a'n planed, ac mae *Psychoville*, cyfres newydd gan greawdwyr *The League of Gentlemen*, ac anffawd ganoloesol yr arwr anffodus *Krod Mandoon* yn sicr o atgyfnerthu'r comedi a gynigir ar BBC Two.


CYRHAEDDIAD
57.4%

COST FESUL AWR GWYLIWR
7.5c

Tabl 6/
**Ailddarlledidau BBC Two yn ystod oriau brig**

| | |
|---|---|
| 2004/05 | 32.5% |
| 2005/06 | 27.4% |
| 2006/07 | 30.1% |
| 2007/08 | 29.3% |
| **2008/09** | **32.6%** |







# MAE BBC THREE YN CANOLBWYNTIO'N BENODOL AR GYNNWYS A THALENT BRYDEINIG ARLOESOL. NOD Y SIANEL YW DARPARU CYMYSGEDD EANG O RAGLENNI WEDI'U HANELU'N BENNAF AT GYNULLEIDFAOEDD IAU.

Uchaf: Roedd stori a chymeriadau arloesol wedi gwneud *Being Human* yn boblogaidd ymhlith gwylwyr.

Canol: Y sioe sgetsys, *The Wrong Door.*

Gwaelod 1: Ymhlith yr allbwn ffeithiol roedd amrywiaeth o straeon personol a ddarlledwyd yn ystod y tymor *Born Survivors.*

Gwaelod 2: Y rhaglen materion cyfoes *Mischief.*

CYRHAEDDIAD

18.7%

COST FESUL AWR GWYLIWR

10.6c



- Cynyddodd cyfartaledd cyrhaeddiad 15 munud BBC Three ymhob cartref i 18.7%/10.6 miliwn (2008: 17.3%/ 9.7 miliwn). Ymhlith ein cynulleidfa darged o bobl ifanc 16 i 34 oed, cynyddodd cyrhaeddiad hefyd, i 26.0% (o 23%).
- Roedd gan bron i draean o raglenni BBC Three yn ystod y flwyddyn (31%) sgôr gwerthfawrogiad o 80 neu fwy.
- Y gost fesul awr gwyliwr oedd 10.6c (i lawr o 12.9c yn 2007/08).

## TALENT NEWYDD YN Y DU

Mae gennym ran allweddol i'w chwarae wrth feithrin talent newydd, fel y dangoswyd gan lwyddiant y penderfyniad i drosglwyddo'r gyfres glodwiw *Gavin and Stacey* i BBC One.

Rydym yn cyflogi amrywiaeth eang o dalent o'r DU o bersonoliaethau fel Jamelia ac Alesha Dixon i gast ifanc *Scallywagga*. O ran comedi, cyfunodd *The Wrong Door* dalent ysgrifennu newydd o Brydain â defnydd arloesol o'r dechnoleg CGI ddiweddaraf. Roedd *Coming of Age* yn gomedi sefyllfa newydd a ysgrifennwyd gan Tim Dawson, sy'n 19 oed, gyda chast o chwe actor comig ifanc newydd.

## CYMRYD RISGIAU CREADIGOL

O ran drama, denodd ein cyfres arloesol *Being Human* gynulleidfaoedd ifanc mawr (cynulleidfa gyfartalog o 930,000 a chyfran o 6.3% o bobl ifanc 16 i 34 oed – sy'n uchel i sianel ddigidol) a chlod y beirniaid. Fe'i darlledwyd yn wreiddiol fel rhaglen beilot unigol, a chomisiynwyd cyfres ar sail cryfder y sgriptiau arloesol ac ymateb cryf gan wylwyr i fideos rhagflas ar-lein cyn ei lansio. Mae gwrando ar ein cynulleidfaoedd yn greiddiol i'n llwyddiant gyda'n hystod oedran darged.

Ond nid yw pob risg yn llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd mawr. Roedd *Our Belief Season*, a oedd yn cynnwys y rhaglen ddogfen *Deborah 13: Servant of God*, yn greadigol fywiog ond ni lwyddodd i ddenu gwylwyr i'r sianel. Serch hynny, mae'n bwysig ein bod yn comisiynu cynnwys mor fentrus na fyddai eraill yn rhoi cynnig arno.

## NEWYDDION, MATERION CYFOES A PHYNCIAU LLOSG


Cyflwynodd y *60Seconds Bulletins* bob awr gynnwys newyddion mewn pecyn twt i 5.3 miliwn o wylwyr bob wythnos. Ymdriniodd y gyfres materion cyfoes *Mischief* â materion yn amrywio o dai i ddiwylliant gangiau; edrychodd y tymor *Born Survivors* ar feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau, plant sy'n ofalwyr a hunan-niweidio. Drwy'r gyfres ddogfen a enwebwyd am wobr BAFTA *Blood Sweat and T-shirts* cawsom gyfle i archwilio'r broses globaleiddio a'i heffaith ar y byd sy'n datblygu.

## ARLOESEDD RHYNGWEITHIOL

Mae ein datblygiad fel rhwydwaith aml-lwyfan wedi arwain at amrywiaeth o brosiectau arloesol. Defnyddiwyd cymysgedd *Born Survivors* o rifynnau byr a chynnwys ar-lein fel model ar draws y BBC. A dangoswyd *Bryony Makes A Zombie Movie* a enwebwyd am wobr BAFTA gennym ar wefannau eraill – denodd dros hanner miliwn o wylwyr ar *YouTube.*

Blaenoriaeth BBC Three yw parhau i gyflwyno rhaglennu unigryw -o ansawdd uchel a gaiff ei werthfawrogi gan ein cynulleidfa darged ifanc. Bydd *Where Our Food Comes From* yn ymchwilio i darddiad bwyd a'r byd sy'n datblygu. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar bobl ifanc a sgiliau galwedigaethol gyda fformat ffeithiol newydd – *Young Butcher of the Year.* Mae mwy o gomedi newydd a gwreiddiol ar ei ffordd gyda *The Gemma Factor* a *We Are Klang.*







BBC FOUR

# NOD BBC FOUR YW SICRHAU MAI HI YW'R SIANEL SY'N CYNNIG Y CYFOETH DEALLUSOL A DIWYLLIANNOL GORAU YM MHRYDAIN, GAN GYNNIG CYFUNIAD UNIGRYW O RAGLENNI DOGFEN, PERFFORMIADAU, CERDDORIAETH, FFILM A PHYNCIAU AMSEROL.

Uchaf: Cyflwynodd Andrew Graham-Dixon *The Art of Italy.*

Gwaelod: Adroddodd *Science and Islam* stori datblygiadau gwyddonol yn y byd Moslemaidd rhwng yr 8fed ganrif a'r 14eg ganrif.







CYRHAEDDIAD

7.8%

COST FESUL AWR GWYLIWR

16.8c

- **Mae cyrhaeddiad BBC Four yn parhau i gynyddu'n gyson. Yn 2008/09, ein cyfartaledd cyrhaeddiad 15 munud wythnosol oedd 7.8%/4.4 miliwn (2008: 7.0%/4.0 miliwn).**
- **BBC Four sy'n cyflawni'r sgoriau gwerthfawrogiad uchaf o blith holl rwydweithiau teledu'r BBC – cyflawnodd ychydig o dan dri chwarter ei rhaglenni (73%) sgôr gwerthfawrogiad o 80+.**
- **Roedd y gost gyfartalog fesul awr gwyliwr yn sefydlog, sef 16.8c (2008: 16.7c).**

Y llynedd, darlledwyd dros 3,300 awr o raglennu gennym ar draws yr amrywiaeth o genres, heb gynnwys allbwn chwaraeon a phlant, ond gan gynnwys:

## ALLBWN UNIGRYW AC AGENDA AMRYWIOL

Cyflwynodd tymhorau o raglenni yn archwilio pynciau mor eclectig â'r Cyfnod Canoloesol, Llythrennedd, Moduro a Siapan gynnwys cyfoethog a gwybodaeth fanylach i gynulleidfaoedd BBC Four y llynedd.

Roedd ein tymor o raglenni ar Brif Weinidog benywaidd cyntaf Prydain yn cynnwys *Margaret Thatcher: The Long Walk to Finchley*, a ddenodd ychydig dros filiwn o wylwyr ar ei darllediad cyntaf. Y ddrama hon oedd canolbwynt y tymor, gydag uchafbwyntiau eraill yn cynnwys *The Thatcher Years, The Falklands Play*, a rhifyn arbennig o *Dinner with Portillo*.

O ran gwyddoniaeth, roedd rhaglenni fel *The Story of Maths, Big Bang Night* a *Science and Islam*, ymhlith rhai o raglenni mwyaf uchelgeisiol y sianel yn ystod y flwyddyn.

Roedd amrywiaeth eang o raglenni ar y celfyddydau gweledol yn cynnwys dathliad y beirniad celf Andrew Graham-Dixon o *The Art of Italy*, ac archwiliad Waldemar Januszczak o etifeddiaeth ddiwylliannol *Baroque*.

Roedd cerddoriaeth glasurol yn rhan bwysig o'n harlwy y llynedd. Cafwyd darllediadau helaeth o'r gystadleuaeth flynyddol *BBC Young Musician of the Year*, 17 o gyngherddau o *BBC Proms* eleni, dwy symffoni gan Mahler wedi'u harwain gan y maestro o Rwsia Valery Gergiev a'r bywgraffiad ffilm diffiniol, *The Passions of Vaughan Williams*, ar fywyd cymeriad blaenllaw ym maes cerddoriaeth Prydain yn ystod yr ugeinfed ganrif.

Roedd gan gerddoriaeth boblogaidd le amlwg ar y sianel hefyd. Roedd rhaglenni yn y maes hwn yn cynnwys y rhaglen ddogfen hir *Prog Rock Britannia*, tymor arbennig ar *American Folk*, proffiliau ffilm ar Quincy Jones a Neil Young, a darllediadau jazz a cherddoriaeth y byd o Glastonbury.

## SAFBWYNT BYD-EANG

Gyda ffilmiau fel *Roman Polanski: Wanted and Desired; Operation Iraqi Film-maker* a *Shot in Bombay*, adroddodd ein cyfres ddogfen ryngwladol *Storyville* hanesion yn seiliedig ar gymhlethdodau moesegol, diwylliannol a gwleidyddol.

Fel rhan o'n tymor *Traveller's Century*, dilynodd y fforiwr Benedict Anderson yn ôl-troed yr awduron teithio uchel eu parch Eric Newby, Laurie Lee a Patrick Leigh Fermor, a darlledodd *The Thirties in Colour* ddeunydd prin, hanesyddol bwysig nas darlledwyd o'r blaen o bob cwr o'r byd.


Yn ystod y flwyddyn, darlledwyd 26 o ffilmiau rhyngwladol mewn sawl gwahanol iaith am y tro cyntaf erioed ar y teledu yn y DU. Mewn un noson wedi'i neilltuo i waith y cyfarwyddwr ffilm Almaeneg Werner Herzog, darlledwyd rhai o'i ffilmiau gorau, gan gynnwys *Aguirre Wrath of God, Fitzcarraldo, The Enigma of Kaspar Hauser* a *Nosferatu The Vampyre*. Roedd ein cyfres gynhwysfawr o raglenni ar Siapan yn cynnwys sawl ffilm nodwedd glodwiw, gan gynnwys y ddrama gyfnod *Gohatto*, y ffilm ffordd *Kikujiro*, a'r comedi *Ping Pong*.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd rhaglenni yn cynnwys *Poetry Season* mis o hyd (mewn partneriaeth â BBC Two), yn ogystal ag astudiaethau o'r clasur Eingl-Sacson *Beowulf*, y campwaith Saesneg Canol *Sir Gawain and the Greene Knighte*, a chyfres chwe rhan ar sut mae tirlun Prydain wedi ysbrydoli beirdd adnabyddus. Bydd rhaglenni dogfen newydd yn ymdrin â phynciau mor amrywiol â hanes Affrica hynafol, technolegau cyfrifiadurol a gemau o iard yr ysgol.



MAE SIANEL CBBC YN CYNNIG AMSERLEN GYMYSG UNIGRYW I BLANT 6 I 12 OED. EIN NOD YW ANNOG POB PLENTYN I ATGYFNERTHU EI DDIDDORDEBAU PRESENNOL A DATBLYGU RHAI NEWYDD.

Uchaf: Roedd *Dustbin Baby* yn rhan o'r 60 awr o ddrama wreiddiol o'r DU a ddarlledwyd gennym eleni.
Gwaelod: Yn *Serious Oceans* aeth wyth o blant ar daith arwrol a bythgofiadwy.



CYRHAEDDIAD
5.2%

COST FESUL AWR GWYLIWR
9.5c

- **CBBC yw sianel fwyaf poblogaidd Prydain o hyd i blant ifanc, mewn marchnad amlgyfrwng gystadleuol iawn, gyda chyrhaeddiad o 32.2% ymhlith plant 6 i 12 oed (Disney: 26.7%). Ein cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i bob gwyliwr 4+ oed oedd 5.2%/2.9 miliwn (2008: 5.6%/3.1 miliwn).**
- **CBBC oedd sianel blant y flwyddyn BAFTA eleni.**
- **Roedd y gost gyfartalog fesul awr gwyliwr yn sefydlog, sef 9.5c (2008: 9.6c).**

Y llynedd, lansiwyd CBBC iPlayer gennym ac ymhlith ein hallbwn roedd:

## HELPU PLANT I DDEALL EU HUNAIN A'R BYD O'U HAMGYLCH

Mae helpu plant i ddeall eu lle yn y byd a bod yn ddinasyddion gweithgar yn flaenoriaeth allweddol. Ymhlith yr uchafbwyntiau eleni roedd *Who Wants To Be A Superhero, Beat the Boss* a *My Wish*, gan roi llais i blant a chlywed eu huchelgeisiau.

Mae *Newsround* bellach wedi agor ei swyddfa ym Manceinion, gan baratoi i symud i Salford. Mae'n darparu 105 munud o newyddion o ansawdd uchel yn fyw bob wythnos sy'n annog ei gwylwyr i asesu'r ffeithiau a llunio barn eu hunain. Ceisiodd *Election*, her arweinyddiaeth glodwiw CBBC, i ymgysylltu plant 6 i 12 oed â'r broses wleidyddol ar y teledu ac ar y we.

## DYSGU ANFFURFIOL

Aeth *Serious Oceans* â grŵp o blant o amgylch Penrhyn De Affrica. Defnyddiodd *Sam and Mark's Guide to Dodging Disaster* ddeunydd unigryw gan Uned Byd Natur y BBC, gan gymysgu eitemau byw, deunydd archif a sgrîn las i ddangos y ddeuawd boblogaidd yn brwydro yn erbyn natur a sefyllfaoedd peryglus – denodd y rhaglen 3.2 miliwn o wylwyr.

Ymhlith ein sioeau adloniant poblogaidd roedd y sioe gwis rifol *Get 100* ac anogodd *Gastronuts* ddiddordeb plant ym mhwysigrwydd bwyd a diet drwy anturiaethau coginio gwyllt. Addysgodd *SMART* dechnegau artistiaid enwog; denodd gyfartaledd o ychydig o dan bedair miliwn o wylwyr.

*Me and My Movie* oedd teitl ein profiad gwneud ffilmiau unigryw i blant – datgelwyd yr ymgais fuddugol yn y Gwobrau BAFTA i Blant.


Mae chwerthin yn rhan ganolog o CBBC. Mae rhaglenni fel *Legend, Sorry I've Got No Head a TMi* yn parhau i ysbrydoli cynulleidfaoedd ifanc mewn ffyrdd creadigol ac arloesol.

## DULLIAU GWEITHREDU NEWYDD A GWREIDDIOL

CBBC yw'r unig fuddsoddwr arwyddocaol mewn rhaglennu a gynhyrchir yn y DU ar gyfer y gynulleidfa hon. Comisiynwyd dros 60 awr o ddrama newydd, wreiddiol gennym y llynedd gan gynnwys drama o'r DU gyda lleisiau amlwg o'r DU – cyfresi fel *The Sarah Jane Adventures, Roman Mysteries* a *Tracey Beaker*, a'r ddrama unigol yn seiliedig ar nofel Jacqueline Wilson *Dustbin Baby*. Enillodd *The Revenge Files of Alistair Fury* wobr BAFTA i Blant am ddrama, un o chwe gwobr BAFTA a enillwyd gennym y llynedd.

Rydym yn cynnig profiad ar-lein diogel i blant drwy ein hadnodd ar-lein personol *MyCBBC* a thudalennau gwe wedi'u cymedroli ymlaen llaw. Mae ein proses gomisiynu aml-lwyfan yn golygu bod llawer o'n rhaglenni teledu yn ehangu'r hyn a gynigir ganddynt i gynnwys adnoddau ar-lein. Darparodd *Escape from Scorpion Island* a *MI High* gemau ar-lein.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn atgyfnerthu'r broses o gyflwyno ein pwrpas dinasyddiaeth (a nodwyd yn Arolwg Ymddiriedolaeth y BBC o Wasanaethau Plant) drwy gomisiwn newydd – *Tronji* – a fydd yn annog plant i ddarganfod y sgiliau arbennig sydd ganddynt a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd datrys problemau a chyda mwy o rifynnau arbennig o *Newsround* ar bynciau fel bwlio. Ar-lein, bydd y comisiwn newydd *Gamebuilder* yn darparu adnodd a fydd yn galluogi plant i greu, cyhoeddi a rhannu eu gemau ar-lein eu hunain.



MAE CBEEBIES YN CYNNIG CYMYSGEDD O RAGLENNI O ANSAWDD UCHEL, WEDI'U CYNHYRCHU YN Y DU GAN FWYAF, WEDI'U CYNLLUNIO I ANNOG DYSGU DRWY CHWARAE MEWN AMGYLCHEDD CYSON DDIOGEL I BLANT O DAN CHWECH OED.

Uchaf: Mae *Poetry Pie* yn dod â byd barddoniaeth yn fyw gyda gemau, caneuon a llawer o bethau i'w creu a'u gwneud.

Canol: *Nina and the Neurons*: gwyddoniaeth lawn hwyl, ac mae mwy o bethau i'w creu a'u gwneud ar y wefan.

Gwaelod: *The Green Balloon Club*, rhan o fenter aml-lwyfan ar yr amgylchedd.

CYRHAEDDIAD

47.5%

COST FESUL AWR GWYLIWR

1.8c



- **CBeebies yw sianel fwyaf poblogaidd y DU o hyd i blant hyd at chwech oed mewn cartrefi digidol, gyda chyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 3 munud i'w hystod oedran darged o 47.5% (Nick Jr: 19.8%). Ein cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud i bob gwyliwr 4+ oed oedd 8.0%/4.5 miliwn (2008: 7.7%/ 4.3 miliwn).**
- **Ein cost gyfartalog fesul awr gwyliwr y llynedd oedd 1.8c (2008: 1.9c).**

Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn roedd:

## SYNIADAU NEWYDD LLAWN DYCHYMYG

CBeebies yw'r buddsoddwr allweddol mewn rhaglennu gwreiddiol i blant o dan chwech oed yn y DU – gwariodd £12.4miliwn y llynedd ar gynnwys gwreiddiol o'r DU, mwy nag unrhyw ddarlledwr arall.

Ymhlith y cyfresi a ddychwelodd eleni roedd yr animeiddiad celf, darlunio a darganfod *Louie* ac *In The Night Garden* a enillodd wobr BAFTA, un o bedair gwobr BAFTA a enillwyd yn 2008. Roedd y sioeau newydd yn cynnwys wyneb cyfarwydd ar ei newydd wedd, sef *Postman Pat SDS*, yr animeiddiad bywiog i blant cyn oed ysgol *3rd & Bird* a *Chuggington*, sy'n agor dychymyg plant i ddarganfod pethau newydd a gwir ystyr cyfeillgarwch.

Ein nod yw archwilio trywyddau newydd ym maes teledu i blant cyn oed ysgol. Ym mis Mehefin, lansiwyd y fenter aml-lwyfan *EcoBeebies*, gan gyflwyno ein cynulleidfaoedd ifancaf i natur a'r amgylchedd. Gwyliodd 186,000 o wylwyr y rhifyn lansio arbennig, *Easy Peasy EcoBeebies*. Yr arweinwyr o ran cynnwys oedd *The Green Balloon Club* ar y teledu a'r *Green Stars Club* ar-lein.

Comisiynwyd ein drama gomedi gyntaf erioed i blant cyn oed ysgol, *Grandpa in My Pocket*, gyda James Bolan. Ymhlith comedi newydd arall roedd y gyfres gomedi sefyllfa *Nuzzle and Scratch*. Mae gennym hanes cryf ym maes adloniant addysgol, gyda rhaglenni yn cynnwys *Something Special*. Rydym hefyd yn parhau i ennyn diddordeb ein cynulleidfaoedd ifancaf mewn adrodd straeon. Derek Jacobi fu'n darllen *Bedtime Story* dros gyfnod y Nadolig gyda Rob Brydon yn darllen yn ystod Wythnos Comic Relief.

## DYSGU DRWY CHWARAE

Rydym yn gweithio gydag arbenigwyr cyn oed ysgol i greu cyfleoedd dysgu i'n gwylwyr. Caiff cynnwys ei lunio'n ofalus i ennyn diddordeb plentyn mewn amrywiaeth o bynciau gan gynnwys mathemateg, llythrennedd, celf a gwerthfawrogiad o gerddoriaeth.

Cynhyrchwyd dros 100 awr o raglennu newydd gwreiddiol gennym y llynedd. Ymhlith y sioeau newydd roedd yr animeiddiad cerddorol cain *3rd & Bird* gan y cwmni clodwiw Little Airplane Productions. Mae *TellyTales* yn dod â chwedlau a straeon hud a lledrith yn fyw gan ddefnyddio plant go iawn a defnyddio eu gwaith celf hwy ar gyfer y cefndiroedd, ac mae *LazyTown Extra* yn adeiladu ar ddoniau Magnus Scheving fel *Sportacus* mewn fformat cylchgrawn chwaraeon newydd.

Llwyddodd *Mister Maker* i ysbrydoli creadigrwydd, cyflwynodd *Numberjacks* gynulleidfaoedd i ddulliau datrys problemau a daeth *Space Pirates* ag arddulliau a chyfansoddiadau cerddorol i'r sgrîn. Lansiwyd *Kerwhizz*, sioe adloniant amlgyfrwng arloesol ym mis Hydref ac anogodd y sioe bypedau gomedi *Big and Small* blant cyn oed ysgol i ddod yn fwy ymwybodol o'r gwahanol safbwyntiau o'u cwmpas gan ddysgu i fod yn fwy sensitif i anghenion eraill.

Gwefan CBeebies yw un o safleoedd ar-lein y BBC yr ymwelir ag ef fwyaf o hyd – gydag ychydig dros 780,000 o ymwelwyr yn y DU bob wythnos – ac mae'n rhan annatod o'n brand. Byddwn yn parhau i ddefnyddio a datblygu llwyfannau rhyngweithiol i annog y gynulleidfa i ymgysylltu fwy â'r hyn a gynigir ganddi, yn benodol drwy gomisiynu cyfres llythrennedd llawn hwyl o ansawdd uchel.

Un o flaenoriaethau allweddol y flwyddyn nesaf yw ymdrin ag argymhellion arolwg Ymddiriedolaeth y BBC o'n gwasanaeth ac ystyried opsiynau ar gyfer dyfodol radio CBeebies drwy archwilio gwahanol fodelau ar gyfer creu a dosbarthu cynnwys sain.





# MAE SIANEL BBC HD YN CYNNIG AMSERLEN RHAGLENNU GENRE CYMYSG AR FFORMAT MANYLDER UWCH (HD), Y CYNHYRCHWYD Y RHAN FWYAF OHONO YN WREIDDIOL GAN SIANELAU TELEDU ERAILL Y BBC – BBC ONE, BBC TWO, BBC THREE, BBC FOUR, CBEEBIES, CBBC A BBC RED BUTTON – AC RYDYM NAILL AI'N CYD-DDARLLEDU AR YR UN PRYD Â HWY NEU FEL AILDDARLLEDIAD.

Uchaf: Dangoswyd *A History of Scotland*, gan BBC Scotland, ar y rhwydwaith ar BBC Two a BBC HD.

Gwaelod 1: Chwaraeodd Kenneth Branagh y prif gymeriad yn y ddrama dditectif o Sweden, *Wallander*.

Gwaelod 2: Cyflwynwyd *Euro: 2008* gan Gary Lineker a chydweithwyr o Awstria a'r Swistir.

Gwaelod 3: Ymhlith comedi newydd y BBC eleni roedd *Beautiful People*.

ORIAU DYDDIOL
9

COST FESUL AWR GWYLIWR
7.0c

- **Dyma flwyddyn weithredu lawn gyntaf y sianel; cyrhaeddwyd y targed o wasanaeth naw awr y dydd ym mis Mawrth 2009 ac erbyn hynny roeddem wedi cyflawni cyfartaledd cyrhaeddiad wythnosol 15 munud o 528,000.**
- **Y gost fesul awr defnyddiwr ar gyfer y gwasanaeth oedd 7.0c (2008: dd/g).**

Dyfarnwyd ein trwydded gwasanaeth ym mis Ebrill 2008. Nid oedd gennym unrhyw flaenoriaethau o ran y drwydded gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn, ond roedd gennym ran i'w chwarae wrth sicrhau bod perthnasedd ac apêl rhaglenni sianelau teledu'r BBC yn cael eu cynnal wrth i ddisgwyliadau defnyddwyr o ran cynnwys HD gynyddu.

Yn ystod y flwyddyn, ein ffocws oedd:

## CEFNOGI RHAGLENNU GWREIDDIOL O ANSAWDD UCHEL

Roedd ein hallbwn yn cwmpasu pob genre teledu, o ddrama i raglenni dogfen, ffilm i gomedi, plant i chwaraeon, adloniant i ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol o bwys.

Ymhlith ein rhaglenni roedd sioeau adloniant nos Sadwrn megis *Strictly Come Dancing, I'd Do Anything*, a *Last Choir Standing*. Llwyddwyd hefyd i ddarlledu sawl carreg filltir allweddol am y tro cyntaf, gan gynnwys darllediadau byw o seremoni derbyn arlywydd yr UD.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae BBC HD wedi denu mwy na 9% o'r holl wylwyr mewn cartrefi sy'n gallu derbyn gwasanaeth HD ar gyfer rhaglenni fel *Hustle* a *Nature's Great Events*. Ymhlith uchafbwyntiau eraill roedd *Tiger Spy in the Jungle* a *Yellowstone* ym maes byd natur, ac ym maes drama *Wallander, Tess, Diary of Anne Frank* ac, i blant, *Dustbin Baby*. Cynigiwyd darllediadau llawn o bob un o ddeg Prom BBC Two, yn ogystal ag amrywiaeth o *Electric Proms* (cyfanswm o saith), a seremonïau coffa mis Tachwedd.

Roedd gan chwaraeon le blaenllaw yn amserlen yr haf, gyda Wimbledon, Pencampwriaethau Pêl-droed Ewrop, y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd. Enillodd ein darllediadau o'r Gemau Olympaidd yn Beijing wobr rhaglen HD y flwyddyn 2008.

## MEITHRIN TALENT O'R DU

Cefnogwyd comisiynau newydd fel *Being Human* gan BBC Three a chomedïau fel *Freezing, Beautiful People* a *Trexx and Flipside*. Rydym wedi darlledu rhaglenni a gynhyrchwyd ymhob cwr o'r DU: *Saxondale* a *Massive* (Manceinion), *Gardener's World* a *Doctors* (Birmingham) ac *A Question of Genius* ac *A History of Scotland* (Glasgow), gydag un rhifyn ohoni ymhlith y rhaglenni a wyliwyd fwyaf yr wythnos honno.

Bydd BBC HD yn gweithio i ehangu amrywiaeth y cynnwys sydd ar gael ar ffurf HD yn y DU, gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd ffeithiol ac adloniant ffeithiol. Rydym yn anelu at barhau i wella cyrhaeddiad BBC HD, a byddwn yn lansio'r sianel ar lwyfan Freeview cyn gynted ac y caiff y broses uwchraddio technolegol ei chwblhau.









MAE BBC ALBA YN CYNNIG DARLLEDIADAU UNIGRYW O BYNCIAU MOR AMRYWIOL Â CHERDDORIAETH GYFOES A THRADDODIADOL FYW, PÊL-DROED A RHAGLENNU PLANT. MAE RHAGLENNU A GYNHYRCHIR YN FEWNOL YN ADLEWYRCHU AC YN ATEGU DIWYLLIANT, HUNANIAETH AC ETIFEDDIAETH GAELEG I SIARADWYR YR IAITH AC I'R RHEINI SY'N EI DYSGU (NEU SYDD O BOSIBL YN AWYDDUS I'W DYSGU).

MAE HEFYD YN DARLLEDU RHYWFAINT O DDEUNYDD ARCHIF.

CYRHAEDDIAD

4%

COST FESUL AWR GWYLIWR

29.4c


- **Lansiwyd BBC ALBA ym mis Medi 2008, a chyflawnodd gyrhaeddiad wythnosol o 4% yn yr Alban, gyda chynulleidfa gyfartalog o 220,000. Bydd ffigurau blynyddol llawn ar gyfer y gynulleidfa ar gael ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2009/10.**
- **Cost gyfartalog fesul awr gwyliwr BBC ALBA ar gyfer y cyfnod y bu'n darlledu oedd 29.4c.**

Nid oedd gennym unrhyw flaenoriaethau penodol o ran y drwydded gwasanaeth ar gyfer 2008/09. Ein blaenoriaeth busnes eleni oedd sefydlu'r gwasanaeth ymhlith ein cynulleidfa darged graidd, gyda'n harlwy unigryw o newyddion dyddiol a chynnwys i wylwyr iau.

Caiff ein bwletin newyddion 30 munud, An Là, ei ddarlledu bob nos yn ystod yr wythnos gan gynnig darllediadau cynhwysol i wylwyr o ddigwyddiadau yn yr Alban, y DU a'r byd.

Cynigiodd ein rhaglennu i blant – sydd hefyd yn dyblu fel cynnwys dysgu i wylwyr iau – a rhaglenni dwyieithog, fel *Cuide ri Cathy*, bwynt mynediad gwerthfawr i siaradwyr newydd a'r rheini sy'n awyddus i ddysgu'r iaith. O ganlyniad i'r cyswllt rhwng radio, teledu ac adnoddau ar-lein Gaeleg, cynigiwyd rhaglenni a chynnwys cyfoethog unigryw i gynulleidfaoedd.

Wrth anelu at gyrhaeddiad wythnosol o 250,000 – o siaradwyr rhugl i ddechreuwyr – byddwn yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth eang o agweddau ar fywyd a diwylliant Gaeleg yn ein rhaglennu a'n cynnwys yn ystod 2009/10. Bydd cyfresi ffeithiol a rhaglenni dogfen ar steil, megis *Trusadh*, yn cynnwys straeon personol o gymunedau ledled y wlad; a bydd cerddoriaeth, yn fyw ac wedi'i recordio, o wyliau cerddorol allweddol yn cynnwys bandiau a cherddorion sefydledig a newydd, yn rhan amlwg o'r amserlenni, gan geisio cysylltu â diddordeb ein cynulleidfaoedd mewn allbwn a thalent gerddorol o'r Alban.







Uchaf: Archwiliodd *A Rèir na h-Aimsir* y gydberthynas rhwng yr Alban a'r tywydd.

Canol: '*Eilbhis*', drama wreiddiol wedi'i lleoli yn Lewis yn y 1970au, rhan o'n harlwy ar y noson agoriadol.

Gwaelod chwith: Dangoswyd darllediadau byw o Gwpan Her ALBA, yn cynnwys y gêm gynderfynol rhwng Airdrie United a Partick Thistle (dangosir y chwaraewyr yma gyda'r cyflwynydd Evelyn Coull). Aeth Airdrie ymlaen i ennill y cwpan.

Gwaelod dde: Roedd *Rapal* yn dangos talent gerddorol orau'r Alban, gan gynnwys y band addawol Frightened Rabbit.

# OFCOM/

## YN OGYSTAL Â BOD YN ATEBOL I DALWYR FFI'R DRWYDDED DRWY YMDDIRIEDOLAETH Y BBC, MAE TELEDU'R BBC HEFYD YN DDAROSTYNGEDIG I NIFER O GWOTÂU CYNHYRCHU RHAGLENNI GAN OFCOM, SY'N GOLYGU BOD YN RHAID I NI BWYSO A MESUR LLAWER O FFACTORAU WRTH I NI GEISIO CYFLAWNI'R GWERTH GORAU I DALWYR FFI'R DRWYDDED A CHYFLAWNI RHWYMEDIGAETH REOLIADOL AR YR UN PRYD.

Tabl 7/ **Gwariant rhaglennu teledu fesul Rhanbarth fel % o'r gwariant cymwys**

| | 2008 | 2007 |
|---|---|---|
| Llundain | **65.1%** | 67.4% |
| Yr Alban | **3.7%** | 3.3% |
| Cymru | **3.6%** | 2.7% |
| Gogledd Iwerddon | **0.6%** | 0.4% |
| Cyfanswm y Gwledydd | **7.9%** | 6.4% |
| Canolbarth Lloegr | **3.9%** | 4.1% |
| Gogledd Lloegr | **8.9%** | 10.2% |
| De Lloegr | **14.2%** | 11.9% |
| Cyfanswm y Rhanbarthau | **27.0%** | 26.2% |
| Cyfanswm y Gwledydd a'r Rhanbarthau | **34.9%** | 32.6% |
| **Cyfanswm y Sail Ranbarthol** | **100.0%** | 100.0% |

Yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom, fesul blwyddyn galendr.


Tabl 8/ **Cwotâu Haen 2 Ofcom**

| | Cwota | 2008 Gwirioneddol |
|---|---|---|
| **Cwota cynyrchiadau annibynnol** | | |
| Oriau o raglenni cymwys ar draws pob sianel | 25% | **37%** |
| Oriau o raglenni cymwys ar BBC One | 25% | **31%** |
| Oriau o raglenni cymwys ar BBC Two | 25% | **45%** |
| **Gwneud rhaglenni rhanbarthol** | | |
| Gwariant ar raglenni cymwys | 30% | **35%** |
| Oriau o raglenni cymwys | 25% | **33%** |
| **Rhaglenni newyddion a materion cyfoes y rhwydwaith** | | |
| Oriau o Newyddion ar BBC One | 1,380 | **1,557** |
| Oriau o Newyddion ar BBC One yn ystod oriau brig | 275 | **276** |
| Oriau o faterion cyfoes ar BBC One a BBC Two | 365 | **520** |
| Oriau o faterion cyfoes ar BBC One a BBC Two yn ystod oriau brig | 105 | **111** |
| **Lefelau Cynyrchiadau Gwreiddiol** | | |
| BBC One | 70% | **86%** |
| BBC One yn ystod oriau brig | 90% | **99%** |
| BBC Two | 70% | **82%** |
| BBC Two yn ystod oriau brig | 80% | **95%** |
| BBC Three | 70% | **86%** |
| BBC Three yn ystod oriau brig | 70% | **78%** |
| BBC Four | tua 70% | **84%** |
| BBC Four yn ystod oriau brig | 50% | **81%** |
| CBeebies | tua 80% | **81%** |
| Sianel CBBC | 70% | **79%** |
| BBC News 24 | 90% | **97%** |
| BBC Parliament | 90% | **97%** |
| **Rhaglennu Rhanbarthol** | | |
| Oriau o raglennu rhanbarthol | 6,580 | **7,212** |
| Oriau o raglenni a wnaed yn yr ardal berthnasol | 95% | **99.9%** |
| Oriau o raglenni newyddion BBC One | 3,920 | **4,799** |
| Oriau o raglenni newyddion BBC One yn ystod oriau brig | 2,010 | **2,355** |
| Oriau o raglennu nad yw'n rhaglennu newyddion yn ystod oriau brig | 1,030 | **1,060** |
| Pob rhaglen nad yw'n rhaglen newyddion a ddarlledir yn agos at oriau brig | 355 | **375** |

Rhagorwyd ar ein holl gwotâu Ofcom unwaith eto y llynedd. Noder, fodd bynnag, mai asesiad y BBC ei hun yw'r ffigurau hyn. Bydd Ofcom yn cyflwyno adroddiad ffurfiol ar ein perfformiad yn ei Arolwg o'r Farchnad Gyfathrebu 2009 y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Siart 2/ **Cyrhaeddiad teledu rhwydwaith o gymharu â'r prif grwpiau o gystadleuwyr %**

Mae gan y DU sector darlledu teledu deinamig, ac nid oes un darlledwr unigol yn meddu ar le blaenllaw yn y farchnad ar draul darlledwyr eraill. Mae cynulleidfaoedd yn y DU yn disgwyl – ac yn gwerthfawrogi – dewis ac ansawdd, ac yn arddel y dewis hwnnw.




Noder: Gellir gweld Perfformiad yn erbyn Datganiadau o Bolisi Rhaglenni 2008/09 ar y wefan www.bbc.co.uk/annualreport

# TELEDU'R BBC NAD YW'N RHWYDWAITH/




## BBC ONE

Mae'r BBC yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd yn cynnig gwasanaethau cenedlaethol wedi'u teilwra'n well i wylwyr. Bob wythnos, caiff rhaglenni eu gwneud gan y tair gwlad i ategu amserlen rhwydwaith BBC One o ran natur unigryw, ehangder ac ansawdd – ond sydd wedi'u cynllunio i adlewyrchu ac ategu diwylliant cenedlaethol y genedl. Mae'r rhaglenni hyn yn disodli cynnwys sydd ar gael fel arall ar rwydwaith BBC One.

Disgwylir i'r tair gwlad gyflawni disgwyliadau trwydded gwasanaeth genedlaethol. Ysgrifennir y trwyddedau hyn i sicrhau bod arlwy ein Gwledydd yn parhau'n gyson bob blwyddyn, a'i fod yn adlewyrchu'r materion a'r datblygiadau allweddol sy'n effeithio ar fywydau cynulleidfaoedd yno. Y llynedd, y blaenoriaethau penodol a nodwyd ar gyfer BBC One yn y Gwledydd oedd:

### Yr Alban: prosiect hanes

Gwyliodd traean o'r bobl sy'n byw yn yr Alban (1.6 miliwn) y gyfres deledu nodedig *A History of Scotland*. Fe'i cynhyrchwyd mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored, a denodd gynulleidfa gyfartalog o 526,000 a gwyliodd 210,000 arall yr ailddarllediad ar nos Sul. Darlledwyd y gyfres hefyd ar rwydwaith BBC Two ddechrau 2009 a denodd pob un o'r pum rhifyn gyfartaledd o fwy na dwy filiwn o wylwyr, gan olygu mai dyma oedd un o sioeau rhwydwaith mwyaf poblogaidd y sianel ar nos Sadwrn ers dechrau'r flwyddyn. Ategwyd y gyfres gan deledu i ysgolion, cyngherddau gan Gerddorfa Symffoni'r Alban y BBC, rhaglenni radio a gwefan ategol, yn cynnwys canllawiau sain o amgylch safleoedd o ddiddordeb hanesyddol a chlipiau fideo o archif rhaglenni cyfoethog BBC Scotland.

Y flwyddyn nesaf mae ein blaenoriaethau yn cynnwys darlledu mwy o newyddion busnes, a darllediadau o etholiadau'r DU ac Ewrop, yn ogystal â ffocws ar ddatblygu a darlledu comedi a drama newydd.

### Cymru: hyrwyddo dysgu i gynulleidfaoedd eang

Yn 2007, llwyddodd *Coal House* i ddal dychymyg ein gwylwyr. Y llynedd, ehangwyd hyn gennym wrth i *Coal House at War* ddod â chymuned lofaol yn ne Cymru yn 1944 i fywyd a chyflwyno hanes modern mewn ffordd hygyrch i gynulleidfaoedd o bob oedran. Fe'i darlledwyd bedair gwaith yr wythnos am gyfnod o dair wythnos ac roedd y gyfres yn arbennig o lwyddiannus yn denu teuluoedd ifanc.

Yn y gyfres wythnos o hyd *Hospital 24/7*, agorodd BBC Cymru ddrysau'r ysbyty athrofaol mwyaf yng Nghymru, gan ddatgelu'r personoliaethau a'r arbenigwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd craidd yng Nghymru.

Gan edrych ymlaen at 2009/10, mae ein blaenoriaethau yn cynnwys drama newydd cyn y trothwy i ddenu proffil cynulleidfa ehangach a pharhau i weithredu fel pwerdy ar gyfer talent newydd.

### Gogledd Iwerddon: darlledu o Gynulliad Gogledd Iwerddon a materion gwleidyddol

Adlewyrchwyd agenda newyddion gyfnewidiol ac weithiau cymhleth gennym, gan gynnwys gwaith Cynulliad Gogledd Iwerddon. Edrychodd ein cyfres materion cyfoes ymchwiliol *Spotlight* ar effaith y dirwasgiad economaidd ac i ba raddau y mae cymunedau wedi'u rhannu o hyd, gan gynnwys adroddiad arbennig ar y bobl a gafodd eu saethu'n farw yn Antrim a Craigavon. Gwellodd *BBC Newsline* ei chyfran o'r gynulleidfa a chyflwynodd nifer o adroddiadau thema ar faterion a phryderon cymdeithasol – rhai ohonynt yn themâu a awgrymwyd gan aelodau ei e-banel. Parhaodd sgoriau gwerthfawrogiad y gynulleidfa ar gyfer *BBC Newsline* yn gyson uwch na'r rheini a gyflawnwyd gan raglenni newyddion cymharol. Darparwyd 491 awr o newyddion a materion cyfoes ar y teledu gennym yn 2008/09.



Tabl 9/ **Holl wariant teledu'r BBC y tu allan i Lundain – Rhwydwaith a'r Gwledydd a'r Rhanbarthau**

Dengys y tabl ein gwariant ar raglenni teledu'r BBC a wneir yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau.

| | **08/09 £m** | 07/08 £m |
|---|---|---|
| Lloegr | **329** | 339 |
| Gogledd Iwerddon | **36** | 36 |
| Yr Alban | **98** | 97 |
| Cymru | **53** | 60 |
| | **516** | 532 |



"MAE'N FRAINT GWNEUD RHAGLENNI I'N GWYLWYR GAN DDEFNYDDIO'R DALENT LEOL ORAU A THALENT LEOL NEWYDD SY'N DOD I'R AMLWG. RYDYM YN CEFNOGI CREADIGRWYDD LLEOL AC YN DARPARU HYFFORDDIANT SGILIAU ER MWYN EHANGU EIN SAIL TALENT GENEDLAETHOL."
MENNA RICHARDS, CYFARWYDDWR, BBC CYMRU

### Gogledd Iwerddon: adlewyrchu newidiadau ac amrywiaeth Gogledd Iwerddon

Archwiliwyd digwyddiadau'r gorffennol agos gennym mewn rhaglenni dogfen am y ddihangfa o garchar Maze a sefydlu'r mudiad hawliau sifil yn 1968. Darlledwyd y rhaglenni hyn fel rhan o amserlen deledu newydd a oedd yn cynnwys rhaglennu lleol nodedig yn ystod oriau brig. Ceisiodd comisiynau eraill adlewyrchu amrywiaeth bywyd cymunedol ac yn eu plith roedd portread hoffus o grŵp o blant a'u brwdfrydedd tuag at ddawnsio disgo yn *Disco Babes*, a *Season Ticket Special* ar gystadleuwyr Olympaidd lleol a *Dying for a Drink* a edrychodd ar faterion sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a'r gost i unigolion a chymdeithas. Cyflawnodd ein rhaglennu lleol nad oedd yn newyddion i gynulleidfaoedd teledu'r BBC yng Ngogledd Iwerddon gyfran gyfartalog o 28.1% – cynnydd bach ar gyfran 2007/08.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn archwilio amrywiaeth eang o faterion a datblygiadau gwleidyddol ac anwleidyddol ar draws ein rhaglennu newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys effeithiau parhaus y Trafferthion, addysg leol, rhieni yn eu harddegau a hunanladdiad.

## BBC TWO

Mae BBC Two yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhaglennu wedi'i dargedu sy'n diwallu anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd lleol ar draws yr amrywiaeth o genres. Y llynedd, dim ond gan BBC Scotland yr oedd blaenoriaeth benodol ar gyfer BBC Two:

### Yr Alban: rhaglenni lles ar gyfer pobl dros 50 oed

Mewn menter rhaglen arloesol, crëwyd partneriaeth gyda'r Gronfa Loteri Fawr i gynhyrchu *PrimeTime*, cyfres chwe rhan i ddathlu a hybu iechyd a lles i bobl dros 50 oed yn yr Alban. Gyda £3miliwn ar gael i'r prosiectau mwyaf haeddiannol, gwnaeth 150 o grwpiau o bob cwr o'r Alban gais: cyrhaeddodd 18 ohonynt y rownd derfynol gyda chwech yn cael eu dewis bryd hynny drwy bleidlais gan y cyhoedd. Fe'i hategwyd gan ymgyrch llythrennedd arbennig yn y cyfryngau a denodd y gyfres gynulleidfa wythnosol gyfartalog o 75,000.

## RHAGLENNI NAD YDYNT AR GAEL UNRHYW LE ARALL

Darparodd pob un o'r gwledydd hefyd amrywiaeth eang o raglenni – o'r celfyddydau i ddrama, o berfformiadau byw i hanes, o gomedi i wleidyddiaeth – a lwyddodd i ymgysylltu â'u gwylwyr a'u plesio ar draws pob un o'n sianelau a'n gwasanaethau.

Yn yr Alban, denodd y gyfres tair rhan *World According to Robert Burns* gynulleidfa gyfartalog o 180,000, ac fe'i canmolwyd gan y gwylwyr, y dywedodd sawl un ohonynt wrthym fod y gyfres yn wreiddiol ac yn wahanol. Roedd yn rhan o ddathliad BBC Scotland o 250 mlynedd ers geni'r bardd a oedd yn cynnwys rhaglen ddogfen gomedi ffug a chyngerdd Burns Celtic Connections ar BBC One Scotland, rhaglennu arbennig ar Radio Scotland a'r recordiadau sain cyntaf a wnaed i archif ar-lein o fwy na 600 o ddarnau o farddoniaeth gan Burns, gyda chyfraniadau gan Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, y Prif Weinidog ac enwogion eraill.







**"MAE'R BBC YN DARPARU GWASANAETHAU CYNHWYSFAWR YMHOB GWLAD SY'N EDRYCH AR Y BYD O SAFBWYNT A RENNIR GYDA'U CYNULLEIDFAOEDD. RYDYM YN ADLEWYRCHU EIN RHAN NI O'R DU YN ÔL IDDI HI EI HUN."**
KEN MACQUARRIE, CYFARWYDDWR, BBC SCOTLAND

Yng Nghymru, archwiliodd ein tymor ar blentyndod *What Are We Doing to Our Kids?* amrywiaeth o faterion cymdeithasol cyfoes, ac roedd yn cynnwys y gyfres *Changing Lives* lle y newidiodd brodyr a chwiorydd yn eu harddegau gartrefi am wythnos, gan amlygu'r ffyrdd gwahanol o ymdrin â disgyblaeth, diet a gwaith tŷ. Amlygodd y rhaglen ddogfen oriau brig, *One Family in Wales*, yr effaith ddinistriol y mae tlodi yn aml yn ei chael ar blentyndod a lefelau uchelgais personol. Gwyliodd chwarter miliwn o bobl yng Nghymru y rhaglen heriol hon. Dychwelodd y comedi sefyllfa wedi'i leoli yng Nghymoedd y De *High Hopes*, a ysgrifennwyd gan Boyd Clack, ac roedd cyfres olaf y ddrama hirsefydledig *Belonging* yn boblogaidd unwaith eto.

Mae tirlun a hanes Cymru yn bwysig i'n cynulleidfa fro, a'r llynedd archwiliwyd *Secret Wales* gennym ac adlewyrchodd *Big Country* fywyd yn ardal tri pharc cenedlaethol Cymru. Dilynodd Terry Jones o Monty Python drywydd John Ogilby – ef oedd y dyn a gynhyrchodd atlas ffyrdd cyntaf y byd yn 1675 – drwy Gymru. Gan ddefnyddio technoleg newydd ac amrywiaeth o arbenigwyr, cloddiwyd haenau o gefn gwlad Cymru i amlygu ambell i ryfeddod yn *Hidden Histories*.

Datblygodd BBC Northern Ireland gyfres newydd i blant ifanc yn seiliedig ar themâu amrywiaeth a datblygiad personol. Daeth prosiect *The Sesame Tree* i'n sgriniau mewn partneriaeth â Sesame Street Workshop ac fe'i cynhyrchwyd gan gwmni annibynnol lleol, Sixteen South. Ymhlith darllediadau eraill a oedd yn gysylltiedig â dysgu roedd *Na Doai*, cyfres Wyddelig i blant 3 i 5 oed.

Daeth darllediadau Gwyddelig yn rhan fwy cyson o'n hamserlen min nos yn ystod yr wythnos gan gynnwys cymysgedd o ddrama a rhaglenni ar ffurf cylchgrawn. Ymhlith darllediadau Ulster-Scots roedd cyfres arall o *A Dander with Drennan*. Mae ein holl raglennu yn y maes hwn yn adlewyrchu'r ymrwymiadau ychwanegol a ddeilliodd o arolwg gan Ymddiriedolaeth y BBC.

Ymdriniwyd â gwaith Cynulliad Gogledd Iwerddon a datblygiadau gwleidyddol lleol fel rhan o *Stormont Live* ac o fewn *Hearts and Minds*. Erys ei chyfuniad o adroddiadau, cyfweliadau estynedig a sylwadau gan gyfranwyr yn boblogaidd gyda chynulleidfaoedd lleol ac mae'n cyrraedd cynulleidfa eilaidd wrth iddi gael ei hailddarlledu'n ddiweddarach ar BBC One.

Rhoddwyd llwyfan i dalent, syniadau rhaglenni a thechnegau cynhyrchu newydd yn y slot 10pm ar nos Wener, fel rhan o'n hymrwymiad i gyrraedd cynulleidfaoedd ifancach gyda rhaglennu sy'n adlewyrchu eu bywydau a'u diddordebau ac sy'n rhoi cyfle i dalent newydd ac arloesedd. Cynyddodd cyfran y slot ymhlith pobl ifanc 16 i 24 oed o 4.1% i 4.6%.

Mae gan y BBC wahanol flaenoriaethau ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Nodir rhai ohonynt isod. I gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau ymhob Gwlad, neu i gael y newyddion, y tywydd a'r wybodaeth ddiweddaraf am chwaraeon, ewch i'w gwefannau.

Yn ystod y flwyddyn nesaf:

Bydd BBC Scotland yn ceisio ymdrin â thanberfformiad bach o ran cyfran eleni ar BBC Two gyda rhaglennu y gall ein cynulleidfaoedd yn yr Alban uniaethu'n agos ag ef, gan gynnwys rhaglenni dogfen *The Scots Who Made the Modern World*, *The Lighthouse Stevensons* a *Walking Wounded*, a fydd yn dilyn straeon personol unigolion o'r Alban sydd newydd ddychwelyd o ryfel wrth iddynt geisio ailgartrefu yn y gymdeithas. Bydd comedi a drama newydd hefyd yn rhan o'r amserlenni a byddwn yn ehangu ein hamrywiaeth o ddarllediadau chwaraeon gyda rhaglenni fel *Sport Monthly*.


Gweler www.bbc.co.uk/scotland

Crëwyd cyfres BBC Cymru *Telly Tales*, a gydgomisiynwyd gyda CBeebies, gan blant i blant. Mae'n defnyddio animeiddio arloesol a thechnegau actio byw i gyflwyno chwedlau poblogaidd o bob cwr o'r byd i blant yr oes sydd ohoni. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd pellach i arloesi.

Gweler www.bbc.co.uk/wales









Bydd BBC Northern Ireland yn ceisio atgyfnerthu datblygiadau diweddar i'r broses amserlennu a chynnal amrywiaeth ac apêl ein rhaglennu ieithoedd lleiafrifol brodorol. Bydd *Stormont Live* yn parhau yn rhan bwysig o'n hallbwn a chaiff ei hategu gan ddatblygiadau mewn perthynas â phrosiect *Digital Democracy* y BBC. Caiff talent comedi leol ei darlledu mewn cyfres deledu newydd a byddwn yn parhau i archwilio sut y gall BBC Two hwyluso rhaglennu newydd ac arloesol wedi'i anelu at gynulleidfaoedd mwy arbenigol.

Gweler www.bbc.co.uk/northernireland

## BBC CYMRU AR S4C

Rydym yn cyfrannu mwy na deg awr o raglennu i S4C bob wythnos. Ymhlith yr uchafbwyntiau eleni roedd:

Cynyddodd cynulleidfaoedd y gwasanaeth newyddion dyddiol *Newyddion* a *Ffeil* (newyddion i blant).

Denodd *Pawb a'i Farn* gyfartaledd o 36,000 o wylwyr: addaswyd y fformat i'w gyflwyno ar Radio Cymru.

131 awr o'r *Eisteddfod Genedlaethol*, gan gynnwys rhywfaint o gynnwys botwm coch. Roedd pob rhaglen o fewn yr 20 o raglenni a wyliwyd fwyaf yn ystod yr wythnos ar S4C gan y BBC.

Y ddrama ddyddiol *Pobol y Cwm* yw rhaglen fwyaf poblogaidd S4C o hyd – cyrhaeddodd cynulleidfaoedd yn ystod yr wythnos eu lefelau uchaf ers chwe blynedd (50,000).

Yn *America 08: Dewi Llwyd ar Daith*, teithiodd y cyflwynydd *Newyddion* ar draws UDA i drafod yr Etholiad Arlywyddol gydag Americanwyr a oedd yn siarad Cymraeg.

Ymhlith rhaglennu newydd i blant roedd y cylchgrawn *Mosgito* a fersiwn o Mastermind i blant o'r enw *Mastermind Plant Cymru*, gyda'r gadair ddu a'r fformat cyfarwydd.

Lansiwyd y rhyngwyneb Cymraeg i BBC iPlayer, gan gynnig y rhan fwyaf o'n rhaglenni teledu Cymraeg ar ôl slot saith diwrnod unigryw S4C.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, caiff y ddarpariaeth newyddion ei hehangu i ddarparu gwasanaeth newyddion rheolaidd drwy gydol y dydd gyda bwletinau dyddiol a min nos ychwanegol.



Tabl 10/ **Oriau allbwn teledu rhwydwaith a theledu lleol y BBC gan y gwledydd a'r rhanbarthau**

Mae'r tabl yn nodi lle y gwnaed ac y darlledwyd rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol yn ystod 2008/09.

| | **Llundain (ER yn unig)** | | **Lloegr (heb gynnwys Llundain)** | | **Gogledd Iwerddon** | | **Yr Alban** | | **Cymru** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2008/09** | 2007/08 | **2008/09** | 2007/08 | **2008/09** | 2007/08 | **2008/09** | 2007/08 | **2008/09** | 2007/08 | **2008/09** | 2007/08 |
| **Darllediad Cyntaf: Rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol Rhwydwaith** | | | | | | | | | | | | |
| BBC | **–** | – | **844** | 963 | **9** | 10 | **193** | 139 | **74** | 92 | **1,120** | 1,204 |
| Cwmnïau annibynnol | **–** | – | **848** | 948 | **5** | 21 | **50** | 93 | **27** | 15 | **930** | 1,077 |
| BBC ALBA yn fewnol | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **194** | – | **–** | – | **194** | – |
| BBC ALBA cwmnïau annibynnol | **–** | – | **–** | – | **–** | – | **394** | – | **–** | – | **394** | – |
| Is-gyfanswm | **–** | – | **1,692** | 1,911 | **14** | 31 | **831** | 232 | **101** | 107 | **2,638** | 2,281 |
| **Darllediad Cyntaf: Rhaglenni a gynhyrchwyd yn fewnol Y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | | | | | | | | | | | | |
| BBC | **316** | 314 | **3,797** | 3,760 | **564** | 556 | **657** | 723 | **580** | 642 | **5,914** | 5,995 |
| Cwmnïau annibynnol | **13** | 13 | **54** | 61 | **98** | 101 | **152** | 134 | **140** | 124 | **457** | 433 |
| Is-gyfanswm | **329** | 327 | **3,851** | 3,821 | **662** | 657 | **809** | 857 | **720** | 766 | **6,371** | 6,428 |
| Cyfanswm | **329** | 327 | **5,543** | 5,732 | **676** | 688 | **1,640** | 1,089 | **821** | 873 | **9,009** | 8,709 |

Noder: yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom ac felly nid yw'n cynnwys cynyrchiadau Newyddion a Thramor.

# RADIO/



"HYD YN OED MEWN BYD O DDEWIS CYNYDDOL, MAE EIN FFOCWS AR ANSAWDD EITHRIADOL YN GOLYGU BOD RADIO'R BBC YN PARHAU'N RHAN BWYSIG O FYWYDAU MILIYNAU O BOBL AC YN GREIDDIOL I'N DIWYLLIANT."

TIM DAVIE, CYFARWYDDWR SAIN A CHERDDORIAETH

# SUT Y GWNAETHOM Y LLYNEDD

| METRIG | SUT Y GWNAETH EIN GWASANAETHAU[1] | BETH Y MAE HYN YN EI OLYGU |
|---|---|---|
| CYRHAEDDIAD | 66% | Mae dwy ran o dair (66%) o'r holl wrandawyr radio yn gwrando ar radio'r BBC bob wythnos – mae tua un o bob pedwar yn gwrando ar Radio 4, ein gwasanaeth radio llafar mwyaf unigryw a'r comisiynydd drama wreiddiol mwyaf yn y byd fesul oriau: 661 awr y llynedd. Cynyddodd cynulleidfa Radio 3 ychydig i ddwy filiwn y llynedd. |
| ANSAWDD | 48% | Cafodd bron hanner (48%) yr holl raglenni ar radio'r BBC (gan gynnwys allbwn ar wasanaethau radio'r gwledydd a radio lleol) sgôr gwerthfawrogiad uchel o 80 neu fwy, sef cynnydd o 42% y flwyddyn flaenorol. |
| EFFAITH | 115 | Enillodd gwasanaethau radio, cerddorfeydd a chyflwynwyr y BBC lu o wobrau'r llynedd – dros 115 i gyd – gan gynnwys Gwobr Walpole am ddarllediadau Radio 3 o'r Proms a Gwobr The Midem Opera am recordiad Cerddorfa Symffoni'r BBC o *The Excursion of Mr Broucek* gan Janáček. Enillodd Simon Mayo wobr Darlledwr Radio'r Flwyddyn y Broadcasting Press Guild, a Radio 4 oedd Gorsaf y Flwyddyn y DU Sony. |
| GWERTH | 1.6c | Y gost gyfartalog fesul awr gwrandäwr (nifer yr oriau o raglenni wedi'u rhannu â nifer yr oriau gwrandäwr) ar draws ein portffolio sianelau radio yw 1.6c. Ein gwasanaethau drutaf, yn ôl y metrig hwn, yw'r gwasanaethau iaith cenedlaethol pwysig ac unigryw Radio nan Gàidheal a Radio Cymru; y rhataf – er gwaethaf y swm o gerddoriaeth fyw a gynigir ganddynt – yw'r gorsafoedd poblogaidd Radio 2 a Radio 1. |

[1] Mae'r ffigurau yn seiliedig ar wasanaethau, yn unol â'r system trwyddedau gwasanaeth a gaiff ei monitro gan Ymddiriedolaeth y BBC.



# RADIO/

## ROEDD 2008/09 YN FLWYDDYN GREF I RADIO RHWYDWAITH Y BBC, GYDA BRON 60% O'R HOLL OEDOLION YN Y DU (29.8 MILIWN) YN GWRANDO AM O LEIAF 15 MUNUD BOB WYTHNOS.



Mae cysondeb y perfformiad hwn o gymharu â blynyddoedd blaenorol yn adlewyrchu'r cynnwys arbennig o ansawdd uchel a gynigiodd y BBC i gynulleidfaoedd ar draws ein portffolio yn ystod y flwyddyn.

Ymhlith uchafbwyntiau ein hallbwn yn ystod 2008/09 roedd tymor Proms llwyddiannus, dilyniant o raglenni ffeithiol nodedig ar BBC Radio 4 – gan gynnwys *Big Bang Day*, a ddarlledodd yn fyw o'r ystafell reoli yn CERN wrth i'r Large Hadron Collider gael ei gychwyn – ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol effaith uchel ar BBC Radio 1 a BBC 1Xtra, a gohebu manwl, hynod gynhwysfawr ar y sefyllfa economaidd yn y DU ac yn fyd-eang ar draws ein gorsafoedd. Cafodd BBC Radio 3 flwyddyn o raglennu nodedig gyda 600 o gyngherddau ac operâu llawn, a 40 o ddramâu newydd.

Erys gwireddu'r buddiannau aruthrol y gall gwrando digidol eu cynnig i gynulleidfaoedd yn flaenoriaeth allweddol i Radio Rhwydwaith y BBC. Mae ein gorsafoedd digidol wedi parhau i ddatblygu ac mae deg miliwn o bobl bellach yn gwrando ar ein gwasanaethau drwy lwyfannau digidol bob wythnos. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein harlwy ar-lein a rhyngweithiol, gan integreiddio ein gwasanaethau radio i iPlayer a datblygu portffolio amrywiol o wasanaethau podledu gan gynnwys sioeau poblogaidd fel *Friday Night Comedy* Radio 4 yn ogystal ag eitemau fel y podlediad Arts and Ideas o *Night Waves* Radio 3. Y llynedd, llwythwyd cyfartaledd o 7.6 miliwn o bodlediadau i lawr bob mis yn y DU – a thua deg miliwn arall yn fyd-eang wrth i wrandawyr ymhob man gael mynediad i'r cynnwys sain llafar a cherddoriaeth gorau o'r DU.

Yn ystod y 12 mis nesaf a thu hwnt, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth mewn rhai achosion, byddwn yn cydweithredu gyda darparwyr cwmnïau radio masnachol ar amrywiaeth o brosiectau wedi'u hanelu at gynyddu'r farchnad a sicrhau bod gan radio yn gyffredinol lais yn amgylchedd y cyfryngau newydd.

Er enghraifft, byddwn yn gweithio i sefydlu chwaraewr radio ar-lein sy'n galluogi gwrandawyr i wrando ar yr holl radio a gynhyrchir yn y DU o un lleoliad penodol ar y we, a byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wella mynediad i'r chwaraewr drwy bartneriaethau â gwefannau eraill (megis safleoedd rhwydweithio cymdeithasol). Ar yr un pryd, bydd y BBC yn sefydlu fforwm diwydiant newydd gydag arweinwyr sector radio masnachol y DU. Byddwn yn defnyddio arbenigedd a thechnoleg y BBC er budd y sector cyfan a, gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i roi dewis gwrando amrywiol o ansawdd uchel i'n cynulleidfaoedd.

Yn gyffredinol, yn ystod 2008/09, mae radio rhwydwaith y BBC wedi parhau i hysbysu, addysgu a diddanu gwrandawyr gydag amrywiaeth ac ansawdd allbwn eithriadol, a byddwn yn parhau i ehangu ein huchelgais creadigol ar draws ein holl wasanaethau yn ystod y flwyddyn nesaf.

**_The Russell Brand Show_ ar Radio 2**

Cafwyd bron i 43,000 o gwynion mewn perthynas â dau rifyn o *The Russell Brand Show* yn ystod mis Hydref. Canfu Pwyllgor Safonau Golygyddol Ymddiriedolaeth y BBC y bu sawl achos difrifol o fynd yn groes i Ganllawiau Golygyddol y BBC. Yn dilyn ymchwiliad gan Ofcom, codwyd dirwyon o £80,000 (am dorri preifatrwydd heb awdurdod) a £70,000 (niwed a sarhad).

Ers hynny, cymerwyd camau ar draws y grŵp i atgyfnerthu rheolaethau golygyddol. Ymhlith y meysydd a ystyriwyd gennym mae:

- atgyfnerthu prosesau cydymffurfiaeth
- cymorth cynhyrchu ychwanegol mewn rhai meysydd cynhyrchu
- atebolrwydd a phrosesau atgyfeirio cliriach
- canllawiau newydd i gwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n eiddo i dalent
- hyfforddiant pwrpasol


Mae'r arolwg hwn yn mynd rhagddo a byddwn yn ailystyried pob un o'n prosesau yn rheolaidd.







**Siart 3/ Cyrhaeddiad radio'r BBC o gymharu â'r prif grwpiau o gystadleuwyr %**




* Bellach yn darlledu o dan frand Absolute.

**Tabl 11/ Oriau allbwn Radio Rhwydwaith y BBC yn ôl genre**


Dengys y tabl nifer yr oriau o bob genre a ddarlledwyd i gyd gan ein holl orsafoedd radio.

| | **2008/09** | 2007/08 |
|---|---|---|
| Cerddoriaeth | **40,626** | 40,540 |
| Newyddion a thywydd | **12,138** | 12,127 |
| Chwaraeon | **4,408** | 4,517 |
| Ffeithiol | **2,103** | 2,059 |
| Materion cyfoes | **2,542** | 2,511 |
| Drama | **4,529** | 4,660 |
| Y celfyddydau | **904** | 927 |
| Adloniant | **6,435** | 6,620 |
| Crefydd | **1,118** | 1,114 |
| Ysgolion | **128** | 168 |
| Plant | **1,484** | 1,373 |
| Cyflwyniadau | **2,000** | 2,084 |
| Rhaglenni eithrio i'r gwledydd | **286** | 258 |
| **Cyfanswm yr oriau** | **78,701** | 78,958 |

O ganlyniad i newidiadau yn y ffordd y dosberthir rhai rhaglenni adloniant, ailddatganwyd y cymaryddion.

Croesawyd arolwg y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o effeithlonrwydd prosesau cynhyrchu radio gennym y llynedd, a gydnabu ein bod eisoes wedi cyflawni rhai arbedion. Fodd bynnag, rydym yn benderfynol o wella effeithlonrwydd ymhellach, heb gyfaddawdu ansawdd ein rhaglenni. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar gynnydd i'r Ymddiriedolaeth yn hyn o beth y flwyddyn nesaf.





BBC RADIO 1

# NOD BBC RADIO 1 YW CYNNIG GWASANAETH O ANSAWDD UCHEL I GYNULLEIDFAOEDD IFANC GAN GYFUNO'R GERDDORIAETH NEWYDD ORAU, YSTOD GYNHWYSFAWR O SESIYNAU STIWDIO BYW, CYNGHERDDAU A GWYLIAU, AC ALLBWN LLAFAR WEDI'I DEILWRA.

CYRHAEDDIAD
21.3%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR
0.6C

- **Y llynedd, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog i'r orsaf oedd 21.3%/10.8 miliwn (2008: 21.5%/10.8 miliwn). Rydym yn chwarae rhan bwysig iawn wrth ymgysylltu cynulleidfaoedd ifancach â Radio'r BBC, ac roedd cyrhaeddiad ymhlith ein targed sef pobl ifanc 15 i 29 oed yn 42.4%.**
- **Y llynedd cafodd tua chwarter (23%) rhaglenni Radio 1 sgoriau gwerthfawrogiad uchel o 80+.**
- **Roedd y gost gyfartalog fesul awr gwrandäwr yn gyson, sef 0.6c (2008: 0.6c).**

Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn roedd:

## ARLOESEDD A CHREADIGRWYDD

Ymhlith prosiectau allweddol roedd *Radio 1 Presents Metallica*, arbrofion radio gweledol gan gynnwys ScottCam a *The Chris Moyles Show* yn ystod mis Ionawr, cyfleoedd i gyflwynwyr arbenigol gymryd yr awenau yn ystod ein darllediadau yn ystod y dydd dros Ŵyl y Banc, a chanolbwyntiodd rhaglenni dogfen *International Radio 1* ar gerddoriaeth a diwylliant cyfres o ddinasoedd a gwledydd tramor. Datblygwyd darllediadau mwy cynhwysfawr gennym am ffilmiau o'r DU a ffilmiau rhyngwladol yn sioe Edith Bowman yn ystod yr wythnos, 'blog' manylach ar-lein a sawl diwrnod yn seiliedig ar ffilmiau penodol.

## CYNULLEIDFAOEDD IFANCACH

Roedd ein cydweithrediadau gyda BBC Switch yn cynnwys y digwyddiad cerddorol *Switch Live* cyntaf lle y mwynhaodd 4,000 o bobl ifanc o dan 18 oed amrywiaeth fyw o berfformiadau o'r DU a pherfformiadau rhyngwladol – darlledwyd perfformiadau a chyfweliadau y tu ôl i'r llwyfan ar y noson gennym. Yn ogystal, ailwampiwyd gwefan Switch gennym, gan gysylltu holl elfennau teulu Switch, gan gynnwys rhifynnau radio a theledu o *The Surgery*.

## GWEITHREDU CYMDEITHASOL

Am dair wythnos yn ystod mis Awst a mis Medi, edrychodd Arbrawf Alcohol Radio 1 ar risgiau yfed gormodol. Yfodd cyflwynydd *The Surgery*, Aled Jones, ddwywaith y swm dyddiol o alcohol a argymhellir am hyd yr arbrawf, gan gyflwyno adroddiadau ar effeithiau negyddol byrdymor yfed gormod o alcohol ar yr awyr ac mewn dyddiadur fideo ar-lein. Cymerodd nifer o enwogion ran mewn ymgyrch gyrfaoedd ym mis Tachwedd, gan gynnwys Syr Alan Sugar a Louis Walsh, gan sôn am eu gyrfaoedd ac ateb cwestiynau gwrandawyr. Hefyd, cynhaliwyd ymgyrch arian a chyllid proffil uchel gennym ym mis Ionawr.

## MWY O GYNNWYS AR Y WE

Ochr yn ochr â'n gwefan ein hunain, rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i fanteisio ar y we yn gyffredinol. Cynigiwyd 'Anrhegion Nadolig' am ddim gennym – perfformiadau sesiwn a 'live lounge' yn benodol i'r BBC, gyda phob un ohonynt ar gael i'w llwytho i lawr am 24 awr – a llwythwyd i lawr tua 600,000 o eitemau yn y DU dros y cyfnod o 12 diwrnod. Mae gennym bresenoldeb gweithredol ar sawl safle trydydd parti, gan gynnwys Facebook a Bebo, ac rydym yn archwilio cyfleoedd i gyflwyno deunydd sain a fideo ar safleoedd o'r fath lle y bo'n briodol gwneud hynny.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn sicrhau bod BBC Radio 1 yn parhau i ymgysylltu â'r genhedlaeth nesaf o wylwyr ifanc, gyda mentrau a fydd yn cynnwys taith clybiau i bobl ifanc dan 18 oed yn ystod yr haf ac ail ddigwyddiad Switch Live yn yr hydref, ynghyd ag ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol a gaiff eu cynnal mewn cydweithrediad â Switch a BBC 1Xtra.





Uchaf: Roedd Country Acid House gan Alabama3 yn rhan o'n darllediadau o Glastonbury.

Canol a gwaelod: *Big Weekend Radio 1 2008*, o Maidstone yng Nghaint. Un o'r llu o ddigwyddiadau byw roeddem wedi bod yn gysylltiedig â hwy eleni.



# MAE BBC RADIO 2 YN CYFLWYNO AMRYWIAETH EANG O GERDDORIAETH BOBLOGAIDD AC ARBENIGOL I WRANDAWYR, GYDA FFOCWS ARBENNIG AR DALENT A PHERFFORMIADAU BYW O BRYDAIN, WEDI'U HATEGU GAN ALLBWN LLAFAR SY'N CYNNWYS MATERION CYFOES, RHAGLENNI DOGFEN, CREFYDD A'R CELFYDDYDAU.

Uchaf: Elaine Paige gydag un o'i gwesteion ar brynhawniau Sul, y canwr Johnny Mathis.

Gwaelod: Ymhlith perfformiadau eleni roedd cyngerdd gan Neil Diamond i *Radio 2 Live*.



CYRHAEDDIAD

26.1%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

0.5c

- **Radio 2 yw gorsaf radio fwyaf poblogaidd y DU o hyd a chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog yr orsaf y llynedd oedd 26.1%/13.3 miliwn (2008: 26.2%/13.2 miliwn).**
- **Cafodd bron i ddwy ran o dair (63%) o raglenni Radio 2 sgôr gwerthfawrogiad uchel o 80+.**
- **Roedd y gost gyfartalog fesul awr gwrandäwr yn 2008/09 yn gyson, sef 0.5c (2007: 0.5c).**

Y llynedd, roedd ein blaenoriaethau yn cynnwys:

## CYFANSODDWYR CANEUON O BRYDAIN

Archwiliwyd a dathlwyd cyfansoddwyr caneuon o Brydain gennym drwy gydol y flwyddyn. Lansiwyd *The Great British Songbook* mewn digwyddiad byw ym mis Tachwedd, gyda'r perfformwyr – The Feeling, Duffy, Adele, James Morrison a Keane – oll yn cynnwys cân gan rywun arall yn eu setiau a gafodd ei chynnwys mewn rhaglennu yn ystod y dydd yr wythnos ganlynol. Cyflwynwyd y fenter hefyd ar-lein gyda chyfweliadau fideo gydag artistiaid newydd ac artistiaid y dyfodol (megis Gary Go a Daniel Merriweather), ac ym mis Mawrth cynigiwyd y Great British Songbook Player gennym, gan gyflwyno'r holl gynnwys ar-lein mewn un modiwl hygyrch.

## PERFFORMIADAU BYW

Roedd ein digwyddiadau byw yn cynnwys amrywiaeth eang o berfformiadau, o ddigwyddiadau mawr fel *Proms In The Park* a'r Blackpool Lights i sesiynau bach yn Stiwdios Maida Vale. Cafwyd cyngherddau eithriadol gan Neil Diamond a'i debyg, ac Elbow mewn cyngerdd gyda Cherddorfa Gyngerdd y BBC (y prosiect cerddoriaeth digidol mwyaf llwyddiannus yn hanes y BBC, gyda bron i filiwn o geisiadau i weld y cyngerdd drwy'r botwm coch). Roedd cerddoriaeth fyw arall i'w chlywed ar raglenni fel *Big Band Special, Friday Night Is Music Night* ac mewn rhaglenni gan Bob Harris, Dermot O'Leary a Paul Jones, gan gyfrannu at 260 awr o gerddoriaeth fyw y flwyddyn.

## YMRWYMIAD I GOMEDI O'R DU

Rydym wedi ehangu ein hymrwymiad i dalent comedi o'r DU, gan chwilio am genhedlaeth newydd o berfformwyr wrth ddatblygu fformatau newydd gydag artistiaid sefydledig. Rhoesom gyfle i dalentau sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys Jason Byrne a Miranda Hart, a rhaglenni peilot unigol gyda Rhod Gilbert ac Ivan Brackenbury, ac ymhlith y cyfresi a ddychwelodd roedd *Clive Anderson's Chat Room, Out To Lunch, On The Blog* a *The Blagger's Guide*.

## RHAGLENNI LLAFAR

Ochr yn ochr â'n rhaglenni cerddoriaeth a chomedi, mae ein gwrandawyr wedi mwynhau amrywiaeth eang o gynnwys llafar eleni. Cyfwelodd ein cyflwynwyr â phersonoliaethau gan gynnwys y Prif Weinidog ac arweinwyr y prif bleidiau gwleidyddol eraill, Martin Fry o ABC a seren byd gwerin yr Alban Dick Gaughan. Yn ogystal, ymdriniodd ein rhaglenni dogfen cerddorol â'r amrywiaeth lawn o genres poblogaidd a'u cyd-destun cymdeithasol, gyda'r uchafbwyntiau eleni yn cynnwys archwiliad yr actores Sue Johnston o hanes ac effaith y gân 'You'll Never Walk Alone' yn ystod ein Liverpool Season; cyfres chwe rhan Paul Gambaccini *Jac Holzman's Elektra Story* yn adrodd hanes y label dylanwadol o'r UD; a *Soup* in a *Basket* gyda'r digrifwr Lee Mack a archwiliodd glybiau Gogledd Lloegr yn eu hanterth yn y 1960au.

## RHAGLENNU AR GYFER CYNULLEIDFAOEDD ARBENNIG

Unwaith eto, darlledwyd rhaglenni gennym yn cysylltu milwyr Prydeinig dramor gyda'u teuluoedd yn y DU. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn ystod sioe olaf Jeremy Vine cyn y Nadolig, darllenodd Jeremy a'r Canon Roger Doyle negeseuon arbennig gan deuluoedd i'w hanwyliaid a rhoddwyd cyfle i aelodau o'r lluoedd rannu eu cynlluniau ar gyfer y Nadolig. Hefyd, darlledwyd rhifyn arbennig o sioe Chris Evans yn fyw gennym o safle'r fyddin yn Dhekelia yn Cyprus, dan wahoddiad Ail Fataliwn Catrawd Brenhinol Tywysoges Cymru.

Y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu ehangu ein ffocws ar jazz, gyda rhaglenni dogfen yn dathlu 70 mlynedd ers sefydlu Blue Note Records a bywyd Billie Holiday, yn ogystal â rhaglenni yn archwilio gwaith artistiaid gan gynnwys Miles Davis, Benny Goodman a Nat King Cole.



BBC RADIO 3 90 – 93FM


# MAE BBC RADIO 3 YN CANOLBWYNTIO AR GERDDORIAETH GLASUROL, AC RYDYM YN DARPARU AMRYWIAETH EANG O JAZZ, CERDDORIAETH Y BYD, RHAGLENNI CELFYDDYDOL A DRAMA; RYDYM HEFYD YN RHOI PWYSLAIS CRYF AR BERFFORMIADAU CERDDOROL O BOB CWR O'R DU.

Uchaf: Mae gan y BBC bump cerddorfa, yn ogystal â Chantorion y BBC – yr unig gôr llawn amser proffesiynol yn y DU.

Uchaf canol: Y bandiau Tuung a Tinariwen yn recordio sesiwn ar gyfer *Late Junction*.

Gwaelod canol: Roedd *World Roots in China* yn cynnwys cerddoriaeth gan y cerddorion Uyghur hyn.

Gwaelod: Y cyflwynydd, yr ysgrifennydd a'r cynhyrchydd Suzy Klein, y tu allan i Neuadd Frenhinol Albert, cartref Proms y BBC.





CYRHAEDDIAD

3.9%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

6.3c

- **Y llynedd, cyrhaeddiad Radio 3 oedd 3.9%/2.0 miliwn (2008: 3.7%/1.9 miliwn).**
- **Radio 3 sydd â'r sgoriau gwerthfawrogiad uchaf o blith holl rwydweithiau radio'r BBC – roedd gan 82% o'i raglenni sgôr gwerthfawrogiad o 80+.**
- **Roedd cost fesul awr gwrandäwr y rhwydwaith yn sefydlog, sef 6.3c (2008: 6.4c).**

Ymhlith ein huchafbwyntiau yn ystod 2008/09 roedd:

## PERFFORMIADAU CERDDOROL, DIWYLLIANT PRYDAIN A CHREADIGRWYDD

Darlledwyd dros 600 o gyngherddau ac operâu cyfan gennym o leoliadau a gwyliau ledled y DU a thu hwnt, a defnyddiwyd dyddiadau pwysig gennym fel ffordd o wella'r cysylltiad â diwylliant Prydain. Adlewyrchwyd hanner can mlynedd ers marwolaeth Vaughan Williams drwy syniadau newydd a chyngherddau'r Proms, a dathlwyd John Milton – 400 mlynedd ar ôl ei eni – mewn tymor estynedig, gan gynnwys darlleniad cyfan o *Paradise Lost*. Darparodd y Proms gyd-destun dyfnach i berfformiadau byw drwy *Proms Plus*, cyfres ddyddiol o sgyrsiau a thrafodaethau cysylltiedig. Ceisiom ddatblygu creadigrwydd y cyhoedd drwy ehangu Cynllun Artistiaid y Genhedlaeth Newydd a thrwy ddarparu cyfleoedd i gynulleidfaoedd gymryd rhan, er enghraifft drwy 'Pianothonau' mewn amrywiaeth o ganolfannau ledled y DU.

## LLAFAR A SYNIADAU

Cynigiodd ein rhaglenni llafar safbwyntiau rhyngwladol yn rheolaidd, yn arbennig drwy agenda eang *Night Waves* a chyfraniadau i'r China Season ar draws y BBC cyfan, gan gynnwys adroddiadau o ardaloedd anghysbell ar ddiwylliannau cerddorol o dan fygythiad. Ystyriodd *Rites of Spring* agweddau ar y tymor drwy gerddoriaeth ac eitemau llafar, gan amrywio o gomisiwn newydd wedi'i ysbrydoli gan natur i ystyried cynhesu byd-eang. Darparodd y trydydd rhifyn o *Free Thinking*, gŵyl o syniadau yn archwilio materion cyfoes, fforwm i ymgysylltu â'r cyhoedd am ein syniadau. Fe'i cynhaliwyd ym Mhrifddinas Diwylliant Ewrop 2008, Lerpwl, a rhoddwyd cyfle i gynulleidfaoedd drafod gyda ffigyrau cyhoeddus, megis Trevor Phillips a Tony Benn. Er mwyn paratoi ar gyfer y digwyddiad, darlledodd Radio 3 fyfyrdodau dyddiol dadleuol gan feddylwyr blaenllaw, *Free Thoughts*.

## DRAMA WREIDDIOL

Mewn blwyddyn amrywiol arall i ddrama, darlledwyd dros 40 o gynyrchiadau newydd gennym, gan gynnwys gwaith gan Racine, Marlowe, Lorca a Lampedusa, yn ogystal â drama gyfoes am Piper Alpha, Cytundeb Dydd Gwener y Groglith a'r ymgyrch fomio ar 7/7.

Yn ystod 2009/10, bydd Radio 3 yn canolbwyntio'n benodol ar bedwar cyfansoddwr blaenllaw â chysylltiadau agos â'r DU: Purcell (g.1659), Handel (m.1759), Haydn (m.1809) a Mendelssohn (g.1809).





BBC RADIO 4 92–95 FM

# MAE BBC RADIO 4 YN DEFNYDDIO GRYM IAITH LAFAR I GYNNIG RHAGLENNU DWYS SY'N CEISIO ENNYN DIDDORDEB AC YSBRYDOLI, GYDA CHYFUNIAD UNIGRYW O RAGLENNI FFEITHIOL, DRAMÂU, DARLLENIADAU A CHOMEDI.

CYRHAEDDIAD

19.1%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

1.3c

- **Y llynedd, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog Radio 4 oedd 19.1%/9.7 miliwn (2008: 18.7%/9.4 miliwn).**
- **Cafodd 59% o raglenni Radio 4 sgôr gwerthfawrogiad uchel y llynedd.**
- **Roedd y gost gyfartalog fesul awr gwrandäwr y llynedd yn sefydlog, sef 1.3c (2008: 1.3c).**

Ymhlith ein blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn roedd:

## GOHEBU AR YR ECONOMI

Wrth i'r dirwasgiad economaidd byd-eang waethygu, cynigiodd rhaglenni newyddion dyddiol a rhaglenni materion cyfoes wythnosol ddarllediadau a dadansoddiadau parhaus, gan herio ffigyrau blaenllaw ar eu record. Croesawyd cyrhaeddiad Evan Davis ar *Today*, o ran ei dôn arbennig ac o ran ei arbenigedd yn stori fwyaf y flwyddyn. Cynyddodd nifer y gwrandawyr tua chwarter miliwn flwyddyn ar flwyddyn i 6.7 miliwn yn Chwarter 1 2009, sef ffigur cyrhaeddiad wythnosol uchaf y rhaglen ers dros saith mlynedd.

## COMEDI ARLOESOL

Ymhlith fformatau newydd roedd *Act Your Age*, gyda gwahanol genedlaethau o gomedïwyr yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, ac *I've Never Seen Star Wars* – sioe sgwrsio anarferol, gyda Marcus Brigstocke lle y cymerodd gwesteion fel Phil Jupitus, Barry Cryer a'r Fonesig Joan Bakewell ran mewn cyfres o weithgareddau am y tro cyntaf. Mae'r fformat eisoes wedi cael ei addasu ar gyfer y teledu, felly hefyd fformat radio gwreiddiol arall, *Genius* gyda Dave Gorman.

## RHAGLENNU FFEITHIOL NODEDIG

Roedd *World on the Move*, y prosiect byd natur mwyaf uchelgeisiol erioed ar y radio, yn gyfres 34 rhan o adroddiadau byw ar anifeiliaid yn mudo ar draws pum cyfandir. Fel rhan o *Big Bang Day* ym mis Medi, canolbwyntiodd ein hamserlen ar achlysur cychwyn cyflymydd gronynnau mwyaf y byd, gyda mynediad unigryw i ystafell reoli CERN a darllediadau estynedig o'r digwyddiad ochr yn ochr â rhaglenni comedi a drama cysylltiedig. Mae gan y wefan 252,000 o ddefnyddwyr unigol. Nod tymor helaeth o raglenni am 1968 oedd cofio a thrafod blwyddyn gythryblus, ac roedd yn cynnwys *1968 Day by Day*, rhaglen pedair munud o hyd yn seiliedig ar ddeunydd archif a gyflwynwyd gan John Tusa ac a ddarlledwyd bob dydd am chwe mis. Cyflawnodd yr omnibws wythnosol gyfran o 18.4%, y gyfran uchaf erioed i'r slot.

## DRAMA EFFAITH UCHEL

Parhaodd ein drama i ddenu enwau mawr gan gynnwys Jim Broadbent, Johnny Vegas a John Prescott yn *The Ragged Trousered Philanthropists*, Juliet Stevenson, Jeremy Irons a Bill Nighy. Roedd *The Hunchback of Notre Dame* yn gydweithrediad unigryw â Graeae, y cwmni theatr o dan arweiniad pobl anabl. Arbrofwyd â delweddu (drwy'r botwm coch) yn *The City Speaks*. Yn ystod y flwyddyn ehangwyd ein hamrywiaeth o bodlediadau, a chafwyd 72,000 o geisiadau i lwytho'r ddrama ffuglen wyddonol *Torchwood* i lawr, y nifer uchaf erioed ar gyfer un o raglenni radio unigol y BBC.

Yn 2009/10, bydd *Americana*, cyfres wythnosol newydd, yn cynnig safbwyntiau gwreiddiol ar ddiwylliant a gwleidyddiaeth yr UD. Byddwn hefyd yn lansio prosiect drama mawr: dramateiddiad o'r gyfres gyfan o nofelau George Smiley gan John le Carré, gyda Simon Russell Beale yn chwarae rhan y prif ysbïwr.

Uchaf: Evan Davis o'r rhaglen *Today* yn cyfweld â'r Dalai Lama.

Canol: Marcus Brigstocke, cyflwynwydd *I've Never Seen Star Wars* ar Radio 4 (sydd bellach ar BBC Two hefyd – fel y gwelir yma).

Gwaelod chwith: John Tusa, a gyflwynodd *1968 Day by Day* bob dydd am chwe mis.

Gwaelod dde: Aelodau o gast *The Ragged Trousered Philanthropists*, addasiad Andrew Lynch o gampwaith enwog Robert Tressell.











# MAE BBC RADIO 5 LIVE YN DARLLEDU NEWYDDION A CHWARAEON BYW 24 AWR Y DYDD, GAN DDARLLEDU DIGWYDDIADAU WRTH IDDYNT DDIGWYDD MEWN FFORDD HYGYRCH SY'N CYNNWYS CYFRANIADAU GAN EIN GWRANDAWYR.

Uchaf: Victoria Derbyshire, cyflwynydd y sioe a ddarlledir bob bore yn ystod yr wythnos.

Canol: Roedd Gabby Logan yn rhan o'n tîm yn Wimbledon, a oedd yn darlledu'n fyw o'r twrnamaint.

Gwaelod: Simon Mayo yn cyfweld â'r Prif Weinidog Gordon Brown.









CYRHAEDDIAD

11.9%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

2.3c

- **Y llynedd, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog BBC Radio 5 live oedd 11.9%/6.0 miliwn (2008: 11.7%/5.9 miliwn), gydag 1.3 miliwn o wrandawyr nad oeddent yn gwrando ar unrhyw un o orsafoedd Radio eraill y BBC. Hon sydd â'r gyfran uchaf o wrandawyr digidol (25.8%) o blith holl orsafoedd y BBC sydd hefyd ar gael drwy ddarllediadau analog.**
- **Y gost gyfartalog fesul awr gwrandäwr yn 2008/09 oedd 2.3c, sy'n gyson â ffigurau 2008.**

Ymhlith uchafbwyntiau 2008/09 roedd:

## ALLBWN NEWYDDION UNIGRYW O ANSAWDD UCHEL

Rydym wedi creu tîm newyddion craidd i ddarparu bwletinau a darllediadau o newyddion sy'n digwydd ar y pryd wedi'u teilwra i'n cynulleidfa. Darparodd ein darllediadau o'r etholiad ar gyfer arlywydd yr UD bersbectif unigryw i'n gwrandawyr drwy seilio ein darllediadau y tu allan i Washington D.C., a thrwy adrodd straeon a safbwyntiau pleidleiswyr o bob rhan o'r UD a gwrandawyr du yn y DU. Eglurodd ein rhaglennu ar y dirwasgiad economaidd y materion islaw'r iaith dechnegol, gan gynnwys y ddwy raglen arbennig awr o hyd *Fighting The Credit Crunch* a roddodd gyngor ymarferol uniongyrchol mewn ymateb i gwestiynau gwrandawyr.

## DATBLYGU NEWYDDIADURAETH YMCHWILIOL

Lansiwyd y rhaglen ymchwiliol newydd *Donal MacIntyre* gennym, sydd wedi gwella proffil ein newyddiaduraeth ymchwiliol ac wedi ymgysylltyu â chynulleidfa ehangach. Ymhlith y pynciau yr ymchwiliwyd iddynt roedd twyll tai cymdeithasol gydag adroddiadau o Reading, Northampton, Caer-wysg a Gogledd Iwerddon; y diwydiant rhyw, gydag adroddiad anarferol ar ferched sy'n talu am ddynion i gadw cwmni iddynt; yr arfer treth gymhleth 'twyll carwsel' sy'n costio amcangyfrif o £170biliwn i drethdalwyr Ewrop bob blwyddyn; ac ymchwiliad i leoedd sydd wedi dod yn ardaloedd nad yw criwiau ambiwlans yn fodlon mentro iddynt.

## DARLLEDIADAU CHWARAEON ARLOESOL

Darparwyd darllediadau byw gennym o bob un o'r 47 o berfformiadau a enillodd fedal gan Dîm Prydain Fawr yng Ngemau Olympaidd Beijing. Yn ystod y digwyddiad, gwnaeth gohebwyr gyfres o ffilmiau byr arbennig a'u gosod ar ein gwefan ac ar YouTube. Archwiliodd rhaglen a phodlediad 'Behind the Scenes' arbennig sut y caiff darllediadau o ddigwyddiadau chwaraeon pwysig eu gwneud. Hefyd, lansiwyd y Football Player, gwasanaeth ar-lein y gellir ei deilwra sy'n cydgrynhoi'r holl newyddion diweddaraf ar dimau ledled y DU, ym mis Awst gan ddenu bron i filiwn o ddefnyddwyr unigol a 7.5 miliwn o ymweliadau â thudalennau erbyn diwedd mis Mawrth.

Yn 2009/10, bydd 5 live yn cynnig cynnwys chwaraeon aml-lwyfan arloesol yn seiliedig ar ddigwyddiadau allweddol y flwyddyn, gan gynnwys Wimbledon a Gemau Olympaidd y Gaeaf, a byddwn yn sicrhau bod mwy byth o gynnwys chwaraeon ar gael drwy'r botwm coch, ffonau symudol ac ar-lein. Byddwn hefyd yn datblygu ffyrdd newydd o feithrin cyfranogiad gan gynulleidfaoedd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddarllediadau o Etholiad Cyffredinol nesaf y DU.



BBC RADIO 5 live sports extra

# MAE BBC RADIO 5 LIVE SPORTS EXTRA YN RHWYDWAITH RHAN AMSER SY'N DARPARU DARLLEDIADAU CHWARAEON YCHWANEGOL GAN DDEFNYDDIO HAWLIAU SYDD EISOES YN EIDDO I'R BBC, I DDARPARU MWY O WERTH I DALWYR FFI'R DRWYDDED.

Uchaf: Y sylwebydd criced Jonathan Agnew.

Gwaelod: Ni yw cartref criced ar radio'r BBC.



CYRHAEDDIAD

1.4%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

2.6c

- **Mae oriau darlledu a gwrando wythnosol Radio 5 Live Sports Extra yn amrywio ar draws y flwyddyn yn unol â'r calendr chwaraeon. Ar gyfartaledd yn ystod 2008/09, roedd gan y sianel gyrhaeddiad wythnosol 15 munud o 1.4% i oedolion 15+ oed, sy'n gyfwerth â 0.7 miliwn (2008: 1.5% neu 0.7 miliwn).**
- **Roedd y gost gyfartalog fesul awr gwrandäwr yn sefydlog flwyddyn ar flwyddyn, sef 2.6c (2008: 2.4c).**

Ymhlith ein blaenoriaethau y llynedd roedd:

## CARTREF CRICED

Rydym wedi parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r orsaf fel cartref criced ar Radio'r BBC. Yn benodol, datblygwyd arddull newydd o sylwebaeth criced gennym a oedd yn ymdrin â phob elfen o'r gêm ar gyfer Diwrnod Gemau Terfynol y Twenty20 yn yr Oval ym mis Gorffennaf, o'r enw 'criced 3-D', gyda sylwebwyr wedi'u lleoli ar ymyl y ffin ac ar feinciau'r chwaraewyr yn ogystal ag yn y blwch sylwebu. Darparwyd sylwebaeth lawn gennym hefyd ar gyfres gemau undydd a gemau Prawf proffil uchel Lloegr yn India ac India'r Gorllewin.

## HYRWYDDO 5 LIVE SPORTS EXTRA

Rydym wedi nodi ffyrdd newydd o wella ymwybyddiaeth o'r orsaf a chynyddu ei chynulleidfa, gan ddarlledu ailddarllediadau a dolenni uchafbwyntiau o ddigwyddiadau chwaraeon byw pwysig – gan gynnwys gornestau paffio teitl y byd, tenis dynion yr US Open a Grand Prix Fformiwla 1 – i wrandawyr nad oeddent yn gallu gwrando ar adeg y darllediad gwreiddiol. Bu'r cynnwys newydd hwn yn boblogaidd gyda chynulleidfaoedd – gwrandawodd dros 270,000 ar Fformiwla 1 o Melbourne drwy'r iPlayer – ac mae wedi rhoi cyfleoedd pellach i ni hyrwyddo'r orsaf o Radio 5 Live.

Yn 2009/10 byddwn yn rhoi mwy o ffocws ar hyrwyddo gwrando digidol drwy ddarparu rhaglenni arbennig o ansawdd uchel sy'n unigryw i radio digidol, gan gynnwys darllediadau o bob pêl o gyfres y Lludw a darllediadau arbennig o gêm brawf gyntaf erioed y Lludw yng Nghymru, a ffocws cynyddol ar ddarllediadau'r Gynghrair Bêl-droed.



BBC RADIO 1Xtra

# MAE BBC 1XTRA YN CHWARAE'R GORAU O BLITH CERDDORIAETH DDU GYFOES, GYDA PHWYSLAIS CRYF AR DDARPARU CERDDORIAETH FYW O ANSAWDD UCHEL A CHEFNOGI ARTISTIAID NEWYDD O'R DU.

Uchaf: Jay-Z yn cloi nos Sadwrn yn Glastonbury.

Gwaelod: *MistaJam* bob nos yn ystod yr wythnos – yn cynnwys rhestrau o'r deg gorau.



CYRHAEDDIAD

1.1%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

4.5c

- **Y llynedd, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog BBC 1Xtra oedd 1.1%/0.6 miliwn (2008: 0.9%/0.5 miliwn).**
- **Roedd y gost gyfartalog fesul awr gwrandäwr yn sefydlog, sef 4.5c (2008: 4.8c).**

Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd:

## AMSERLEN BRECWAST A MIN NOS

Mae *1Xtra Breakfast* a rhaglen min nos *MistaJam* bellach wedi ymsefydlu'n gadarn fel llwyfannau allweddol i'r rhwydwaith ac maent yn bwyntiau ffocws i'n cynulleidfa. Mae sioe Trevor Nelson yn bwynt mynediad proffil uchel i'r orsaf i wrandawyr ar ddechrau'r dydd, ac mae *MistaJam* yn darparu allwedd i'r sîn tanddaearol gan atgyfnerthu ymgysylltiad cynulleidfaoedd â cherddoriaeth ddu gyfoes. Felly mae proffil cynulleidfa BBC 1Xtra yn wahanol i lawer o'r gorsafoedd radio traddodiadol gyda dau 'uchafbwynt': un ganol y bore ac un arall min nos.

## CERDDORIAETH FYW

Ymhlith ein darllediadau cerddoriaeth fyw roedd prif berfformiad Jay-Z yn Glastonbury, y bu llawer o sôn amdano, yn ogystal ag uchafbwyntiau helaeth o garnifalau Notting Hill a Leeds. Cefnogwyd talent sy'n dod i'r fei gennym drwy gyfres o sesiynau drwy gydol y flwyddyn; a thaith *HomeGrown Introducing*, gydag artistiaid newydd ac artistiaid sy'n datblygu o'r DU.

## YMGYRCHOEDD GWEITHREDU CYMDEITHASOL

Rydym wedi gweithio gyda Radio 1 a BBC Switch i gynyddu effaith ein hymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol. Fel gyda Radio 1, archwiliodd Arbrawf Alcohol BBC 1Xtra beryglon yfed gormod o alcohol am dair wythnos yn ystod mis Awst a mis Medi, ac fel rhan o ymgyrch yn canolbwyntio ar gyllid personol ym mis Ionawr, aeth cyflwynwr y sioe frecwast Gemma Carney ati i geisio byw ar gyllideb gaeth a chyfyngedig.

## GWELLA PROFFIL YR ORSAF

Rydym wedi gwella ymwybyddiaeth o'r orsaf yn ystod y flwyddyn drwy rannu cynnwys ac arbenigedd. Yn arbennig, caiff sioe nos Sadwrn Trevor Nelson ei darlledu ar BBC 1Xtra a Radio 1 ar yr un pryd, ac rydym yn rhannu rhaglennu o ddigwyddiadau allweddol gan gynnwys darllediadau Glastonbury a charnifalau Notting Hill a Leeds.

Y flwyddyn nesaf ein nod yw cynyddu effaith ein hymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol, ac rydym yn bwriadu cyflwyno prosiect 'cymryd yr awenau' ar yr awyr arbennig ar gyfer yr hydref lle y bydd grŵp o bobl ifanc yn cael gwahoddiad i ymgymryd â hyfforddiant ac wedyn cymryd rhan yn allbwn yr orsaf a rhannu eu safbwyntiau ar ddiwylliant du a threfol modern yn y DU.



BBC RADIO 6 music

# NOD BBC 6 MUSIC YW YMGYSYLLTU Â DILYNWYR CERDDORIAETH BOBLOGAIDD DRWY GYNNIG Y GOREUON O BLITH ARCHIF SAIN Y BBC OCHR YN OCHR Â CHERDDORIAETH GYFREDOL Y TU ALLAN I'R BRIF FFRWD, WEDI'U HATEGU GAN NEWYDDION A RHAGLENNI DOGFEN AM GERDDORIAETH.

CYRHAEDDIAD

1.2%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

3.4c

- **Mae cyrhaeddiad BBC 6 Music wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chyrhaeddodd ei nifer uchaf erioed, sef 681,000, yn ystod chwarter olaf 2008/09. Y llynedd, cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog cyffredinol yr orsaf oedd 1.2%/0.6 miliwn o gymharu ag 1.0%/0.5 miliwn yn ystod 2007/08.**
- **Gostyngodd y gost gyfartalog fesul awr gwrandäwr yn 2008/09 flwyddyn ar flwyddyn i 3.4c (2008: 3.9c).**

Ymhlith ein blaenoriaethau y llynedd roedd:

## ARTISTIAID NEWYDD O BRYDAIN

Rydym wedi parhau i feithrin artistiaid newydd o Brydain ar draws ein hallbwn, gydag 80% o'r artistiaid a recordiwyd gan 6 Music yn Brydeinig a 90% o'r gerddoriaeth newydd ar *Tom Robinson's Introducing* yn ddeunydd gan wrandawyr yn y DU ac wedi'i argymell ganddynt. Yn ogystal, dim ond cynnwys o wefannau artistiaid a ddefnyddir gan sioe *Tom Robinson Unsigned*, ac mae'r perfformiadau byw a gaiff eu darlledu drwy *The Hub* yn un o nodweddion mwyaf unigryw ein harlwy.

## CERDDORIAETH FYW

Yn ystod y flwyddyn darlledwyd 330 o sesiynau newydd gennym, gyda bron eu hanner wedi'u comisiynu o'r tu allan i Lundain (gan gynnwys perfformiadau rheolaidd o Fanceinion ar gyfer sioe *Marc Riley*), ac archwiliwyd ffyrdd newydd o wella'r fformat sesiynau traddodiadol i greu profiadau amlgyfrwng cyffrous i'n cynulleidfa. Yn arbennig, gwyliodd dros 530,000 o bobl y delweddau o berfformiad Paul Weller ac Adele ar *Hub Combo* drwy'r botwm coch, ac arhosodd 300,000 o'r rheini i wylio am gyfartaledd o 29 munud – y sesiwn lawn fwy neu lai.

## GWEITHREDU CYMDEITHASOL

Ymdriniwyd â phryderon gwrandawyr o ran y farchnad dai gyda'r ymgyrch *Gimme Shelter* yn ystod mis Tachwedd, gan ymateb i flaenoriaethau ein cynulleidfa drwy ganolbwyntio ar brynu am y tro cyntaf a rhentu. Cymerodd y cyflwynydd Jon Richardson ran mewn diagnosis ar-lein o'i botensial fel rhywun oedd yn prynu am y tro cyntaf, ac archwiliodd Steve Lamacq y materion sy'n deillio o rannu tŷ gyda ffrindiau, gyda Matthew Priest o Dodgy a Mark Morris o The Bluetones.

## NEWYDDION A RHAGLENNI DOGFEN AM GERDDORIAETH

Mae ein gwasanaeth newyddion am gerddoriaeth yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ddatblygiadau ym maes cerddoriaeth, gan gynnwys newyddion am gerddoriaeth sydd ar gael i'w phrynu, cyngherddau a datblygiadau ehangach yn y diwydiant. Er mwyn sicrhau bod ein cynnwys ar gael pryd a lle sydd fwyaf defnyddiol i'n gwrandawyr, cyflwynwyd podlediad dyddiol gennym yn ddiweddar, ac rydym wedi sicrhau y caiff ein cynnwys ar-lein ei ddosbarthu mor eang â phosibl drwy gysylltiadau helaethach â BBC News ar-lein.

Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr casglu newyddion y BBC ledled y DU i ddatblygu ein gwasanaeth newyddion am gerddoriaeth yn 2009/10, gan deilwra gwasanaethau bwletin i ddiwallu anghenion cyfnewidiol ein cynulleidfa ar wahanol adegau o'r dydd, gan arwain o bosibl at newidiadau o ran arddull a fformat y cyflwyno.






Uchaf: Tom Robinson yn cyflwyno *BBC Introducing* sy'n cynnwys bandiau a glywyd ar y rhyngrwyd, sesiynau, cyfweliadau a chynghorion.

Canol: Adam Buxton a Joe Cornish, cyflwynwyr y sioe Adam and Joe ar foreau Sadwrn.

Gwaelod: Mae Steve Lamacq yn chwarae cerddoriaeth newydd a chlasuron.



# MAE BBC 7 YN WASANAETH RADIO LLAFAR DIGIDOL SY'N CYNNIG RHAGLENNI COMEDI, DRAMÂU A DARLLENIADAU YN BENNAF O ARCHIF Y BBC. RYDYM HEFYD YN DARLLEDU RHAGLENNI I BLANT.

CYRHAEDDIAD

1.7%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

2.0c

- **Cyrhaeddiad BBC Radio 7 yw'r cyrhaeddiad cyson uchaf o blith ein gorsafoedd digidol yn unig, gyda chyfartaledd o 1.7% y llynedd o gymharu ag 1.6% yn ystod 2007/08 (0.9 miliwn o wrandawyr, i fyny o 0.8 miliwn o wrandawyr flwyddyn ar flwyddyn).**
- **Gostyngodd cost gyfartalog Radio 7 fesul awr gwrandäwr yn 2008/09 i 2.0c (2008: 2.4c).**

Ymhlith ein huchafbwyntiau y llynedd roedd:

## TYMHORAU EFFAITH UCHEL

Rydym wedi gweithio i wella effaith ein rhaglennu drwy wella cydlyniad â gwasanaethau eraill y BBC. Ddechrau 2009, cynhaliwyd tymor ffuglen wyddonol gennym mewn cydweithrediad â Radio 3 a Radio 4, gan gynnwys y comisiwn newydd *Planet B*, a gafodd groeso cynnes ac a ddenodd bron i 25,000 o geisiadau i lwytho'r podlediad i lawr. Comisiynwyd ail gyfres ar gyfer 2009/10. Gwnaethom gymryd rhan hefyd mewn rhaglennu Charles Darwin ar draws y BBC cyfan, gyda *The Beagle Diary a Voyages of Descent*. Yn ogystal, cynhwyswyd y ddrama fuddugol o Wobrau Drama Peter Tinniswood yn ein hallbwn i ddathlu 90 blwyddyn o Goffáu, fel rhan o ddarllediadau'r Cofio ar draws y BBC cyfan.

## COMEDI

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd y gyfres newydd *I Did It My Way* gennym, sef fformat newydd i archwilio archif y BBC. Cyflwynodd perfformwyr ac awduron comedi sefydledig gan gynnwys Roy Hudd, Andy Hamilton a Graeme Garden bump o'u rhaglenni comedi o'r archif a'u trafod. Comisiynwyd 20 awr arall o gomedi newydd gennym, yn bennaf gan artistiaid sy'n newydd i'r radio, a chyflwynwyd *Witty and Twisted*, cystadleuaeth gomedi i dalent newydd.

## RHAGLENNU I BLANT

Ym mis Mehefin, diwygiwyd ein hallbwn wedi'i anelu at wrandawyr iau i gynnig sioe CBeebies arloesol wedi'i brandio dair awr o hyd bob dydd, yn cynnwys caneuon, cwisys, gemau a straeon llyfrau lluniau syml/straeon yn gysylltiedig â rhaglenni teledu. Yn ogystal, mae'r rhaglen ddyddiol awr o hyd *Big Toe Books* yn cynnig straeon i blant hŷn gan awduron plant poblogaidd megis Jacqueline Wilson, Roald Dahl a Michael Morpurgo. Er mwyn gwasanaethu cynulleidfa CBeebies yn well, symudwyd y rhaglen i slot bore cynnar ym mis Ebrill 2009.

## CYDLYNIAD Â DIGWYDDIADAU ALLWEDDOL LEDLED Y DU

Rydym yn parhau i wella ein hymgysylltiad â gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU drwy amserlennu rhaglennu i gyd-fynd â digwyddiadau lleol o bwys. Ymhlith amrywiaeth o fentrau, gwnaethom rannu rhaglennu â BBC Radio Scotland yn ystod pythefnos o Ŵyl Caeredin; gwnaethom lunio partneriaeth â BBC Merseyside ar gyfer ein Liverpool Season, gan gysylltu â dathliadau Prifddinas Diwylliant Ewrop; a gwnaethom recordio rhaglen ragflas a chyfweliadau â pherfformwyr yng Ngŵyl Gomedi Caerlŷr.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn amserlennu tymhorau sy'n atgyfnerthu gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd o waith awduron ac artistiaid sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at ddiwylliant y DU, gan gynnwys tymor John Mortimer wedi'i gyflwyno gan ei fab, Jeremy, a dathliad o waith Alan Bennett i ddathlu ei benblwydd yn 75 oed.

Uchaf: Kirsten O'Brien, un o gyflwynwyr *Big Toe Books*.

Gwaelod: Roedd yr archif yn cynnwys clasur Simpson a Galton *Hancock's Half Hour*.





# MAE BBC ASIAN NETWORK YN CYNNIG TRAFODAETHAU HERIOL, NEWYDDIADURAETH HYDDYSG, CERDDORIAETH, CHWARAEON, ADLONIANT A DRAMA I GYNULLEIDFAOEDD ASIAIDD PRYDEINIG O GENEDLAETHAU GWAHANOL.



CYRHAEDDIAD

0.8%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

6.9c

Uchaf: Mae *The Adil Ray Show* a ddarlledir amser brecwast yn cynnig cymysgedd o gerddoriaeth, sgwrsio ac adloniant.

Gwaelod: Cerddoriaeth, cyfweliadau â'r sêr ac adolygiadau gyda Raj a Pablo yn *Love Bollywood*.

- **Mae cyrhaeddiad BBC Asian Network wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda chyfartaledd o 0.8%/0.4 miliwn y llynedd o gymharu ag 1.0%/0.5 miliwn yn ystod 2007/08.**
- **Roedd cost gyfartalog Asian Network fesul awr gwrandäwr yn ystod y flwyddyn yn gyson, sef 6.9c (2008: 6.9c).**

Rydym wedi wynebu nifer o heriau wrth gyflawni'r nodau hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond rydym eisoes wedi cymryd sawl cam pwysig i'n galluogi i wasanaethu ein cynulleidfaoedd yn well, gyda ffocws penodol ar wella dau faes allweddol o'n hamserlen:

## NEWYDDION

Mae ein gwasanaeth newyddion cynhwysfawr yn targedu straeon gwreiddiol ac unigryw at Asiaid Prydeinig ifanc. Pennir yr agenda yn ystod ein bwletinau newyddion brecwast, ac ymhelaethir arnynt yn *The Wrap*, dwy raglen newyddion 30 munud o hyd am 12.30pm a 6pm yn ystod yr wythnos. Mae llawer o'r straeon yn bwydo i ddarllediadau ehangach y BBC, er enghraifft ar Asiaid Prydeinig yn troi at famau benthyg yn India ac effaith llwytho deunydd i lawr yn anghyfreithlon ar y diwydiant cerddoriaeth Asiaidd.

## RHAGLENNU BRECWAST

Ail-lansiwyd y sioe frecwast yn ystod yr wythnos gennym ym mis Ionawr 2009 er mwyn gwella'r ffordd yr oedd yn adlewyrchu ehangder golygyddol yr orsaf a'i galluogi i ymgysylltu'n well â'r gynulleidfa. Yn unol â dull gweithredu cyffredinol newydd yr orsaf gyfan, ei nod yw sicrhau bod allbwn yr orsaf yn gynhwysol, yn ddiddorol ac yn ysgafn, gyda hiwmor a naws digymell, a bod ganddi natur eang a chenedlaethol. Ers ei hail-lansio, mae cyrhaeddiad y rhaglen wedi cynyddu ychydig i 0.3% o 0.2% (tua 20,000 o wrandawyr ychwanegol).

## CERDDORIAETH AC ADLONIANT

Diwygiwyd ac ail-lansiwyd amserlen y penwythnos gennym ym mis Mai 2008, er mwyn cynnwys darllediadau ehangach o'r genres cerddoriaeth ac adloniant allweddol. Roedd yn cynnwys sioe frecwast newydd, wedi'i dilyn gan raglen *Love Bollywood* fyrrach gyda mwy o ffocws ar ddydd Sadwrn a dydd Sul. A lansiwyd sioe ceisiadau cerddoriaeth newydd gennym ar brynhawn dydd Sadwrn.

## DRAMA

Mae ein hopera sebon ddyddiol *Silver Street* wedi'i lleoli mewn cymuned Asiaidd drefol yng Nghanolbarth Lloegr, gan roi cyfle i ni ddod â gwahanol ddiwylliannau a chenedlaethau ynghyd mewn straeon sy'n ymdrin â chydberthnasau, teulu, busnes, chwaraeon a chrefydd. Ymhlith straeon diweddar roedd hanes un cymeriad yn chwilio am ei deulu coll ym Mhacistan, band yn recordio fersiynau roc o ffefrynnau Bollywood, a chymeriad yn perfformio'r Hajj (pererindod Foslemaidd i Mecca). Darlledwyd y 1,000fed rhifyn gennym y llynedd.

Eleni byddwn yn parhau i adfywio'r amserlen yn ystod yr wythnos gyda rhaglen gynnar newydd, amser dechrau diweddarach i'r sioe frecwast a newid y slot amser rhwng y sioe drafod a sioe'r celfyddydau/adloniant. Byddwn hefyd yn cynyddu ein darllediadau o straeon newyddion allweddol sy'n ymwneud â chymunedau Asiaidd yn y DU ac yn effeithio arnynt, gan gynnwys comisiynu 15 o raglenni dogfen newydd.

# Y GWLEDYDD A'R RHANBARTHAU RADIO/

## BBC LOCAL RADIO YN LLOEGR

- **Roedd gan radio lleol y BBC yn Lloegr gyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 18.6%/7.1 miliwn (2008: 18.7%/7.5 miliwn yn yr ardal ddarlledu leol).**
- **Rydym yn cynhyrchu ac yn darlledu tua 250,000 o oriau gwreiddiol o radio byw bob blwyddyn ar gost gyfartalog fesul awr o £0.4k a chost fesul awr gwrandäwr o 2.9c – y ddau yn gyson o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (£0.4k a 2.7c).**

Gwasanaeth llafar sy'n cynnwys newyddion, gwybodaeth a thrafod yw Radio Lleol y BBC yn bennaf. Ceir pwyslais cryf ar ryngweithioldeb a chynnwys y gynulleidfa. Ein nod yw ysbrydoli, addysgu a diddanu, gan helpu ein cynulleidfa i ymgysylltu â'r BBC a manteisio i'r eithaf ar fod yn rhan o'u cymuned leol.

### Denu cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol

Mae radio lleol y BBC yn Lloegr wedi'i anelu at gynulleidfaoedd nad yw'r BBC bob amser yn llwyddo i'w cyrraedd yn effeithiol gyda'i wasanaethau eraill. Y llynedd roedd gennym gynulleidfa wythnosol gyfartalog o 7.1 miliwn dros y flwyddyn, nad oedd dros draean ohonynt (2.8 miliwn) yn gwrando ar unrhyw un o orsafoedd radio eraill y BBC ac nad oedd un o bob pump ohonynt (1.5 miliwn) yn gwrando ar unrhyw orsaf radio arall o gwbl. Rydym yn gweithio i wella ein harlwy i gynulleidfaoedd presennol a darpar gynulleidfaoedd, safoni a rhannu arfer gorau a chreu sain unigryw a deniadol ar draws ein portffolio. Ein nod yw cynyddu maint y gynulleidfa yn ôl i wyth miliwn yn ystod y pum mlynedd nesaf.

### Parhau i wella gwasanaethau gwybodaeth

Mae newyddiaduraeth lafar yn ein gosod ar wahân i ddarparwyr masnachol lleol, ac mae pob un o'n 39 o orsafoedd yn darparu gwasanaeth llafar yn unig yn ystod y cyfnod brecwast allweddol. Dywed ein gwrandawyr wrthym eu bod yn gwerthfawrogi ein gwasanaethau gwybodaeth yn fawr (gan roi Mynegai Gwerthfawrogiad cyfartalog o 7.9/10 iddynt) – ac eleni datblygwyd ein gwasanaethau newyddion, chwaraeon, tywydd a theithio ymhellach gennym. Er enghraifft, crëwyd gwasanaeth tywydd newydd gyda mwy o staff er mwyn cynyddu a gwella allbwn, a sefydlwyd bwletinau teithio mwy cynhwysfawr gennym wrth wraidd ein rhaglenni brecwast ac oriau cymudo, o Gernyw i Newcastle.

### Ymsefydlu radio lleol yn ein harlwy amlgyfrwng

Yn ogystal â chynnwys radio lleol unigryw, rydym hefyd yn darparu allbwn amlgyfrwng lleol a theledu rhanbarthol gyda newyddion dyddiol a'n rhaglen materion cyfoes wythnosol *Inside Out*, y ddau ar BBC One yn ystod oriau brig. Yn ddiweddar rydym wedi dechrau proses fwy effeithlon o gyfeirio ein cynulleidfa rhwng y tri dewis hyn, gan ddefnyddio radio, teledu a'r we i ategu ei gilydd er mwyn cynnig y gwasanaeth mwyaf deinamig ac effeithiol i'n cynulleidfa. Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar lwyddiant y broses hon yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Ein huchelgais ar gyfer y flwyddyn nesaf yw gweithio i gynyddu cynulleidfaoedd radio lleol y BBC yn Lloegr yn ôl i wyth miliwn. Mae pob un o'n gorsafoedd yn llunio ei chynllun gwasanaeth ei hun – o dan awenau ein prif Drwydded Gwasanaeth – sydd, ymhlith pethau eraill, yn cyfeirio at rannu ymddygiad arfer gorau a strategaethau rheoli talent. Ein nod yw cynyddu nifer y gwrandawyr drwy gynnig gwell ddewis golygyddol a chyflwyniadol.

RADIO YN LLOEGR
CYRHAEDDIAD
**18.6%**

COST FESUL AWR GWRANDÄWR
**2.9c**

## BBC RADIO SCOTLAND

- **Radio Scotland yw gorsaf radio llafar fwyaf poblogaidd yr Alban o hyd, a chynyddodd ei chyrhaeddiad flwyddyn ar flwyddyn i 21.6%/932,000 (2008: 21.5%/918,000).**
- **Mae'r gwrandäwr cyffredin yn treulio bron i saith awr a hanner gyda ni bob wythnos. Gostyngodd y gost fesul awr gwrandäwr i 7.1c o 8.5c y flwyddyn flaenorol.**

Mae BBC Radio Scotland yn cynnig gwasanaeth llafar i oedolion, gan gwmpasu ystod eang o genres ac adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban, ac mae'n ymdrin â materion o bwys i'r DU ac yn rhyngwladol o safbwynt yr Alban. Mae trwydded gwasanaeth y sianel yn ein hymrwymo i amrywiaeth o flaenoriaethau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod ein harlwy yn parhau'n gyson wrth i ni geisio ymateb i'r her hon.

### Cyfleoedd i drafod materion a holi cwestiynau

Mae ein cynulleidfaoedd yn gynyddol yn disgwyl mwy o gyfleoedd i ddeall, holi a chyfrannu at drafodaethau ar y penderfyniadau sy'n llywio'r Alban fodern ac yn effeithio ar eu bywydau. Mewn ymateb, estynnodd Radio Scotland y gyfres *Morning Extra*, cynigiodd drafodaethau byw gyda gwleidyddion, sylwebwyr a llunwyr barn yn *Riddoch Questions* a chynyddodd nifer gwrandawyr wythnosol cyfartalog y brif raglen newyddion, *Good Morning Scotland*.

Mae *The Business*, sy'n cynnig ffocws ar newyddion busnes lleol, cenedlaethol a rhyngwladol,

RADIO SCOTLAND
CYRHAEDDIAD
**21.6%**

COST FESUL AWR GWRANDÄWR
**7.1c**

RADIO WALES

CYRHAEDDIAD

17.8%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

5.0c

RADIO NAN GÀIDHEAL

CYRHAEDDIAD

69%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

18.2c

**Tabl 12/ Gwariant holl radio'r BBC y tu allan i Lundain – Rhwydwaith a'r Gwledydd a'r Rhanbarthau**

Dengys y tabl ein gwariant ar raglenni radio'r BBC a wneir yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau.

| | **08/09 £m** | 07/08 £m |
|---|---|---|
| Lloegr | **130** | 136 |
| Yr Alban | **31** | 35 |
| Cymru | **25** | 27 |
| Gogledd Iwerddon | **16** | 15 |
| | **202** | 213 |




*First Minister's Questions*, nawr ar MW a DAB ar ddydd Iau, a blog dyddiol y golygydd gwleidyddol Brian Taylor wedi atgyfnerthu ein hallbwn ymhellach, felly hefyd y gyfres fisol *Investigations*.

## Cynhyrchu comedi a drama newydd, ac annog awduron newydd

Mae drama a chomedi yn arbennig o boblogaidd gyda'n cynulleidfaoedd radio. Darlledwyd un ar ddeg o ddramâu newydd yn 2008, gan gynnwys gwaith gan Liz Lochhead ac Alexander McCall Smith. Roedd comedi arloesol yn amlwg ar draws y flwyddyn, gyda sioeau sgets newydd *North by North North* ac *Ellis & Clarke*, y ddrama gomedi bedair rhan *No Hard Feelings*, gyda John Gordon Sinclair a myfyrdodau Armando Ianucci ar ei yrfa gynnar yn *The Radio Scotland Years*.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, ein nod yw cynyddu effaith ein newyddiaduraeth wreiddiol drwy gynyddu ein rhaglenni dogfen ymchwiliadol lleol i gyfartaledd o ddwy bob mis, gyda sesiynau ffonio i mewn ar ôl y ddwy a blogiau ar-lein i gynnig mwy o gyfleoedd i gynulleidfaoedd gyflwyno sylwadau a chyfrannu. Bydd pynciau yn cynnwys polisi cyhoeddus, troseddau, iechyd, addysg, economeg a gwleidyddiaeth.

Cynhelir ein hymrwymiad i gomedi newydd a bydd drama, gan awduron newydd ac awduron sefydledig, yn rhan o'n hamserlen drwy gydol y flwyddyn.

## RADIO NAN GÀIDHEAL

- **Y llynedd, cyrhaeddodd Radio nan Gàidheal 69% o'r holl siaradwyr Gaeleg yn yr Alban mewn wythnos gyffredin**
- **Y gost gyfartalog fesul defnyddiwr oedd 18.2c (2008: 21.5c).**

Nod Radio nan Gàidheal yw darparu gwasanaeth llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr i siaradwyr Gaeleg, gan adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliannau a diddordebau pobl yr Alban o safbwynt Gaeleg a thrwy gyfrwng yr iaith Gaeleg. Ni yw unig wasanaeth radio cenedlaethol penodol yr Alban i wrandawyr Gaeleg, gan gynnig amrywiaeth eang o gynnwys traddodiadol a chyfoes sy'n estyn allan i gynulleidfaoedd o bob oedran, o newyddion a rhaglennu materion cyfoes i gomedi, cerddoriaeth a rhaglenni dogfen.



"MAE RADIO LLEOL A RADIO'R GWLEDYDD YN RHOI CYFLE I WRANDAWYR DDAL EU CYNRYCHIOLWYR GWLEIDYDDOL I GYFRIF, NEU GAEL TRAFODAETH GYDAG ARWEINWYR DINESIG."
DAVID HOLDSWORTH, RHEOLWR, BBC ENGLISH REGIONS

## Newyddion a dadansoddiadau diduedd

Rydym yn cynnig gwasanaeth newyddion dyddiol unigryw. O ran materion cyfoes, chwaraewyd rhan flaenllaw gennym mewn wythnos ategol o raglennu arbennig ar draws holl lwyfannau'r BBC a oedd yn canolbwyntio ar y pwnc allweddol hwn ac effaith prisiau cynyddol ar economïau gwledig yr Alban. Wedi'u recordio ar leoliad, ategwyd ein rhaglenni gan eitemau o fewn *Eòrpa* ar BBC Two Scotland, y rhaglenni radio a theledu Gaeleg i blant *Aileag* a *Dè a-nis?* a *Thought for the Day* ar Radio nan Gàidheal, ymhlith pethau eraill.

Bydd ein darllediadau o etholiadau Ewrop ym mis Mehefin yn ceisio ystyried, yn arbennig, y materion hynny sy'n effeithio ar yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, yn ogystal ag ar Gaeliaid ble bynnag y bônt yn byw.

Caiff cyfleoedd dysgu, i'r hen a'r ifanc, eu cynnwys ymhob rhan o'n hamserlenni drwy gydol y flwyddyn a byddwn yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd gwahanol o gysylltu llwyfannau radio, teledu ac ar-lein i gyfoethogi ymhellach gyfranogiad ein cynulleidfaoedd yn ein hallbwn.

## RADIO WALES

- **BBC Radio Wales yw'r unig orsaf radio genedlaethol i Gymru yn Saesneg, gyda mwy o wrandawyr nag unrhyw orsaf arall yng Nghymru. Y llynedd, roedd gennym gyrhaeddiad 15 munud wythnosol cyfartalog o 17.8%/444,000 (2008: 17.9%/437,000).**
- **Roedd cost fesul awr gwrandäwr Radio Wales yn sefydlog flwyddyn ar flwyddyn, sef 5.0c (2008: 5.3c).**

Mae Radio Wales yn wasanaeth llafar i oedolion, sy'n cwmpasu ystod eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. Mae ein rhaglenni yn canolbwyntio ar bryderon lleol a chenedlaethol, ond maent hefyd yn ymdrin â materion o bwys i'r DU ac yn rhyngwladol.

## Trafodaethau unigryw o ansawdd uchel ar bynciau llosg

Trafodwyd yr heriau economaidd sy'n wynebu Cymru yn y dirwasgiad yn helaeth o safbwynt busnes, gwleidyddiaeth a defnyddwyr yn *Good Morning Wales*, *Wales@work*, y sioe ffonio i mewn amser cinio a *Jamie and Louise*. Fel rhan o'n cyfranogiad yn y prosiect aml-lwyfan ar draws BBC Cymru *'What are we doing to our kids?'* gwahoddwyd pobl ifanc o bob cwr o Gymru i gymryd rhan fel golygyddion gwadd ar y sesiwn ffonio i mewn ac i arwain trafodaethau.

Mae ein gohebwyr cymunedol wedi ychwanegu at ein gallu i ohebu o wahanol rannau o Gymru gydag amrywiaeth o acenion a straeon lleol, gan roi safbwynt lleol a phersonol i straeon sy'n berthnasol i'n gwrandawyr ledled Cymru.






### Prosiectau aml-lwyfan

Yn *Coal House at War* darlledwyd cyfres o raglenni o Flaenafon, Aberhonddu, Pwllheli ac Abertawe – yn ogystal ag allbwn dyddiol. Cyfeiriwyd at dymor Plentyndod BBC Cymru mewn rhaglenni dyddiol ac eitemau nodwedd estynedig. Mae'r cynnwys bellach wedi'i gyhoeddi'n barhaol ar-lein. Bu Iolo Williams yn llais rheolaidd ar Radio Wales gyda chyfres yn ategu'r prosiect aml-lwyfan *Not in my Nature*; fel cyflwynydd eitemau nodwedd byr ar yr orsaf.

Mae *The Rhod Gilbert Show*, *Celtic Heartbeat* a'r ddrama *Aberystwyth Mon Amour* ymhlith y cynnwys podledu y ceir y nifer uchaf o geisiadau ar ei gyfer, ac mae podlediadau *All Things Considered* a *Scrum V* yn parhau i berfformio'n dda. Cyhoeddodd *The Evening Show* gyfres o berfformiadau unigryw ar-lein gan artistiaid o Gymru.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar gynnal twf y gynulleidfa darged 45 i 64 oed o ran gwrandawyr sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru, gan atgyfnerthu ein hamserlen newydd yn ystod y dydd. Byddwn yn defnyddio talent cyflwyno i ddenu cynulleidfaoedd newydd ac i fanteisio ar dechnoleg newydd i ategu'r broses.

## RADIO CYMRU

- **BBC Radio Cymru yw'r orsaf radio genedlaethol Gymraeg i Gymru. Y llynedd, cyrhaeddodd yr orsaf 6.4%/158,000 o'r holl wrandawyr yng Nghymru mewn wythnos gyffredin (yn unol â 6.2%/151,000 y flwyddyn flaenorol). 32.7% o'r siaradwyr Cymraeg rhugl.**
- **Gostyngodd cost fesul awr gwrandäwr Radio Cymru o 13.2c yn 2008 i 11.5c y llynedd.**

Mae BBC Radio Cymru yn wasanaeth radio llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr i siaradwyr Cymraeg, sy'n cwmpasu ystod eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru. Mae ein rhaglenni yn canolbwyntio ar bryderon lleol a chenedlaethol, ond maent hefyd yn ymdrin â materion o bwys i'r DU ac yn rhyngwladol.

### Rhaglennu newyddion, materion cyfoes a gwleidyddol annibynnol

Yn 2008 estynnwyd ein rhaglen mynediad a thrafod cyhoeddus *Taro'r Post*, ac fe'i symudwyd i slot amser cynharach yn ein hamserlen newydd ar gyfer y prynhawn. Mae nifer y gwrandawyr wedi cynyddu. Parhaodd ein rhaglen newyddion amser brecwast ac oriau cymudo *Post Cyntaf* a *Post Prynhawn* i berfformio'n dda, gan barhau i apelio i'r gynulleidfa er gwaethaf amgylchedd hynod gystadleuol. *Post Cyntaf* yw ein sioe fwyaf poblogaidd o hyd, gyda chyfartaledd o 45,000 o wrandawyr bob bore.

Fel menter newydd yn 2008, cyflwynwyd cyd-ddarllediad o drafodaeth ynghylch newid yn yr hinsawdd ar Radio Cymru ac ar S4C. Cynhaliodd y rhaglen materion cyfoes *Manylu* gyfres o raglenni trafod i'r cyhoedd lle cafwyd presenoldeb uchel yn ystod y flwyddyn, wedi'u recordio ar leoliad ledled Cymru. Bu'r ddadl barhaus yn San Steffan a'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn nodwedd reolaidd mewn rhaglenni newyddion a materion cyfoes yn ystod y flwyddyn.

### Adlewyrchu cymunedau a diwylliannau amrywiol Cymru

Mae'r rhaglen materion crefyddol *Bwrw Golwg* yn adlewyrchu'r amrywiaeth o grwpiau ffydd yng Nghymru, gydag eitemau nodwedd ar Ramadan a thrafodaeth ar y gwyliau ffydd ym mis Rhagfyr. Ymhlith y darllediadau byw o ddigwyddiadau allweddol roedd yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Genedlaethol y Ffermwyr Ifanc a Gŵyl Cerdd Dant Cymru. Cyfoethogwyd darllediadau o ddigwyddiadau gyda mwy o gynnwys aml-lwyfan nag erioed o'r blaen, a fu'n llwyddiant arbennig yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd lle y denodd ein gwasanaeth canlyniadau tua 11,000 o ddefnyddwyr unigol yr un i'n gwasanaeth Cymraeg a'n gwasanaeth Saesneg.

### Cefnogi talent sefydledig a chyflwyno talent newydd

Rydym wedi adlewyrchu poblogrwydd cynyddol corau yng Nghymru gyda'n cystadleuaeth ein hunain sef *Côr Meibion Radio Cymru 2008*. Darlledwyd 12 o ddramâu newydd gennym, cyfres ddrama chwe rhan a 12 rhaglen cerddoriaeth glasurol gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, gan gynnwys dau gyngerdd i ddathlu agor Neuadd Hoddinott y BBC yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd. Cefnogwyd bandiau a cherddorion newydd hefyd drwy recordiadau sesiwn, cystadleuaeth Brwydr y Bandiau a Gwobrau RAP Radio Cymru (Gwobrau Roc a Phop wedi'u beirniadu gan y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru).

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ffyrdd newydd o weithio drwy ddefnyddio technolegau digidol a rhyngweithiol mewn ffordd greadigol i gynnig gwell rhaglenni radio a gaiff eu defnyddio hefyd i ddenu gwrandawyr newydd.

RADIO CYMRU
CYRHAEDDIAD
6.4%

COST FESUL AWR
GWRANDÄWR
11.5c





RADIO ULSTER/ FOYLE

CYRHAEDDIAD

35.6%

COST FESUL AWR GWRANDÄWR

4.4c

Tabl 13/ **Oriau radio'r BBC o'r gwledydd a'r rhanbarthau (rhwydwaith a lleol)**

| | **08/09** | 07/08 |
|---|---|---|
| Llundain | **8,760** | 8,784 |
| Lloegr | **246,172** | 255,081 |
| Yr Alban | **14,860** | 13,588 |
| Cymru | **16,073** | 16,572 |
| Gogledd Iwerddon | **9,357** | 9,329 |
| | **295,222** | 303,354 |

## BBC RADIO ULSTER/FOYLE

- **Yn ystod 2008/09, cynhaliodd BBC Radio Ulster/Foyle gyrhaeddiad 15 munud wythnosol cyfartalog o 35.6%/501,000 (38.6%/533,000). Mae ein poblogrwydd yn helpu i gynyddu lefelau gwrando ar radio lleol yng Ngogledd Iwerddon o gymharu â chyfartaledd y DU. Mae ein proffil gwrandawyr yn ehangach nag unrhyw gymharwyr radio'r BBC a radio masnachol eraill ac rydym yn denu trawstoriad sylweddol ac amrywiol o gynulleidfa Gogledd Iwerddon.**
- **Roedd cost gyfartalog BBC Radio Ulster/Foyle fesul awr gwrandäwr yn sefydlog flwyddyn ar flwyddyn, sef 4.4c (2008: 4.5c).**

Mae BBC Radio Ulster/Foyle yn wasanaeth llafar sy'n cwmpasu ystod eang o genres ac yn adlewyrchu pob agwedd ar fywyd cyfoes yng Ngogledd Iwerddon. Rydym yn cyfuno darllediadau helaeth o faterion, diddordebau a digwyddiadau lleol – cerddoriaeth fyw i drafodaethau ar bynciau llosg – â darllediadau o ddatblygiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ein gwasanaeth unigryw yn ymgysylltu â'r gymuned gyfan ac yn adlewyrchu ei hanghenion.

### Egluro Cynulliad Gogledd Iwerddon

Adlewyrchodd amrywiaeth o raglennu, gan gynnwys *Talk Back*, *Inside Politics* a *Today at the Assembly* waith Cynulliad Gogledd Iwerddon a datblygiadau a materion gwleidyddol lleol gan gynnwys: yr ymyriad hir i gyfarfodydd y Weithrediaeth; trafodaeth barhaus am addysg ôl-gynradd; a datblygiadau o ran datganoli plismona a chyfiawnder.

Adlewyrchodd rhaglennu mwy cyffredinol effaith anawsterau economaidd ar gymunedau lleol ac ymateb i argymhellion adroddiad Eames-Bradley ar etifeddiaeth y Trafferthion. Mae ein rhaglenni trafod a rhaglenni eraill am faterion gwleidyddol yn parhau'n boblogaidd gyda gwrandawyr ac yn gyffredinol mae uchafbwyntiau'r gynulleidfa yn ystod ein rhaglennu yn ystod y dydd yn cyd-fynd â dilyniannau newyddion a chyfresi trafod o dan arweiniad y gwrandawyr, gan gynnwys y *Stephen Nolan Show* dylanwadol.

### Adlewyrchu diddordebau a phryderon gwrandawyr ymhob rhan o'r rhanbarth

Cynhaliwyd rhaglen helaeth o 55 o ddarllediadau allanol gennym o leoliadau ymhob cwr o Ogledd Iwerddon yn ystod yr haf. Ymhlith darllediadau chwaraeon roedd rygbi, pêl-droed, GAA a beiciau modur o'r North-West 200, yn ogystal â chyflawniadau athletwyr lleol oedd yn cystadlu yn y Gemau Olympaidd yn Beijing. Adolygwyd blaenoriaethau golygyddol a threfniadau comisiynu ar gyfer ein hallbwn Gwyddelig ac roedd rhaglenni Gwyddeleg yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau cymunedol. Adlewyrchwyd bywyd a themâu crefyddol mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys cyfres William Crawley ar Lyfr Genesis *In the beginning..*

### Cefnogi dysgu ffurfiol ac anffurfiol a gweithredu cymdeithasol

Roedd *Rhythm and Rhyme* yn wythnos o raglenni ac eitemau nodwedd wedi'i chomisiynu'n arbennig i gyd-fynd â'r Diwrnod Barddoniaeth Cenedlaethol. Archwiliodd *Learning Tea Break* faterion llythrennedd yn y cyfryngau i gynulleidfa hŷn ac ymdriniodd *More Musical Mysteries* a *Hurley Burley Radio* ag anghenion cwricwlaidd gwrandawyr iau. Cymerodd y nifer uchaf o ysgolion erioed ran yn *BBC School Report* a chynhaliwyd nifer o brosiectau a digwyddiadau gennym fel rhan o fentrau eraill ar draws y BBC cyfan, gan gynnwys *Breathing Places* a *Raw*. Yn ogystal bu Bws Cymunedol BBCNI ynghlwm wrth waith i recordio a dathlu gwaith gwirfoddolwyr a sefydliadau cymunedol.

### Arddangos gweithgareddau celfyddydol lleol ac annog talent newydd

Cafodd talent gerddorol newydd a sefydledig ei harddangos mewn rhaglenni gan gynnwys *ATL* a *Strike up the Band*. Roedd rhaglennu Cerddorfa Ulster yn cynnwys y digwyddiad blynyddol Proms yn y Parc a chyfres o gyngherddau yn ystod yr haf – yr oedd pob un ohonynt yn anelu at ennyn diddordeb y gynulleidfa fwyaf posibl mewn cerddoriaeth glasurol. Gwnaethom hefyd ddathlu gwaith yr awduron lleol Seamus Heaney, John Hewitt a David Hammond a lansio cyfres newydd ac iddi 50 rhan ar hanes llenyddiaeth Wyddelig. Dychwelodd *Folks on the Hill* gyda'i barodi o faterion a phersonoliaethau yn Stormont ac roedd comedi newydd yn cynnwys *Colin Murphy's Great Unanswered Questions*.

### Datblygu a hyrwyddo cynnwys digidol ac ar-lein

Un o'n hamcanion allweddol yw datblygu ac ymestyn diddordeb ein gwrandawyr ar draws ein hamserlen gan ddefnyddio technolegau newydd. Rydym yn bwriadu gwneud mwy o hyn yn 2009/10, yn ogystal â pharhau ein hamrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol ac wyneb yn wyneb yn defnyddio 'hen dechnoleg'.

Dros y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn ceisio ailwampio ein hamserlen ar gyfer y penwythnos, gan ystyried anghenion y gynulleidfa a'r adnoddau sydd ar gael a chynnal amrywiaeth ein hallbwn ar yr un pryd, gan roi mwy o bwyslais ar raglennu byw a mwy o gyfleoedd i ryngweithio â'r gynulleidfa fel rhan o'n hallbwn ar foreau Sadwrn.

# CYFRYNGAU A THECHNOLEG Y DYFODOL/



"Y NOD YW CREU AMGYLCHEDD LLE GALL SYNIADAU FFYNNU, AC YNA DEWIS Y RHAI GORAU A'U RHOI AR WAITH AR GYFER EIN CYNULLEIDFAOEDD."


ERIK HUGGERS, CYFARWYDDWR, CYFRYNGAU A THECHNOLEG Y DYFODOL

## SUT Y GWNAETHOM Y LLYNEDD

| METRIG | SUT Y GWNAETH EIN GWASANAETHAU[1] | BETH Y MAE HYN YN EI OLYGU |
|---|---|---|
| CYRHAEDDIAD | 43% | Mae dros 22 miliwn o bobl yn ymweld â BBC Online bob wythnos – sef ychydig dros ddau o bob pum unigolyn sydd ar-lein yn y DU, ac mae hyn yn fwy na thraean o gynnydd o flwyddyn i flwyddyn. Mae llawer yn ymweld â ni i fanteisio ar BBC iPlayer bellach. Mae bron 10 miliwn yn defnyddio BBC Red Button i gyfoethogi eu profiadau teledu bob wythnos, sef chwarter o'r rhai â theledu digidol. |
| ANSAWDD | 70% | Mae BBC Red Button yn cynnig cynnwys cyflenwol ac ategol nad yw ar gael unrhyw le arall – o ddarllediadau byw o gyrtiau allanol Wimbledon i'r wybodaeth leol ddiweddaraf am y tywydd a theithio, gan gynnwys gwybodaeth am deithiau awyr sy'n fythol-boblogaidd. Gyda sgôr gwerthfawrogiad o 70%, mae BBC Red Button yn cael sgorau uwch yn gyson na gwasanaethau cystadleuwyr Sky Text a Digital Teletext. Enillodd BBC iPlayer Prix Italia yn ystod y flwyddyn am y Gwasanaeth Cyhoeddus Trawsgyfryngol Gorau. |
| EFFAITH | 400k | Cafodd BBC iPlayer ei lansio ar BBC Online yn 2007 a bellach mae'n cael dros 400,000 o ymwelwyr bob dydd ar gyfartaledd, gan drawsnewid y ffordd y mae pobl yn gwylio ac yn gwrando ar raglenni'r BBC. Mae'n tyfu o hyd. BBC Red Button yw cartref ein gwasanaethau mynediad – sy'n sicrhau bod y gwylwyr hynny sy'n dibynnu ar isdeitlau, disgrifiadau sain neu arwyddo yn gallu dewis defnyddio'r gwasanaethau hyn a chael mwy allan o'u teledu. |
| GWERTH | 7.6c | Ar y cyd, mae BBC Online a BBC Red Button yn costio 7.6c am bob defnyddiwr. Mae'r rhan fwyaf o'r costau yn deillio o BBC Online, lle roedd y costau fesul defnyddiwr wedi gostwng i 9.7c o 13.2c yn 2008. |

BBC ONLINE BBC RED BUTTON

[1] Mae'r ffigurau yn seiliedig ar wasanaethau, yn unol â'r system trwyddedau gwasanaeth a gaiff ei monitro gan Ymddiriedolaeth y BBC.




# CYFRYNGAU A THECHNOLEG Y DYFODOL/

## MAE CYNULLEIDFAOEDD YN GANOLOG I'N MEDDYLFRYD. GAN WEITHIO MEWN MODD INTEGREDIG GYDAG IS-ADRANNAU CYNNWYS Y BBC, RYDYM YN CYFLWYNO AMRYWIAETH Y BBC O GYNNWYS UNIGRYW IDDYNT MEWN FFYRDD ARLOESOL A CHOST EFFEITHIOL SY'N GWEDDU I'W HANGHENION SY'N NEWID YN Y BYD RHYNGWEITHIOL, AR ALW SYDD OHONI HEDDIW.



Mae diwydiant y cyfryngau yn profi newidiadau sylfaenol a ysgogir gan dechnoleg. Mae pwysigrwydd gwasanaethau cyfryngau digidol yn tyfu'n gyflym, gan chwarae rôl allweddol ym mywydau cynulleidfaoedd a'u perthynas â'r BBC. Bydd ein dyfodol digidol wedi'i alluogi gan brotocol y rhyngrwyd, bydd yn gymdeithasol a bydd wedi'i wreiddio mewn byd a gaiff ei gysylltu gan wasanaeth band eang na fydd byth yn cael ei ddiffodd. Mae'r BBC yn arwain y diwydiant o ran datblygu gwasanaethau arloesol newydd.

Mae gennym hanes balch o arloesedd technegol – ers ein sefydlu, rydym wedi arloesi amrywiaeth eang o wasanaethau a chynhyrchion fel teledu lliw, NICAM Stereo, DAB, Ceefax, Teledu Manylder Uwch, a'r Botwm Coch. Gwnaethom lansio bbc.co.uk yn nyddiau cynnar y Rhyngrwyd ac ers hynny rydym wedi llunio cyfres o wasanaethau digidol ar gyfer y we, ffonau symudol a'r botwm coch.

Heddiw, mae 43% o boblogaeth ar-lein y DU yn defnyddio ein gwefannau bob wythnos, sy'n golygu mai ni yw cyrchfan cynnwys ar-lein fwyaf y DU. Ers lansio BBC iPlayer Ddydd Nadolig 2007, mae defnyddio cyfryngau ar alw wedi dod yn weithgaredd prif ffrwd. Erbyn mis Mawrth 2009, gwyliwyd dros 390 miliwn o ddarllediadau ac roedd iPlayer ar gael ar amrywiaeth eang o ddyfeisiau gan gynnwys cyfrifiaduron, y teledu a ffonau symudol.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i ailwampio BBC Online, gan ailddylunio ein tudalen hafan, ychwanegu adnoddau addasu, mwy o ffrydiau fideo a gwelliannau o ran chwilio a llywio. Tyfodd BBC Mobile yn sylweddol i 4.1 miliwn o ddefnyddwyr bob mis yn sgîl gwasanaethau y gellir eu personoli fel Newyddion, Chwaraeon, Tywydd ac iPlayer.

Parhaodd BBC Red Button i ddod ag agweddau rhyngweithiol i setiau teledu mewn cartrefi sy'n defnyddio Sky, Virgin Media, Freeview ac, ers 2008, Freesat. Mae ychydig o dan 10 miliwn o oedolion yn defnyddio'r botwm coch bob wythnos i gael gwybodaeth destun gan y BBC fel y newyddion a'r tywydd, a gwyliodd y nifer fwyaf erioed ddarllediadau o'r Gemau Olympaidd ar y gwasanaeth.

Bydd ein Menter Cyfryngau Digidol yn galluogi'r BBC i newid i ddulliau cynhyrchu digidol. Bydd y prosiect hirdymor hwn yn symleiddio dulliau darparu aml-lwyfan, yn rhoi mynediad hawdd i ddeunydd archif, ac yn arwain at gostau cynhyrchu is yn y pen draw. Bydd y dechnoleg ar gael i'r diwydiant ehangach hefyd.


Mae gwaith partneriaeth, sy'n datblygu technoleg a safonau ar y cyd, yn ein galluogi i rannu ein harloesedd yn ehangach. O ganlyniad, mewn hinsawdd economaidd heriol, a thirwedd cyfryngau aml-lwyfan, darniog, gall ein partneriaid dargedu eu buddsoddiadau; a bydd ein cynulleidfaoedd yn cael budd o ddewis ehangach o gynnwys a gwasanaethau. Mae gennym amrywiaeth o gynlluniau i ymestyn ein gwaith partneriaeth eleni, ac rydym yn ymwybodol o hyd o'n heffaith ar y farchnad ehangach. Rydym wedi mabwysiadu rheolaethau rheoli cryfach i'n helpu i ddarparu buddiannau mwy cadarnhaol i'n marchnadoedd a thalwyr ffi'r drwydded.

### Tabl 14/ **Holl wariant ar gynnwys ar-lein y BBC y tu allan i Lundain**

Mae'r tabl yn dangos y gwariant ar gynnwys ar-lein y BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau y tu allan i Lundain.

| | **2008/09 £m** | 2007/08 £m |
|---|---|---|
| Lloegr | **11** | 9 |
| Yr Alban | **5** | 6 |
| Cymru | **5** | 5 |
| Gogledd Iwerddon | **3** | 6 |
| | **24** | 26 |






## Arloesedd y BBC dros y blynyddoedd

### 1920au

1922 Sefydlwyd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig – cwmni cyfyngedig preifat – gan grŵp o weithgynhyrchwyr radio blaenllaw.

1927 Y Siarter Frenhinol Gyntaf, a Phrom cyntaf y BBC o Queen's Hall, yn cyflwyno cerddoriaeth glasurol i bawb – gwerthwyd dros 280,000 o docynnau y llynedd, gyda'r rhataf yn £5; gwyliodd 12 miliwn o bobl y Proms yn fyw ar deledu'r BBC a thrwy BBC iPlayer.

### 1930au

1932 Lansiwyd Gwasanaeth yr Ymerodraeth, neu'r World Service fel y'i gelwid yn ddiweddarach, sy'n darlledu newyddion diduedd ledled y byd – roedd ganddo 238 miliwn o wrandawyr rheolaidd y llynedd.

1932 Agorwyd y Ganolfan Ddarlledu, canolfan ddarlledu bwrpasol gyntaf y DU – mae disgwyl i Ganolfan Ddarlledu wedi'i hailwampio gael ei hailagor yn 2012, yn barod ar gyfer yr oes ddigidol.

1932 Lansiwyd y gwasanaeth teledu manylder uwch rheolaidd cyntaf ym Mhalas Alexandra – lansiwyd gwasanaeth HD digidol y BBC yn 2008.

### 1940au

1940 Winston Churchill yn traethu ei araith enwog "This was their finest hour..." ar donfeydd y BBC.

1948 Y darllediad teledu cyntaf o'r Gemau Olympaidd yn Wembley – yn 2008, cyrhaeddodd darllediad y BBC o'r Gemau Olympaidd yn Beijing 42 miliwn o bobl yn y DU.

### 1950au

1951 Y darllediad cenedlaethol cyntaf o *The Archers*, yr opera sebon hynaf yn y byd.

1953 Y darllediad teledu cyntaf o seremoni goroni yn ei chyfanrwydd, Elisabeth II: gwyliodd 22 miliwn o bobl y seremoni ar setiau teledu newydd.

### 1960au

1960 Agorwyd y Ganolfan Deledu, yr adeilad teledu pwrpasol cyntaf yn y byd – agorwyd y ganolfan darlledu digidol bwrpasol gyntaf yn Pacific Quay yn Glasgow yn 2007.

1967 Lansiwyd teledu lliw ar BBC Two, y gwasanaeth cyntaf yn y byd – dros 32 o flynyddoedd ar ôl i'r BBC ei dreialu gyntaf.

### 1970au

1973 Rhaglen Nadolig arbennig *Morecambe and Wise* yn torri pob record: 28 miliwn o wylwyr. Y gynulleidfa fwyaf yn 2008 oedd 16.2 miliwn, ar gyfer Wallace and Gromit.

### 1980au

1985 Y BBC yn dwyn y newyn yn Ethiopia at sylw'r byd, gan ysgogi cyngerdd Live Aid a gododd £60miliwn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cododd telethon *Plant mewn Angen* a Sport Relief £20miliwn a £59miliwn ar noson y darllediad.

### 1990au

1990 Lansiwyd Radio 5 sy'n darlledu chwaraeon a newyddion, y rhwydwaith newydd cyntaf ers 25 o flynyddoedd.

1991 Cofrestrwyd y parth bbc.co.uk – dyma ddechrau gweddnewidiad ar-lein y BBC. Gyda 22 miliwn o ymwelwyr bob wythnos, gwefan y BBC yw'r wefan gynnwys sy'n denu'r nifer fwyaf o ymwelwyr yn y DU.


### 2000au

2002 Lansiwyd Freeview mewn partneriaeth â Crown Castle International a BSkyB, gan achub y llwyfan teledu daearol digidol.

2002 Lansiwyd gorsafoedd teledu a radio digidol gwreiddiol y BBC.

2007 Lansiwyd BBC iPlayer – a gafodd dros 360 miliwn o ymwelwyr rhwng hynny a mis Mawrth 2009.

Am ragor o wybodaeth am y datblygiadau technolegol a'r datblygiadau eraill y mae'r BBC wedi bod yn rhan ohonynt dros y blynyddoedd, ewch i'n gwefan hanes yn www.bbc.co.uk/historyofthebbc





# NOD BBC ONLINE YW HYRWYDDO PWRPASAU CYHOEDDUS Y BBC DRWY DDARPARU CYNNWYS AR-LEIN ARLOESOL AC UNIGRYW, A THRWY GYNIGION UNIGRYW SY'N ADLEWYRCHU AC YN EHANGU AMRYWIAETH GWASANAETHAU DARLLEDU'R BBC.

DEFNYDDWYR UNIGOL WYTHNOSOL AR GYFARTALEDD

22.2M

COST FESUL AWR DEFNYDDIWR

9.7C

Uchaf: Cyflwynodd *Britain from Above* gan Andrew Marr bersbectif newydd trawiadol o'r wlad hon.

Gwaelod: Ail-lansiwyd gwefan *Ouch!* eleni.

- **Roedd nifer defnyddwyr unigol wythnosol BBC Online y llynedd yn 22.2 miliwn ar gyfartaledd (2008: 16.5 miliwn). Chwalodd Etholiad Arlywyddol yr UD y record o ran cynulleidfa wrth i 9.2 miliwn o ddefnyddwyr unigol ddarllen 73 miliwn o dudalennau ar yr etholiad ar 5 Tachwedd, tua 10 gwaith yn fwy nag ar ddiwrnod etholiad arlywyddol yr UD yn 2000 (7.1 miliwn) a bron ddwywaith yn fwy na 2004 (40 miliwn).**
- **Syrthiodd costau defnyddwyr eleni i 9.7c (o 13.2c yn 2008).**

Ymhlith uchafbwyntiau eleni roedd:

## DINASYDDIAETH

Gwnaeth gwefan etholiadol *Newsround* dywys pobl ifanc drwy'r broses o gynnal etholiad, a chafodd un defnyddiwr y cyfle i gyfweld â'r Prif Weinidog. Ail-lansiwyd gwefannau *Today* a *Panorama*, ac maent bellach yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac iau drwy Twitter, Facebook a Stumbleupon. Erbyn mis Mawrth, roedd 1.0 miliwn o ddefnyddwyr ar gyfartaledd yn ymweld â blogiau Newyddion gan ein golygyddion a'n gohebwyr yn cynnwys Nick Robinson, Mark Mardell a Robert Peston.

Gwnaeth ein gwefan ar gyfer Diwrnod y Cofio gyfeirio pobl at lawer o ddigwyddiadau lleol i nodi'r Cadoediad yn 1918. Cyfrannodd defnyddwyr straeon a lluniau o filwyr i archif o atgofion o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

## DYSGU FFURFIOL AC ANFFURFIOL

Mae *GCSE Bitesize* yn parhau i berfformio'n dda iawn ymhob rhan o'r cwricwlwm, gyda 0.4 miliwn o ddefnyddwyr ar gyfartaledd bob wythnos. Cafodd ein gwefannau Ffrangeg a Sbaeneg i ddechreuwyr a rhai mwy profiadol eu hailwampio. I ddefnyddwyr hŷn hefyd, mae *Britain from Above* yn rhoi cyfle iddynt weld cyfres Andrew Marr o'r newydd neu'i gwylio unwaith eto, a gellir lawrlwytho a gwylio dilyniannau ffilm a gyflwynir yn ôl thema neu leoliad fel y dymuna'r defnyddiwr.

## DIGWYDDIADAU EFFAITH UCHEL

Mae ein gwefannau *Autumnwatch* a *Springwatch* yn dathlu natur ledled y DU, gan annog defnyddwyr i rannu fideos, ffotograffau a sylwadau. Fe'u hintegreiddiwyd yn llwyr yn ein hymgyrch *Llefydd i Natur*, gyda'r nod o ysgogi pobl i ofalu am eu hamgylchedd lleol. Dros y tymor, ymwelodd tua 23,000 o ddefnyddwyr â gwefannau *Springwatch* ac *Autumnwatch*.

Denodd BBC Chwaraeon ei chynulleidfa fwyaf erioed yn ystod Gemau Olympaidd Beijing, gyda 8.5 miliwn o ddefnyddwyr unigol bob wythnos. Roedd 'Tips and Tactics' yn annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon. Roedd amrywiaeth o ddolenni allanol yn annog defnyddwyr i ddatblygu eu diddordeb ymhellach, sy'n wers bwysig i ni i gyd wrth edrych ymlaen at Gemau Olympaidd Llundain yn 2012.

## LLE I GYMUNEDAU GYFARFOD A RHANNU

Rhoddwyd sylw i faterion sy'n ymwneud ag anabledd ar *Ouch!*, a gafodd ei hail-lansio fel ei bod yn haws i'w chynulleidfa eang ei defnyddio a'i bod yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddefnyddwyr gyfrannu eu straeon a'u safbwyntiau eu hunain. Mae'r wefan yn cael 20,000 o ddefnyddwyr unigol yr wythnos ar gyfartaledd.

Yn ystod y flwyddyn hefyd, datblygwyd iPlayer fel ei fod ar gael i ddefnyddwyr cyfrifiaduron Mac neu Linux, ac mae'r gwasanaeth ar gael ar amrywiaeth gynyddol o ddyfeisiau symudol, dyfeisiau llaw a dyfeisiau chwarae gemau hefyd.

Adolygodd Ymddiriedolaeth y BBC ein gwasanaeth y llynedd, ac rydym yn gweithio i fodloni disgwyliadau defnyddwyr a nodwyd ganddi. Bydd pensaernïaeth dechnegol newydd yn cael ei lansio yn 2009/10, a fydd yn gwella rhyngweithio ac yn galluogi defnyddwyr i lywio eu profiad o BBC Online i raddau mwy nag o'r blaen gan gynnwys ein helpu i gyflawni ein haddewid blaenorol i alluogi defnyddwyr i lunio eu rhestrau chwarae eu hunain. Byddwn hefyd yn ceisio integreiddio mwy â'r rhyngrwyd ehangach, gan ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i'n cynnwys a gwella'r cyfleuster clicio i ymweld â gwefannau allanol.

Credwn fod gennym rywfaint o'r cynnwys a'r gwasanaethau mwyaf unigryw sydd ar gael ar-lein – ac yn y misoedd sydd i ddod byddwn yn lansio gwasanaethau wedi'u hailwampio ym maes gwyddoniaeth, byd natur a chomedi, a bydd ein gwefan *Democracy Live* yn ceisio ennyn diddordeb defnyddwyr yn y prosesau gwleidyddol sy'n effeithio ar eu bywydau.





BBC RED BUTTON

# BBC RED BUTTON YW ENW NEWYDD BBCi, SYDD WEDI BOD YN DARPARU GWASANAETHAU RHYNGWEITHIOL I WYLWYR TELEDU'R BBC AM 10 MLYNEDD.

## RYDYM YN CYNNIG Y CYNNWYS A'R WYBODAETH DDIWEDDARAF DRWY'R DYDD, GAN GYNNWYS NEWYDDION, TYWYDD, DYSGU, ADLONIANT A RHAGLENNU RHYNGWEITHIOL I GYNULLEIDFAOEDD TELEDU DIGIDOL.

DEFNYDDWYR UNIGOL WYTHNOSOL AR GYFARTALEDD

**9.7M**

COST FESUL DEFNYDDIWR A GYRHAEDDWYD*

**2.7C**

*Newidiodd y metrig mesur y gynulleidfa ym mis Ionawr 2008; mae ffigur 2008/09 yn fwy cadarn na chymharwyr y cyflwynwyd adroddiadau arnynt yn y gorffennol.



- **Defnyddir BBC Red Button gan 9.7 miliwn o oedolion bob wythnos yn y DU ar gyfartaledd, sef 25% o'r rhai â theledu digidol. Nid yw tua thraean o ddefnyddwyr yn defnyddio BBC Online, sy'n golygu bod BBC Red Button yn bwynt mynediad pwysig i lwyfannau digidol ar gyfer y gwylwyr hyn.**
- **Y gost fesul awr defnyddiwr oedd 2.7c yn 2008/09.**

Ymhlith uchafbwyntiau'r llynedd roedd:

### AMRYWIAETH EANG O CHWARAEON


Lansiwyd porth Chwaraeon gwell erbyn dechrau Wimbledon, gan gynnig gwasanaeth cyfunol. Roedd y ffigurau gwylio yn uchel ar gyfer Wimbledon a'r ffefrynnau bythol eraill sef pêl-droed (Ewro 2008), Dartiau, Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad a Chystadleuaeth Snwcer y Meistri. Gallai gwylwyr hefyd wylio chwaraeon lleiafrifol fel MotoGP, y Bencampwriaeth Golff Agored i Ferched a Threialon Ceffylau Burghley, nad ydynt ar gael yn unman arall. Manteisiodd mwy o bobl nag erioed o'r blaen (11.8 miliwn o wylwyr) ar ein gwasanaeth darlledu o Gemau Olympaidd Beijing a oedd yn cynnig Newyddion Chwaraeon cynhwysfawr ar alw a 2,500 awr o ddarllediadau o ddigwyddiadau chwaraeon ar lwyfannau lloeren digidol, cebl a daearol.

### CYRRAEDD CYNULLEIDFAOEDD LLE DYMUNANT I NI FOD

Mae'r newid o deledu analog i deledu digidol yn mynd rhagddo, a gwnaethom sicrhau bod ein gwasanaeth llawn ar gael i'r ardaloedd cyntaf a ddechreuodd newid. Fel rhan o'r broses, rydym wedi ychwanegu tudalennau newydd o wasanaeth Ceefax gan gynnwys Newyddion Cymunedol gyda Read, Hear, data Busnes ychwanegol gan gynnwys prisiau fferm, a'r wybodaeth boblogaidd iawn am Amserau Glanio Awyrennau, gan sicrhau bod gwylwyr yn parhau i gael y cynnwys hwn wrth iddynt newid i deledu digidol.

Roedd gwasanaeth BBC Red Button ar gael ar Freesat o adeg ei lansio ym mis Mai, ac mae wedi bod ar gael o'r cychwyn ar deledu lloeren digidol, cebl a daearol.

Yn 2009/10 byddwn yn parhau i weithio i wella perfformiad cyffredinol ein gwasanaeth ar bob llwyfan gan barhau i gynnig amrywiaeth eang o raglennu rhyngweithiol o Fformiwla 1 i'r *Electric Proms*. Gan fod setiau teledu a dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngrwyd bellach ar gael yn y DU, mae cynlluniau ar y gweill i drosglwyddo'r elfennau gorau o gynnwys a nodweddion BBC Red Button i'r llwyfannau hyn.



Uchaf: Roedd y darllediadau o'r Gemau Olympaidd yn cynnwys digwyddiadau gwahanol i'r rhai a oedd yn cael eu dangos ar brif sianelau BBC One a BBC Two.

Canol: Dychwelodd *Electric Proms* am yr ail flwyddyn yn olynol, gyda chyngherddau o Lerpwl a Llundain.

Gwaelod: Dychwelodd Fformiwla 1 i'r BBC am y tro cyntaf ers 12 mlynedd – gellir gwylio pob sesiwn ar y trac o'r 17 o rasys Grands Prix yn 2009 ar y botwm coch.

# NEWYDDIADURAETH/



"MAE ANSAWDD A MANYLDER Y NEWYDDION A'R WYBODAETH SYDD AR GAEL GAN Y BBC – O WLEIDYDDIAETH AC ECONOMEG I AFFGANISTAN I BÊL-DROED – YN CYNNIG RHYWBETH O WERTH I BAWB."

MARK BYFORD, DIRPRWY GYFARWYDDWR CYFFREDINOL

# SUT Y GWNAETHOM Y LLYNEDD

| METRIG | SUT Y GWNAETH EIN GWASANAETHAU[1] | BETH Y MAE HYN YN EI OLYGU |
|---|---|---|
| CYRHAEDDIAD | 34M | Mae tri chwarter o boblogaeth y DU yn defnyddio ein gwasanaethau newyddion bob wythnos, gan gynnwys 34 miliwn o oedolion sy'n gwylio ein newyddion yn ystod yr wythnos ar y teledu, 25 miliwn o unigolion sy'n gwrando ar y radio, a 10 miliwn sy'n mynd ar-lein. |
| ANSAWDD | 238M | Yn fyd-eang, mae ein gwasanaethau newyddion yn cyrraedd 238 miliwn o oedolion – mwy nag unrhyw ddarlledwr rhyngwladol arall. |
| EFFAITH | 74% | Dywedodd 74% o'r rhai a holwyd yn y DU fod darllediadau newyddion y BBC wedi gwella eu dealltwriaeth o'r economi. Yr economi oedd stori newyddion fwyaf y flwyddyn. Mae darllediadau Robert Peston a chydweithwyr eraill o'r economi fyd-eang a'i heffaith ar y DU yn parhau i ennill gwobrau. Gwnaethom ennill naw o'r 15 o wobrau RTS a oedd yn agored i ni y llynedd. |
| GWERTH AM ARIAN | 8.4C | Dyma'r gost gyfunol fesul awr gwyliwr am sianel BBC News a BBC Parliament. Byddai'r ffigur newyddiaduraeth cyffredinol yn gostwng ymhellach petaem yn cynnwys ffigurau gwylio bwletinau oriau brig BBC One yn ystod yr wythnos: y rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau am 6.30pm yw'r bwletinau newyddion mwyaf poblogaidd yn y DU gan ddenu 5.4 miliwn o wylwyr, a'r *10 O'Clock News* yw'r rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd ledled y DU gan ddenu 4.9 miliwn o wylwyr bob nos. |

[1] Mae'r ffigurau yn seiliedig ar wasanaethau, yn unol â'r system trwyddedau gwasanaeth a gaiff ei monitro gan Ymddiriedolaeth y BBC. Nid yw'r ffigur cyrhaeddiad o 75% a nodir yma yn cynnwys cynulleidfaoedd chwaraeon ychwanegol.



# NEWYDDIADURAETH/

## MAE NEWYDDIADURAETH Y BBC YN CWMPASU AMRYWIAETH EANG O ALLBWN A GWASANAETHAU NEWYDDION, MATERION CYFOES A CHWARAEON, AC MAE'N GWEITHREDU AR LEFEL LEOL, LEFEL GENEDLAETHOL YN Y DU A LEFEL FYD-EANG, AR FFURF FIDEO, SAIN A GWASANAETHAU RHYNGWEITHIOL.



Rydym yn darparu'r gwasanaeth newyddiadurol ar gyfer newyddion a chwaraeon sy'n denu'r nifer fwyaf o wylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr yn y DU – roedd tua phedwar o bob pump o boblogaeth y DU wedi ein defnyddio yn ystod wythnos arferol y llynedd – blwyddyn pan enillodd y BBC naw gwobr yng ngwobrau Newyddiaduraeth RTS, gan gynnwys Sgŵp y Flwyddyn ar gyfer y sylw a roddwyd i'r uniad rhwng HBOS a Lloyds TSB ar sianel BBC News a gafodd ei henwi'n sianel newyddion y flwyddyn hefyd.

Bu'n flwyddyn anhygoel i chwaraeon ar y BBC, gyda darllediadau o ddigwyddiadau mawr a newyddiaduraeth chwaraeon ardderchog. Denodd ansawdd a gwreiddioldeb ein rhaglennu o'r Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd ganmoliaeth o sawl cyfeiriad: gwyliodd 75% o'r DU – tua 42 miliwn o bobl – o leiaf 15 munud o'n darllediadau teledu a defnyddiodd 11.8 miliwn y botwm coch yn ystod y Gemau. Gwyliodd 13.5 miliwn y Gemau Paralympaidd ar Deledu'r BBC.

Lansiwyd sianel deledu Perseg newydd gan y BBC ym mis Ionawr, sy'n cynnig newyddion a gwybodaeth gywir a diduedd yn ogystal â rhaglennu a thrafodaethau rhyngweithiol ar faterion gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol pwysig i siaradwyr Ffarsi yn Iran, Affganistan, Tajicistan a grwpiau alltud ledled y byd. Mae sianel deledu Arabeg y BBC, sydd bellach yn flwydd oed, wedi bod yn darlledu 24 awr y dydd o fis Ionawr. Mae'r arwyddion cynnar o arolwg cynulleidfa annibynnol yn dangos bod cynulleidfaoedd teledu BBC Arabic wedi dyblu'r cyfanswm radio ac ar-lein cyfunol blaenorol ar draws y rhanbarth.


Rydym wedi arwain y ffordd yn achos llawer o'r straeon mawr, gan gyfuno gohebu, sylwebu a dadansoddi cadarn â straeon sy'n datblygu ar y pryd a newyddiaduraeth wreiddiol ym mhob cyfrwng i egluro a dadansoddi pob agwedd ar y straeon.

Cafodd yr agenda newyddion yn y DU ac yn Rhyngwladol ei dominyddu gan oblygiadau'r wasgfa gredyd, y cymorth a roddwyd i fanciau a'r dirwasgiad. Darparodd ein hallfeydd ledled y DU, ein hallfeydd byd-eang a'n hallfeydd lleol ddarlun cyflawn o effaith y digwyddiadau economaidd a gwnaethant dynnu sylw at gryfder a dyfnder ein tîm economaidd a busnes arbenigol. Dangosodd ymchwil fod tua dwy ran o dair o'r rhai a fynegodd farn yn y DU yn credu mai ni oedd â'r darllediadau gorau o'r economi ar y teledu a'r radio.

Roedd etholiad arlywyddol yr UD yn stori fyd-eang fawr drwy gydol y flwyddyn. Teithiodd ein bws etholiadol ar draws yr UD dros gyfnod o ddau fis gan gludo newyddiadurwyr radio, ar-lein a theledu i geisio barn America ehangach a'i chyfleu i'r byd. Dangosodd ymchwil fod 35% o'r farn mai'r BBC oedd wedi darparu'r darllediadau teledu gorau o etholiadau'r UD, o gymharu â 13% i Sky a 10% i ITV.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran atgyfnerthu darllediadau newyddion cenedlaethol y DU o'r gwledydd datganoledig, yn dilyn arolwg gan Ymddiriedolaeth y BBC, ac rydym yn manteisio ar fwy o gyfleoedd i adlewyrchu datganoli a datblygiadau gwleidyddol allweddol yn y gwledydd, i gynulleidfaoedd ledled y DU. Gwnaethom ymateb i argymhellion adroddiad Ymddiriedolaeth y BBC ar ein darllediadau o wledydd a rhanbarthau'r DU ar newyddion teledu rhwydwaith, ac rydym yn gweithio'n galed i gael cydbwysedd priodol ar y sgrîn. Datgelwyd stori wleidyddol fawr yr haf yn yr Alban ar *The Politics Show* pan ddywedodd arweinydd y blaid Lafur yn Senedd yr Alban y dylid mynd ati i gynnal refferendwm ar annibyniaeth. A daeth pwysigrwydd ein darllediadau ledled y gwledydd a'r rhanbarthau i'r amlygrwydd mwyaf ddechrau mis Chwefror pan wyliodd naw miliwn o bobl fwletinau newyddion BBC One am 6.30pm yn dilyn yr eira trwm.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn datblygu ein darllediadau gwleidyddol, gan lansio ein gwefan *Democracy Live*, sy'n dwyn ynghyd am y tro cyntaf gynnwys fideo byw ac ar alw o sefydliadau gwleidyddol allweddol y DU, yn ogystal â Senedd Ewrop.






**MAE CYNULLEIDFAOEDD YN DAL I DROI AT RAGLENNI A LLWYFANNAU TRADDODIADOL YN EU HEIDIAU:**

- gwasanaethau a rhaglenni newyddion y BBC sy'n denu'r nifer fwyaf o wylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr yn y DU.
- y *Ten O'Clock News* gan y BBC yw'r bwletin newyddion mwyaf poblogaidd ledled y DU gan ddenu 4.9 miliwn o wylwyr bob nos.
- mae ein bwletin newyddion o'r gwledydd a'r rhanbarthau, a ddarlledir am 6.30pm yn ystod yr wythnos ar BBC One, yn denu 5.4 miliwn o wylwyr bob dydd.
- o *Newsbeat* ar Radio 1 i *PM* ar Radio 4, mae hanner poblogaeth y DU (52%, neu 25 miliwn o bobl) yn gwrando ar ein newyddion ar y radio bob wythnos.

**AR YR UN PRYD, MAE NIFER GYNYDDOL HEFYD YN DEWIS NEWYDDION Y BBC DRWY WASANAETHAU DIGIDOL:**

- mae BBC News Online yn cyrraedd tua 10 miliwn o ddefnyddwyr unigol yn y DU bob wythnos – cynnydd o 40% ers y flwyddyn flaenorol.
- mae 7.5 miliwn o bobl ar gyfartaledd yn edrych ar ein tudalennau chwaraeon bob wythnos, gan gynyddu hwn i 8.5 miliwn yn ystod y Gemau Olympaidd.
- defnyddiodd 11.7 miliwn o bobl wefan tywydd y BBC yn ystod 'wythnos eira' mis Chwefror.
- caiff ein cynnwys newyddiadurol ar ffonau symudol ei ddefnyddio bellach gan 3.8 miliwn o bobl ar gyfartaledd, o gymharu â 2.9 miliwn flwyddyn yn ôl.

NIFER YR OEDOLION SY'N GWYLIO'R NEWYDDION AR DELEDU'R BBC BOB WYTHNOS

**34M**

NIFER Y BOBL SY'N GWRANDO AR Y NEWYDDION AR RADIO'R BBC BOB WYTHNOS

**25M**

NIFER DEFNYDDWYR UNIGOL BBC NEWS ONLINE

**10M**

CYRHAEDDIAD BYD-EANG GWASANAETHAU NEWYDDION Y BBC

**238M**



Y SIANEL HON YW GWASANAETH NEWYDDION TELEDU 24 AWR Y BBC, SY'N DARPARU DARLLEDIADAU A DADANSODDIAD CYNHWYSFAWR O'R STRAEON MWYAF A PHWYSICAF YN Y DU AC YN RHYNGWLADOL.

EI NOD YW DARPARU'R NEWYDDION DIWEDDARAF YN GYFLYM AC YN GYWIR, PENAWDAU BOB 15 MUNUD A NEWYDDION CHWARAEON, BUSNES AC ADLONIANT RHEOLAIDD.

Uchaf: Arlywydd yr Unol Daleithiau Barack Obama yn uwchgynhadledd G20 yn Llundain ym mis Ebrill.

Gwaelod: Y golygydd busnes cydnabyddedig Robert Peston.





CYRHAEDDIAD
7.5M

COST FESUL AWR DEFNYDDIWR
8.1c

Tabl 15/ **Cyrhaeddiad wythnosol**

Mae ansawdd ac amrywiaeth ein newyddion yn denu dros ddwy ran o dair yn fwy o wylwyr bob wythnos na'n cystadleuydd agosaf o ran newyddion 24 awr, sef Sky.

| | 000au |
|---|---|
| Sianel BBC News | 7,587 |
| Sky News | 4,429 |

- **Mae cynulleidfaoedd yn parhau i dyfu. Y cyrhaeddiad tair munud wythnosol cyfartalog dros y flwyddyn oedd 7.5 miliwn (2008: 6.6 miliwn). Mae'r nifer sy'n gwylio ffrydio byw o'r sianel wedi gwella hefyd.**
- **Eleni gwnaethom lwyddo i ddal ein gafael ar wobr Sianel Newyddion y Flwyddyn y Gymdeithas Deledu Frenhinol, a gwnaethom ennill Gwobr RTS am Sgŵp y Flwyddyn ar gyfer stori Lloyds/HBOS.**
- **Roedd y gost gyfartalog fesul awr defnyddiwr wedi syrthio o flwyddyn i flwyddyn i 8.1c (2008: 9.1c).**

Roedd dwy flaenoriaeth ar gyfer 2008/09:

## NEWYDDION RHYNGWLADOL

Gwnaethom ddarlledu'n helaeth o ymgyrch, etholiad a seremoni urddo Arlywyddol yr UD yn 2008, ac o ddigwyddiadau'n ymwneud â Gemau Olympaidd Beijing yn 2008 (cyflawniadau ym maes chwaraeon ac effaith y Gemau ar ardaloedd gwledig a threfol Tsieina). Gwnaethom ymateb yn gyflym i'r gwrthdaro yn Israel/Gaza wrth iddo ddigwydd gyda gohebu byw o leoliadau allweddol gan Lyse Doucet, gohebu ac eitemau byw o Jerwsalem a'r ffin rhwng Israel a Gaza, ac – yn y pen draw – yn Gaza ei hun. Ymhlith straeon mawr eraill y flwyddyn roedd:

- y cythrwfl yn Zimbabwe, yr etholiadau a'r cytundeb i rannu grym (gan gynnwys gohebu cudd gan John Simpson yn y wlad).
- ymosodiadau terfysgol Mumbai: Ben Brown yn gohebu o'r ddinas.
- y gwrthdaro yn Rwsia/Georgia, gan gynnwys darllediadau byw o Sevastopol.
- y sefyllfa barhaus yn Affganistan, gan gynnwys tridiau o ddarllediadau arbennig o bob rhan o'r wlad a gyflwynwyd gan George Alagiah.
- yr argyfwng economaidd byd-eang wrth iddo ddatblygu, gan gynnwys rhaglen awr o hyd arbennig o'r enw *World Economy on the Brink* a gafodd ei darlledu ar yr un pryd ar BBC World News a World Service Radio a'i ffrydio ar wefan BBC News.

## GOHEBU O SAN STEFFAN A'R SENEDD A'R CYNULLIADAU DATGANOLEDIG

*Straight Talk* gydag Andrew Neil yw'r unig raglen estynedig ar sianelau'r DU sy'n cynnwys cyfweliadau gwleidyddol un i un. Fe'i darlledir deirgwaith yr wythnos.

Gwnaethom roi sylw i ymddiswyddiad arweinydd y Blaid Lafur yn yr Alban a'r broses o ethol olynydd. Cafwyd dadansoddiad manwl o raglen ddeddfwriaethol newydd Llywodraeth yr Alban, a gwnaethom ddarlledu rhaglen arbennig ar BBC Scotland ar is-etholiad Glenrothes, gan ddarlledu'r canlyniad yn fyw dros nos.

Cafwyd darllediadau gan ohebwyr ledled Cymru a Lloegr o etholiadau cynghorau lleol. Cyflwynodd Huw Edwards y darllediadau o etholiadau Maer a Chynulliad Llundain o Neuadd y Ddinas.

Yng Ngogledd Iwerddon, gwnaethom ddarlledu pan gafodd y fargen ei tharo i Weithrediaeth a Chynulliad Gogledd Iwerddon, a oedd yn rhannu grym, gyfarfod unwaith eto yn Stormont.

Gwnaethom gynnig darllediadau a dadansoddiadau byw o gynadleddau'r tair prif blaid, yn ogystal â rhai darllediadau o gynadleddau pleidiau llai: Plaid Cymru, UKIP, y Blaid Werdd.

Ein nod yw parhau i ddatblygu ein cynulleidfa, darparu amrywiaeth ehangach o straeon rhyngwladol na'n prif gystadleuwyr, a gohebu'n fyw o leoliad straeon a digwyddiadau newyddion mawr ledled y byd. Byddwn yn parhau i roi sylw i wleidyddiaeth a sefydliadau datganoledig y DU, gan adlewyrchu amrywiaeth barn a phrofiadau o bob rhan o'r wlad.



BBC PARLIAMENT

# NOD BBC PARLIAMENT YW SICRHAU Y GELLIR CAEL GWYBODAETH AM WAITH CYRFF SENEDDOL A DEDDFWRIAETHOL Y DU, A SENEDD EWROP.

# RYDYM YN WASANAETH UNIGRYW, SY'N YMRWYMEDIG I DDARPARU MYNEDIAD UNIONGYRCHOL DIGYFRYNGIAD I DDADLEUON SENEDDOL, YN OGYSTAL Â DADANSODDI A GOSOD CYD-DESTUN Y MATERION A'R WLEIDYDDIAETH SY'N SAIL I'R DADLEUON HYNNY.

Uchaf: Adeilad Senedd Ewrop yn Strasbourg.

Canol: Prif siambr Tŷ'r Cyffredin.

Gwaelod: Y Prif Weinidog Margaret Thatcher yn cyrraedd 10 Downing Street yn fuan ar ôl iddi gael ei hethol yn 1979, rhan o'n harlwy a oedd yn edrych yn ôl 30 mlynedd.





- **Roedd gan BBC Parliament gyrhaeddiad tair munud wythnosol cyfartalog o 0.45 miliwn y llynedd (2008: 0.38 miliwn). Rydym yn darlledu 24 awr y dydd, ac mae 96% o'r cyfanswm oriau yn deillio'n wreiddiol o BBC Parliament.**
- **Profodd BBC Parliament rywfaint o gynnydd mewn costau fesul awr defnyddiwr y llynedd i 18.5c (2008: 17.3c).**

Roedd ein blaenoriaethau ar gyfer 2008/09, a luniwyd i'n helpu i gyflawni ein cylch gwaith, fel a ganlyn:

CYRHAEDDIAD

0.45M

COST FESUL AWR DEFNYDDIWR

18.5c

## RHAGLENNI AR FATERION LLOSG A CHYFEIRIADAU CLIR

Eleni, yn fwy nag erioed o'r blaen, rydym wedi defnyddio ein hamserlenni dros y penwythnos i roi sylw i waith y pwyllgorau seneddol – er enghraifft, gwnaethom roi sylw i waith Pwyllgor y Trysorlys a thri phwyllgor seneddol arall a oedd yn canolbwyntio ar yr argyfwng bancio a'r dirwasgiad.

Drwy graffigau a chapsiynau, gallwn ddangos bellach amseroedd disgwyliedig digwyddiadau seneddol, gan gynnwys pleidleisiau, ac rydym hefyd yn dangos baner wybodaeth symudol ar y sgrîn i roi gwybodaeth i wylwyr am ddatganiadau pwysig sydd i ddod. Cyfeirir at y faner wybodaeth ar dudalen hafan gwefan y sianel. Mae'r ddau newid hyn yn cyfoethogi profiad y gwyliwr.


## DARLLEDIADAU O SEFYDLIADAU DATGANOLEDIG

Rydym wedi cyflwyno eitem am 11.30pm bob nos yn ystod yr wythnos ar gyfer Cwestiynau ymhob senedd a chynulliad datganoledig, yn ogystal â'n darllediadau estynedig ar ddydd Sadwrn. Gwnaethom ddangos y ddadl a arweiniodd at wrthod Cyllideb yr Alban a thrwy *Dragon's Eye* rydym wedi gohebu ar waith y glymblaid rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yng Nghymru. Roedd ein darllediadau byw yn cynnwys y Datganiadau a wnaed yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon ar lofruddiaethau dau filwr yn Antrim.

## DARLLEDIADAU HELAETH O YMGYRCH ETHOLIADOL YR UD

Mewn partneriaeth â C-SPAN gwnaethom gynnig darllediadau estynedig o'r Cynadleddau a'r areithiau a wnaed yn ystod yr ymgyrch. Gwnaethom ddangos pob un o'r dadleuon arlywyddol ac is-arlywyddol yn eu cyfanrwydd. Ymddangosodd Karl Rove, cyn-Ddirprwy Bennaeth Staff yr Arlywydd Bush yn un o ddadleuon *Intelligence Squared* ar y cynnig: 'George W Bush yw Arlywydd gwaethaf America yn y 50 mlynedd diwethaf'.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd pwyslais ein newidiadau golygyddol arfaethedig ar gyfer ein darllediadau o San Steffan yn golygu y byddwn yn parhau i gynnig darllediadau blaenllaw a helaeth o'r Pwyllgorau sy'n ymchwilio i helyntion y marchnadoedd ariannol a'r economi ehangach. Byddwn hefyd yn gwella ein cyflwyniadau ar y sgrîn o bleidleisiau. Gan edrych i gyfeiriad Ewrop, byddwn yn cyflwyno darlun clir o'r problemau sy'n wynebu'r etholwyr i Senedd Ewrop yn y DU ac ar gyfandir Ewrop.




BBC GLOBAL NEWS


# MAE BBC GLOBAL NEWS YN DWYN YNGHYD BBC WORLD SERVICE, SIANEL DELEDU BBC WORLD NEWS, GWASANAETHAU NEWYDDION AR-LEIN RHYNGWLADOL SAESNEG EU HIAITH Y BBC, BBC MONITORING AC YMDDIRIEDOLAETH BBC WORLD SERVICE, SEF ELUSEN DATBLYGU RHYNGWLADOL Y BBC.

Uchaf: Wadeea Mansoor yn cyflwyno ar deledu BBC Arabic, a ddarlledir yng Ngogledd Affrica, y Dwyrain Canol ac ardal y Gwlff ar systemau lloeren Arabsat, Eutelsat a Nilesat. Am ragor o wybodaeth ewch i www.bbcarabic.com

Canol a gwaelod: Mae teledu BBC Persian (gyda'i wefan a'i ddwy orsaf radio) yn darlledu mewn Ffarsi i Iran, Tajicistan ac Affganistan.







CYRHAEDDIAD

238M

- **Cyrhaeddodd gwasanaethau newyddion rhyngwladol y BBC y gynulleidfa fyd-eang wythnosol fwyaf erioed yn 2008/09, sef 238 miliwn o bobl, a hynny er gwaethaf y cynnydd mewn cystadleuaeth a lleihad yn nifer y bobl sy'n gwrando ar y radio.**

Mae enw da'r BBC am ymddiriedaeth a gwrthrychedd yn parhau ledled y byd. Yn ôl arolygon annibynnol, gwnaeth gwasanaethau newyddion rhyngwladol cyfunol y BBC berfformio'n well na CNNI a chystadleuwyr radio rhyngwladol yn y maes hwn ym mhob marchnad fawr bron.

Mae BBC World Service yn dod yn fwyfwy aml-gyfrwng. Lansiodd sianel deledu BBC Persian ym mis Ionawr ar gyfer siaradwyr Ffarsi yn Iran, Affganistan, Tajicistan a ledled y byd. Mae'r sianel yn darparu newyddion a gwybodaeth gywir a diduedd o safbwynt byd-eang; yn ogystal â rhaglennu a dadleuon rhyngweithiol ar faterion gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol allweddol.

Dyblodd sianel deledu BBC Arabic – a lansiwyd ym mis Mawrth 2008 gan BBC World Service hefyd – ei horiau darlledu i 24 awr y dydd ym mis Ionawr. Dangosodd arolygon o farchnadoedd allweddol Arabeg eu hiaith fod y sianel yn denu o leiaf wyth miliwn o wylwyr bob wythnos yn y marchnadoedd penodol hynny.

Llwyddodd BBC World Service i ddenu'r gynulleidfa wythnosol fwyaf erioed sef 185 miliwn. Rhoddodd sianel deledu newydd BBC Arabic hwb i'r ffigur hwn ond cuddiodd leihad cyffredinol yn nifer y gwrandawyr radio a syrthiodd bum miliwn i 177 miliwn yn 2008/09.

Gellir cael BBC World News mewn 287 miliwn o gartrefi erbyn hyn; ac mae'n denu 74 miliwn o wylwyr bob wythnos. Mae perfformiad masnachol sylfaenol y sianel wedi gwella'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, ond cyfyngwyd ar gynnydd o ran proffidioldeb yn ystod chwarter olaf y flwyddyn gan y dirywiad difrifol yn y farchnad hysbysebu fyd-eang.

Cafodd y datblygiadau a'r gwelliannau mawr a wnaed i'n gwefannau newyddion rhyngwladol a'n darpariaeth ar gyfer ffonau symudol eu gwobrwyo drwy ddenu 17 miliwn o ddefnyddwyr ar-lein – sef y ffigur mwyaf erioed sy'n gynnydd o 28% ers y llynedd; a chynyddodd nifer y tudalennau a welwyd ar ffonau symudol ddengwaith.

Aeth BBC Monitoring ati'n systematig i fonitro dros 3,000 o ffynonellau agored ar y radio, y teledu, yn y wasg, ar y rhyngrwyd a chan asiantaethau newyddion, gan gyfieithu hyd at 100 o ieithoedd.

Defnyddiodd Ymddiriedolaeth BBC World Service y cyfryngau a systemau cyfathrebu i leihau tlodi a hyrwyddo hawliau dynol. Gweithiodd gyda chyfryngau lleol a chenedlaethol mewn dros 40 o wledydd yn Affrica, Asia, y Dwyrain Canol ac Ewrop yn 2008/09.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd BBC Global News yn parhau i ddarparu newyddion diduedd a dibynadwy i gynulleidfaoedd a thua 2,000 o bartneriaid ledled y byd. Ymhlith y mentrau rhaglennu unigryw ac arloesol mae dadansoddiad awdurdodol o'r economi fyd-eang, yr ansefydlogrwydd yn Irac, Affganistan a Phacistan; blwyddyn gyntaf Obama; a'r llu o etholiadau a fydd yn bwysig o safbwynt geowleidyddol.



BBC SPORT

# MAE BBC CHWARAEON YN DARLLEDU CHWARAEON Y DU AR Y RHWYDWAITH, GAN GYNNWYS DIGWYDDIADAU CHWARAEON CENEDLAETHOL PWYSIG AC AMRYWIAETH EANG O CHWARAEON ARBENIGOL, A HYNNY AR Y TELEDU, Y RADIO A'R CYFRYNGAU RHYNGWEITHIOL. RYDYM HEFYD YN DARPARU NEWYDDION CHWARAEON CYNHWYSFAWR.

CYRHAEDDIAD

16.3M

- **Defnyddiodd 40% o'r DU BBC Chwaraeon bob wythnos y llynedd ar gyfartaledd: roedd y cyrhaeddiad 15 munud ar y teledu yn 16.3 miliwn/28.8% (2008: 16.3 miliwn/28.9%); ar y radio, roedd cyrhaeddiad BBC Radio 5 live yn 3.9 miliwn/7.5%, a oedd wedi parhau'n sefydlog ers 3.8 miliwn/7.5% y llynedd; ac ar-lein, gwnaethom gyrraedd 6.8 miliwn, o gymharu â 6.3 miliwn yn 2007/08.**

Nid oes gan BBC Chwaraeon drwydded gwasanaeth, ond mae'n hanfodol er mwyn cyflawni trwyddedau gwasanaeth BBC One, BBC Two, BBC Radio 5 live a BBC 5 live sports extra. Y llynedd gwnaethom ddarparu darllediadau byw ac uchafbwyntiau a recordiwyd o 25 o gampau, yn ogystal â 19 o chwaraeon lleiafrifol eraill fel tenis bwrdd a saethyddiaeth yn ystod y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.

Bu'n flwyddyn anhygoel i chwaraeon ar y BBC, gyda darllediadau ardderchog o ddigwyddiadau mawr. Cafodd ansawdd a gwreiddioldeb ein rhaglennu ar gyfer y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd ganmoliaeth o sawl cyfeiriad: gwyliodd 74% o'r DU – tua 42 miliwn o bobl – o leiaf 15 munud o'n darllediadau o Beijing. Cawsom 32 miliwn o geisiadau am ffrydiau fideo ar-lein yn y DU a defnyddiodd cyfanswm o 11.8 miliwn y botwm coch yn ystod y Gemau. Gwyliodd 13.5 miliwn y Gemau Paralympaidd ar Deledu'r BBC.

Cafodd gallu chwaraeon i ddwyn y genedl ynghyd drwy ddigwyddiadau mawr ei adlewyrchu yn ystod pythefnos Wimbledon hefyd. Cyrhaeddodd hyn ei anterth gyda chynulleidfa deledu frig o 12.7 miliwn – 48% o gyfanswm y gynulleidfa deledu ar y pryd – yn gwylio buddugoliaeth fythgofiadwy Rafael Nadal mewn pum set dros y pencampwr ar y pryd, Roger Federer.

Roedd ein darllediad o Bencampwriaeth Pêl-droed Ewrop yn uchafbwynt i'n cynulleidfa, er gwaethaf y ffaith na lwyddodd unrhyw un o'r gwledydd cartref i gyrraedd y rowndiau terfynol. Denodd ein darpariaeth aml-lwyfan 6.7 miliwn o ddefnyddwyr unigol, sy'n ffigur uwch na'r cyfartaledd, at y wefan. Gêm derfynol Ewro 2008 oedd y digwyddiad teledu mawr olaf i John Motson, a oedd wedi darlledu o naw Cwpan Byd a naw Pencampwriaeth Ewrop.

Mae'r BBC bob amser yn ceisio darparu gwerth, drwy fuddsoddi'n dda yn y farchnad hawliau chwaraeon heriol. Y contract mwyaf a adnewyddwyd yn 2008/09 oedd *Match of the Day*, sy'n golygu y bydd uchafbwyntiau'r Uwch Gynghrair yn cael eu darlledu ar y BBC tan 2013. Bydd y Ras Rwyfo rhwng Prifysgolion Caergrawnt a Rhydychen yn dychwelyd i'r BBC ar ôl pum mlynedd a gwnaethom lwyddo i adnewyddu ein contractau ar gyfer Wimbledon a Phencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad.

Bu gwelliant parhaus yn newyddiaduraeth chwaraeon y BBC dros y 12 mis, gyda darpariaeth newyddion chwaraeon na welwyd ei thebyg o'r blaen o Beijing. Ymestynnodd cyrhaeddiad wythnosol y wefan i 8.5 miliwn.

Nod BBC Chwaraeon yw rhoi dewis ac amrywiaeth gwirioneddol i ddilynwyr chwaraeon, pa le bynnag a pha bryd bynnag y maent yn dymuno. Byddwn yn adeiladu ar hyn ar gyfer 2012 – a bydd penodi cyfarwyddwr a thîm prosiect yn helpu i sicrhau integreiddio llawn ymhob rhan o'r BBC ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain ymhen tair blynedd.





Uchaf: Roedd yr ymgyrch farchnata ar gyfer y Gemau Olympaidd yn cynnwys gwaith animeiddio a cherddoriaeth a gynhyrchwyd yn arbennig gan Gorillaz.

Canol: Jack Charlton yn cyflwyno gwobr Cyflawniad Bywyd i'w frawd Syr Bobby Charlton yn *Sport's Personality of the Year* yn 2008.

Gwaelod: Y Fonesig Tanni Grey-Thompson, aelod allweddol o'n tîm cyflwyno yn y Gemau Paralympaidd.

# NEWYDDIADURAETH YN Y GWLEDYDD A'R RHANBARTHAU/

Mae tua 60% o holl staff y BBC sy'n gweithio ac yn byw y tu allan i Lundain yn darparu newyddion lleol a chenedlaethol ar y teledu, y radio ac ar-lein. Mae'r bwletinau 6.30pm yn ystod yr wythnos o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a 15 ardal yn Lloegr yn denu 5.4 miliwn o wylwyr ar gyfartaledd bob dydd, sef y gynulleidfa newyddion fwyaf i unrhyw raglen newyddion unigol ar y teledu yn y DU.

## LLOEGR

**Dros y flwyddyn ddiwethaf mae bwletinau teledu mewn 15 o ranbarthau ac is-ranbarthau wedi ymateb i amrywiaeth eang o straeon sy'n amrywio o'r dirwasgiad i'r 'diwrnod eira' ym mis Chwefror – pan wnaeth y ffigurau gwylio ddyblu bron – yn ogystal â darlledu amrywiaeth eang o newyddiaduraeth wreiddiol fel cyfres o eitemau arbennig gan BBC London ar etholiad y maer gan gynnwys cynlluniau cyfrinachol i godi costau trafnidiaeth ac ymddiswyddiadau cyfarwyddwr cydraddoldeb a phlismona Ken Livingstone a dirprwy faer Boris Johnson.**

Yn Lloegr, tynnwyd sylw at effaith y dirwasgiad ar drefi marchnad gan *Politics Show* yn y De-orllewin a rhoddodd y Gogledd-orllewin, y Gogledd-ddwyrain a Gorllewin y Canolbarth, ymhlith eraill, sylw i'r datblygiadau arwyddocaol yn y diwydiant ceir. Gweithiodd Gorllewin y Canolbarth gyda *Newsnight* i ddarlledu'n fyw y tu allan i ffatri yn Castle Bromwich, Birmingham.



"DROS Y BLYNYDDOEDD, MAE DARLLEDIADAU NEWYDDION ANNIBYNNOL Y BBC WEDI PARHAU I FOD YN HOLLBWYSIG I GYNULLEIDFAOEDD LEDLED Y DU A'R BYD, AC YN ENWEDIG YNG NGOGLEDD IWERDDON LLE MAE WEDI RECORDIO A GOHEBU AR DRAWSNEWID YMGYSYLLTIAD GWLEIDYDDOL YN YSTOD Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF."
PETER JOHNSTON, CYFARWYDDWR, BBC NI

Ymhlith yr enghreifftiau o newyddiaduraeth ymchwiliol mewn newyddion dyddiol roedd ymchwiliad gan BBC North West a ysgogodd yr Ysgrifennydd Cyfiawnder Jack Straw i ymyrryd yn achos un o gefnogwyr tîm pêl-droed Lerpwl a gafodd ei garcharu am geisio llofruddio rhywun ym Mwlgaria ar ôl Gêm Derfynol Cynghrair y Pencampwyr dair blynedd yn ôl. Ac mewn materion cyfoes – drwy'r eitem wythnosol *Inside Out* – ffilmiodd tîm Gorllewin y Canolbarth y tu mewn i Lys Sharia (dyma'r eilwaith yn unig y rhoddwyd caniatâd i wneud hyn yn y DU). Roedd gan *Inside Out* gynulleidfa gyfartalog o 2.8 miliwn y llynedd (2008: 2.7 miliwn).

Ni cheir cerddoriaeth ar ein 39 o orsafoedd radio lleol yn ystod y cyfnod brecwast allweddol ac mae hyn yn ein gwneud yn wahanol i bob gwasanaeth masnachol lleol arall. Ymhlith y straeon allweddol roedd darllediadau cynhwysfawr BBC Guernsey o etholiadau'r ynys, sy'n digwydd pob pedair blynedd. Mae gan ein timau newyddion allu neilltuol i ddod yn rhan o gymunedau sy'n aml yn cael eu tangynrychioli neu sy'n anodd eu cyrraedd, fel y dangoswyd gan ddarllediadau BBC Radio Leicester o gynhadledd yn y ddinas ar briodasau dan orfod.


Cyrhaeddodd gwefan newyddion BBC England 4.1 miliwn yn 2008/09. Ymhlith y cynnwys cofiadwy roedd cynnwys fideo BBC South ar fordaith olaf y QE2, a gwefan BBC North West ar y Grand National a oedd yn rhoi'r gwyliwr yn esgidiau'r joci a golygfeydd panoramig 360 gradd o'r cae rasio.

## YR ALBAN

***Reporting Scotland* yw rhaglen newyddion fwyaf poblogaidd yr Alban gan ddenu cynulleidfa o 472,000 ar gyfartaledd ar gyfer rhaglen 6.30pm y llynedd. Ein gwefan newyddion yw'r dewis cyntaf i nifer, gydag 1.5 miliwn o ddefnyddwyr unigol ar gyfartaledd bob wythnos.**

Straeon am yr argyfwng bancio a'r economi a hawliodd y sylw mwyaf yn ystod y cyfnod. Cynhyrchodd ein tîm ymchwiliadau nifer o raglenni dogfen unigryw ar gyfer y teledu, gan gynnwys adroddiad 60 munud arbennig ar yr Ymosodiad Terfysgol yn Glasgow a rhaglen ddogfen gan Margo Macdonald, Aelod o Senedd yr Alban, ar hunanladdiad â chymorth. Gwnaethom hefyd gynhyrchu llawer o raglenni ar gyfer *Panorama* ar y rhwydwaith, gan gynnwys hanner awr ar Fanc Brenhinol yr Alban, ac ymchwiliadau arbennig i asedau troseddwyr a'r diwydiant diogelwch. Ymhlith y rhaglenni dogfen eraill roedd *Truth, Lies, Oil and Scotland* a rhaglen a oedd yn dadansoddi perthynas yr Alban â Mrs Thatcher.





Radio Scotland yw gorsaf radio fwyaf poblogaidd yr Alban nad yw'n chwarae cerddoriaeth, a denodd y rhaglen newyddion brecwast flaenllaw *Good Morning Scotland* gynulleidfa wythnosol o 455,000 yn 2008. Darparodd *Good Morning Scotland* ddarllediadau arbennig o etholiadau'r UD a seremoni urddo Obama, gan gynnwys gohebu byw o Washington.

Pennodd *The Politics Show* yr agenda ar sawl achlysur, gan gynnwys galwad Wendy Alexander i gynnal refferendwm ar annibyniaeth yn ystod cyfweliad byw ar y rhaglen.

Mae Radio nan Gàidheal yn darparu gwasanaeth newyddion a materion cyfoes cynhwysfawr i'r gymuned Aeleg. Canolbwyntiodd wythnos o raglennu arbennig ar ynni ac effaith prisiau cynyddol ar economïau gwledig. Mae'r rhaglen wythnosol i blant *Aileag* yn cynnig slot newyddion.

Yn ystod y cyfnod hwn, lansiwyd rhaglen newyddion hanner awr mewn Gaeleg ar BBC ALBA bob nos o'r enw *An Là*, a dyma'r gwasanaeth newyddion cyntaf mewn Gaeleg ar y teledu.

## CYMRU

**Denodd ein bwletin am 6.30pm bob noson o'r wythnos ar BBC One, sef *BBC Wales Today*, 274,000 o wylwyr bob wythnos (2008: 267,000). Denodd y bwletin *Newyddion* rydym yn ei gynhyrchu ar gyfer S4C 14,000 o wylwyr ar gyfartaledd, sef gostyngiad flwyddyn i flwyddyn o 17,000.**

Perfformiodd *Week In Week Out*, ein cyfres materion cyfoes ar BBC One, yn dda o ran ffigurau gwylwyr (cynyddodd y nifer gyfartalog o wylwyr o 66,000 i 71,000) ac effaith olygyddol. Yn ystod y gyfres cafwyd rhaglenni ar hylendid mewn ysbytai a C.diff; ymchwiliad cudd, a gafodd ei enwebu am wobr Bafta, a ganfu achosion o halogi mewn lladd-dai; a rhaglen ddeifiol ar dlodi yng nghymoedd De Cymru a wnaeth ymweld â theulu ddeg mlynedd yn ddiweddarach.




Datgelodd yr eitemau Your Stories ar *BBC Wales Today* broblemau cyffredin sy'n wynebu cymunedau a busnesau nad ydynt yn gallu cael band eang. O ganlyniad, daeth Llywodraeth y Cynulliad a BT ynghyd i gyhoeddi eu bod yn mynd i fynd i'r afael â llawer o'r ardaloedd a nodwyd gennym oedd heb gysylltiad band eang.

Roedd gan *Good Morning Wales* ar BBC Radio Wales gyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 220,000 dros y flwyddyn (2008: 228,000), ac roedd gan *Post Cyntaf* ar Radio Cymru gyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o 81,000 yn ystod yr un cyfnod (2007: 80,000).

Mae gan wefan newyddion BBC Wales 1.3 miliwn o ddefnyddwyr unigol ac mae gan wefan newyddion BBC Cymru 27,000 o ddefnyddwyr unigol. Cafodd darllediadau ein tîm ar-lein ynghylch y penderfyniad dadleuol i ddiffodd goleuadau stryd mewn rhannau o Ganolbarth Cymru sylw gan allfeydd eraill, gan gynnwys y rhaglen *Today* ar Radio 4 a Theledu Rhwydwaith.

## GOGLEDD IWERDDON

**Cynyddodd cyrhaeddiad cynulleidfa wythnosol *BBC Newsline* i 443,000/27.5% y llynedd (2008: 428,000/26.8%). Ymhlith nodweddion diffiniol yr allbwn hwn mae newyddiaduraeth ymchwiliol a gwreiddiol. Roedd sawl ymchwiliad thematig yn cynnwys e-banel y rhaglen gohebu estynedig ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys crefydd, henaint ac effaith technolegau newydd. Hefyd, ystyriodd *BBC Newsline* faterion yn ymwneud â gwaith Northern Ireland Events Company, y bygythiad cynyddol o weithgarwch gan anghydffurfwyr gweriniaethol, safonau diogelwch mewn caeau chwaraeon lleol a rhai o'r problemau sy'n wynebu Cymdeithas Bêl-droed Iwerddon. Roedd amrywiaeth a dyfnder ei ddarllediadau newyddion wedi cael budd o benodi gohebwyr arbenigol newydd.**

Cynyddodd *Good Morning Ulster* ei gyrhaeddiad cynulleidfa wythnosol i 99,250 o wrandawyr. Cafwyd straeon newyddion wrth iddynt ddatblygu o bob rhan o Ogledd Iwerddon, gan ddefnyddio adnoddau darlledu allanol a'n rhwydwaith o ohebwyr lleol. Ymchwiliodd y rhaglen i bryderon am y ffordd y caiff gweithwyr mudol eu trin yn y diwydiant pysgota lleol a chafwyd adroddiad arbennig ar brofiad un teulu o ganser. Ysgogodd hyn y Gweinidog Iechyd i ymrwymo i ddarparu arian ychwanegol ar gyfer gwaith ymchwil.

Denodd ein gwefan newyddion 920,094 o ddefnyddwyr unigol ym mis Ebrill 2009 – cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 50%. Ei chylch gwaith yw rhoi sylw manwl i straeon newyddion wrth iddynt ddatblygu a dolenni i ddeunydd cysylltiedig. Datblygwyd y wefan trwy gydol y flwyddyn fel ei bod yn cynnwys newyddion ychwanegol o Foyle a'r Gorllewin. Mae hefyd yn cynnwys adroddiadau ffilm a sain ar straeon sy'n effeithio ar bobl leol. Mae gwefan *BBC Newsline* yn darparu adroddiadau a darllediadau estynedig i ategu ei raglenni teledu a ddarlledir yn ystod yr wythnos a'i berthynas ryngweithiol â'r gynulleidfa.

# MASNACHOL/



"MAE BBC WORLDWIDE YN YCHWANEGU GWERTH NEWYDD SYLWEDDOL AT BOB FFI'R DRWYDDED BOB BLWYDDYN DRWY WNEUD YR ELW MWYAF POSIBL AR WERTHU RHAGLENNI A CHYNHYRCHION Y BBC LEDLED Y BYD. MAE'R FFAITH BOD TROSIANT WEDI CYNYDDU BRON 10% MEWN AMODAU MASNACHU ANODD YN DANGOS BOD EIN STRATEGAETH ARALLGYFEIRIO YN TALU FFORDD."

JOHN SMITH, PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL, BBC WORLDWIDE

## BBC WORLDWIDE

**BBC Worldwide yw prif gangen fasnachol y BBC. Ei ddiben yw sicrhau bod cyfleoedd i ysgogi incwm masnachol o hawliau ac eiddo'r BBC yn cael eu rheoli'n briodol, o safbwynt busnes, diogelu brand y BBC a chyfrifoldeb cymdeithasol.**

Mae llywodraethau olynol wedi galw ar y BBC i wneud y mwyaf o incwm o ffynonellau masnachol i wrthbwyso ffi'r drwydded. Cynyddodd buddsoddiad uniongyrchol mewn rhaglenni a gomisiynwyd gan y BBC a thaliadau difidend 23% i £153miliwn (2008: £125miliwn).

Cafodd yr hinsawdd economaidd fyd-eang a oedd yn dirywio a llawer o heriau yn niwydiant cyfryngau'r DU effaith ar amodau masnachu y llynedd. Bu BBC Worldwide yn destun llawer o ddadleuon domestig ynghylch ei gylch gwaith, ei strategaeth ar gyfer twf, a'r rhan y gallai ei chwarae o ran cefnogi darlledu cyhoeddus y tu hwnt i'r BBC. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, llwyddodd i gynyddu trosiant 9.5% a thrwy reoli costau'n llym, arhosodd y lefelau proffidioldeb sylfaenol yn sefydlog o flwyddyn i flwyddyn. Gwnaeth y busnes sianelau a nifer o frandiau mawr megis *Dancing with the Stars* (y fformat teledu rhyngwladol sydd wedi'i seilio ar *Strictly Come Dancing*) elw da iawn.

Aeth gwerthiannau cyffredinol, gan gynnwys ei gyfran o incwm cyd-fentrau, y tu hwnt i £1 biliwn am y tro cyntaf, cynnydd o 9.5% i £1,003.6 miliwn, gan gynnwys incwm rhyng-grŵp o £7.5 miliwn. O fewn hyn, daeth y refeniw hysbysebu o dan bwysau ond o ganlyniad i brosesau arallgyfeirio eang y cwmni, gwrthbwyswyd hyn gan dwf mewn meysydd eraill.

Effeithiodd ansolfedd ei bartner cyhoeddi DVDs, Woolworths Group plc, ar elw a chafodd Kangaroo, chwaraewr fideo ar-lein masnachol a ddatblygwyd ar y cyd â Channel 4 ac ITV, ei wahardd gan y Comisiwn Cystadleuaeth a arweiniodd at gostau dileu o £9.1 miliwn.

Arweiniodd buddsoddiadau strategol mewn meysydd twf presennol a meysydd twf yn y dyfodol megis sianelau, ar-lein a chynhyrchu, ynghyd â'r dirwasgiad byd-eang, at leihad o 27% mewn elw statudol i £85.7 miliwn ond roedd perfformiad sylfaenol yn sefydlog er gwaethaf heriau yn y farchnad. Fodd bynnag, bydd y buddsoddiadau hyn yn sicrhau cynnydd yn y tymor canolig i'r hirdymor ac yn sicrhau llif cadarn o hawliau masnachol y gellir manteisio arnynt yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod – mae 35% o'r trosiant cyfan bellach yn deillio o fusnesau a sefydlwyd dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Ar ôl cydnabod colledion ariannol ar offerynnau cyfnewid ariannol tramor, addasir elw BBC Worldwide cyn llog a threthiant yng nghyfrifon y grŵp i £66.2 miliwn.

Mae BBC Worldwide yn gweithredu mewn maes byd-eang. Yn 2007 cafodd y dasg o ysgogi elw gan y BBC, a datblygodd strategaeth ar gyfer twf gyda phum targed allweddol:

- cynyddu refeniw tramor i ddwy ran o dair o'r cyfanswm: yn 2008/09 cynyddodd hyn o 49% i 51%.
- gwella refeniw ar-lein i fwy na 10% o'r cyfanswm: cynyddodd gwerthiannau ar-lein i 4.6% o gymharu â 2.7% y llynedd.
- datblygu busnes sianelau: mae ganddo bellach 44 o sianelau y mae'n berchen arnynt yn llawn a sianelau cyd-fenter ledled y byd, gan ddarparu llwyfan ardderchog i dalent ar deledu'r DU.
- datblygu busnes cynhyrchu teledu byd-eang mewn marchnadoedd allweddol i sicrhau gwell elw o werthu fformatau teledu: sefydlwyd canolfannau cynhyrchu eraill yng Nghanada a Pharis.
- caffael busnesau a datblygu partneriaethau i helpu i gyflawni'r cynllun cyffredinol: gwnaed mân fuddsoddiadau mewn cwmnïau cynhyrchu annibynnol gan gynnwys Sprout a Baby Cow eleni gan gynyddu ein cyfrannau ecwiti mewn cwmnïau annibynnol yn y DU i saith, a gwnaethom brynu cyfran ein partneriaid cyd-fenter FOXTEL a Fremantle yn UK.TV, sef ein sianel drama ac adloniant yn Awstralia.

Yn ystod y flwyddyn cymerwyd camau bras tuag at gyflawni ei nod o fanteisio ar amrywiaeth o frandiau cyfryngau byd-eang. Roedd brandiau mawr (*Top Gear*, *Earth*, *Doctor Who*, *Lonely Planet*) yn cyfrif am £171.1miliwn (17%) o'r holl refeniw.

Yn 2007 prynodd gyfran sylweddol yn y busnes gwybodaeth teithio uchel ei barch, Lonely Planet, er mwyn manteisio i'r eithaf ar archif helaeth y BBC o raglennu sy'n gysylltiedig â theithio drwy wefan Lonely Planet a chyflwyno cynnwys a gynhyrchwyd gan y BBC i gynulleidfaoedd newydd. Yn ystod y flwyddyn, ailwampiodd lonelyplanet.com yn gyfan gwbl a'i hail-lansio a rhoddwyd clipiau'r BBC ar y wefan ychydig wedi diwedd y flwyddyn. Yn ogystal, lansiodd gylchgrawn Lonely Planet yn y DU sy'n gyhoeddiad misol unigryw newydd i deithwyr ac sy'n hyrwyddo rhaglennu'r BBC ar deithio a diwylliant. Er bod y dirwasgiad wedi effeithio ar fusnes craidd y llyfrau teithio, mae Lonely Planet wedi gwella ei gyfran o'r farchnad mewn sawl ardal ac ef yw'r brand llyfrau teithio mwyaf poblogaidd yn y DU ac Awstralia.






Uchaf a gwaelod: Mae *Doctor Who* a *Dancing with the Stars* (y fformat rhyngwladol sydd wedi'i seilio ar *Strictly Come Dancing*), i enwi ond dau, ymhlith y brandiau y gwnaethom eu gwerthu eleni ar ran y BBC a thalwyr ffi'r drwydded. Mae'r llun ar y gwaelod yn dangos y rapiwr Lil' Kim a'i phartner Derek Hough.

**Siart 4/ Gwerthiannau BBC Worldwide £m**




**Siart 5/ Elw statudol BBC Worldwide cyn llog a threthiant £m**




Mae poblogrwydd *Top Gear* y tu allan i'r DU wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf ar ôl i'r gyfres gael ei lansio ar iTunes yn yr UD lle aeth yn syth i rif un yn y siartiau. Aeth sioe fyw ar daith yn y DU, Johannesburg, Sydney, Auckland a Hong Kong a lansiwyd fersiynau lleol o'r gyfres deledu yn Awstralia a Rwsia. Erbyn hyn cylchgrawn *Top Gear Australia* yw'r cylchgrawn misol mwyaf poblogaidd i ddynion yn Awstralia. Yn 2008 cynyddodd cylchrediad y cylchgrawn yn y DU i dros 200,000.

Un o uchafbwyntiau BBC Worldwide eleni oedd ennill Gwobr y Frenhines am Fenter ym mis Ebrill 2009, a oedd yn cydnabod ei hanes nodedig mewn masnach ryngwladol a'i gyfraniad i sector diwydiant creadigol y DU. Tynnodd y wobr sylw at ei ran yn y broses o arddangos cynnwys gorau'r DU yn fyd-eang a sicrhau bod y buddiannau'n dychwelyd i Brydain.

Mae trafodaethau rhwng BBC Worldwide a Channel 4 am bartneriaethau posibl yn parhau. Mae BBC Worldwide yn ystyried mentrau posibl yn seiliedig ar weithgareddau sy'n gyfleoedd busnes cadarn ac a fydd yn rhoi refeniw newydd i'r BBC a Channel 4.

Mynegwyd diddordeb allanol sylweddol eleni yng ngweithgareddau BBC Worldwide a pha ran y dylai ac y gallai'r cwmni ei chwarae yn niwydiant cyfryngau'r DU. Comisiynodd Ymddiriedolaeth y BBC arolwg o'i gylch gwaith y llynedd ac er nad yw'r casgliadau terfynol wedi'u llunio ar adeg ysgrifennu hwn, hyd nes y cyhoeddir canlyniad arolwg Prydain Ddigidol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datgan ei bod yn bwriadu gwneud newidiadau i fframwaith rheoli manwl BBC Worldwide i bennu pwyslais mwy penodol ar gyfer ei weithrediadau. Roedd BBC Worldwide, ar y cyd â'r BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC, hefyd wedi cyfrannu at ymchwiliadau allanol amrywiol yn ystod y flwyddyn gan gynnwys ymchwiliad gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Isod: Mae *Top Gear* yn frand rhyngwladol hynod lwyddiannus. Mae'r llun yn dangos Syr Tom Jones yn siarad â Jeremy Clarkson.





## BBC STUDIOS AND POST PRODUCTION (BBC Resources gynt)

**Roedd y llynedd yn flwyddyn anodd i bob rhan o'r farchnad cyfleusterau darlledu. Mae'r hinsawdd economaidd wedi dirywio a bu lleihad yn refeniw a busnes y Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu wrth i gynyrchiadau dorri costau a chwilio am arbedion, ac wrth i sioeau symud o Lundain yn unol â strategaeth ehangach y BBC i wario 50% o'i wariant cynhyrchu y tu allan i Lundain erbyn 2016.**

Yn ystod 2008/9 roedd y cwmni wedi:

- ffurfio partneriaeth â BBC Chwaraeon i ddarparu darllediadau ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Beijing 2008, y tro cyntaf i holl ddarllediadau'r BBC gael eu darparu'n gyfan gwbl mewn HD a heb ddefnyddio tâp.
- cefnogi *Comic Relief*, dros saith awr o ddarlledu byw o Stiwdio Un.
- ôl-gynhyrchu'r ddrama HD lwyddiannus *Criminal Justice*.
- cefnogi'r gyfres wyddoniaeth *Oceans*, a wnaed mewn HD gyda sain 5.1, y prosiect mawr cyntaf i ddefnyddio set sain newydd Dub 4 Ôl-gynhyrchu.
- darparu cyfleusterau stiwdio ar gyfer rhaglenni adloniant BBC One ar nos Sadwrn – *Strictly Come Dancing*, *I'd Do Anything* a *Last Choir Standing*.
- uwchraddio trydedd stiwdio i HD gan fuddsoddi bron £2 filiwn mewn camerâu, lensys, offer gweld a monitro HD yn Stiwdio Pedwar.
- lansio set sain 5.1 arall mewn ymateb i alw cynyddol ymhlith cwsmeriaid am offer cymysgu 5.1 ac er mwyn bodloni gofynion sianel BBC HD.

Yn ystod 2007/08 rhoddwyd y cwmni ar werth. Gwerthwyd y busnes Darllediadau Allanol i SIS LIVE ar 1 Ebrill 2008. Cadwyd ac ailstrwythurwyd y busnesau Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu, a chaewyd y gweithrediadau Ôl-gynhyrchu ym Mryste a Birmingham ar 1 Ebrill 2009.

Eleni gwnaeth BBC Studios a Post Production Limited golled weithredu cyn eithriadau o £0.4miliwn ar drosiant o £76.3miliwn (2007/08: elw £2.0miliwn, trosiant ar weithrediadau parhaus £74.4miliwn). Roedd cyfanswm yr asedau net yn £39.9miliwn gan gynnwys balansau arian parod cyfun net gyda chwmnïau'r grŵp o £31.0miliwn.

Ymhlith yr eitemau eithriadol a gododd mae gwaith ailstrwythuro sylweddol y bwriadwyd iddo ddatrys problemau parhaus o ran adnoddau a gallu a thâl am namau ar asedau sefydlog.

Ar 1 Ebrill 2009 cafodd y cwmni ei ailenwi'n BBC Studios and Post Production Limited. Eleni byddwn yn uno ein his-adrannau Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu i greu busnes unedig sy'n gallu ymateb yn well i anghenion newidiol ein cwsmeriaid a heriau'r farchnad sy'n datblygu, a chadw'r busnes wrth wraidd y broses greadigol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.bbcstudiosandpostproduction.com

Dde a gwaelod: Helpodd BBC Studios and Post Production y BBC i ddarparu ystod eang o raglenni eleni gan gynnwys sioeau amser brig BBC One ar nos Sadwrn *Strictly Come Dancing*, *I'd Do Anything* a *Last Choir Standing*.








LLYWOD



086 / **BWRDD GWEITHREDOL/**
088 / **ADRODDIAD LLYWODRAETHU CRYNO/**

# RAETHU/



## MARK THOMPSON

Cyfarwyddwr Cyffredinol ers mis Mehefin 2004. Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol a Grŵp Cyfarwyddyd y BBC, sy'n cynnwys holl gyfarwyddwyr adrannol y BBC.



## MARK BYFORD

Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol. Aelod o'r Bwrdd ers 1998. Cadeirydd y Bwrdd Newyddiaduraeth. Cadeirydd y Bwrdd Safonau Golygyddol, y Bwrdd Rheoli Cwynion, y Bwrdd Dysgu a Grŵp Cydlynu Gemau Olympaidd Llundain 2012.



## ZARIN PATEL

Prif Swyddog Cyllid ers mis Ionawr 2005. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC a Chyfarwyddwr anweithredol BBC Worldwide Limited.



## CAROLINE THOMSON

Prif Swyddog Gweithredu. Aelod o'r Bwrdd ers mis Mai 2000. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC. Cyfarwyddwyr anweithredol Digital UK.




## LUCY ADAMS

Cyfarwyddwr BBC People. Ymunodd â Bwrdd y BBC ym mis Mehefin 2009 o Eversheds LLP lle y bu'n gweithio fel Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.



## SHARON BAYLAY

Cyfarwyddwr Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd. Ymunodd â Bwrdd y BBC ym mis Mai 2009 o Microsoft, lle y bu'n Rheolwr Cyffredinol Adran Gwasanaethau Ar-lein Microsoft yn y DU.



## MARCUS AGIUS

Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ac yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ym mis Rhagfyr 2006. Yn cadeirio Pwyllgor Cydnabyddiaeth Bwrdd Gweithredol y BBC. Cadeirydd Grŵp Barclays PLC. Un o ymddiriedolwyr y Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew a Chadeirydd Sefydliad a Chyfeillion y Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew.



## VAL GOODING CBE

Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2008. Mae hefyd yn aelod anweithredol o fwrdd Standard Chartered a J Sainsbury, Aelod Ymgynghorol o Fwrdd Ysgol Fusnes Warwig, Ymddiriedolwr yr Amgueddfa Brydeinig, cyfarwyddwr anweithredol y Gymdeithas Tenis Lawnt ac Ymddiriedolwr Theatr Rose.

MAE'R BWRDD GWEITHREDOL YN RHEOLI'R BBC AC MAE'N GYFRIFOL AM DDARPARU GWASANAETHAU'R BBC A GWEITHREDIADAU O DDYDD I DDYDD YM MHOB RHAN O'R SEFYDLIAD.



**JANA BENNETT OBE**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweledol. Aelod o'r Bwrdd ers mis Ebrill 2002. Cyfarwyddwyr anweithredol BBC Worldwide Limited.



**TIM DAVIE**
Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth ers mis Medi 2008. Aelod o'r Bwrdd ers mis Ebrill 2005.



**ERIK HUGGERS**
Cyfarwyddwr Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol y BBC. Aelod o'r Bwrdd ers mis Awst 2008. Cyn hynny Erik oedd Rheolwr Grŵp Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol y BBC.



**JOHN SMITH**
Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide Limited. Aelod o'r Bwrdd ers 1997.



**DR MIKE LYNCH OBE**
Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Entrepreneur technoleg a sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Autonomy plc.



**DAVID ROBBIE**
Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Yn cadeirio Pwyllgor Archwilio Bwrdd Gweithredol y BBC. Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp yn Rexam PLC. Un o ymddiriedolwyr Aldeburgh Music.



**DR SAMIR SHAH OBE**
Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Prif Weithredwr Juniper Communications Limited. Cadeirydd Ymddiriedolaeth Runnymede, un o Ymddiriedolwyr Amgueddfa Victoria ac Albert ac Athro Arbennig mewn Astudiaethau Ôl-Wrthdaro yn yr Ysgol Ieithoedd a Diwylliannau Modern, Prifysgol Nottingham. Cadeirydd Screen West Midlands.



**ROBERT WEBB CF**
Penodwyd yn Gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2007. Yn cadeirio Pwyllgor Masnachu Teg Bwrdd Gweithredol y BBC. Penodwyd yn CF yn 1988. Cadeirydd Autonomy Corporation plc a Chyfarwyddwr anweithredol Cyfnewidfa Stoc Llundain, Hakluyt & Co Ltd ac Argent Group plc. Athro gwadd ym Mhrifysgol Bournemouth.

# ADRODDIAD LLYWODRAETHU CRYNO/

## MAE'R BWRDD GWEITHREDOL WEDI CYDYMFFURFIO Â GOFYNION Y SIARTER, GAN GREU TREFNIADAU LLYWODRAETHU PRIODOL AC EFFEITHIOL I'R BBC.

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn y Siarter Frenhinol (y Siarter). Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn asesu perfformiad rheolwyr y BBC a'i wasanaethau. Mae ei harolwg a'i hasesiad ar gyfer 2008/09 ar gael yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon, ac ar-lein yn bbc.co.uk/annualreport, lle y ceir copi o Adroddiad Llywodraethu llawn y Bwrdd Gweithredol hefyd.

Mae'r Siarter hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r Bwrdd wedi cydymffurfio â gofynion y Siarter, gan greu trefniadau llywodraethu priodol ac effeithiol i'r BBC . Mae hyn wedi sicrhau cydymffurfiaeth sylweddol â Chod 2006 y Cyngor Adroddiadau Ariannol (FRC) hefyd er nad yw Cod FRC 2006 yn briodol i amgylchiadau'r BBC mewn nifer o feysydd. Mae sicrhau cydymffurfiaeth â'r Siarter wedi golygu, mewn nifer fach o feysydd sy'n ymwneud â chyfansoddiad y Bwrdd, na sicrhawyd cydymffurfiaeth â Chod FRC 2006, er bod y Bwrdd o'r farn nad yw hyn yn peryglu ansawdd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith. Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod y Bwrdd yn arwain Grŵp y BBC yn effeithiol, a'i fod yn cynnwys cydbwysedd o aelodau gweithredol ac anweithredol ac amrywiaeth o sgiliau busnes a sgiliau darlledu.


Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bob agwedd ar y broses weithredol o reoli'r BBC (ac eithrio Uned Ymddiriedolaeth y BBC) ac mae ganddo restr o faterion a gadwyd yn ôl iddo, ond yn ymarferol dirprwyir rhai o'i gyfrifoldebau i grwpiau rheoli eraill. Nodir unrhyw benderfyniad gan y Bwrdd i ddirprwyo cyfrifoldebau yn y rheolau sefydlog perthnasol ar gyfer pob grŵp a sefydlir fframwaith ar gyfer adrodd ac adolygu. Ceir y rheolau sefydlog ar gyfer y Bwrdd a'i is-bwyllgorau yn www.bbc.co.uk/info/running/executive/index.shtml

### Penodiadau i'r Bwrdd

Goruchwyliodd y pwyllgor enwebiadau nifer o benodiadau yn ystod y flwyddyn. Penodwyd pedwar cyfarwyddwr gweithredol eleni. Ymunodd dau o'r cyfarwyddwyr hyn â'r Bwrdd cyn diwedd y flwyddyn – sef Erik Huggers, Cyfarwyddwr, Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol, a Tim Davie, Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth – a dau ar ôl



### Adroddiad yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



Blwyddyn ariannol 2008/09 yw'r ail flwyddyn y bu'r Bwrdd yn gweithredu â Chyfarwyddwyr anweithredol ac, fel y rhagwelwyd yn fy Adroddiad yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y llynedd, crëwyd cydberthnasau gwaith effeithiol ymhlith aelodau'r Bwrdd yn seiliedig ar ethos cydweithredol cryf. Bu agenda lawn o fusnes rheolaidd yn ogystal ag achlysurol, a llawer i brofi gallu'r cyfarwyddwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu ar y sail bod y cyfarwyddwyr gweithredol yn cydnabod ac yn deall bod gan y Cyfarwyddwyr anweithredol hawl – yn wir ddyletswydd – i'w herio drwy wneud ymholiadau a'u holi a bod hyn yn gymwys i faterion ar yr agenda a materion o ddiddordeb perthnasol. Ar yr un pryd, mae'r Cyfarwyddwyr anweithredol yn cydnabod yn eu tro fod yn rhaid iddynt helpu'r cyfarwyddwyr gweithredol i wneud y penderfyniadau gorau posibl ar ôl dadansoddi a thrafod, a'u cynorthwyo wedyn i gymryd camau gweithredol.

O'r nifer fawr o faterion a drafodwyd gan y Bwrdd, y disgrifir y rhan fwyaf ohonynt rywle arall yn yr Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon, byddwn yn dewis y canlynol (heb fod mewn unrhyw drefn arbennig) fel rhai sy'n cynrychioli pynciau lle y teimlwyd fwyaf o bosibl fod budd cael amrywiaeth eang o safbwyntiau a phrofiad:

- arolwg Ofcom o Ddarlledu Cyhoeddus
- datblygiad parhaus BBC iPlayer
- atal y cynllun bonws yn ôl disgresiwn ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol
- arolwg o opsiynau ar gyfer BBC Worldwide
- ymdopi ag effaith y dirwasgiad ar gyllid y BBC

Ym mhob achos, roedd y materion dan sylw yn rhai cymhleth a sensitif ac roedd y canlyniadau o ran enw da yn bellgyrhaeddol. Gallaf gadarnhau i'r eitemau hyn – fel y rhai eraill – gael eu trafod mewn ffordd agored a thryloyw a bod y drafodaeth wedi'i chynnal gyda'r amcan sylfaenol o wasanaethu pwrpasau cyhoeddus y BBC.

**Marcus Agius**
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
18 Mehefin 2009

diwedd y flwyddyn – sef Sharon Baylay, Cyfarwyddwr, Marchnata, Cysylltiadau a Chynulleidfaoedd, a Lucy Adams, Cyfarwyddwr, BBC People.

Roedd disgwyl i bedwar Cyfarwyddwr anweithredol ymddiswyddo ar 31 Rhagfyr 2008. Ar ôl adolygu cyfansoddiad ac anghenion y Bwrdd yn drylwyr, yn ogystal â sgiliau, profiad a gwybodaeth y cyfarwyddwyr unigol, argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau i'r Bwrdd a'r Ymddiriedolaeth y dylid ailbenodi Dr Mike Lynch, David Robbie, Dr Samir Shah a Robert Webb am ddwy flwyddyn arall.

## ATEBOLRWYDD A RHEOLAETH FEWNOL

### Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae proses barhaus ar gyfer nodi, gwerthuso, rheoli, monitro ac adrodd am risgiau mawr i'r BBC wedi bod ar waith am y flwyddyn ariannol ac mae cyfarwyddwr pob un o grwpiau busnes y BBC wedi cael cyfrifoldeb clir am nodi a rheoli'r risgiau sy'n wynebu ei fusnes. Ystyrir amlygiad i risg ar lefel grŵp busnes ac ar lefel y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd, gan ddibynnu ar waith manwl y Pwyllgor Archwilio (sy'n ystyried canfyddiadau archwilio mewnol ac allanol) a thrwy adolygu a thrafod adroddiadau chwarterol ar risg a chydymffurfiaeth, yn cadarnhau ei fod wedi ystyried effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith drwy gydol y flwyddyn ariannol a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.



### Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

Prif ffocws y Pwyllgor Archwilio yw adolygu a goruchwylio gwaith llywodraethu corfforaethol yn y BBC, yn enwedig adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Yn ein cyfarfodydd, rydym yn adolygu'r materion a godwyd gan Archwiliad Mewnol a chynnydd y rheolwyr o ran mynd i'r afael â'r rhain yn rheolaidd. Rydym yn herio rheolwyr i wneud y newidiadau angenrheidiol gyda chyn lleied o oedi â phosibl, gan ddefnyddio ein gwybodaeth gyfunol a'n profiad amrywiol gyda sefydliadau eraill. Rydym hefyd yn cael y newyddion diweddaraf yn rheolaidd gan ein harchwilwyr allanol; mae'r rhain yn amlinellu eu dull archwilio ac unrhyw faterion y dymunant eu dwyn i'n sylw i'w trafod.

Er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o'r risgiau mwyaf sylweddol sy'n wynebu'r BBC a gwerthfawrogiad llawnach o'r gwaith sy'n mynd rhagddo a gwaith arfaethedig i liniaru'r risgiau hynny, rydym hefyd yn gofyn am bapurau a chyflwyniadau gan reolwyr ar risgiau mawr sy'n uchel ar agenda'r BBC ac ar broffiliau risg ar draws y BBC a ddewisir ar sail cylchdro. Mae ein diddordeb yn seiliedig ar briodoldeb a digonolrwydd y camau gweithredu a gymerir i reoli'r risg a heriwn reolwyr os teimlwn y gellir gwneud gwelliannau. Eleni, yn benodol, rydym wedi ystyried methiannau mewn rheolaethau golygyddol a'r cynlluniau manwl i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd eto, y dirwasgiad byd-eang a'i effaith ar y BBC a'i randdeiliaid niferus, a materion diogelu data yn sgîl pryder cyffredinol y cyhoedd.

Mae cwmpas y pwyllgor hwn yn cwmpasu pob rhan o grŵp y BBC; felly rydym hefyd yn cael ac yn trafod diweddariadau gan y Pwyllgorau Archwilio eraill sy'n goruchwylio ein busnesau masnachol.

**David Robbie**
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
18 Mehefin 2009

## ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH Y BWRDD GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd. Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr 2002 a rhai'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Caiff yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd eu harchwilio gan KPMG LLP.

### Pwyllgorau Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth ar gyfer y Bwrdd ac mae'n gyfrifol am bob agwedd ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr anweithredol. Am ragor o wybodaeth am y Pwyllgor, gweler arolwg ac asesiad yr Ymddiriedolaeth yn Rhan Un o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/09.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer pob un o aelodau gweithredol y Bwrdd, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae aelodau'r Pwyllgor yn Gyfarwyddwyr anweithredol, sef Marcus Agius (Cadeirydd), Dr Mike Lynch a Robert Webb.

Mynychir cyfarfodydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chyfarwyddwr BBC People hefyd, drwy wahoddiad, i gynghori ar faterion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r Bwrdd a pherfformiad cyffredinol y BBC. Nid yw Cyfarwyddwr BBC People yn bresennol pan ystyrir materion ynghylch ei gydnabyddiaeth ei hunan. Gall Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol fanteisio ar arbenigedd mewnol drwy Gyfarwyddwr Gwobrwyo'r BBC, sydd hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, drwy gydymffurfio â Chod Cyfunol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar Lywodraethu Corfforaethol 2006, yn derbyn cyngor arbenigol gan ymgynghorwyr proffesiynol allanol. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Hewitts hyd at fis Medi 2008 a chan PricewaterhouseCoopers wedi hynny.

### Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr anweithredol

Pennir ffioedd Cyfarwyddwyr anweithredol gan yr Ymddiriedolaeth. Ceir gwybodaeth am sut y pennir lefel y ffioedd yn arolwg ac asesiad yr Ymddiriedolaeth yn Rhan Un.

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol**

Mae rheoli gwobrau aelodau gweithredol yn y BBC yn creu heriau sy'n unigryw yn y DU. Mae'r BBC yn gorfod cydbwyso ei gyfrifoldebau gwerth am arian fel corfforaeth yn y sector cyhoeddus â'i hangen i recriwtio, cadw a chymell y dalent sydd ei hangen i ddarparu darlledu cyhoeddus rhagorol mewn cystadleuaeth â chwmnïau'r cyfryngau a thechnoleg yn y sector preifat.


Mae'r BBC yn gweithredu strategaeth cydnabyddiaeth ar gyfer y Bwrdd, wedi ei chymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth, a gynlluniwyd fel y gellir recriwtio a chadw staff yn y marchnadoedd y mae'n gweithredu ynddynt, fel darlledwr cyhoeddus a busnes masnachol. Mae'r strategaeth hon yn alinio cyflog sylfaenol y BBC â lefelau canolig y sector masnachol, ond ni cheisir cynnig tâl amrywiol sy'n cyfateb i'r lefelau tâl amrywiol a delir gan ein cystadleuwyr yn y sector masnachol. Mae ein strategaeth yn ystyried y cyfle o gael gweithio i'r BBC, ynghyd â'r lefel uwch o ddiogelwch mewn swydd nag a geir fel arfer o ganlyniad i'r ffaith bod ein refeniw yn fwy rhagweladwy. Mae'r strategaeth cydnabyddiaeth ar gyfer y Bwrdd yn cael ei rhaeadru i lawr drwy weddill y sefydliad lle y caiff dull tebyg ei weithredu. Bob blwyddyn, rydym yn adolygu data ar daliadau'r farchnad ac mae hyn yn dangos, er bod cyflog sylfaenol wedi'i alinio i raddau helaeth â lefelau canolig yn y sector masnachol, fod cyfanswm y gydnabyddiaeth a dderbynnir gan bob un o'r cyfarwyddwyr gweithredol yn sylweddol is na'r lefelau a delir gan ein cystadleuwyr yn y sector masnachol. Mae hyn yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide sy'n cyfranogi yng nghynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide, ein busnes masnachol.

Un o'r ffactorau sylweddol wrth wahaniaethu rhwng cyflogau aelodau gweithredol yn y BBC yw'r angen i gydnabod gwahanol ddynameg y farchnad rhwng staff creadigol a staff cymorth proffesiynol ac rydym yn cydnabod bod y staff cymorth proffesiynol, yn gyffredinol, yn debygol o aros yn y BBC am lai o amser ac yn debygol o allu cael eu gwobrwyo'n well yn y sector masnachol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ymateb i'r newid mewn amgylchiadau economaidd, gan gydnabod bod y bwlch rhwng cyflogau'r BBC a'i gystadleuwyr yn y sector masnachol yn debygol o leihau wrth i lefelau taliadau amrywiol yn sector y cyfryngau a thechnoleg leihau. Felly, gwnaethom gyfyngu ar godiadau yng nghyflogau sylfaenol y rhan fwyaf o'r cyfarwyddwyr gweithredol i 2% ym mis Awst 2008 ac rydym wedi penderfynu na fydd codiad yng nghyflog sylfaenol unrhyw gyfarwyddwr gweithredol ym mis Awst 2009. At hynny, penderfynodd y Bwrdd atal trefniadau bonws yn ôl disgresiwn ar gyfer pob aelod o staff ac, o ganlyniad, ni thelir unrhyw fonysau yn ôl disgresiwn tan fis Awst 2010 ar y cynharaf (heblaw am Fusnesau Masnachol, lle y telir taliadau bonws cytundebol, gan gynnwys i Brif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide). Rydym hefyd wedi cydnabod bod angen sicrhau bod cydnabyddiaeth y BBC yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol yn y dyfodol ac rydym wrthi'n cynnal arolwg ffurfiol o'n strategaeth cydnabyddiaeth. Bydd yr arolwg hwn yn ystyried a yw alinio cyflog sylfaenol â'r sector masnachol yn briodol o hyd ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r ymagwedd orau tuag at dâl amrywiol ar gyfer y BBC wrth iddo symud ymlaen. Rydym yn bwriadu cwblhau'r arolwg a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r strategaeth cydnabyddiaeth gyda'r Ymddiriedolaeth erbyn mis Hydref 2009. Bydd hyn yn rhoi fframwaith sy'n gryfach na'r fframwaith presennol ac yn sicrhau bod y polisi yn dal i fod yn gadarn yn wyneb yr heriau sy'n wynebu'r BBC yn awr ac yn y tymor hwy.

Er ein bod yn wynebu rhai problemau cymhleth a heriol, rwyf i a'm cydweithwyr o'r farn ein bod wedi parhau i gymhwyso strategaeth cydnabyddiaeth sydd o fudd i dalwyr ffi'r drwydded, sy'n sensitif i'r amgylchiadau economaidd cyfredol, ac sydd wedi ein galluogi i recriwtio, cadw a chymell yr aelodau gweithredol talentog sydd eu hangen ar y BBC.

**Marcus Agius**
Cadeirydd
Pwyllgor Cydnabyddiaeth
18 Mehefin 2009



## Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol

Bwriad y strategaeth, a luniwyd gan yr Ymddiriedolaeth, yw rhoi cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r bobl allweddol sydd eu hangen i arwain y gorfforaeth, tra'n cydnabod statws y BBC fel corfforaeth a ariennir gan y cyhoedd y mae'n rhaid iddi sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Cyflawnir hyn drwy alinio cyflog sylfaenol â chyflog canolig y farchnad ar gyfer y sefydliadau masnachol y mae'r BBC yn cystadlu â hwy am dalent, er na cheisir cynnig tâl amrywiol sy'n cyfateb i'r lefelau tâl amrywiol a gynigir gan y sefydliadau hynny.

Bob blwyddyn, mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn adolygu data ar daliadau'r farchnad a ddarperir yn annibynnol i ategu ei benderfyniadau ar gydnabyddiaeth, a sicrhau bod lefelau tâl yn gyson â'r strategaeth y cytunwyd arni. Dangosodd data o arolwg cyflogau blynyddol 2008 fod cyflog sylfaenol wedi'i alinio i raddau helaeth â lefel ganolig y farchnad ond bod cyfanswm yr iawndal uniongyrchol (cyflog sylfaenol ynghyd â thâl amrywiol) yn amrywio rhwng 40% a 66% o'r lefel a delir gan ein cystadleuwyr yn y sector masnachol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn codi oherwydd y symiau ychwanegol sylweddol o dâl amrywiol (yn cynnwys dyfarniadau ar sail cyfranddaliadau) a ddarperir yn y sector masnachol.

Rhoddir manylion pellach ar bob elfen ar gydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr gweithredol yn y paragraffau canlynol:

### Cyflog sylfaenol

Wrth bennu cyflog sylfaenol mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn ystyried cyflog sylfaenol prif gystadleuwyr y BBC a'r sefydliadau eraill y mae'n cystadlu â hwy am dalent; fforddiadwyedd y BBC i wobrwyo ei aelodau gweithredol; a

pherfformiad yr aelodau gweithredol. Caiff cyflog sylfaenol ei alinio â lefel ganolig y farchnad er mwyn sicrhau nad yw'r BBC yn arwain y farchnad o ran cyflogau aelodau gweithredol yn sector y cyfryngau.

### Tâl amrywiol

Darperir elfen gyfyngedig o dâl amrywiol, sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion allweddol a chyfraniad cyffredinol at berfformiad y BBC. Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol (ac eithrio Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide) yn gymwys i gael bonws blynyddol yn ôl disgresiwn o hyd at 10% o'r cyflog sylfaenol, y mae hyd at 6% ohono am gyflawni targedau gwerth am arian is-adrannol, a hyd at 4% am gyflawni amcanion trawsffurfiol is-adrannol. Ni fydd unrhyw daliadau bonws yn ôl disgresiwn yn cael eu talu yn 2009.

O ran Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide, mae strategaeth cydnabyddiaeth y BBC yn cydnabod, fel busnes a ariennir yn fasnachol, ei bod yn briodol bod y Prif Swyddog Gweithredol yn cyfranogi yng nghynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide. Cymeradwyir y cynlluniau bonws blynyddol a chymelldaliadau hirdymor gan yr Ymddiriedolaeth. Darperir manylion y cynlluniau o dan adran Busnesau Masnachol y BBC.

### Buddiannau

Yn ogystal â phensiynau, y prif fuddiannau cytundebol eraill a ddarperir yw car a lwfans tanwydd, yswiriant iechyd preifat, ac aswiriant bywyd. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol yn gymwys i gael car â gyrrwr o dan drefniadau cynharach. Nid oes gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gar personol na lwfans tanwydd.

## Tabl 16/ **Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd**

Dangosir cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd a'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn isod:

| | Ffi/cyflog sylfaenol[6] £000 | Bonws blynyddol £000 | Buddiannau trethadwy £000 | Cydnabyddiaeth arall[7] £000 | **Cyfanswm cydnabyddiaeth 2008/09 £000** | Cyfanswm cydnabyddiaeth 2007/08 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | |
| Jenny Abramsky[1] | 212 | – | 5 | 31 | 248 | 419 |
| Jana Bennett | 412 | – | 15 | 88 | 515 | 536 |
| Mark Byford | 471 | – | 14 | – | 485 | 513 |
| Tim Davie | 325 | – | 16 | 62 | 403 | 413 |
| Ashley Highfield[2] | 104 | – | 3 | 17 | 124 | 466 |
| Erik Huggers[3] | 223 | – | 9 | 42 | 274 | – |
| Stephen Kelly[4] | 327 | – | 11 | 58 | 396 | 431 |
| Zarin Patel | 346 | – | 14 | 69 | 429 | 440 |
| John Smith[5] | 397 | 69 | 14 | – | 480 | 486 |
| Mark Thompson | 664 | – | 6 | 164 | 834 | 816 |
| Caroline Thomson | 333 | – | 15 | 65 | 413 | 440 |
| **Cyfanswm y cyfarwyddwyr gweithredol** | **3,814** | **69** | **122** | **596** | **4,601** | **4,960** |
| **Cyfarwyddwyr anweithredol** | | | | | | |
| Marcus Agius | 50 | – | – | – | 50 | 50 |
| Val Gooding | 35 | – | – | – | 35 | 9 |
| Mike Lynch | 35 | – | – | – | 35 | 35 |
| David Robbie | 40 | – | – | – | 40 | 40 |
| Samir Shah | 35 | – | – | – | 35 | 35 |
| Robert Webb | 40 | – | – | – | 40 | 40 |
| **Cyfanswm y Cyfarwyddwyr anweithredol** | **235** | **–** | **–** | **–** | **235** | **209** |
| **Cyfanswm y Bwrdd Gweithredol** | **4,049** | **69** | **122** | **596** | **4,836** | **5,169** |
| **Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr** | | | | | **677** | **642** |
| **Cyfanswm** | | | | | **5,513** | **5,811** |

[1] Ymddeolodd Jenny Abramsky ar 30/09/08, mae'r cyflog sylfaenol yn cynnwys tâl am wyliau cytundebol o £46,414.

[2] Gadawodd Ashley Highfield ar 30/06/08, mae'r cyflog sylfaenol yn cynnwys tâl am wyliau cytundebol o £16,515.

[3] Penodwyd Erik Huggers yn Gyfarwyddwr ar 01/08/08.

[4] Gadawodd Stephen Kelly ar 28/02/09, mae'r cyflog sylfaenol yn cynnwys tâl am wyliau cytundebol o £25,143.

[5] Mae cyflog sylfaenol, taliadau bonws a buddiannau John Smith wedi cael eu hariannu'n llawn gan Fusnesau Masnachol y BBC ers 1 Medi 2006. Yn ogystal â'r bonws blynyddol, mae swm cyfwerth wedi'i fuddsoddi yn y Cynllun Cymelldaliadau Hirdymor ar gyfer BBC Worldwide a all gael ei dalu ym mis Mawrth 2012.

[6] Cyflwynodd y BBC drefniant aberthu cyflog ar 1 Mehefin 2008 ar gyfer aelodau a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, a chymerodd y Cyfarwyddwyr hynny a nodir yn y tabl uchod ran yn y trefniant. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, newidiwyd telerau ac amodau cyflogaeth y cyflogeion hynny a ddewisodd y trefniant aberthu cyflog ac o ganlyniad mae cyfraniadau pensiwn cyflogeion a wnaed drwy'r trefniant aberthu cyflog wedi'u trin fel cyfraniadau'r cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith yr aberth cyflog er mwyn gallu eu cymharu â'r blynyddoedd blaenorol. Cyfanswm y cyflog a aberthwyd gan gyfarwyddwyr gweithredol oedd £84,704.

[7] Mae cydnabyddiaeth arall yn ymwneud â threfniadau pensiwn ac yn cynnwys y canlynol:
a. taliadau pensiwn arian parod ychwanegol a ddisodlodd drefniadau FURBS.
b. arian parod ychwanegol ar gyfer Jenny Abramsky gan nad oedd yn cronni buddiannau o dan y Cynllun Pensiwn mwyach.

## Tabl 17/ Cynlluniau buddiannau diffiniedig

Dangosir manylion hawliadau buddiannau diffiniedig isod:

| | Oedran ar 31 Mawrth 2009 | Cynnydd mewn pensiwn cronnus dros y flwyddyn £000 | Cyfanswm y pensiwn cronnus ar 31 Mawrth 2009 £000 | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronnus ar 31 Mawrth 2009[4] £000 | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronnus ar 31 Mawrth 2008[4] £000 | Cyfraniadau'r cyfarwyddwr (ac eithrio cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog) £000 | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau'r cyfarwyddwr £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | | |
| Jana Bennett | 53 | 2 | 14 | 212 | 164 | 1 | 47 |
| Mark Byford | 50 | 13 | 206 | 3,406 | 2,763 | 5 | 638 |
| Tim Davie | 41 | 2 | 8 | 57 | 37 | 1 | 19 |
| Ashley Highfield[1] | 43 | 1 | 15 | 116 | 99 | 1 | 16 |
| Erik Huggers[2] | 36 | 2 | 2 | 7 | – | – | 7 |
| Stephen Kelly[3] | 43 | 2 | 5 | 37 | 20 | 1 | 16 |
| Zarin Patel | 48 | 3 | 21 | 220 | 170 | 1 | 49 |
| John Smith | 51 | 15 | 209 | 3,673 | 3,167 | 4 | 502 |
| Mark Thompson | 51 | 2 | 9 | 130 | 91 | 1 | 38 |
| Caroline Thomson | 54 | 5 | 67 | 1,475 | 1,308 | 1 | 166 |

[1] Ymddiswyddodd Ashley Highfield fel cyfarwyddwr a gadawodd y Cynllun Pensiwn ar 30 Mehefin 2008. Prisiwyd y pensiwn cronnus wrth adael y Cynllun Pensiwn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2009.

[2] Penodwyd Erik Huggers yn gyfarwyddwr ar 1 Awst 2008, er iddo ymuno â'r Cynllun Pensiwn ar 1 Ebrill 2008. Mae'r ffigurau a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn iddo gael ei benodi'n gyfarwyddwr. Mae'n aelod sydd â llai na dwy flynedd o wasanaeth, ac felly nid oes ganddo hawl i bensiwn gohiriedig ar 31 Mawrth 2009. Fodd bynnag, er cysondeb, mae ei bensiwn gohiriedig cronnus wedi'i gyfrifo a'i brisio.

[3] Ymddiswyddodd Stephen Kelly fel cyfarwyddwr a gadawodd y Cynllun Pensiwn ar 28 Chwefror 2009. Prisiwyd y pensiwn cronnus wrth adael y Cynllun Pensiwn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2009.

[4] Mae gwerth trosglwyddo'r buddiannau cronnus yn cynrychioli amcangyfrif o gost ariannu'r buddiannau a gronnwyd hyd yn hyn i'r Cynllun Pensiwn. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar y gwerth, yn cynnwys oedran, cyflog pensiynadwy, gwasanaeth pensiynadwy, yr adran o'r Cynllun Pensiwn ac amodau'r farchnad fuddsoddi ar ddyddiad y cyfrifiad. Nid yw'n swm a delir nac yn swm sy'n ddyledus i'r unigolyn ac felly nid ellir ei ychwanegu'n ystyrlon at y gydnabyddiaeth.

Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â therfynu contract ac ni thalwyd unrhyw iawndal am golli swydd i aelodau o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ac nid oedd unrhyw daliadau o'r fath yn dderbyniadwy ganddynt.

## Tabl 18/ Rhestr o daliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor ar gyfer BBC Worldwide

| Gradd perfformiad BBC Worldwide | Taliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor |
|---|---|
| Chwartel uchaf neu uwch | 20% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol o 100% o'r bonws gohiriedig |
| Canolrif | 10% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol o 50% o'r bonws gohiriedig |
| Islaw'r canolrif | Dim byd yn daladwy |

Nodiadau:

1. Mae dosbarthu llinell syth yn gymwys rhwng y canolrif a'r chwartel uchaf.
2. Fforffedir 50% o swm unrhyw fonws blynyddol gohiriedig hefyd os yw'r perfformiad yn is na'r chwartel isaf.




## Tabl 19/ Taliadau'r cynllun cymelldaliadau hirdymor ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide

| Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor | Bonws gohiriedig £000 | Diwedd y cyfnod perfformiad | Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor a dalwyd £000 | Dyfarniad a dalwyd sy'n cyfateb i'r bonws gohiriedig £000 | Cyfanswm a dalwyd £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | a | | b | c | a+b+c |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2006 i 2009 | – | Mawrth 2009 | 80 | – | 80 |

## Tabl 20/ Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor yn 2010 a 2011 ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide

| Dyfarniad y cynllun cymelldaliadau hirdymor | Bonws gohiriedig £000 | Diwedd y cyfnod perfformiad | Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor (targed) £000 | Taliadau posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor (uchafswm) £000 | Dyfarniad posibl sy'n cyfateb i'r bonws gohiriedig (uchafswm) £000 | Cyfanswm posibl (targed) £000 | Cyfanswm posibl (uchafswm) £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | a | | b | c | d | e | a+b+d | a+c+e |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2007 i 2010 | 80 | Mawrth 2010 | 40 | 80 | 40 | 80 | 160 | 240 |
| Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2008 i 2011 | 88 | Mawrth 2011 | 40 | 80 | 44 | 88 | 172 | 256 |

Nodiadau:

1. Cynllun cymelldaliadau hirdymor 2007-2010 ar gyfer perfformiad sy'n is na'r chwartel isaf, fforffedir 100% o'r bonws gohiriedig.
2. Mae dyfarniad posibl y cynllun cymelldaliadau hirdymor yn seiliedig ar enillion cyfredol a chaiff ei dalgrynnu i'r 1,000 agosaf

Dewisir y grŵp cymharol am ei gymysgedd o fusnesau, diwydiant a chynrychiolaeth ddaearyddol ac mae'n cynnwys Aegis Group, British Sky Broadcasting Group, Emap, Informa, ITV, Pearson, Reuters Group, Taylor Nelson Sofres, WPP, Yell Group, Cablevision Systems Corp, Comcast A, Disney (Walt) Company, Eastman Kodak, Interpublic Group Cos, News Corp A, SBS Broadcasting, Time Warner, ProSiebenSat1, Axel Springer (R), Havas Advertising, JC Decaux, M6 Metropole Television, Publicis Groupe, TF1, Vivendi Universal, Arnoldo Mondadori, Mediaset, RCS Mediagroup, Jetix Europe, Dentsu Inc, Fuji Television Network, Nippon Television Network Corp, SKY Perfect Communications.

## Pensiwn

Mae aelodau gweithredol y Bwrdd yn gymwys i gymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y BBC, sy'n darparu ar gyfer buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig.

Ar gyfer cyflogai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn cyn 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1/60ain o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth a'r cyflog pensiynadwy yw'r cyflog sylfaenol, yn cynnwys Pwysoliad Llundain, ond nid yw'n cynnwys unrhyw daliadau bonws na thaliadau eraill. Ar gyfer cyflogeion yn y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 60. Ar gyfer cyflogai a ymunodd ar neu ar ôl 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1.67% o'u cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth, wedi ei haddasu yn unol â chwyddiant hyd at ymddeoliad. Ar gyfer y grŵp hwn yr oedran pensiynadwy arferol yw 65.

Mae gan bob cyfarwyddwr gweithredol presennol (ac eithrio Erik Huggers) oedran pensiynadwy arferol o 60 ond gallant barhau yn y swydd nes eu bod yn cyrraedd 65 oed. Yr oedran ymddeol arferol ar gyfer Erik Huggers yw 65 oed gan ei fod wedi ymuno â'r Cynllun Pensiwn ar ôl 1 Tachwedd 2006. Ar gyfer y rhai a ymunodd â'r Cynllun Pensiwn ar ôl 31 Mai 1989 mae enillion yn agored i uchafswm terfyn blynyddol (£117,600 y flwyddyn ar gyfer 2008/09). Ni chymhwysir unrhyw uchafswm terfyn blynyddol i'r rhai a ymunodd ar neu cyn 31 Mai 1989. Mae'r Cynllun Pensiwn yn darparu ar gyfer ymddeoliad cynnar ar sail feddygol ac aswiriant bywyd o bedair gwaith y cyflog pensiynadwy hyd at derfyn a ragnodir.

Rhoddwyd amrywiaeth o drefniadau ar waith, ar gyfer aelodau o'r Bwrdd a ymunodd ar ôl 31 Mai 1989, lle mae eu cyflog pensiynadwy yn uwch na'r uchafswm terfyn blynyddol, yn cynnwys trefniadau wedi eu hariannu a heb eu hariannu y tu allan i'r Cynllun Pensiwn. Ers 1 Ebrill 2006, disodlwyd y trefniadau hyn gan dâl ychwanegol arian parod a delir i bob cyfarwyddwr ar gyflog pensiynadwy sy'n uwch na'r uchafswm terfyn blynyddol.

Gall unrhyw gyflogai sy'n rhan o'r cynllun sy'n cyrraedd neu'n mynd y tu hwnt i'r Lwfans Gydol Oes (£1.65miliwn ar gyfer 2008/09) ddewis eithrio o'r Cynllun Pensiwn a chael tâl arian parod ychwanegol yn lle hynny.

## Busnesau masnachol y BBC

Mae Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide yn rhan o gynllun bonws blynyddol a chynllun cymelldaliadau hirdymor BBC Worldwide a sefydlwyd gan Fwrdd BBC Commercial Holdings ac a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth. Nid ariennir y cynlluniau hyn gan ffi'r drwydded ac mae costau llawn cyflog sylfaenol, bonws blynyddol a'r cynllun cymelldaliadau hirdymor wedi eu hunanariannu gan refeniw masnachol BBC Worldwide.

Mae Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide yn gymwys i gael uchafswm dyfarniad blynyddol o 50% o gyflog sylfaenol o dan y cynllun bonws blynyddol; pennir 75% o'r bonws yn ôl perfformiad BBC Worldwide yn erbyn targedau elw a rhoddir 25% yn ôl disgresiwn y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn seiliedig ar gyflawni amcanion allweddol sy'n ymwneud â llwyddiant cyffredinol y BBC. Yn unol â phenderfyniad a wnaed ynghylch y cyfarwyddwyr gweithredol eraill, ni fydd y bonws olaf hwn o 25% a roddir yn ôl disgresiwn yn daladwy yn 2009. Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol yr hawl i ohirio hyd at 75% o fonws blynyddol y flwyddyn flaenorol i mewn i'r cynllun cymelldaliadau hirdymor.

Mae'r cynllun cymelldaliadau hirdymor yn gynllun cymelldaliadau arian parod a gynlluniwyd i gysoni cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol â strategaeth y busnes. Yr uchafswm a delir allan o dan y cynllun cymelldaliadau hirdymor yw 20% o gyflog sylfaenol, a swm cyfatebol posibl o 100% o'r bonws blynyddol gohiriedig. Caiff dau fesur perfformiad eu defnyddio wrth benderfynu ar y ddwy elfen: mesurir Twf Elw (pwysoliad o 75%) a thwf Adenillion ar Werthiannau (pwysoliad o 25%) dros gyfnod o dair blynedd a'u cymharu â grŵp cymharol o 15 o leiaf o gwmnïau cyfryngau rhyngwladol eraill. Caiff y cwmnïau eu graddio yn unol â'u perfformiad. Dewiswyd y mesurau hyn gan mai hwy sy'n ategu amcanion BBC Wordwide yn fwyaf uniongyrchol a'r mesurau hyn yw ysgogwyr allweddol llwyddiant.

Mae'n rhaid i BBC Worldwide gael ei raddio o leiaf yng nghanol y grŵp cymharol cyn y bydd unrhyw ddyfarniad yn daladwy. Telir y swm uchaf os caiff ei raddio yn y chwartel uchaf neu'n uwch. Ceir graddfa taliadau llinell syth rhwng y ddau bwynt hyn.

## Contractau cyflogaeth

Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o 12 mis ar y mwyaf, a gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol. Ar 31 Mawrth 2009, roedd tymor heb ddarfod pob cyfarwyddwr gweithredol yn 12 mis ar y mwyaf. Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai bod hynny ar sail dileu swydd.

## Buddiannau allanol

Lle nad oes unrhyw bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau, a chyda chytundeb y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Enwebiadau ymlaen llaw, gall aelodau gweithredol y Bwrdd ddal un swydd cyfarwyddwr allanol â chydnabyddiaeth, a chaniateir hyd at 15 diwrnod y flwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Gall yr aelod gweithredol gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr. Nod y polisi yw annog cyfarwyddwyr gweithredol i ymgymryd â swyddi cyfarwyddwyr anweithredol allanol, er mwyn cynorthwyo datblygiad proffesiynol a dod â sgiliau busnes ehangach i'r BBC. Gall cyfarwyddwyr gweithredol ddal swyddi allanol na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy hefyd.

Yn ystod y flwyddyn, gwasanaethodd y Prif Swyddog Gweithredu fel cyfarwyddwr anweithredol Y Rheoleiddiwr Pensiynau hyd at 28 Chwefror 2009 a chadwodd y ffioedd ar gyfer y swydd cyfarwyddwr hon fel y nodir yn nhabl 21 isod. Gellir gweld cofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd yn www.bbc.co.uk/info/running/executive/register.shtml Cydnabyddir bod Cyfarwyddwyr anweithredol yn debygol o gael swyddi cyfarwyddwyr eraill ac nid yw'r cyfyngiadau sy'n gymwys i gyfarwyddwyr gweithredol yn gymwys iddynt hwy.

### Tabl 21/ Ffioedd swyddi cyfarwyddwyr allanol

| | Sefydliad | Taliad a gafwyd £000 |
|---|---|---|
| Prif Swyddog Gweithredu | Y Rheoleiddiwr Pensiynau | 9 |

# CYFRIFO



# LDEB/

96/ GWEITHREDIADAU/



# GWEITHREDIADAU/





''MAE MEITHRIN A CHYNNAL CYDBERTHNASAU DA Â CHYDWEITHWYR A CHYFLENWYR YN HANFODOL I'R BROSES O REDEG GWEITHREDIAD EFFEITHLON YN ESMWYTH. A GWNEUD YR UN PETH GYDA CHYNULLEIDFAOEDD YW'R HYN SY'N EIN GWNEUD YN EFFEITHIOL.''

CAROLINE THOMSON, PRIF SWYDDOG GWEITHREDU

Mae cynulleidfaoedd wrth wraidd yr hyn y mae'r BBC yn ei wneud. Rydym yn eu hystyried yn ein holl benderfyniadau golygyddol, wrth gwrs – gan anelu at gynnig rhaglenni a gwasanaethau sy'n apelio iddynt ac sy'n addas i'w hanghenion gwylio a gwrando a'u hanghenion eraill o ran y cyfryngau. Fodd bynnag nid hwy yw ein hunig randdeiliaid. Mae gennym hefyd gyfrifoldebau tuag at y rhai sy'n gweithio i ni a'r rhai rydym yn cydweithio â hwy ac sy'n bartneriaid i ni yn ein busnes.

Felly mae'n rhaid i ni baru'r hyn sydd orau yn gyffredinol â thair cyfres o ddisgwyliadau, sy'n wahanol iawn i'w gilydd yn aml.

## CYNULLEIDFAOEDD

Ymhlith ein hamrywiaeth o gyfrifoldebau tuag at gynulleidfaoedd a thalwyr ffi'r drwydded mae sicrhau ein bod yn rhedeg ein busnes mewn modd clir, tryloyw ac effeithlon. Bob blwyddyn adroddwn ar ein cynnydd yn ein Hadroddiad Blynyddol, ac mae rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff y BBC ei redeg ar gael yn www.bbc.co.uk/info.

Fodd bynnag rydym hefyd yn cael effaith fwy uniongyrchol ar bobl – yn enwedig y rhai rydym yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod y flwyddyn yn ein digwyddiadau a'n recordiadau.

### Allgymorth y BBC

Mae gennym ystod eang o weithgareddau allgymorth sy'n anelu at ehangu ein rôl y tu hwnt i ddarlledu llinellol, lle y ceisiwn annog cynulleidfaoedd i gymryd rhan, er enghraifft drwy wirfoddoli yn y gymuned, achub ar gyfleoedd i ddylanwadu ar allbwn y BBC, neu ddefnyddio ein cynnwys i'w helpu i ddysgu.

Caiff Sgriniau Mawr y BBC a leolir mewn 17 o wahanol drefi a dinasoedd ledled y DU eu haddasu i adlewyrchu bywyd y gymuned y maent ynddi, a chaiff y cynnwys ei gynhyrchu'n aml gan bobl leol mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol, celfyddydol, addysgol a'r cyfryngau. Ym mis Gorffennaf cynhaliwyd y prosiect Silk Screens cyn y Gemau Olympaidd yn Beijing. Cynhaliodd pedair o'n Sgriniau Mawr ddigwyddiadau byw ar yr un pryd a oedd yn cynnwys perfformwyr lleol a ffilmiau a wnaed gan aelodau o'r gymuned Tsieineaidd ym Mhrydain a ddangoswyd ar bob Sgrîn Fawr, gan gyrraedd cynulleidfa fyw o 35,000 ac yn y pen draw dros ddwy filiwn o bobl drwy wefan y BBC a darllediadau rhanbarthol.

Ym mis Mawrth, gweithiodd School Report gan BBC News gyda mwy na 500 o ysgolion ledled y DU, gan annog a galluogi dros 10,000 o fyfyrwyr 11–14 oed i ysgrifennu a chyhoeddi eu hadroddiadau newyddion eu hunain. Nod y prosiect yw gwella cynrychiolaeth pobl ifanc ac ysgogi diddordeb mewn gwleidyddiaeth. Mae hefyd yn cynhyrchu cynnwys i'r gynulleidfa ehangach, gyda darllediadau eang ar orsafoedd rhanbarthol yn ogystal â chenedlaethol, gan gynnwys adroddiadau ar ddarllediadau *One*, *Six* a *Ten O'Clock News*.

Mae'r BBC yn chwarae rhan unigryw yn y gwaith o gefnogi'r sector gwirfoddol, drwy ei elusennau corfforaethol a thrwy gefnogi eraill. Nid yw'r BBC yn rhoi arian parod i elusennau ond mae'n helpu i godi arian drwy ddarlledu apeliadau. Mae rhwydwaith o Bwyllgorau Cynghori ar Apeliadau annibynnol yn hysbysu rheolwyr y BBC am ei bolisïau a'i arferion o ran elusennau.

Llwyddodd dwy brif apêl y BBC a ddarlledwyd ar y teledu yn ystod y flwyddyn i godi'r symiau mwyaf erioed o arian er gwaethaf yr hinsawdd economaidd gyfredol. Ym mis Tachwedd cododd apêl *Plant mewn Angen y BBC* dros £20 miliwn yn ystod y darlledaid ei hun, ac ym mis Mawrth cododd *Diwrnod y Trwynau Coch* dros £59 miliwn i *Comic Relief*.

Y llynedd darparwyd gwerth £330,000 (2008: £296,000) o wasanaethau i elusennau. Yn ogystal ag apeliadau darlledu, rhoddodd busnesau masnachol y BBC £1,400 i elusennau yn ystod y flwyddyn (2008: £180,000).

### Amgylchedd

Mae effaith amgylcheddol ein busnes yn hynod bwysig i ni. Yn 2008 lansiwyd cynllun gweithredu amgylcheddol pum mlynedd sy'n cynnwys targedau uchelgeisiol i wneud arbedion o ran ynni, trafnidiaeth, dŵr a gwastraff. 'Dewis gwneud gwahaniaeth' yw thema ein hymgyrch ymwybyddiaeth staff i annog newid mewn ymddygiad. Hefyd, cyflwynwyd nifer o fentrau gan gynnwys defnyddio papur wedi'i ailgylchu'n gyfan gwbl yn y swyddfa, dyfais sy'n diffodd cyfrifiaduron yn awtomatig, a hyrwyddo fideo-gynadledda i gwtogi ar ein milltiroedd awyr.

**Tabl 22/ Ein targedau amgylcheddol – erbyn 31 Mawrth 2013**

| Maes | Targed |
|---|---|
| Ynni | Lleihau faint o ynni a ddefnyddir y pen 20%. |
| Trafnidiaeth | Lleihau allyriadau $CO_2$ y pen 20%. |
| Dŵr | Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir y pen 25%. |
| Gwastraff | Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir y pen 20% ac ailgylchu 75% o wastraff. |

Am ragor o fanylion am ba mor dda y gwnaethom berfformio yn erbyn y targedau hyn eleni, gweler ein Hadroddiad ar Gyfrifoldeb Corfforaethol yn www.bbc.co.uk/outreach/reports

### Busnes yn y Gymuned

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gymryd rhan ym Mynegai Cyfrifoldeb Corfforaethol Busnes yn y Gymuned unwaith eto, gan wella ein statws o Aur i Blatinwm.

Y Mynegai yw meincnod cyfrifoldeb corfforaethol gwirfoddol mwyaf blaenllaw'r DU, ac mae ein sgôr yn adlewyrchu'r safonau uchel rydym yn ceisio eu cyrraedd wrth reoli ein busnes yn gyfrifol. Y llynedd ymrwymwyd i wella'r ffordd rydym yn rheoli ein heffaith amgylcheddol a dilysu ein Hadroddiad ar Gyfrifoldeb Corfforaethol yn allanol. Aethpwyd i'r afael â'r meysydd hyn yn llwyddiannus, a gwnaed gwelliannau parhaus mewn meysydd eraill fel rheoli'r gweithle a chynhwysiant cymdeithasol.

Am ragor o wybodaeth am Fynegai Cyfrifoldeb Corfforaethol Busnes yn y Gymuned ewch i www.bitc.org.uk/cr_strategy_and_integration/cr_index/index.html



## STAFF

Mae cyfanswm nifer y staff yn y BBC wedi bod yn lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i'n hanghenion busnes newid. Fodd bynnag, gyda thua 23,000 o bobl mewn 43 o wledydd, mwy na 100,000 o geisiadau am swyddi'r llynedd, a thua 30 miliwn o ymweliadau â'n gwefan swyddi (www.bbc.co.uk/recruitment), mae'r BBC yn cymryd y broses o recriwtio, cadw a hyfforddi staff o ddifrif o hyd.

Rhydd Tabl 25 gipolwg o ble yr oedd staff y BBC yn y DU oedd â swyddi darlledu a chymorth wedi'u lleoli ar 31 Mawrth 2009.

Mae ein Strategaeth Pobl ar waith bellach, a chaiff ei gweithredu mewn ffordd ddynamig ymhob rhan o'r busnes, lle y caiff y pum thema strategol eu defnyddio i gynnig ymateb effeithiol i flaenoriaethau busnes lleol a chorfforaethol ymhob un o grwpiau busnes y BBC.

**Cydarweinyddiaeth:** parheir i ganolbwyntio ar annog a chefnogi creadigrwydd, gonestrwydd a chyfrifoldeb o fewn timau gweithredol. I'r perwyl hwn, cafodd dros 300 o reolwyr newydd eu cofrestru ar ein rhaglen Leadership Essentials eleni; a chafodd gwerthoedd a safonau golygyddol clir eu cynnwys mewn rhaglenni sefydlu a chyrsiau cynhyrchu, gan gyrraedd tua 20,000 o staff nad oeddent yn rhan o'r BBC. Cafodd ein Rhaglen Arweinyddiaeth Olygyddol ei threialu'n llwyddiannus, a chaiff ei lansio yn ddiweddarach yn 2009.

**Meithrin y sgiliau a'r dalent gywir ar gyfer BBC sy'n newid:** dechreuwyd dileu swyddi yn 2008 a bydd cyfleoedd i adleoli, a wnaeth ragori ar dargedau, yn parhau i gael eu cyflwyno tan 2010. Cymerir camau cadarn i gynllunio adnoddau, sicrhau cynnydd yn erbyn targedau niferoedd staff, a rheoli talent er mwyn cadw'r sgiliau gorau.

**Gwobrwyo perfformiad:** 2008 oedd ail flwyddyn cytundeb cyflog dwy flynedd gwerth 6% (4% yn 2007, 2% yn 2008), a hefyd lansiwyd cynllun ar-lein newydd ar gyfer buddiannau hyblyg. Cofrestrodd 13% am y cynllun yn ei flwyddyn gyntaf, ac erbyn mis Mawrth 2009 roedd hyn wedi cynyddu i 17%. Mae'r cynllun yn galluogi staff yn y DU i reoli eu buddiannau eu hunain megis prynu/gwerthu gwyliau blynyddol a phrynu talebau gofal plant. Mae gwobrwyo perfformiad yn hanfodol, ond ar adeg economaidd heriol rydym wedi penderfynu na ddylai Uwch Reolwyr gael adolygiad blynyddol o gyflogau na bonws yn ôl disgresiwn yn 2009, ac ni chaiff bonysau yn ôl disgresiwn eu rhoi i aelodau eraill o staff ychwaith. Rydym wrthi'n datblygu fframwaith gwobrwyo ar gyfer 2010 sy'n cynorthwyo rheolwyr i gydnabod perfformiad rhagorol, arloesedd a chreadigrwydd, ond nad yw'n dibynnu ar wobrwyon ariannol yn gyfan gwbl.

Dengys y tabl canlynol nifer yr uwch reolwyr yn y BBC fesul cyflog sylfaenol ar 31 Mawrth 2009. Pan fo staff yn rhan-amser, rhoddir y cyflog cyfwerth ag amser llawn. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys staff yn y gwasanaeth cyhoeddus a'r busnesau masnachol, heb gynnwys staff ar gyfnod mamolaeth neu absenoldeb di-dâl ar y dyddiad hwnnw.

### Tabl 23/ Nifer yr uwch reolwyr fesul band cyflog

| Band cyflog | 2008/09 | 2007/08 |
|---|---|---|
| O dan £70,000 | **50** | 72 |
| £70,000 i £99,999 | **328** | 329 |
| £100,000 i £129,999 | **178** | 171 |
| £130,000 i £159,999 | **92** | 88 |
| £160,000 i £189,999 | **52** | 44 |
| £190,000 i £219,999 | **29** | 15 |
| £220,000 i £249,999 | **10** | 10 |
| £250,000 i £279,999 | **5** | 7 |
| £280,000 i £309,999 | **4** | 4 |
| £310,000 i £339,999 | **2** | 1 |
| £340,000 i £369,999 | **–** | – |
| £370,000 i £399,999 | **1** | – |
| Cyfanswm | **751** | 741 |

Nodyn:
Ailddatganwyd bandiau 2007/08 i hepgor tri unigolyn a gafodd eu cynnwys mewn camgymeriad yn adroddiad y llynedd.

**Gosod y sylfeini:** rydym wedi bod yn gweithio i wneud ein prosesau a'n systemau yn syml, yn glir ac yn dryloyw. Eleni gwnaethom newid sawl proses hanfodol, gan gynnwys contractio a recriwtio, fel bod rheolwyr yn gallu cael gwell gwybodaeth reoli a threulio llai o amser ar waith gweinyddol. Mae ein hymdrech ar y cyd â'n partner gosod contractau allanol Capita i wella ac atgyfnerthu ein gwasanaeth adnoddau dynol yn parhau.

**Newid sut rydym yn gweithio:** mae ein strategaeth cysylltiadau cyflogeion yn dechrau talu ar ei chanfed erbyn hyn, wrth i ni sefydlu ein dull newydd o gynllunio sefyllfaoedd, modelu risg ac ymgynghori â staff, a dull mwy cynhwysol o fynd i'r afael â materion CC gyda'n hundebau drwy'r Cydweithgorau, sydd oll yn arfer gorau. Bu hyn yn hynod bwysig ar yr adeg hon gan ein bod yn dechrau cyflawni ein cynlluniau i fod yn fwy amlwg a chynyddu ein gwariant gwaith y tu allan i Lundain.



### Tabl 24/ Cyfanswm cyfartalog nifer y staff darlledu cyhoeddus, cyfwerth ag amser llawn

| | |
|---|---|
| Diwedd blwyddyn 2006 | **18,860** |
| Diwedd blwyddyn 2007 | **17,914** |
| Diwedd blwyddyn 2008 | **17,677** |
| Diwedd blwyddyn 2009 | **17,078** |

### Tabl 25/ Staff darlledu cyhoeddus yn y DU fesul Gwlad (cyfwerth ag amser llawn) %


| | 08/09 | 07/08 |
|---|---|---|
| Lloegr (heb gynnwys Llundain) | **23** | **24** |
| Llundain | **60** | **57** |
| Yr Alban | **6** | **8** |
| Cymru | **7** | **8** |
| Gogledd Iwerddon | **4** | **4** |




BBC WM 95













## Hyfforddiant

Y llynedd cynhaliwyd dros 70,000 diwrnod o hyfforddiant ar gyfer mwy na 49,000 o bobl yn y BBC a diwydiant ehangach y cyfryngau, gan gynnwys y maes allweddol Safeguarding Trust lle y cwblhawyd dros 20,000 o fodiwlau dysgu ar-lein gan ddefnyddwyr allanol. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn datblygu porth hyfforddi allanol gwell a fydd yn ei gwneud yn haws i'r diwydiant ehangach gael hyfforddiant gan y BBC.

Yn fewnol, canolbwyntir ar hyn o bryd ar sicrhau bod ein staff yn meddu ar y sgiliau cywir i ddatblygu cynnwys mewn byd digidol – mae dros 2,000 o staff wedi cael hyfforddiant ar ddatblygu cynnwys ar gyfer sawl llwyfan, gan gynnwys staff yn yr Alban a gafodd hyfforddiant penodol i ategu'r broses o lansio sianel Gaeleg ddigidol newydd BBC ALBA.

Rydym hefyd wedi gweithio ar ddatblygu partneriaethau â chyrff allanol yn y diwydiant clyweledol, addysg a'r gymuned, gan gynnwys amrywiaeth o fentrau â Skillset. Ar ôl cyfrannu at y gwaith o ail-lunio strwythur llywodraethu Skillset, mae Peter Salmon, Cyfarwyddwr BBC North, wedi ymuno â Bwrdd Cyfarwyddwyr newydd Skillset. Hefyd datblygwyd cydberthnasau ymhellach â BJTC, Media Trust, Northwest Vision & Media a'r Ganolfan Ymchwil, ynghyd â nifer o brifysgolion yng Ngogledd Lloegr i gyfoethogi'r gronfa bosibl o dalent er mwyn cefnogi'r broses o symud i Salford yn 2011.

Gwariwyd £44.5 miliwn ar hyfforddiant y llynedd (2008: £43miliwn).

## Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn hanfodol i sicrhau bod rhaglenni a gwasanaethau'r BBC yn adlewyrchu bywydau a phrofiadau ein holl dalwyr ffi'r drwydded. Mae gwahaniaeth yn gatalydd cryf i greadigrwydd a gall arwain at allbwn mwy cyfoethog a mwy perthnasol sy'n berthnasol i'n holl gynulleidfaoedd.

Mae recriwtio a datblygu gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli cymdeithas fodern Prydain yn ganolog i BBC modern.

Ar hyn o bryd, mae tua hanner ein gweithlu yn ferched. Gwnaethom adolygu ein targedau amrywiaeth eleni ac rydym hefyd wedi pennu nodau ymestynnol, ond realistig, i ni'n hunain o ran staff duon, lleiafrifoedd ethnig ac anabl.

**Tabl 26/ Staff duon a lleiafrifoedd ethnig**

| **% o'r cyfanswm** | | Targed |
|---|---|---|
| **2009** | **12.1** | **12.5** |
| 2008 | 11.0 | 12.5 |
| 2007 | 10.5 | 12.5 |

**Tabl 27/ Uwch reolwyr duon a lleiafrifoedd ethnig % o'r cyfanswm**

| | | Targed |
|---|---|---|
| **2009** | **5.6** | **7.0** |
| 2008 | 5.0 | 7.0 |
| 2007 | 5.0 | 7.0 |


**Tabl 28/ Staff anabl % o'r cyfanswm**

| | | Targed |
|---|---|---|
| **2009** | **4.4** | **5.5** |
| 2008 | 4.6 | 4.0 |
| 2007 | 2.8 | 4.0 |

**Tabl 29/ Uwch reolwyr anabl % o'r cyfanswm**


| | | Targed |
|---|---|---|
| **2009** | **3.4** | **4.5** |
| 2008 (data heb gael ei fesur yn flaenorol) | dd/g | dd/g |

**Siart 6/**
**Allbwn wedi'i isdeitlo ar Deledu'r BBC* %**




* Yn seiliedig ar 52 wythnos, nid blwyddyn lawn.

**Siart 7/**
**Arwyddo ar Deledu'r BBC %**



Dim ond un elfen o'n Strategaeth Amrywiaeth yw creu gweithlu amrywiol. Rydym hefyd yn anelu at gynnwys amrywiaeth ymhob un o weithgareddau a swyddogaethau'r BBC – o greu allbwn unigryw ac ysbrydoledig i ddenu a meithrin talent wych, o gysylltu â chynulleidfaoedd sy'n anodd eu cyrraedd i sicrhau bod gwasanaethau newydd ar gael.

Cafodd y Strategaeth Amrywiaeth ei hadolygu yn 2008 a gwnaethom ddatblygu fframwaith ymarferol a dulliau o gynllunio camau gweithredu mewn ffordd systematig a chyflwyno adroddiadau ar bedwar maes allweddol:

### Strategaeth gorfforaethol a chynllunio busnes

Mae sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o holl brosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio busnes strategol y BBC.

### Cynulleidfaoedd

Deall ac ymateb i'n cynulleidfaoedd amrywiol, drwy fentrau ymchwil, cynnwys cynulleidfaoedd ac allgymorth.

### Allbwn

Mynd ati mewn modd creadigol i adlewyrchu amrywiaeth ein cynulleidfaoedd ledled y DU, ar ein holl lwyfannau, ac wrth ddatblygu gwasanaethau a thechnoleg newydd.

### Gweithlu

Hon oedd ail flwyddyn rhaglen fuddsoddi tair blynedd sy'n anelu at wneud gweithlu'r BBC hyd yn oed yn fwy amrywiol ar bob lefel:

- Cynllun Hyfforddi Newyddiaduraeth – roedd 60% o'r myfyrwyr yn dod o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Cronfa Dalent Newyddiaduraeth – roedd 32% o'r gronfa yn dod o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.





- Rhaglen Fentora a Datblygu – mae hon yn anelu at greu cronfa o staff amrywiol sydd â'r hyder a'r sgiliau i gamu i mewn i uwch rolau.
- Extend – darparodd y cynllun lleoli swyddi hwn i bobl anabl 50 o leoedd ar gyfer 2008/09.

Mae BBC North wedi cynnig cyfle mawr i hyrwyddo'r BBC fel cyflogwr amrywiol. Mae partneriaeth â Connexions a'r Ganolfan Byd Gwaith wedi arwain at ddatblygu cynllun prentisiaeth sy'n targedu grwpiau anodd eu cyrraedd. Rydym hefyd yn parhau i gefnogi partneriaethau sy'n bodoli eisoes ledled y wlad gan gynnwys er enghraifft, gweithio gyda Skillset eleni i ddenu grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol i BBC Cymru.

Am ragor o wybodaeth am unrhyw un o'n cynlluniau hyfforddi, gan gynnwys sut a phryd i wneud cais, ewch i: www.bbctraining.com

Mae gennym hefyd ddyletswyddau statudol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, cydraddoldeb i bobl anabl a chydraddoldeb rhwng y rhywiau drwy rai o'n gweithgareddau, yn bennaf Trwyddedu Teledu a'r broses o newid i ddigidol. Am ragor o wybodaeth gweler ein Crynodebau o Berfformiad sy'n tynnu sylw at y cynnydd a wnaed gennym eleni: www.bbc.co.uk/info/policies/diversity.shtml

Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn dechrau gweithio i ddatblygu cynllun cydraddoldeb sengl.

## Rheoli risg alwedigaethol

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gyfrifol am sicrhau bod gan y sefydliad bolisi iechyd a diogelwch a'i fod yn cydymffurfio ag ef. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo strategaethau ac yn monitro perfformiad. Mae gan reolwyr lleol gyfrifoldeb beunyddiol am weithgareddau sydd o dan eu rheolaeth. Ein nod yw creu amgylchedd gwaith iach a diogel i'n cyflogeion, y bobl rydym yn cydweithio â hwy a'r rhai sy'n ymweld â ni.

Rydym yn ymrwymedig i wneud ein rhaglenni mor hygyrch â phosibl i bob cynulleidfa.

Y llynedd cafodd dros 53,000 awr o raglennu eu hisdeitlo – tua 7,000 awr yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys 3,222 awr ar BBC Parliament a BBC HD (nad yw targedau Ofcom yn gymwys iddynt). Ein targed ar gyfer isdeitlo yw 100%.

Erys ein targed ar gyfer sain-ddisgrifio rhaglennu yn 10%. Nid yw'r targed hwn yn gymwys i sianel BBC News oherwydd natur ei hallbwn newyddion treigl, ac nid yw'n gymwys i BBC Parliament, BBC Red Button na BBC HD.

Mae'r un eithriadau yn gymwys i arwyddo lle mae gennym darged o 5%.

Dengys ein Canllawiau Golygyddol sut y gallwn wneud ein gwasanaethau yn fwy hygyrch ac annog dulliau creadigol o weithio ac atebion creadigol. Er enghraifft, gall defnyddwyr deilwra eu tudalennau hafan drwy www.bbc.co.uk

**Siart 8/**
**Disgrifiadau sain ar Deledu'r BBC %**

| | | |
|---|---|---|
| BBC One | 07/08 | 13.6 |
| | 08/09 | 14.7 |
| BBC Two | 07/08 | 12.4 |
| | 08/09 | 12.1 |
| BBC Three | 07/08 | 21.4 |
| | 08/09 | 29.3 |
| BBC Four | 07/08 | 18.1 |
| | 08/09 | 20.7 |
| BBC HD | dd/g | |
| | 08/09 | 17.4 |
| CBBC | 07/08 | 11.9 |
| | 08/09 | 12.3 |
| CBeebies | 07/08 | 10.6 |
| | 08/09 | 13.7 |







Mae'r Pwyllgor Ymgynghori Corfforaethol ar Iechyd, Diogelwch a Lles yn cynnwys uwch reolwyr a chynrychiolwyr diogelwch. Ymgynghorir â staff drwy sesiynau briffio timau rheolaidd a fforymau diogelwch lleol.

Ymhlith y risgiau a wynebir gan staff bob dydd mae straen, sŵn, codi a chario a gyrru yn ogystal â'r rhai sy'n gysylltiedig â ffilmio mewn stiwdio ac ar leoliad, ynghyd â digwyddiadau mawr yn yr awyr agored. Mae newyddiadurwyr ac aelodau eraill o staff yn aml yn gweithio mewn amgylcheddau gelyniaethus, gan gynnwys Irac ac Affganistan, a rhoddwyd cymorth arbenigol iddynt ac eraill sy'n gweithio mewn sefyllfaoedd peryglus.

Mae'r BBC yn ymrwymedig i ostwng (o gymharu â lefelau 2000 ac erbyn 2010):

- cyfradd y damweiniau hysbysadwy 60%.
- nifer y diwrnodau gwaith a gollir oherwydd anaf a salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith 30%.
- cyfradd yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith 20%.

Ac eleni:

- roedd nifer y damweiniau hysbysadwy wedi lleihau o 277 i 160 fesul 100,000 o staff (gostyngiad o 40%).
- roedd nifer yr achosion a amheuwyd o salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn 23 fesul 1,000 yn 2000 o gymharu â 3.55 fesul 1,000 y llynedd, yn bennaf oherwydd straen, niwed i'r dwylo, y fraich neu'r ysgwydd a phroblemau cyhyrysgerbydol eraill.

Er mawr tristwch, cafodd dau o'n newyddiadurwyr eu lladd mewn digwyddiadau ar wahân yn Affganistan a Somalia ym mis Gorffennaf, a chafodd gwneuthurwr rhaglenni arall ei ladd mewn damwain ffordd ym Mangladesh.

### Gorfodi

Ni chymerwyd unrhyw gamau gorfodi.

### Cymhwysedd

Cofnodwyd bod hyfforddiant diogelwch wyneb yn wyneb wedi ei roi i 6,641 o bobl. Hefyd cafodd miloedd o gyrsiau eu cwblhau ar-lein. Rydym wedi diwygio cryn dipyn o'n hyfforddiant diogelwch ym maes cynhyrchu yn gyfan gwbl, ac yn gweithio gyda darlledwyr eraill a Skillset i weithredu cynllun pasbort diogelwch i roi hyfforddiant diogelwch trosglwyddadwy i sector y cyfryngau.

Bydd ein polisi diogelwch, a'r rhan fwyaf o'n canllawiau ar gael yn ystod 2009 ar wefan allanol: www.bbc.org.uk/ohss/main.asppage4531.htm

## CYFLENWYR A PHARTNERIAID

Drwy ffi'r drwydded, cydnabyddwn i ba raddau y gallwn wario yn y farchnad ddarlledu o gymharu â'n cystadleuwyr. Fodd bynnag, cydnabyddwn hefyd fod braint cael ffi'r drwydded hefyd yn esgor ar y disgwyliad y gwnawn ei defnyddio i roi gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Mae gennym gyfrifoldeb i ymddwyn yn briodol a pheidio â chael effaith annheg na niweidiol ar y rhai y gwnawn fusnes â hwy – cyflenwyr a phartneriaid – ond mae'n rhaid i ni hefyd weld ein bod yn cael y mwyaf o'n buddsoddiadau.

### Polisi Masnachu Teg a Chydymffurfiaeth

Mae'n rhaid i'r BBC fodloni ei rwymedigaethau Masnachu Teg. Caiff y rhain eu hymgorffori yng Nghanllawiau Masnachu Teg y BBC, sydd ar gael yn www.bbc.co.uk/info/policies/fairtrading/

Cafodd y broses o gydymffurfio â'r canllawiau hyn ei goruchwylio drwy is-bwyllgorau Ymddiriedolaeth y BBC (y Pwyllgor Masnachu Teg Gwerth Cyhoeddus yn 2008 a'r Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfio yn 2009) a'r Bwrdd Gweithredol (Pwyllgor Masnachu Teg Gweithredol).

Ar ôl cyflwyno'r Siarter a'r Cytundeb newydd ar 1 Ionawr 2007, cyflwynwyd canllawiau newydd ar 1 Gorffennaf 2007. Pan y'u cymeradwywyd ymrwymodd y BBC i adolygu'r canllawiau flwyddyn yn ddiweddarach ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar ei gynigion am newid. Cyhoeddodd y BBC ddogfen ymgynghori ar-lein ar 24 Hydref 2008. Cysylltwyd â rhanddeiliaid allanol allweddol yn uniongyrchol. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cymeradwywyd canllawiau diwygiedig gan Fwrdd Gweithredol y BBC a'r Ymddiriedolaeth a daethant i rym ar 1 Ebrill 2009.

### Archwiliad Masnachu Teg blynyddol

Comisiynodd Ymddiriedolaeth y BBC yr archwilwyr Deloitte LLP i gynnal archwiliad Masnachu Teg blynyddol i benderfynu a yw rheolwyr y BBC wedi sefydlu a chymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â pholisïau Masnachu Teg yr Ymddiriedolaeth. Gellir cael manylion yr archwiliad a'r farn a fynegwyd yn: www.bbc.co.uk/bbctrust/research/annual_report.html

### Achrediad ISO

Achredwyd y broses o reoli trefniadau Masnachu Teg y BBC â safon ansawdd 9001:2008 ISO. Caiff perfformiad yn erbyn y safon hon ei brofi'n rheolaidd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig. Cadarnhaodd yr asesiad diweddaraf, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod asesu (ym mis Rhagfyr 2008) fod y gweithdrefnau yn parhau i weithredu'n effeithiol.

### Pedwar maen prawf masnachol

Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Gweithredol y BBC sicrhau bod pob un o'i Wasanaethau Masnachol yn bodloni pedwar maen prawf masnachol:

- eu bod yn cydweddu i weithgareddau Pwrpasau Cyhoeddus y BBC

- eu bod yn dangos effeithlonrwydd masnachol
- nad ydynt yn peryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC
- eu bod yn cydymffurfio â'r Canllawiau Masnachu Teg ac yn arbennig, yn osgoi cael effaith andwyol ar y farchnad

Ar ôl derbyn adroddiadau gan yr uwch reolwyr perthnasol, mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn fodlon bod pob un o'i wasanaethau masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009.

## Cwynion Masnachu Teg

Mae'r BBC yn gweithredu fframwaith cwynion ac apeliadau Masnachu Teg sy'n gwahanu'r broses o ymdrin â chwynion (y mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn ymchwilio iddynt) a'r broses apeliadau (y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgymryd â hi).

Ymdriniodd y BBC â saith cwyn Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd apêl i'r Ymddiriedolaeth mewn perthynas ag un gŵyn. Ceir manylion am y materion hyn ym Mwletin Masnachu Teg y BBC www.bbc.co.uk/info/policies/fairtrading_complaints/ ac ar dudalen apeliadau'r Ymddiriedolaeth www.bbc.co.uk/bbctrust/appeals/fair_trading_complaints.html, lle y gellir cael canllawiau cyhoeddus ar y broses cwynion ac apeliadau hefyd.

## Adroddiad y Bwrdd Gweithredol ar brotocolau masnachu BBC World Service

Mae BBC World Service yn prynu rhaglenni a gwasanaethau gan feysydd o'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded yn ogystal â'i Is-gwmnïau Masnachol. Mae Canllawiau Masnachu Teg y BBC yn rhoi arweiniad ar y gydberthynas fasnachu hon er mwyn sicrhau bwlch rhwng Cymorth Grant ac incwm ffi'r drwydded.

Fel sy'n ofynnol gan y Canllawiau Masnachu Teg, comisiynodd Bwrdd Gweithredol y BBC adroddiad gan archwilwyr allanol ar gydymffurfiaeth y BBC yn y maes hwn. Canfu'r adroddiad archwilio fod y BBC yn cydymffurfio o ran ei ymddygiad. Gellir cael rhagor o fanylion yn www.bbcworldservice.com/annual_review2009.

## Rhyddid Gwybodaeth

Edrychwyd ar gynllun cyhoeddi ar-lein y BBC dros 1.5 miliwn o weithiau yn ystod y flwyddyn, gydag ychydig dros filiwn o ddogfennau yn cael eu lawrlwytho. Lansiwyd ein cynllun cyhoeddi newydd ym mis Ionawr 2009 yn unol â'r gofynion newydd a bennwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer pob corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf.

Cawsom 1,694 o geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (cynnydd o 63% o 2007/08). Rhyddhawyd y wybodaeth i gyd neu ran o'r wybodaeth yn achos 1,135 (67%) o geisiadau. Ymatebwyd i 86% o geisiadau o fewn y terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith, neu estynnwyd y terfyn amser yn gyfreithlon o dan y Ddeddf.

Hefyd, gwnaed 51 o geisiadau i gynnal arolygon mewnol o benderfyniadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth y BBC, a chyfeiriwyd 76 o achosion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cyflwynwyd apêl i'r Tribiwnlys Gwybodaeth mewn pum achos, a chyflwynwyd pedwar ohonynt i'r Uchel Lys. Cafodd un apêl wrandawiad yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y materion hyn a gweithgarwch Deddf Rhyddid Gwybodaeth arall y BBC yn www.bbc.co.uk/foi

## Diogelu data

Mae'r BBC yn rhoi hyfforddiant diogelu data gorfodol i bob aelod o staff y BBC. Roedd mwy nag 83% o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn ar 31 Mawrth 2009. Cafodd strwythur cydymffurfio a llunio adroddiadau ffurfiol ei weithredu drwy'r BBC i gyd o ran diogelu data a chwblhawyd archwiliad diogelu data allanol mewn nifer o is-adrannau.

Cafodd tri achos o dorri rheolau diogelu data'r BBC eu cyfeirio i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cyfeiriodd y Comisiynydd Gwybodaeth bedair cwyn arall i'r BBC a chyfeiriodd Comisiynydd Gwybodaeth Jersey un gŵyn i'r BBC. Cafodd y BBC 26 o Geisiadau ffurfiol gan Wrthrych Gwybodaeth o dan y Ddeddf Diogelu Data, y cafodd 23 ohonynt eu cyflawni o fewn yr amserlen statudol o 40 diwrnod. Cyfeiriwyd un i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Cost cydymffurfio

Er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gymwys i'r BBC fel darlledwr a chorff cyhoeddus, yn 2008/09 gwariwyd tua £17.3 miliwn ar gydymffurfio (2008: £15.3 miliwn). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys tanysgrifiad blynyddol y BBC i Ofcom sy'n £3.6miliwn.

## Cyfreithiol

Mae Cwnsler Cyffredinol y Grŵp yn paratoi adroddiad ar gydymffurfiaeth a gyflwynir bob chwarter i'r Bwrdd Gweithredol, a phob chwe mis i Ymddiriedolaeth y BBC. Fe'i cynlluniwyd i amlygu a nodi cydymffurfiaeth y BBC â'r prif gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio ar fusnes grŵp y BBC.

Mae Cwnsler Cyffredinol y Grŵp yn rhoi sylwebaeth ar faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio a allai godi ac yn llunio cynllun gweithredu sydd wedi'i gynllunio i unioni unrhyw faterion pan fyddant yn codi. Ymhlith y meysydd a gwmpesir gan yr adroddiad mae cydymffurfio â chyfreithiau cyffredinol fel y Ddeddf Cwmnïau a chyfraith cystadleuaeth, a chyfreithiau a rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol â darlledu a'r cyfryngau.

Ni chyhoeddir y ddogfen yn llawn nac yn rhannol gan y BBC ond fe'i defnyddir gan y rheolwyr fel dull mewnol o fesur a, lle y bo'n briodol, wella system gydymffurfio a rheolaethau'r BBC. Mae Ymddiriedolaeth y BBC, yn ei thro, yn defnyddio'r adroddiad fel un dull o sicrhau bod y rheolwyr yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i gydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau fel sy'n ofynnol.

Rydym hefyd yn cynnal llyfrgell gyfreithiol ganolog ac yn trefnu hyfforddiant cyfreithiol a mathau eraill o hyfforddiant. Mae'r rhan fwyaf o'n sgyrsiau a'n seminarau mewnol yn agored i gymuned ehangach y BBC.

Mae adran gyfreithiol ar wahân yn gweithio gyda BBC Scotland, gan gydnabod y strwythur cyfreithiol gwahanol sydd ar waith yno.





# DATGAN ARIANN




106 / **TROSOLWG ARIANNOL/**
112 / **RHAGOLWG RISG/**
114 / **UCHAFBWYNTIAU ARIANNOL/**
115 / **DATGANIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL/**
116 / **DATGANIAD CYFUNOL O INCWM A GWARIANT/**
117 / **MANTOLEN GYFUNOL GRYNO/**
117 / **DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL CRYNO/**
118 / **NODIADAU I'R DATGANIAD ARIANNOL CRYNO/**
123 / **CYSONI SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (IFRS)/**
124 / **CYSYLLTU Â NI/**
125 / **GWYBODAETH ARALL/**

# IADAU OL/



# TROSOLWG ARIANNOL/



"MAE TALWYR FFI'R DRWYDDED YN DISGWYL CAEL GWERTH RHAGOROL AM ARIAN YM MHOB UN O'N GWASANAETHAU AC MAE'N BRIODOL EU BOD YN DISGWYL HYNNY. ER MWYN LLWYDDO I GYFLAWNI MWY AM LAI RYDYM YN PARHAU I SYMLEIDDIO AC ARLOESI YM MHOB AGWEDD AR EIN BUSNES."
ZARIN PATEL, PRIF SWYDDOG ARIANNOL

Siart 9/ **Casglu/osgoi talu ffi'r drwydded %**




Mae'r BBC yn cynnig amrywiaeth unigryw ac arbennig o wasanaethau; fe'i hariennir hefyd mewn ffordd unigryw. Mae gennym weithrediadau masnachol, gan gynnwys BBC Worldwide, ond daw'r rhan fwyaf o'n cyllid o ffi'r drwydded, y telir amdani gan aelwydydd ledled y DU. Cawn gyllid hefyd gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i gefnogi'r World Service.

Rhydd ein cyllid freintiau eithriadol i ni ac mae cyfrifoldeb arnom i wario'r arian hwn yn dda. Mae'r rhan gyntaf hon o'r arolwg ariannol hwn yn canolbwyntio ar sut y gwnawn hyn, yn enwedig yng ngoleuni'r dirywiad economaidd presennol.

## EIN LLINELL SYLFAEN YW RHOI GWERTH – I BOB UN O'N RHANDDEILIAID

Un o ganlyniadau eraill ein statws unigryw yw nad oes gennym 'linell sylfaen' yn yr un modd â sefydliadau sy'n gwneud elw, ond rydym yn dangos gwarged neu ddiffyg bob blwyddyn.

Dengys ein cyfrifon grŵp warged cyn llog a threth eleni o £178.1miliwn (2008: diffyg (£4.7miliwn)), sy'n deillio'n bennaf o ganlyniad i'r ffordd y cawsom ein hariannu. Mae gennym setliadau uwch yn y blynyddoedd cynnar a fydd yn helpu i ariannu ein hymrwymiadau Siarter sylweddol hyd at 2012/13, gan gynnwys datblygu digidol a'r Cynllun Cymorth, symud i Salford a'n strategaeth cyflenwi rhwydwaith.

Yn hytrach na llinell sylfaen, yr hyn sydd gennym yw dealltwriaeth glir iawn o'r gwerth y gallwn ac y dylem fod yn ei greu i'n rhanddeiliaid, ac mae hyn yn trosi'n bum amcan ariannol allweddol:

### Sicrhau'r incwm mwyaf i ni ein hunain drwy gasglu ffi'r drwydded mewn ffordd mor effeithlon ag y gallwn

Mae dwy agwedd i hyn: datblygu ffyrdd mwy cost-effeithiol o gasglu a thalu ffi'r drwydded, sydd hefyd yn diwallu anghenion ein cwsmeriaid, a lleihau nifer yr achosion o osgoi talu ffi'r drwydded gymaint â phosibl.

Gwelsom gynnydd o 12% yn nifer y bobl a oedd yn talu drwy gynlluniau arian parod y llynedd, sy'n galluogi pobl i dalu mewn rhandaliadau llai dros gyfnod hwy, ac rydym hefyd wedi darparu mwy o allfeydd lle y gall pobl dalu pan fo'n gyfleus iddynt. Rydym wedi parhau i hyrwyddo taliadau ar-lein, sy'n rhatach i'w prosesu, ac yn fwy hwylus i lawer o'n talwyr ffi'r drwydded. Gwerthwyd mwy o drwyddedau yn y ffordd hon a thrwy'r llinell ffôn hunanwasanaeth yn 2008/09. Mae hunanwasanaeth bellach yn cynrychioli 35% o'r holl drafodion, sef cynnydd o'r 26% yn y flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd nifer y bobl sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol unwaith eto eleni o 66% i 67%. Yn ôl y disgwyl, rydym yn cyrraedd yr uchafswm posibl ar gyfer y cynllun penodol hwn, felly rydym yn canolbwyntio yn awr ar fuddsoddi mewn dulliau talu hyblyg eraill. Lleihaodd cyfanswm ein costau casglu (yn glir o log) unwaith eto eleni, i £119miliwn neu 3.4% o'r incwm.

Cododd achosion o osgoi talu ychydig, o 5.1% i 5.3%, sy'n adlewyrchu'r amodau economaidd presennol, ond gwrthbwyswyd hyn gan ddulliau casglu mwy effeithlon, a pharhaodd cost gyfunol casglu ac osgoi talu yn sefydlog ar 8.7% o incwm ffi'r drwydded. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl wynebu rhagor o heriau yn y 12 mis nesaf wrth i lefelau is o hyder ymhlith defnyddwyr arafu'r twf mewn aelwydydd newydd.

Yn ddiweddar cynhaliodd Ymddiriedolaeth y BBC arolwg annibynnol o'n Casgliad Ffi'r Drwydded, a ymgynghorodd â thalwyr ffi'r drwydded cyn gwneud nifer o argymhellion penodol ar sut y dylid newid ein dull gweithredu. Rydym wedi ystyried y rhain, a byddwn yn edrych yn benodol ar sut rydym yn cyfathrebu â thalwyr ffi'r drwydded, gan symleiddio'r modd y mae pobl yn talu am eu ffi'r drwydded, a ffyrdd o dargedu ein mesurau gorfodi yn fwy effeithiol.

### Gwneud y BBC mor effeithlon â phosibl, a darparu gwerth da am arian


Mae llwyddiant ein rhaglen effeithlonrwydd yn bwysicach nawr nag y bu erioed. O dan ein rhaglen Gwelliant Parhaus newydd, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2008, rydym wedi bod yn gosod targed ymestynnol i gyflawni 3% o arbedion effeithlonrwydd cronnol bob blwyddyn neu 15% o'n sail costau hyd at 2012/13, sef tua £1.9biliwn. Yn ystod y cyfnod hwn rydym hefyd yn bwriadu lleihau nifer y staff 10% (1,800 o swyddi), ar ben y 10% a gyflawnwyd rhwng 2005 a 2008 (1,900 o swyddi).

Amcangyfrifwn y bydd y rhaglen Gwelliant Parhaus yn costio tua £160miliwn i'w gweithredu dros chwe blynedd, ac rydym wedi arbed £237miliwn ers i'r rhaglen ddechrau (£192miliwn yn glir o gostau).

Nid un rhaglen o arbedion yw hon. Rhwng 2000 a 2005 gwnaethom arbed dros £2biliwn drwy effeithlonrwydd a mentrau eraill, ac yna sicrhawyd £347miliwn arall o arbedion blynyddol cylchol, drwy'r rhaglen Gwerth am Arian, a fu'n rhedeg rhwng 2005 a 2008. Targedodd y rhaglenni effeithlonrwydd hyn ein sail costau sefydlog yn bennaf; mae hyn yn golygu bod yr arbedion yn ein rhaglen ddiweddaraf, fel cyfran o'n costau amrywiol, hyd yn oed yn uwch mewn gwirionedd.

Daw'r arbedion hyn o nifer o fentrau, yn cynnwys newid y ffordd rydym yn comisiynu ac yn gwneud rhaglenni yn fewnol, gan ganoli'r gwaith o gynhyrchu newyddion a chyflwyno cynyrchiadau di-dâp digidol o'r dechrau i'r diwedd.

Siart 10/ **Arbedion effeithlonrwydd gros £m**



**Siart 11/ Elw statudol BBC Worldwide cyn llog a threth £m**




Hyd yma, o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed i'r ffordd rydym yn gwneud ein rhaglenni, rydym wedi gallu buddsoddi mwy mewn technoleg, gan wella gallu iPlayer a gwella ein gallu ar alw, i sicrhau bod ein cynnwys Chwaraeon, Newyddion a Radio ar gael pryd bynnag a lle bynnag y mae ein cynulleidfa am ei gael. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn rhaglenni aml-lwyfan a gwasanaethau newydd megis HD – mae hyn eisoes wedi bod yn llwyddiant mawr ar gyfer Gemau Olympaidd 2008, a hefyd ar gyfer rhaglenni nodedig fel *Nature's Great Events*.

Y pwyntiau olaf i'w crybwyll yma yw'r arolygon Gwerth am Arian. Cwblhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddau arolwg yn 2008/09, un ar gynhyrchu rhaglenni radio, a'r llall ar ein rheolaeth o gontractau strategol. Cydnabu'r cyntaf fod y nod o sicrhau bron £70miliwn o arbedion rhyddhau arian parod cronnol ym maes radio erbyn 2012/13 yn un heriol. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion, a oedd naill ai eisoes ar waith, neu y byddwn yn mynd i'r afael â hwy nawr. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â rhannu arfer da a dealltwriaeth, y tu mewn a'r tu allan i'r BBC. Dadansoddodd yr ail arolwg 17 o gontractau gwahanol gyda gwerth blynyddol cyfun o tua £715miliwn. Cydnabu'r adroddiad fod gan y BBC hanes gwell na'r cyffredin o reoli contractau mawr ac mae'r arbedion rydym wedi eu sicrhau wedi rhagori ar y disgwyliadau gwreiddiol. Unwaith eto, rydym yn mynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad, ac yn canolbwyntio yn benodol ar sut rydym yn rheoli ein cadwyn gyflenwi yn fwy effeithiol.

### BBC mwy effeithlon: symleiddio sgriptiau

Mae datblygu a chynhyrchu dramâu yn fusnes drud, ac rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o gael yr un canlyniad o safon am lai o gost – i wneud *Little Dorrit* am gyn lleied â *Doctors*. Un ffordd o wneud hyn yw drwy ddod â'n timau ariannol a chreadigol ynghyd yn amlach ac mewn ffyrdd newydd, i wella eu dealltwriaeth o flaenoriaethau a chyfyngiadau ei gilydd. Mae rhoi hyfforddiant cyllidebu rhaglenni gwell i olygyddion sgriptiau yn enghraifft dda o hyn yn gweithio'n dda yn ymarferol. Yn yr achos hwn rydym wedi gallu osgoi costau diangen a symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau ar gamau cynnar hollbwysig mewn amserlen gynhyrchu. Mae hyn wedi arwain at sgîl-fanteision i'r tîm cynhyrchu cyfan ac i'r broses.

## Sicrhau'r elw mwyaf ar gyfer rhaglenni y telir amdanynt gan ffi'r drwydded

Yn ei hanfod, dyma beth yw diben prif gangen fasnachol y BBC. Mae BBC Worldwide yn gwerthu'r rhaglenni a wnawn ledled y byd, fel bod talwyr ffi'r drwydded yn cael yr elw mwyaf posibl ar yr arian a dalant.

Rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd newydd i werthu ein hallbwn, fformatau a nwyddau eraill yn y DU a thramor. Yn 2008/09 roedd cyfanswm refeniw BBC Worldwide ychydig dros £1biliwn, yn cynnwys incwm mewnol y grŵp a'i gyfran o incwm y cyd-fentrau, cynnydd o 9.5% ers y flwyddyn flaenorol a'r tro cyntaf i'r refeniw fynd y tu hwnt i'r garreg filltir hon. Mae hyn yn rhannol oherwydd buddsoddiad newydd eleni, mewn sianelau, ar-lein ac ym maes cynyrchiadau, ac yn rhannol oherwydd twf ein busnes presennol. Ymhlith yr uchafbwyntiau o fusnes ein Brandiau Byd-eang mae *Top Gear*, a *Doctor Who*. Rydym hefyd wedi lansio 18 o sianelau newydd ledled y byd eleni, sy'n gwneud cyfanswm o 44, gan gyfrannu at dwf mewn refeniw Sianelau o 23%.

Cafodd yr is-adran cylchgronau flwyddyn anos, gyda hysbysebu a chylchrediad yn dioddef o'r dirywiad cyffredinol mewn gwariant marchnata sydd bellach yn effeithio ar y farchnad gylchgronau gyfan. Mae Lonely Planet wedi cyflawni ei flwyddyn lawn gyntaf o refeniw, ond mae'r dirywiad economaidd presennol yn effeithio ar hwn hefyd, sy'n arafu'r farchnad deithio a gwyliau; fodd bynnag, mae'n galonogol bod y busnes wedi llwyddo, serch hynny, i gynyddu ei gyfran yn y farchnad yn UDA.

### BBC mwy effeithlon: newyddion aml-gyfrwng

Mae gennym bellach ystafell newyddion aml-gyfrwng sy'n dwyn ynghyd newyddiadurwyr a thimau cynhyrchu o feysydd teledu, radio ac ar-lein. Mae hyn yn arbed arian, yn cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau, ac yn caniatáu i ni wneud y gorau o'r cynnwys a grëir gennym, drwy ei ailddefnyddio a'i ailbecynnu ar gyfer mwy o sianelau a llwyfannau. Mae hefyd wedi rhoi sgiliau newydd i'n timau newyddion ni ein hunain, yn ogystal â'r staff llawrydd sy'n gweithio i ni, a all gymryd yr hyn y maent wedi ei ddysgu a'i ddefnyddio yn y farchnad ehangach.

Roeddem wedi gobeithio adeiladu ar lwyddiant enfawr iPlayer gyda'n cynnig i ddatblygu gwasanaeth fideo ar alw newydd mewn partneriaeth ag ITV a Channel 4. Yn anffodus mae'r Comisiwn Cystadleuaeth wedi dyfarnu y byddai hyn yn ormod o fygythiad i gystadleuwyr eraill yn y farchnad fideo ar alw sy'n datblygu. O ganlyniad rydym wedi gorfod dileu £9miliwn o gostau yr aethpwyd iddynt, ond rydym yn obeithiol o hyd y gallwn ddod o hyd i ffordd arall o gynhyrchu'r un elw i dalwyr ffi'r drwydded yn y tymor hir.

Aeth ein partner yn y gyd-fenter 2entertain, Woolworths Group plc, yn nwylo gweinyddwyr ar ddiwedd 2008, felly bu'n rhaid i ni ddileu costau a dyled anadenilladwy, er bod 2entertain ei hun yn parhau i fasnachu'n dda. Ers hynny rydym wedi bod yn ystyried sut i ddatrys y broblem hon mewn modd sy'n diogelu buddiannau talwyr ffi'r drwydded.

Lleihaodd enillion statudol BBC Worldwide o £118miliwn yn 2007/08 i £86miliwn eleni. Mae hyn yn bennaf oherwydd taliadau mewn perthynas â Woolworths (amcangyfrif o £15miliwn yn cynnwys ein cyfran o rwymedigaeth pensiwn 2entertain), Kangaroo (£9miliwn) a'n strategaeth fuddsoddi barhaus.

Mae'r dirywiad mewn gweithgarwch hysbysebu yn ystod y flwyddyn wedi effeithio ar ein busnes newyddion byd-eang, BBC World News. Er gwaethaf cynnydd mewn refeniw o 12%, mae wedi mynd i golled statudol o £3miliwn eleni.

## BBC mwy effeithlon: cytundebau cynhyrchu tymor hwy

Yn ein busnes ni fydd comisiynau ac amserlenni bob amser yn newid flwyddyn ar ôl blwyddyn, wrth i ddewisiadau a blaenoriaethau cynulleidfaoedd newid. Mae hyn yn golygu bod sicrhau arbedion sylweddol yn y gyllideb hyd yn oed yn fwy heriol, ond mae rhai penderfyniadau hirdymor y gallwn eu gwneud o hyd a all helpu i leihau costau. Er enghraifft, gallwn negodi cytundebau tymor hwy gyda chynhyrchwyr annibynnol ar y fformatau hynny sy'n debygol o barhau i fod yn boblogaidd yn ein barn ni, neu a allai addasu i chwaeth gwahanol gynulleidfaoedd. Mae *Masterchef* ac *Eggheads* yn ddwy enghraifft dda o hyn. Mae'r manteision yn ddeublyg – mae'n rhoi mwy o sicrwydd i'r cwmni cynhyrchu annibynnol am eu llif arian parod, tra'n caniatáu i ni gynllunio'n fwy effeithlon, sy'n cael effaith uniongyrchol ar ein cost fesul awr.

Ar ddechrau 2008/09, gwnaethom gyhoeddi ein bod yn gwerthu is-adran Darllediadau Allanol BBC Resources Limited, menter fasnachol arall. Cadwyd gweithrediadau'r Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu, a chawsant eu hailstrwythuro yn fusnes newydd o'r enw BBC Studios and Post Production Limited. Bu'n flwyddyn anodd i'r farchnad cyfleusterau darlledu, gyda lleihad cyffredinol mewn trosiant a refeniw, wrth i gynyrchiadau gwtogi ar gostau a chwilio am arbedion. Ar ddiwedd y flwyddyn, gwnaeth y busnes golled statudol cyn llog a threth o £18miliwn, yn bennaf o ganlyniad i'n hailstrwythuro.

Am ragor o wybodaeth gweler ei arolwg gwasanaethau, neu ewch i www.bbcstudiosandpostproduction.com

Er bod canlyniadau statudol y busnesau masnachol unigol yn dangos elw o £86miliwn yn BBC Worldwide, colledion o £19miliwn mewn gweithrediadau Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu a £3miliwn yn BBC World News, o'u cyfuno yng nghyfrifon y grŵp, caiff elw'r grŵp cyn llog a threth ei leihau i £31miliwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r gydnabyddiaeth o golledion anariannol ar offerynnau ariannol cyfnewid tramor; nid oedd yr addasiadau hyn yn sylweddol yn 2007/08.

Yn gyffredinol, roedd ein gweithrediadau masnachol mewn cyflwr da ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Rydym yn aros am ganlyniad arolwg Prydain Ddigidol, a all fod â goblygiadau tymor hwy i BBC Worldwide. Y flaenoriaeth nawr yw gwneud gwelliannau gwirioneddol mewn rhai meysydd sy'n tanberfformio, ond gan barhau i fod yn ddigon hyblyg i allu symud yn gyflym i fanteisio ar gyfleoedd newydd.

## Lledaenu mantais ffi'r drwydded ar draws y DU gyfan

Mae'r BBC ar gyfer y DU gyfan, o Belfast i Truro, Aberdeen i Brighton, Abertawe i Middlesbrough. Rydym oll yn ymrwymedig i feithrin y talentau creadigol a chynhyrchu gorau, o bob cwr o'r wlad. Un ffordd o wneud hyn yw drwy anelu at sicrhau bod 50% o'n cynyrchiadau Teledu Rhwydwaith wedi eu gwneud y

## Rheoli risg mewn dirwasgiad

Rydym yn cydnabod bod sicrwydd incwm ffi'r drwydded yn diogelu'r BBC rhag y gwaethaf o'r dirywiad economaidd; fodd bynnag nid ydym yn hollol ddiogel rhag effaith y dirwasgiad. Yn wahanol i lawer o'n cystadleuwyr, nid ydym yn dibynnu'n uniongyrchol ar refeniw hysbysebu, ond wynebwn heriau tebyg i'r rhan fwyaf o fusnesau'r DU o ganlyniad i'r ansicrwydd economaidd a'r anwadalrwydd dilynol mewn marchnadoedd ariannol. Mae pwysau ar ein refeniw masnachol a refeniw ffi'r drwydded, yn arbennig wrth i ni deimlo effaith llai o dwf o ran aelwydydd. Mae ein busnesau masnachol wedi dioddef gyda llai o weithgarwch manwerthu a hysbysebu a mwy o gystadleuaeth yn ein busnes Stiwdios; wedi dweud hynny, mae BBC Worldwide wedi gwrthsefyll hyn hyd yma, oherwydd natur amrywiol ei fusnes.

Lle mae mwy o ansicrwydd ynghylch ffrydiau incwm yn y dyfodol, mae'n bwysig ein bod yn gallu fforddio'r hyn a wnawn. Rydym wedi rhoi sawl mesur ar waith eleni o ganlyniad i hyn, gan gynnwys dim bonysau gwasanaeth cyhoeddus dewisol ar gyfer 2008/09, ac na fydd cynnydd mewn cyflogau i uwch reolwyr. Rydym hefyd yn edrych yn ofalus ar yr hyn a dalwn am ein talentau, yng ngoleuni'r amgylchedd economaidd ac arolwg yr Ymddiriedolaeth o dalentau yn 2008.

Hefyd, er ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn meysydd megis ar-lein, gydag ymrwymiad i ddod o hyd i o leiaf 25% o'n gwariant ar-lein cymhwysol yn allanol, byddwn yn arafu cyfradd ein buddsoddiad newydd eleni. Mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i gyflwyno cynnwys unigryw am y gwerth gorau posibl am arian, tra'n cadw'n wastad â lefel y buddsoddiad yn y farchnad yn gyffredinol.

Mae gennym risg benodol lle yr effeithir ar sefydlogrwydd ariannol cyflenwyr allanol, a lle y dibynnwn ar un cyflenwr penodol am wasanaeth darlledu hollbwysig. Mae cynlluniau wrth gefn ar waith gennym i ddelio ag unrhyw ddirywiad pellach yn yr economi neu fethiant ar ran cyflenwr, tra'n cydnabod bod gennym gyfrifoldeb tuag at ein cyflenwyr yn ogystal â chyfrifoldeb tuag at y diwydiant creadigol ehangach.

Gyda'r argyfwng hwn yn gwaethygu yn yr economi ariannol, rydym wedi gorfod cadw llygad barcud hefyd ar ein terfynau benthyca. Rydym yn canolbwyntio hyd yn oed yn fwy trwyadl ar drosi ein harian parod yn y tymor byr, a rheoli ein trefniadau ariannu tymor hwy. Er bod cyfleusterau benthyca'r BBC o £200miliwn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a £350miliwn ar gyfer busnesau masnachol yn ymddangos yn gymharol fach o gymharu â chyfanswm ein hall-lif arian parod blynyddol, rydym yn gallu ailgyflwyno eitemau sylweddol o wariant gan roi rhybudd cymharol fyr. Mae'r cyfleusterau a roddwyd ar waith gennym yn 2007/08 i sicrhau ein bod wedi ein hariannu'n llawn ar gyfer 2012/13 ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus a busnesau masnachol gyda grŵp dethol o wrthbartïon â statws credyd cryf.

Rydym hefyd yn blaengynllunio i nodi risgiau a thueddiadau, ac i gymryd camau i achub y blaen arnynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'n cynllun pensiwn, y mae'r anwadalrwydd yn y marchnadoedd ecwiti yn anochel wedi effeithio arno. Lle y bo'n bosibl rydym wedi ceisio amrywio'r risg yn y portffolio, tra'n chwilio am ffyrdd newydd o fuddsoddi. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn nes ymlaen yn yr arolwg.

Yn unol ag arfer cyffredin, rydym wedi adolygu gwerth cario ein hasedau gan gynnwys buddsoddiadau ac ewyllys da. Rydym wedi asesu llifau arian parod yn y dyfodol o gynlluniau busnes, gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio briodol a chredwn fod hyn yn ategu gwerthoedd cario ein hasedau. Yn arbennig ar gyfer Lonely Planet gwnaethom ddefnyddio cynlluniau busnes sy'n gyson â'r strategaeth i drawsnewid Lonely Planet o gyhoeddwr llyfrau teithio yn ddarparwr gwybodaeth am deithio amrywiol. Disgwylir i'r strategaeth hon gynhyrchu twf sylweddol yn arbennig i'r busnes digidol yn dilyn ail-lansiad llwyddiannus gwefan Lonely Planet. Mae'r cyfrifiadau gwerth mewn defnydd hyn yn cefnogi gwerth cario'r busnes.

Mae'n debygol y bydd y dirwasgiad hwn yn fwy pellgyrhaeddol nag y byddem wedi ei ragfynegi flwyddyn yn ôl. Credwn ein bod wedi ymateb yn gyflym ac mewn modd penderfynol i'r problemau a wynebwn ac rydym yn hyderus bod gennym yr adnoddau sydd eu hangen i barhau â'n gweithrediadau yn y dyfodol agos.

**Siart 12/ Gwariant ffi'r drwydded yn y gwledydd/rhanbarthau £m**

| | |
|---|---|
| 06/07 | 884 |
| 07/08 | 984 |
| 08/09 | 948 |

tu allan i Lundain erbyn 2016. Mae symud i Salford yn ganolog i'r strategaeth hon. Byddwn hefyd yn dyrannu 12% o'n buddsoddiad mewn Teledu Rhwydwaith i'r Gwledydd erbyn 2012, gan godi i 17% erbyn 2016.

Rydym yn adolygu pa dargedau a ddylai fod ar waith ar gyfer ein hallbwn radio yn y flwyddyn i ddod.

Yn 2008, cynyddodd cyfanswm y gwariant y tu allan i Lundain, a fynegir fel canran o'r gwariant cymwys (fel y'i diffinnir gan Ofcom) o 33% i 35%. Mewn termau absoliwt, gostyngodd cyfanswm y gwariant gan gynnwys ar-lein, o £984miliwn yn 2007/08, i £948miliwn eleni, gan adlewyrchu lefel yr arbedion effeithlonrwydd a wnaed eleni ym maes gwariant yn gyffredinol. Rydym yn disgwyl i'r swm hwn gynyddu wrth i gynyrchiadau symud allan o Lundain yn unol â'n strategaeth cyflenwi rhwydwaith hirdymor.

### Sicrhau bod ffi'r drwydded yn cefnogi'r economi greadigol ehangach

Mae ymchwil wedi dangos y gall yr economi greadigol fod yn gyfrwng sylweddol ar gyfer twf i'r DU gyfan. Yn ôl y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA), mae diwydiannau fel teledu, ffilm, cerddoriaeth ac adloniant wedi tyfu ddwywaith mor gyflym â'r economi gyfan dros y blynyddoedd diwethaf, ac maent yn ffynhonnell hollbwysig o arloesedd a syniadau newydd. Mae'r sector hefyd yn cyfrannu £60biliwn y flwyddyn i UK plc.

Mae'r BBC – a dylai fod – yn rhan hollbwysig o hyn. Ym mlwyddyn galendr 2008 gwnaethom gomisiynu 37% o'n cynnwys teledu gan gwmnïau cynhyrchu allanol. Cyfanswm ein buddsoddiad yn y diwydiannau creadigol yn ystod y flwyddyn oedd £1.1biliwn, neu 33% o'n hincwm blynyddol o ffi'r drwydded, sy'n cynnwys taliadau i artistiaid a chyfranwyr. Rydym eisoes yn rhagori ar y targedau a bennwyd ar ein cyfer gan Ofcom ar wariant yn y sector annibynnol, ac rydym yn ailddiffinio'r berthynas rhwng y BBC a gweddill cyfryngau'r DU, ac yn symud y pwyslais oddi ar gystadleuaeth tuag at gydweithredu gwell, drwy ddatblygu partneriaethau newydd a chynaliadwy.

Gallwch weld tystiolaeth o hyn eisoes, p'un a yw yn ein memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd ag ITV i rannu seilwaith newyddion rhanbarthol ac adnoddau i gefnogi darpariaeth y tu hwnt i'r BBC, neu ein cynnig i rannu technoleg ac arbenigedd cynhyrchu digidol a allai helpu cynhyrchwyr annibynnol bach i wneud y newid i ddyfodol digidol llawn. Mae'r olaf yn arbennig o bwysig. Fel y noda NESTA, nodweddir economi greadigol y DU gan lawer o gwmnïau bach, nad oes fawr ddim ohonynt byth yn cyrraedd maint sylweddol, ac na allai'r un ohonynt obeithio cystadlu â'r cystadleuwyr byd-eang mawr. Gall gweithio gyda'r BBC wneud gwahaniaeth mawr yma, ac rydym am i'n harbenigedd a'n gwybodaeth fynd llawer pellach. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn y dirywiad presennol, pan allwn ddarparu rhaglen fuddsoddi fwy sefydlog na llawer o'n cystadleuwyr masnachol.

## HERIAU HEDDIW AC YFORY

### Trwyddedau gwasanaeth

Rydym yn gweithredu o dan ymbarél cyfundrefn reoleiddio gymharol newydd. Yn y flwyddyn ddiwethaf mae BBC ALBA a BBC HD wedi gwario llai na'r hyn a ragwelwyd, oherwydd gwahaniaethau amseru yn erbyn eu cyllidebau gwreiddiol, ac o ganlyniad torrwyd y ddwy drwydded gwasanaeth yn dechnegol. Mae rhai trwyddedau eraill yn gweithredu'n agos at eu trothwyon, ac maent yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r fframwaith rheoli sy'n arolygu pob un o'n trwyddedau gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol, ac rydym wedi gwella ein dull rhybuddio cynnar fel y gallwn gymryd camau gweithredu cyflym os bydd unrhyw rai mewn perygl o fynd y tu hwnt i'w terfynau.

Cymeradwywyd cyllideb trwydded gwasanaeth newydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer BBC Online, a thrwyddedwyd y gwasanaeth BBC ALBA newydd am y tro cyntaf. O 2009/10 byddwn yn gwneud newidiadau i delerau'r drwydded gwasanaeth Plant, pan fydd gwariant yn trosglwyddo i CBBC a CBeebies o BBC One a BBC Two. Gwneir y newidiadau i atgyfnerthu rheolaethau dros benderfyniadau golygyddol.

### Newid i ddigidol

Un o'n cyfrifoldebau o dan Siarter y BBC yw helpu i gyflawni'r newid i ddigidol ledled y DU, a sicrhau bod y rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf yn ymwybodol o'r hyn y mae'n ei olygu, ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Neilltuir arian yn ffi'r drwydded i ganiatáu i'r BBC gyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

Erbyn diwedd 2008/09, roedd trosglwyddyddion Whitehaven a Selkirk yn rhanbarth ITV Border wedi newid drosodd, gan gyrraedd 73,000 o aelwydydd, ac roedd 25,000 o unigolion yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol. Helpodd y Cynllun Cymorth hanner miliwn arall o bobl yn rhanbarthau Border a West Country ITV hefyd y llynedd, wrth baratoi ar gyfer newid i ddigidol yn 2009. Mae disgwyl i bedwar arall o blith 14 rhanbarth ITV newid i ddigidol eleni hefyd, sef 5.4 miliwn yn fwy o aelwydydd, neu 20% o boblogaeth y DU. Bydd tua dwy filiwn o bobl hŷn ac anabl yn y rhanbarthau hynny yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol.

Mae £603miliwn o setliad presennol ffi'r drwydded wedi cael ei neilltuo i gwmpasu'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol ar gyfer y cyfnod hyd at 2012/13, a gwariwyd £24miliwn y llynedd. Hyd yma, dim ond 1% o'r boblogaeth sydd wedi newid yn llwyr i ddigidol; er bod nifer y bobl sydd wedi manteisio ar y cynllun wedi bod yn is na'r disgwyl hyd yma, mae cynnydd gwirioneddol mewn gweithgarwch o nawr hyd at 2011. Ni fyddwn yn gallu asesu'n llawn faint y bydd yn ei gymryd i newid pawb i ddigidol nes y byddwn wedi cyflwyno'r cynllun ar draws ardal drefol, mwy o faint.

Mae Digital UK yn gyfrifol am godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses newid i ddigidol ac mae ganddo gyllideb wedi ei neilltuo o ffi'r drwydded o £201miliwn hyd at 2012/13. Gweinyddir y corff hwn ar y cyd gan y BBC a darlledwyr eraill, ac yn 2008/09 gwariodd £26miliwn.

### Pensiynau

Mae'r BBC yn gweithredu cynllun buddiannau diffiniedig i bob aelod o staff, gyda chymysgedd o gyflog terfynol a buddiannau cyfartaledd gyrfa.

Gweinyddir y cynllun gan grŵp o ymddiriedolwyr sy'n

Siart 13/ **Gwariant yn yr economi greadigol £bn**

| | |
|---|---|
| 06/07 | 1.1 |
| 07/08 | 1.1 |
| 08/09 | 1.1 |

rheoli strategaeth fuddsoddi y cynllun pensiwn, gyda chymorth nifer o gynghorwyr annibynnol.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi edrych am ffyrdd o sicrhau fforddiadwyedd hirdymor y cynllun, megis cyflwyno buddiannau cyfartaledd gyrfa a chynyddu cyfraniadau cyflogeion.

Eleni, rydym hefyd wedi cyflwyno cynllun 'aberthu cyflog', sy'n sicrhau arbedion i gyflogeion ac i'r BBC; fel y gwelwch yn Nodyn 8, mae'n newid y ffordd rydym yn rhoi cyfrif am gyfraniadau pensiwn, gan gynyddu cyfran y cyfraniadau cyflogwyr a ddatgelir. Cyfraddau cyfraniadau gwirioneddol y BBC a chyflogeion ar gyfer 2008/09 oedd 19.35% a 6.0% yn y drefn honno, gan wneud cyfanswm cyfradd cyfraniadau o 25.35%. O fis Ebrill 2009, gofynnwyd i gyflogeion gynyddu eu cyfraniadau i 6.75%, a bydd cynnydd pellach i 7.5% o fis Ebrill 2010.

Dengys prisiad FRS 17 ddiffyg yn y cynllun eleni o £139miliwn o gymharu â gwarged y llynedd o £528miliwn. Bu'n flwyddyn anodd i'r rhai sy'n rheoli cynlluniau pensiwn, gan fod ecwitïau, eiddo tiriog, bondiau corfforaethol ac asedau amgen oll wedi lleihau mewn gwerth. Byddwn yn edrych ar berfformiad ein cynllun yn y tymor byr a'r tymor hir, lle mae'r rhagolygon yn parhau yn ansicr wrth i'r marchnadoedd ecwiti ymdrechu i adfer. Mae'r atebolrwydd yng nghyfrifon eleni yn adlewyrchu cynnwrf y farchnad eleni, er ein bod yn gobeithio gweld arwyddion o adferiad yn y tymor canolig. Ceir manylion llawn am ein costau pensiwn a'n rhwymedigaethau yn Nodyn 8 o'r datganiadau ariannol llawn, sydd ar gael ar-lein yn www.bbc.co.uk/annualreport

Gwnaed y prisiad actiwaraidd ffurfiol diwethaf o'r cynllun ym mis Ebrill 2007 a dangosodd hyn warged o £275miliwn. Dangosodd adroddiad actiwaraidd interim ym mis Ebrill 2008 fod y cynllun wedi symud i ddiffyg o £470miliwn, yn bennaf o ganlyniad i dybiaethau is ynghylch lefel yr adenillion buddsoddi yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl i'r prisiad actiwaraidd ffurfiol nesaf gael ei gynnal ym mis Ebrill 2010.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r cynllun buddiannau diffiniedig ac yn adolygu ein dull o ddarparu pensiynau yn gyson i reoli cost a risg yn effeithiol; fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid iddo barhau yn fforddiadwy i ffi'r drwydded yn yr hirdymor.

## POLISÏAU A SAFONAU ARIANNOL ALLWEDDOL

### Polisïau'r trysorlys

Mae adran y trysorlys yn rheoli ac yn monitro pob un o'n risgiau ariannol, gan sicrhau bod gennym ddigon o arian hylifol i gyflawni ein rhwymedigaethau pan ddônt yn ddyledus, a'n bod yn cydymffurfio â'n terfynau benthyca, yn enwedig y rhai a nodir yn ein Siarter a chyfamodau benthyca allanol. Mae hefyd yn rheoli ein hamlygiad i risg o ran cyfraddau cyfnewid tramor a chyfraddau llog. Rheolir pob un o weithgareddau'r adran gan bolisïau a gweithdrefnau a gymeradwyir gan Bwyllgor Cyllid y BBC, a chânt eu goruchwylio o ddydd i ddydd gan Drysorlys y Grŵp, gydag adroddiadau misol i uwch reolwyr. Mae Nodyn 23 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn.

### Polisïau cyfrifyddu hollbwysig

Y meysydd sy'n galw am arddel y doethineb mwyaf yw'r rhai canlynol:

- mae ein prisiad o'r cynllun pensiwn at ddibenion cyfrifyddu FRS17 yn cynnwys tybiaethau o ran disgwyliad oes, adenillion ar fuddsoddiadau yn y dyfodol, chwyddiant a thwf mewn cyflogau, fel y nodir yn Nodyn 8. Ymgynghorwn ag actiwarïaid y cynllun er mwyn sicrhau eu bod yn disgyn o fewn ystod dderbyniol yn seiliedig ar arfer y farchnad, ond byddai tybiaethau gwahanol yn arwain at newid yn lefel y gwarged neu ddiffyg.
- mae darpariaethau yn cynrychioli ein hamcangyfrif gorau o rwymedigaethau yn y dyfodol, a gall gynnwys tybiaethau i gyfrifo costau dileu swyddi, er enghraifft nifer y bobl a'u lefel cydnabyddiaeth.
- rydym yn gweithredu nifer sylweddol o brydlesau eiddo a thechnoleg. Fel y gwelwch o Nodiadau 23 a 24, mae'r penderfyniad i drin contractau o'r fath fel prydlesau cyllid neu weithredu yn cael effaith fawr ar ein mantolen.
- gan ein bod yn gweithredu ar draws nifer o wledydd gwahanol a sawl math o arian cyfred gwahanol, cawn ein hamlygu i amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid. Mae trosi trafodion arian cyfred tramor, y cyfraddau cyfnewid a ddefnyddir a'r driniaeth o weithrediadau tramor oll yn effeithio ar ein datganiadau ariannol.
- asesir nifer o ddangosyddion wrth benderfynu a ddylid lleihau gwerth ased neu ei ddileu. Mae'r rhain yn cynnwys gwerth gostyngol ar y farchnad neu ddirywiad mewn perfformiad economaidd. Mewn llawer o achosion wrth gynnal arolygon lleihad mewn gwerth, mae angen i ni asesu llifau arian parod gweithrediad yn y dyfodol i benderfynu a all ei werth gael ei leihau, sy'n golygu gwneud nifer o dybiaethau ynghylch perfformiad yn y dyfodol.

### Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol

Byddwn yn mabwysiadu IFRS o'r flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2010. Mae hyn yn unol â phenderfyniad Trysorlys EM i wneud yr un peth o 2009/10 ymlaen. Yn y cyfamser, mae'r cyfrifon yn parhau i gael eu paratoi o dan yr Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP), er y darperir cysoniad i IFRS er gwybodaeth.

Bydd y brif effaith ar baratoi ein cyfrifon o dan IFRS mewn perthynas â phrydlesau, ewyllys da a buddiannau cyflogeion.

Mae'r tudalennau nesaf yn cynnwys ein datganiadau ariannol cryno – incwm a gwariant, mantolen a llif arian parod – a rhywfaint o wybodaeth ariannol allweddol arall. Cyhoeddir datganiadau a nodiadau ariannol llawn ar-lein a gellir eu darllen yn www.bbc.co.uk/annualreport



**Zarin Patel**
Prif Swyddog Ariannol
18 Mehefin 2009

# RHAGOLWG RISG/

| RISG | GWEITHREDU | RHAGOLWG AR GYFER Y DYFODOL |
|---|---|---|
| Gallai dirwasgiad estynedig yn y DU ac yn fyd-eang arwain at ddirywiad sydyn ym mherfformiad ein busnes masnachol. | Mae BBC World yn gymharol amrywiol, sy'n cynnig diogelwch rhag y dirywiad yn y farchnad hysbysebu.<br>Yn ddiweddar rydym wedi ailstrwythuro ein busnes Stiwdios ac Ôl-gynhyrchu i sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg i ymateb i bwysau presennol yn y farchnad. | Gallai dirywiad byd-eang parhaol roi mwy o bwysau ar refeniw ar draws pob un o'n busnesau masnachol.<br>Rydym wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol mewn nifer o feysydd a bydd angen i ni ganolbwyntio ar ddatblygu'r busnesau newydd hyn. |
| Gallai risg ariannol a hylifol gynyddol gynyddu'r pwysau ar incwm, lleihau ein hyblygrwydd ariannol a chynyddu'r pwysau ar ein cyfleusterau benthyca. | Rydym wedi cymryd camau gweithredu cynnar i gynnwys gwaith paratoi at argyfwng yn ein cynlluniau ariannol, amrywio'r portffolio pensiynau a lleihau ein risg o ran hylifedd, fel y nodir yn yr Arolwg Ariannol.<br>Rydym yn monitro gwerthiannau ffi'r drwydded a dangosyddion economaidd allweddol yn gyson i ddeall sut y bydd tueddiadau hirdymor yn effeithio ar ein hincwm. | Wrth i'r dirwasgiad barhau, gall gwerthiannau ffi'r drwydded barhau i ddod o dan bwysau.<br>Byddwn yn parhau i reoli'r risg ariannol yn ystod 2009/10 wrth i'r rhagolwg economaidd barhau'n ansicr. |
| Gall dibynnu ar gyflenwyr allweddol gynyddu'r risgiau sy'n deillio o hylifedd a methiant gwrthbarti yn ein cadwyn gyflenwi. | Rydym yn monitro pob un o'n contractau cyflenwi strategol a'n cyd-ddibyniaeth ar gyflenwyr.<br>Rydym wedi ceisio sicrhau bod gennym ddiogelwch cytundebol ar waith drwy strategaethau gadael clir a chynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd cyflenwr yn methu. | Bydd ein cyflenwyr yn parhau i deimlo effaith y dirywiad economaidd drwy gydol 2009/10 a byddwn yn gweithio gyda hwy i leihau'r risg a berir i wasanaethau critigol darlledu neu wasanaethau cymorth. |
| Gall methiant technegol, gweithredu diwydiannol neu weithredu gan drydydd partïon, er enghraifft gweithred gan derfysgwyr, neu fethiant ar ran cyflenwr, darfu ar wasanaethau darlledu. | Mae gennym gynlluniau parhad darlledu manwl ar waith, sy'n cael eu hadolygu a'u profi'n gyson. Rydym yn monitro pob bygythiad i ddiogelwch cenedlaethol ac yn meithrin cydberthnasau agored â'r undebau llafur. | Mae'r risg hon yn galw am reolaeth weithredol barhaus, o gofio'r bygythiadau dwysach i ddiogelwch ledled y DU a'r ffaith bod rhai o'n hasedau technoleg yn mynd yn hen ac y bydd angen cael rhai newydd yn eu lle o bosibl. |
| Unrhyw ddigwyddiad sy'n effeithio ar ddiogelwch ein staff, cyfranwyr neu gynulleidfaoedd. | Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau diogelwch o ddifrif ac mae gennym weithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer asesu risgiau wrth ffilmio, gweithio dramor a gweithio gyda chynulleidfaoedd. | Byddwn yn parhau i flaenoriaethu diogelwch ym mhob un o'n gweithgareddau, ac yn adolygu a diwygio ein harferion mewn ymateb i ddigwyddiadau sy'n codi. |

MAE'R BWRDD GWEITHREDOL YN GYFRIFOL AM NODI UNRHYW RISGIAU I'R BUSNES, AC AM GYMRYD CAMAU LLINIARU FEL Y BO'N BRIODOL. MAE RHAI RISGIAU YN GYSON, OND MAE ERAILL YN YMATEB I NEWIDIADAU SYDYN YN AMODAU'R FARCHNAD. Y RISGIAU A NODIR ISOD YW'R RHAI Y CREDIR EU BOD YN CAEL YR EFFAITH FWYAF SYLWEDDOL AR EIN CYNULLEIDFAOEDD, EIN STRATEGAETH A'N GWEITHREDIADAU. NI CHÂNT EU MYNEGI YN ÔL SAFLE NAC YN ÔL TREFN BLAENORIAETH.

| RISG | GWEITHREDU | RHAGOLWG AR GYFER Y DYFODOL |
|---|---|---|
| Gallai'r targedau effeithlonrwydd heriol a bennwyd ar ein cyfer effeithio ar ansawdd ein rhaglennu. | Gwnaethom ddechrau rhaglen effeithlonrwydd 'Gwelliant Parhaus' newydd eleni. Rydym wedi rhoi fframwaith perfformiad ar waith i fesur cynnydd yn erbyn y targedau uchelgeisiol a nodi unrhyw effaith ar raglennu. Mae'r arbedion effeithlonrwydd a wnaed yn cael eu hailfuddsoddi i wella nodweddion unigryw pob un o'n gwasanaethau. | Mae ein rhaglen effeithlonrwydd yn parhau hyd at 2012/13, gyda phwysau cynyddol ar wneuthurwyr rhaglenni i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o wella ansawdd a pherfformiad. |
| Ar gyfer ein cynulleidfaoedd, mae'n bwysig bod ein cynnwys yn parhau yn gyson unigryw, yn arloesol ac o safon uchel a'n bod yn parhau i fuddsoddi mewn technolegau newydd, er mwyn sicrhau y gallant gael gafael ar gynnwys pryd a lle y byddant yn dymuno gwneud hynny ac mewn ffordd sy'n addas iddynt hwy. | Rydym yn anelu at greu rhaglenni arloesol sy'n torri tir newydd ac mae strategaethau gwasanaeth ar waith i gyflawni yn erbyn pob amcan cynulleidfa craidd.<br>Mae profion parhaus ac ymchwilio i dueddiadau'r farchnad a datblygiadau presennol yn ategu ein strategaethau technolegol.<br>Mae'r BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC yn ymgynghori'n helaeth â chynulleidfaoedd ledled y DU i sicrhau ein bod yn ymateb i'w hanghenion. | Bydd technoleg a'i phosibiliadau newidiol yn parhau i fod yn her fawr yn y ffordd rydym yn ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd.<br>Mae ein portffolio o wasanaethau yn cynnig rhywbeth o werth i bawb ac rydym yn buddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau newydd er mwyn cystadlu â'r DU ddigidol sy'n datblygu. |
| Gallai torri safonau golygyddol leihau hyder gwylwyr a gwrandawyr yn rhaglennu'r BBC. | Mae gennym ganllawiau golygyddol clir ar waith ac rydym yn darparu hyfforddiant helaeth i'n gwneuthurwyr rhaglenni a'n cyfranwyr.<br>Rydym yn annog timau cynhyrchu i ystyried cymryd risgiau i gyflawni eu nodau golygyddol. | Bydd y cyhoedd yn parhau i ddisgwyl y safonau uchaf o integredd golygyddol a natur ddiduedd gan y BBC. Bydd unrhyw esgeulustod mewn rheolaeth olygyddol neu farn olygyddol a'r niwed dilynol i'n henw da a'n brand yn parhau i fod yn achos pryder a byddwn yn ceisio ymdrin â hwy yn gyflym ac yn briodol. |
| Efallai na fyddwn yn cyflawni'r buddiannau byrdymor a hirdymor sydd ar gael o ddatblygu partneriaethau â'r diwydiant darlledu a'r cyfryngau. | Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i sefydlu cyfres o bartneriaethau cryf a pharhaus, gan geisio ymgysylltu â diwydiant i ddatblygu atebion ar y cyd.<br>Rydym yn gobeithio y bydd y rhain yn eu tro yn sicrhau gwerth parhaus i dalwr ffi'r drwydded. | Bydd hyn yn flaenoriaeth yn 2009/10 wrth i'r BBC geisio sicrhau bod y fframweithiau cywir ar waith i greu gwerth economaidd ym mhob rhan o'r diwydiant. |

# UCHAFBWYNTIAU ARIANNOL/

## MAE INCWM Y BBC YN PARHAU I DYFU, WEDI EI HYBU GAN FFI'R DRWYDDED. PENNIR LEFEL FFI'R DRWYDDED GAN Y LLYWODRAETH, OND EFFEITHIR HEFYD AR Y TWF YN INCWM Y BBC GAN DWF AELWYDYDD A GALLU'R BBC I GASGLU INCWM FFI'R DRWYDDED YN EFFEITHIOL.

### INCWM

Mae incwm y BBC yn parhau i dyfu, wedi ei hybu gan ffi'r drwydded. Pennir lefel ffi'r drwydded gan y Llywodraeth, ond effeithir hefyd ar y twf yn incwm y BBC gan dwf aelwydydd a gallu'r BBC i gasglu incwm ffi'r drwydded yn effeithiol.

Er y gall twf mewn incwm masnachol ymddangos yn gymedrol, nid yw'r ffigur pennawd hwn yn adlewyrchu llwyddiant strategaeth fasnachol y BBC yn llawn dros y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig yr ehangiad drwy gysylltiad BBC Worldwide mewn mentrau â phartïon eraill; nid adlewyrchir uchod gyfran y BBC o'r incwm yn y cyd-fentrau hyn. Cynyddodd yr adenillion arian parod o BBC Worldwide 23% i £153miliwn.


### GWARIANT GWEITHREDU

Gan fod yn rhaid i'r BBC adennill costau dros gyfnod Siarter, mae cyfanswm y gwariant yn dilyn yr un duedd ag incwm yn fras. Mae Nodyn 2 yn rhoi rhagor o fanylion am wariant, yn arbennig ar wasanaethau cyhoeddus y BBC. Fodd bynnag, eleni mae Rhaglen Gwelliant Parhaus y BBC wedi dechrau cyflawni arbedion effeithlonrwydd sy'n cyfrannu at leihad mewn gwariant ar ddarlledu cyhoeddus o'i gymharu â 2007/08; mae gwariant wedi lleihau 3.4%.


### COST LLOG

Mae'r llog net sy'n daladwy wedi cynyddu o £4.6miliwn i £17.2miliwn gan adlewyrchu newidiadau mewn benthyciadau, yn arbennig yn y Busnesau Masnachol, i ariannu buddsoddiad. Fodd bynnag, nid yw'r Grŵp wedi gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfraddau llog isel ar hyn o bryd, o ganlyniad i'w strategaeth rheoli arian parod i ddefnyddio cyfnewidiadau cyfradd llog, coleri a chapiau i leihau ei amlygiad i gyfraddau llog amrywiol. Mae cydnabod y cyfnewidiadau, y capiau a'r coleri ar werth teg wedi cynyddu'r draul llog sy'n daladwy am y flwyddyn £5.1miliwn, ond wrth i'r cyfnewidiadau hyn aeddfedu cânt eu disodli gan rai sy'n seiliedig ar amodau presennol y farchnad, a ddylai leihau'r gost cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod.

Siart 14/ **Incwm £m**




Siart 15/ **Gwariant gweithredu £m**




### TRETH

Nid yw gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC fel arfer yn agored i dreth gorfforaeth, ond mae treth yn daladwy ar enillion cyfalaf ac incwm arall. Mae is-gwmnïau masnachol y BBC yn agored i dreth gorfforaeth ar enillion trethadwy am y flwyddyn. O ganlyniad mae'r gyfradd treth wirioneddol, sef 8.6% eleni (2008: 26.7%), yn wahanol i'r gyfradd Treth Gorfforaeth safonol o 28%. Un ffactor pwysig yn natur gyfnewidiol y gyfradd wirioneddol flwyddyn ar ôl blwyddyn yw'r graddau y mae incwm ffi'r drwydded yn rhagori ar y gwariant gwasanaeth cyhoeddus yn y flwyddyn.

### ARIAN CYFRED TRAMOR


Yn ystod unrhyw flwyddyn mae'r BBC yn llunio nifer o drafodion mewn arian cyfred heblaw sterling, y mae'n rhaid eu cofnodi yn natganiadau ariannol y BBC mewn sterling. Os bydd cyfraddau cyfnewid yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod rhwng cytuno ar drafodyn a'r taliad arian parod neu'r derbyniadau'n cael eu rhoi gall hyn gael effaith ar ganlyniadau'r BBC.

Fodd bynnag, mae'r BBC yn gyffredinol yn llunio blaengontractau arian cyfred i reoli, neu ragfantoli, y risg arian cyfred hon, sy'n caniatáu iddo setlo trafodion ar gyfraddau cyfnewid hysbys, gan leihau ansicrwydd

## DATGANIAD ARIANNOL CRYNO

Mae'r datganiad ariannol cryno hwn yn cynrychioli crynodeb o'r wybodaeth yn natganiadau ariannol llawn y BBC a'r adroddiad Llywodraethu. Yn hyn o beth, nid yw'r datganiad ariannol cryno yn cynnwys digon o wybodaeth i ddeall yn llwyr ganlyniadau na busnes Grŵp y BBC, na'i drefniadau Llywodraethu na'i bolisïau na'i drefniadau o ran cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr fel y byddai'r datganiadau ariannol blynyddol llawn a'r adroddiadau yn eu darparu. Ceir gwybodaeth fanylach yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon llawn 2008/09, sydd ar gael yn www.bbc.co.uk/annualreport

Cymeradwywyd y datganiad ariannol cryno, gan gynnwys yr Adroddiad Llywodraethu Cryno ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, gan y Bwrdd Gweithredol ar 18 Mehefin 2009 ac fe'i llofnodwyd ar ei ran gan:



**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol



**Zarin Patel**
Prif Swyddog Ariannol

sy'n ymwneud â llif arian parod. Fodd bynnag, mae effaith gyfrifyddu o hyd.

Yn ystod y flwyddyn mae cyfraddau cyfnewid tramor wedi bod yn fwy anwadal ac wedi dibrisio/arbrisio yn fwy na'r cyffredin. Felly mae'r newidiadau gwerth teg mewn blaengontractau arian cyfred tramor a luniwyd gan y BBC wedi bod yn fwy sylweddol o lawer eleni nag y buont yn y gorffennol, fel y bu enillion a cholledion ar drafodion a setlwyd. Eleni, cydnabu'r BBC ennill net o £10.3miliwn ar drafodion a setlwyd, colled net o £18.4miliwn ar flaengontractau arian cyfred tramor agored a deilliadau sefydlog arian cyfred tramor, ac ennill o £22.9milliwn ar drosi canlyniadau ac asedau is-gwmnïau tramor.

## ASEDAU NET

Ar 31 Mawrth 2009, asedau net Grŵp y BBC oedd £990.1miliwn (2008: £1,519.2miliwn), sef gostyngiad o £529.1miliwn yn ystod y flwyddyn. Dylanwadir yn sylweddol ar asedau net cyffredinol y BBC gan brisiad cyfrifyddu Cynllun Pensiwn y BBC (trafodir y cynllun pensiwn yn fanylach yn yr Arolwg Ariannol), sydd eleni yn dangos colled net am y flwyddyn o £666.6miliwn. Fel arall mae'r asedau net sylfaenol yn parhau yn gymharol gyson; fodd bynnag, fel y nodwyd uchod bu cynnydd mewn benthyciadau i ariannu gwariant cyfalaf a buddsoddiadau yn y dyfodol, gan gynnwys ein prosiectau trawsffurfiol yn Llundain a Salford, yn ogystal â buddsoddi mewn technoleg cynhyrchu ddigidol i wella ein cynnwys a'n gwasanaethau.

## LLIFAU ARIAN PAROD

Mae'r BBC yn rheoli arian parod a benthyciadau yn ofalus ac yn aros o fewn ei drothwyon benthyca. Mae'r graddau y mae llifau arian parod a dyled net yn symud gyda'i gilydd yn dibynnu ar gylch y Siarter, a chyda nod y BBC o adennill costau dros gyfnod Siarter gall hyn arwain at fewnlifau arian parod sylweddol mewn rhai blynyddoedd wedi eu gwrthbwyso gan all-lifau a ragwelir yn y dyfodol, er enghraifft mewn perthynas â newid i ddigidol. Eleni roedd mewnlif arian parod net o £43.8miliwn.

## DATGANIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR Y GORFFORAETH DDARLLEDU BRYDEINIG (BBC)

Rydym wedi archwilio'r datganiad ariannol cryno sy'n cynnwys y Cyfrif incwm a gwariant cyfunol, y Fantolen gyfunol gryno, y Datganiad llif arian parod cyfunol cryno ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol.

Mae Ymddiriedolwyr y BBC wedi ein penodi i archwilio'r datganiad ariannol cryno a baratowyd fel petai'r BBC yn gwmni a chanddo'r hawl i baratoi datganiad o'r fath o dan Adran 251 o Ddeddf Cwmnïau 1985.

Gwneir y datganiad hwn yn unswydd i Ymddiriedolwyr y BBC fel corff ar delerau rydym wedi cytuno arnynt. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Ymddiriedolwyr y BBC o'r materion hynny rydym wedi cytuno i'w hysbysu ohonynt mewn datganiad o'r fath ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r BBC ac Ymddiriedolwyr y BBC fel corff, am ein gwaith, am y datganiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

### Priod gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr a'r archwilwyr

Yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am baratoi arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC fel petai Adran 251 o Ddeddf Cwmnïau 1985 yn gymwys i'r BBC.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein penodiad yw rhoi ein barn i chi ar gysondeb y datganiad ariannol cryno o fewn arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, a'i gydymffurfiaeth â gofynion perthnasol adran 251 o Ddeddf Cwmnïau 1985 a'r rheoliadau a wnaed yn unol â hi fel petaent yn gymwys i'r BBC.

Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os deuwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu unrhyw anghysondebau perthnasol â'r datganiad ariannol cryno.

### Sail y farn

Cyflawnwyd ein gwaith yn unol â Bwletin 1999/6 "The auditor's statement on the summary financial statement" a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn y BBC yn disgrifio sail ein barn archwilio ar y datganiadau ariannol hynny ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol.

### Barn

Yn ein barn ni mae'r datganiad ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 ac mae'n cydymffurfio â gofynion cymwys adran 251 o Ddeddf Cwmnïau 1985 a'r rheoliadau a wnaed yn unol â hi fel petaent yn gymwys i'r BBC.

**KPMG LLP**
Cyfrifwyr Siartredig
Archwiliwr Cofrestredig, Llundain

18 Mehefin 2009

# DATGANIAD CYFUNOL O INCWM A GWARIANT

## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009

| | Nodyn | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| **Incwm** (yn cynnwys cyfran o gyd-fentrau) | | **4,906.2** | 4,689.4 |
| Llai: cyfran o gyd-fentrau | | **(300.5)** | (274.6) |
| **Incwm y Grŵp** | 1 | **4,605.7** | 4,414.8 |
| Gwariant gweithredu ac eithrio costau eithriadol | | **(4,461.8)** | (4,359.3) |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | | **(29.9)** | (117.7) |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | 2 | **(4,491.7)** | (4,477.0) |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu'r Grŵp** | | **114.0** | (62.2) |
| Cyfran o warged weithredu partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau cyn eitemau eithriadol | | **56.8** | 60.3 |
| Cyfran o eitemau eithriadol gweithredu cyd-fentrau | | **(7.5)** | – |
| **Cyfran o warged gweithredu partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau** | | **49.3** | 60.3 |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredu: Grŵp a chyfran o bartneriaethau cyswllt a chyd-fentrau** | | **163.3** | (1.9) |
| Colled o werthu a therfynu gweithrediadau | | **(1.1)** | (4.8) |
| Elw o waredu asedau sefydlog | | **15.9** | 2.0 |
| **Gwarged/(diffyg) cyn llog a threthiant** | | **178.1** | (4.7) |
| Llog derbyniadwy ac eitemau tebyg | | **9.1** | 13.7 |
| Llog sy'n daladwy ac eitemau tebyg | | **(26.3)** | (18.3) |
| Incwm cyllid net arall (o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig) | | **117.3** | 148.8 |
| **Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol** | 3 | **278.2** | 139.5 |
| Trethiant | | **(24.0)** | (37.3) |
| **Gwarged ar ôl trethiant a chyn buddiant lleiafrifol** | | **254.2** | 102.2 |
| Buddiant lleiafrifol | | **(0.5)** | (0.5) |
| **Gwarged am y flwyddyn ariannol** | | **253.7** | 101.7 |

Mae pob canlyniad yn deillio o weithrediadau parhaus.

Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y canlyniadau fel y'u datgelwyd uchod a'r canlyniadau ar sail cost hanesyddol.

Noder:

Y warged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol yw'r swm a geir drwy ddidynnu pob eitem o wariant a gydnabyddir yn y flwyddyn o bob incwm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn. Ar gyfer Grŵp y BBC, fel endid budd cyhoeddus, mae unrhyw warged sy'n codi yn cynrychioli gwahaniaeth amseru sy'n ymwneud â gwariant yn y gorffennol neu yn y dyfodol yn hytrach nag 'elw' y gellir ei ddychwelyd at gyllidwyr endid.

# MANTOLEN GYFUNOL GRYNO

## AR 31 MAWRTH 2009

| | Nodyn | Grŵp 2009 £m | Grŵp 2008 £m |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | **1,003.4** | 992.4 |
| **Asedau cyfredol** | | **1,568.8** | 1,423.1 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | **(952.4)** | (1,064.7) |
| **Asedau cyfredol net** | | **616.4** | 358.4 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **1,619.8** | 1,350.8 |
| **Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | **(314.6)** | (172.6) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** | | **(171.8)** | (182.3) |
| **Asedau net ac eithrio (rhwymedigaeth)/ased pensiwn** | | **1,133.4** | 995.9 |
| **(Rhwymedigaeth)/ased pensiwn net** | 6 | **(143.3)** | 523.3 |
| **Asedau net** | | **990.1** | 1,519.2 |
| **Wedi eu cynrychioli gan** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn y BBC | | **984.2** | 1,512.5 |
| Buddiant lleiafrifol | | **5.9** | 6.7 |
| | | **990.1** | 1,519.2 |

# DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL CRYNO

## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2009

| | Nodyn | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **215.2** | 158.7 |
| Difidendau a dderbyniwyd o gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt | | **37.0** | 45.7 |
| All-lif arian parod net o'r adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid | | **(8.8)** | (1.7) |
| Trethiant a dalwyd | | **(23.1)** | (23.5) |
| All-lif arian parod net o wariant cyfalaf a buddsoddiadau ariannol | | **(228.2)** | (231.8) |
| All-lif arian parod net o gaffaeliadau a gwarediadau | | **(14.8)** | (107.1) |
| All-lif arian parod net cyn defnyddio adnoddau hylifol ac ariannu | | **(22.7)** | (159.7) |
| Mewnlif arian parod net o reoli adnoddau hylifol | | **–** | – |
| Mewnlif arian parod net o ariannu | | **66.5** | 93.0 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **43.8** | (66.7) |
| Arian yn y banc ac mewn llaw ar ddechrau'r flwyddyn | | **78.0** | 144.7 |
| **Arian yn y banc ac mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn** | | **121.8** | 78.0 |

# NODIADAU I'R DATGANIAD ARIANNOL CRYNO

## 1 INCWM Y GRŴP

Daw prif incwm y BBC o drwyddedau teledu. Cydnabyddir incwm ffi'r drwydded yn llawn pan roddir trwydded, yn amodol ar ddidyniadau ar gyfer ad-daliadau a diddymiadau gwirioneddol a disgwyliedig.

| | **Grŵp UK Public Service Broadcasting £m** | **BBC World Service a BBC Monitoring £m** | **Busnesau masnachol £m** | **Cyfanswm £m** |
|---|---|---|---|---|
| **2009** | | | | |
| **Incwm o ffi'r drwydded** | **3,493.8** | **–** | **–** | **3,493.8** |
| **Grantiau'r llywodraeth** | **5.0** | **289.6** | **–** | **294.6** |
| **Masnachol** | **–** | **–** | **775.9** | **775.9** |
| **Arall** | **34.5** | **6.9** | **–** | **41.4** |
| **Cyfanswm** | **3,533.3** | **296.5** | **775.9** | **4,605.7** |

| | Grŵp UK Public Service Broadcasting £m | BBC World Service a BBC Monitoring £m | Busnesau masnachol £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| 2008 | | | | |
| Incwm o ffi'r drwydded | 3,368.8 | – | – | 3,368.8 |
| Grantiau'r llywodraeth | 4.0 | 279.6 | – | 283.6 |
| Masnachol | – | – | 719.6 | 719.6 |
| Arall | 37.5 | 5.3 | – | 42.8 |
| Cyfanswm | 3,410.3 | 284.9 | 719.6 | 4,414.8 |

## 2 CYFANSWM Y GWARIANT GWEITHREDU, GAN GYNNWYS GWARIANT GRŴP UK PUBLIC SERVICES BROADCASTING FESUL GWASANAETH

Ariennir gweithgareddau Grŵp UK Public Service Broadcasting gan ffi'r drwydded. Mae'r Siarter a'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn disgrifio gwasanaethau cyhoeddus y DU yn y BBC (gan gynnwys gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein) a hefyd yn gosod rhai rhwymedigaethau ar y BBC mewn perthynas â'r newid i ddigidol; ariennir y ddau weithgaredd gan ffi'r drwydded. Fodd bynnag, mae rhan o incwm ffi'r drwydded wedi ei neilltuo at ddiben newid i ddigidol ac o ganlyniad dangosir cyfanswm gwariant Grŵp UK Public Service Broadcasting isod wedi ei ddyrannu rhwng y categorïau hyn.

| | **2009 £m** | 2008 £m |
|---|---|---|
| Gwariant ar weithgareddau a ariennir gan ffi'r drwydded | | |
| Gwasanaethau cyhoeddus y DU | **3,345.6** | 3,487.1 |
| Newid i ddigidol (Digital UK Limited) | **26.0** | 21.2 |
| Newid i ddigidol (DSHS Limited) | **24.4** | 5.9 |
| Cyfanswm Grŵp UK Public Service Broadcasting | **3,396.0** | 3,514.2 |
| BBC World Service a BBC Monitoring | **296.9** | 285.3 |
| Busnesau Masnachol | **799.1** | 675.6 |
| Costau gweithredu cynllun pensiwn anariannol | **(0.3)** | 1.9 |
| | **4,491.7** | 4,477.0 |

Defnyddir trwyddedau gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC er mwyn rheoleiddio gwasanaethau'r BBC a sicrhau bod pob gwasanaeth yn darparu gwerth cyhoeddus ac yn cyfrannu at gyflawni pwrpasau cyhoeddus y BBC. Mae asesiad blynyddol o berfformiad yn cymharu costau gwirioneddol ar gyfer cynnwys yn erbyn cyllideb sylfaenol gytûn ac awdurdodedig. Gall y costau hyn amrywio hyd at 10% o'r gyllideb sylfaenol i roi hyblygrwydd i reolwyr yn eu penderfyniadau comisiynu. Yn ystod y flwyddyn roedd 28 o drwyddedau gwasanaeth ar waith, yn cynnwys trwydded BBC ALBA a lansiwyd ym mis Medi 2008.

Dengys trwyddedau gwasanaeth y gost i dalwr ffi'r drwydded o ddarparu'r gwasanaeth perthnasol ac felly maent yn eithrio unrhyw gostau a ariennir gan gyd-gynhyrchydd trydydd parti. Darlledir nifer o raglenni teledi ar fwy nag un sianel ac yn gyffredinol cydnabyddir cost lawn y rhaglen fel cost sianel y darllediad cyntaf. Lle y comisiynir rhaglen gan ddwy sianel, cydnabyddir cost y rhaglen fel cost y brif sianel waeth pa un sy'n darlledu'r rhaglen gyntaf. Yn unol â hynny, nid yw costau trwyddedau gwasanaeth unigol o reidrwydd yn cyfateb i'r costau yr eid iddynt gan wasanaethau o'r fath ar sail unigol.

Ar gyfer BBC HD, BBC Online a BBC Red Button, mae'r drwydded ond yn adlewyrchu costau ychwanegol rhoi cynnwys ar yr awyr oni chomisiynir y cynnwys yn benodol ar gyfer un o'r tri gwasanaeth hyn. Dyrennir cost y cynnwys gwreiddiol i'r gwasanaeth y'i darlledir arno gyntaf.

## 2 CYFANSWM Y GWARIANT GWEITHREDU, GAN GYNNWYS GWARIANT YN ÔL GWASANAETH GRŴP UK PUBLIC SERVICE BROADCASTING parhad

**Gwasanaethau cyhoeddus y DU**

| | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Seilwaith/ cymorth £m | Eitemau eraill £m | **2009 Cyfanswm £m** | 2008 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 1,142.0 | 47.9 | 202.9 | – | **1,392.8** | 1,418.2 |
| BBC Two | 450.6 | 34.1 | 85.0 | – | **569.7** | 567.9 |
| BBC Three | 87.3 | 4.2 | 23.1 | – | **114.6** | 125.2 |
| BBC Four | 54.8 | 3.0 | 13.6 | – | **71.4** | 64.8 |
| CBBC | 35.8 | 3.4 | 10.8 | – | **50.0** | 48.7 |
| CBeebies | 16.3 | 3.5 | 5.7 | – | **25.5** | 23.3 |
| BBC HD | 2.1 | 2.7 | 1.9 | – | **6.7** | 6.7 |
| BBC ALBA | 3.0 | 0.8 | 0.6 | – | **4.4** | – |
| Sianel BBC News | 47.9 | 6.6 | 6.5 | – | **61.0** | 58.0 |
| BBC Parliament | 2.8 | 5.1 | 1.7 | – | **9.6** | 5.8 |
| BBC Red Button | 13.5 | 12.3 | 4.3 | – | **30.1** | 36.7 |
| **Teledu** | 1,856.1 | 123.6 | 356.1 | – | **2,335.8** | 2,355.3 |
| BBC Radio 1 | 33.1 | 3.5 | 6.4 | – | **43.0** | 43.1 |
| BBC Radio 2 | 40.1 | 3.8 | 6.8 | – | **50.7** | 51.3 |
| BBC Radio 3 | 40.0 | 4.1 | 7.0 | – | **51.1** | 49.4 |
| BBC Radio 4 | 85.9 | 8.3 | 14.4 | – | **108.6** | 105.5 |
| BBC Radio 5 live | 56.5 | 5.7 | 10.0 | – | **72.2** | 72.3 |
| BBC Radio 5 live sports extra | 2.6 | 0.3 | 0.8 | – | **3.7** | 3.3 |
| BBC 1Xtra | 6.8 | 0.5 | 2.3 | – | **9.6** | 9.3 |
| BBC 6 Music | 6.5 | 0.4 | 2.1 | – | **9.0** | 7.5 |
| BBC 7 | 5.2 | 0.4 | 1.3 | – | **6.9** | 7.3 |
| BBC Asian Network | 9.2 | 0.5 | 2.4 | – | **12.1** | 13.0 |
| BBC Local Radio | 108.6 | 6.3 | 18.1 | – | **133.0** | 136.5 |
| BBC Radio Scotland | 25.0 | 2.4 | 4.9 | – | **32.3** | 38.5 |
| BBC Radio nan Gàidheal | 4.0 | 0.9 | 0.8 | – | **5.7** | 6.9 |
| BBC Radio Wales | 12.9 | 1.0 | 2.3 | – | **16.2** | 17.5 |
| BBC Radio Cymru | 12.0 | 1.3 | 2.1 | – | **15.4** | 16.8 |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | 14.5 | 1.1 | 2.8 | – | **18.4** | 20.2 |
| **Radio** | 462.9 | 40.5 | 84.5 | – | **587.9** | 598.4 |
| BBC Online | 112.2 | 18.5 | 46.5 | – | **177.2** | 182.0 |
| **Ar-lein** | 112.2 | 18.5 | 46.5 | – | **177.2** | 182.0 |
| **Gwariant wedi ei reoleiddio yn ôl gwasanaeth** | 2,431.2 | 182.6 | 487.1 | – | **3,100.9** | 3,135.7 |
| Costau casglu ffi'r drwydded | – | – | – | 122.8 | **122.8** | 123.2 |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | 21.5 | – | 3.6 | – | **25.1** | 19.3 |
| S4C | 27.6 | – | 4.9 | – | **32.5** | 32.7 |
| BBC jam | – | – | – | – | **–** | 3.0 |
| Gwariant datblygu | 30.9 | – | 5.2 | – | **36.1** | 37.3 |
| Radio digidol DAB | – | 10.3 | – | – | **10.3** | 9.6 |
| Testun digidol | – | 6.9 | – | – | **6.9** | 8.7 |
| **Arall** | 80.0 | 17.2 | 13.7 | 122.8 | **233.7** | 233.8 |
| Costau ailstrwythuro eithriadol | – | – | – | 11.0 | **11.0** | 117.6 |
| **Cyfanswm gwariant gwasanaethau cyhoeddus y DU** | 2,511.2 | 199.8 | 500.8 | 133.8 | **3,345.6** | 3,487.1 |
| Digital UK Limited | – | – | – | 26.0 | **26.0** | 21.2 |
| Gwariant newid i ddigidol wedi ei neilltuo | – | – | – | 24.4 | **24.4** | 5.9 |
| **Cyfanswm Gwariant Grŵp UK Public Services Broadcasting** | 2,511.2 | 199.8 | 500.8 | 184.2 | **3,396.0** | 3,514.2 |

Nodiadau:

Roedd costau cynnwys BBC HD fwy na'r goddefiant o 10% o dan y gyllideb sylfaenol oherwydd yr arbedion sylweddol mewn costau cytundebol.

Roedd costau cynnwys BBC ALBA fwy na'r goddefiant o 10% o dan y gyllideb sylfaenol gan mai dim ond am chwe mis o'r flwyddyn yr oedd y gwasanaeth yn weithredol ond roedd y gyllideb sylfaenol wedi ei phennu ar sail flynyddol.

## 3 GWARGED/(DIFFYG) CYN TRETHIANT A BUDDIANT LLEIAFRIFOL

| | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|
| Gwarged/(diffyg) gweithredu cyn llog, trethiant a chostau pensiwn anariannol | | |
| Grŵp UK Public Service Broadcasting | **147.3** | (108.0) |
| BBC World Service a BBC Monitoring | **(0.6)** | 0.5 |
| Busnesau Masnachol | **31.1** | 104.7 |
| | **177.8** | (2.8) |
| Llog net sy'n daladwy | **(17.2)** | (4.6) |
| Cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig | **117.6** | 146.9 |
| Gwarged cyn trethiant a buddiant lleiafrifol | **278.2** | 139.5 |

**Dadansoddiad pellach o gyfraniad Busnesau Masnachol i warged/(diffyg) gweithredu**

| | Datganiadau ariannol statudol unigol | Addasiadau grŵp | | 2009 | 2008 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwarged/ (diffyg) cyn addasiadau grŵp, llog a threthiant £m | Cydnabod offerynnau ariannol deilliadol £m | Addasiadau grŵp eraill £m | **Gwarged/ (diffyg) cyn llog a threthiant £m** | Gwarged/ (diffyg) cyn llog a threthiant £m |
| BBC Worldwide Limited | 85.7 | (20.8) | 1.3 | **66.2** | 116.1 |
| BBC World News Limited | (3.2) | (13.2) | – | **(16.4)** | (7.8) |
| BBC Studios and Post Production Limited | (18.3) | – | – | **(18.3)** | (3.2) |
| Cwmnïau Dal | (0.6) | – | 0.2 | **(0.4)** | (0.4) |
| **Cyfanswm** | 63.6 | (34.0) | 1.5 | **31.1** | 104.7 |

Nid yw is-gwmnïau'r Grŵp wedi mabwysiadu FRS26 (IAS39) 'Financial Instruments: Recognition and Measurement yn eu datganiadau ariannol eu hunain gan nad ydynt o fewn eu cwmpas. O ganlyniad mae cydnabod offerynnau ariannol deilliadol yn natganiadau ariannol y Grŵp yn effeithio ar y warged/(diffyg) cyn llog a threthiant a adroddir ar gyfer y rhan Busnesau Masnachol.

Mae'r Arolwg Ariannol yn cynnwys trafodaeth bellach ar berfformiad y busnesau masnachol a sut y mae'r amodau economaidd cyfredol wedi effeithio ar eu cyfraniad i sefyllfa weithredu'r Grŵp ar gyfer y flwyddyn.

## 4 GWARIANT GWASANAETHAU CYHOEDDUS Y DU A NEILLTUWYD

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi neilltuo'r symiau canlynol o fewn y Siarter newydd a setliad ffi'r drwydded chwe blynedd (2008 i 2013):

| | Swm a wariwyd mewn blynyddoedd blaenorol £m | Swm a wariwyd yn 2008 £m | Swm a wariwyd yn 2009 £m | **Cyfanswm cronnol £m** | Cyllid chwe blynedd a neilltuwyd £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Newid i ddigidol** | | | | | |
| Cymorth i'r henoed a'r anabl* | – | 5.9 | 23.6 | **29.5** | 603.0 |
| Digital UK Limited** | 10.1 | 17.5 | 20.4 | **48.0** | 201.0 |

* Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cytuno â'r BBC y caiff costau amcangyfrifedig Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol (a weithredir gan DSHS Limited), sef £603miliwn, ei neilltuo a'i wahanu oddi wrth ffi'r drwydded at ddiben ariannu'r Cynllun dros fywyd setliad ffi'r drwydded o chwe blynedd. Mae'r cytundeb hwn yn nodi, os bydd costau'r prosiect yn fwy na'r terfyn hwn oherwydd mwy o alw na'r disgwyl, na fydd hyn ar draul rhaglenni, gwasanaethau nac adnoddau eraill y BBC.

** Mae'r Cytundeb Fframwaith yn nodi bod y BBC yn ymrwymedig i arwain rhai agweddau ar y rhaglen newid i ddigidol, drwy Digital UK, ac mae setliad ffi'r drwydded yn cynnwys swm wedi ei neilltuo o hyd at £201miliwn o gychwyn Digital UK tan ddiwedd bywyd setliad ffi'r drwydded o chwe blynedd ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu. Dim ond rhan o gyfraniad blynyddol y BBC i Digital UK yw'r swm wedi ei neilltuo.

Ar 31 Mawrth 2009, mae disgwyl i'r BBC gadw o fewn y symiau a neilltuwyd ar ddiwedd y cyfnod o chwe blynedd.

Mae gwariant y BBC ar Digital UK Limited a neilltuwyd yn cynnwys cyfran o gostau Digital UK Limited. Mae darlledwyr eraill hefyd yn cyfrannu ato. Y gwariant a ddangosir yn Nodyn 2 yw cyfanswm gwariant Digital UK Limited am y flwyddyn.

## 5 CYSONI CRONFEYDD/(DYLED) NET I DERFYNAU BENTHYCA'R ADRAN DROS DDIWYLLIANT, Y CYFRYNGAU A CHWARAEON (DCMS)

Pennir terfyn benthyca'r Gwasanaeth Cyhoeddus o £200miliwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Cytundeb Fframwaith rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ar 31 Mawrth 2009, 31 Mawrth 2008, a thrwy gydol y ddwy flwyddyn ariannol, roedd y BBC yn cydymffurfio â'r terfynau benthyca.

Mae cronfeydd/(dyled) net yn cynnwys yr arian yn y banc a'r arian parod mewn llaw sydd gan y BBC, llai unrhyw fenthyciadau yn cynnwys prif symiau sy'n ddyledus ar brydlesau cyllid. Cynhwysir deilliadau sy'n gysylltiedig â benthyciadau (cyfnewidiadau cyfradd llog, capiau a choleri) hefyd ar werth teg.

| | Gwasanaethau Cyhoeddus | | Busnesau Masnachol |
|---|---|---|---|
| | | Newid i ddigidol | |
| | Gwariant cyfalaf neu gyfredol £m | Gwariant cyfredol ar y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol* £m | £m |
| **2009** | | | |
| Cronfeydd/(dyled) net | 46.4 | – | (208.8) |
| **Terfyn benthyca** | **(200.0)** | **(25.0)** | **(350.0)** |
| 2008 | | | |
| Cronfeydd/(dyled) net | 16.7 | – | (149.9) |
| Terfyn benthyca | (200.0) | (25.0) | (350.0) |

* Dim ond mewn perthynas â benthyca i ariannu gwariant cyfredol ar fodloni cyfrifoldebau a osodir ar y BBC gan unrhyw gynllun y cytunir arno o dan gymal 39 o'r Cytundeb Fframwaith (cynlluniau cymorth wedi eu targedu), yn cynnwys costau y mae'r BBC yn mynd iddynt ar gyfer gorbenion a chostau ariannu'r cynllun y gellir defnyddio'r £25miliwn.

Pan ganiataodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon derfyn benthyca o £350miliwn ar gyfer BBC Commercial Holdings Limited ym mis Gorffennaf 2002, diffiniwyd tri chyfamod ariannol y mae'n ofynnol iddynt gael eu bodloni ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Ar 31 Mawrth 2009 a 31 Mawrth 2008 roedd BBC Commercial Holdings Limited yn cydymffurfio â phob un o'r cyfamodau hyn.

## 6 (RHWYMEDIGAETH)/ASED Y CYNLLUN PENSIWN A GYNHWYSIR AR Y FANTOLEN

Mae'r BBC yn gweithredu cynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig yn ogystal â rhai cynlluniau cyfraniadau diffiniedig. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o'r cynlluniau buddiannau diffiniedig, sy'n darparu buddiannau yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol, neu gyflog pensiynadwy cyfartaledd gyrfa.

Yn unol ag FRS 17, mae'r BBC yn cydnabod y (rhwymedigaeth)/ased pensiwn net ar ei fantolen fel y gwahaniaeth rhwng gwerth teg (neu farchnad) yr asedau a phrisiad actiwaraidd rhwymedigaethau'r cynllun. Mae FRS 17 yn nodi y dylai'r gyfradd ddisgowntio ar gyfer prisio'r rhwymedigaethau fod yn seiliedig ar fond o safon uchel o dymor cyfatebol i rwymedigaethau'r cynllun; mae hyn yn wahanol i'r dull a ddefnyddir i ddewis y gyfradd ddisgowntio ar gyfer prisiad actiwaraidd ffurfiol ac o ganlyniad ni fyddai disgwyl i (rwymedigaeth)/ased pensiwn net yr FRS 17 fod yr un peth â'r warged/(diffyg) actiwaraidd a fesurir ar yr un dyddiad.

| | Cynllun Pensiwn y BBC 2009 £m | Cynllun heb ei ariannu 2009 £m | **Cyfanswm 2009 £m** | Cynllun Pensiwn y BBC 2008 £m | Cynllun heb ei ariannu 2008 £m | Cyfanswm 2008 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 6,454.0 | – | **6,454.0** | 8,042.0 | – | 8,042.0 |
| Gwerth actiwaraidd rhwymedigaethau'r cynllun | (6,592.6) | (4.7) | **(6,597.3)** | (7,513.6) | (5.1) | (7,518.7) |
| (Rhwymedigaeth)/ased pensiwn net terfynol | (138.6) | (4.7) | **(143.3)** | 528.4 | (5.1) | 523.3 |

Mae cyfrifo asedau a rhwymedigaethau'r cynllun, at ddibenion FRS 17, yn gofyn am wneud nifer o dybiaethau, ariannol a demograffig. Y prif dybiaethau a wnaed gan yr actiwarïaid ar ddyddiad y fantolen oedd:

| | **2009 %** | 2008 % | 2007 % |
|---|---|---|---|
| **Prif dybiaethau ariannol** | | | |
| **Prisiad FRS 17** | | | |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | **4.4**** | 5.6* | 5.0 |
| Cyfradd y cynnydd mewn taliadau pensiwn: | | | |
| Hen Fuddiannau | **3.0** | 3.6 | 3.1 |
| Buddiannau Newydd | **2.7** | 3.4 | 2.9 |
| Buddiannau Cyfartaledd Gyrfa | **2.4** | 2.5 | 2.4 |
| Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant | **2.9** | 3.6 | 3.1 |
| Cyfradd ddisgowntio | **7.2** | 6.9 | 5.4 |

* Dyma'r dybiaeth o 1 Ebrill 2010. Y dybiaeth hyd at 31 Mawrth 2010 yw 4.6% y flwyddyn.
** Dyma'r dybiaeth o 1 Ebrill 2011. Y dybiaeth hyd at 31 Mawrth 2011 yw 3.9% y flwyddyn.

Y tybiaethau o ran disgwyliad oes ar gyfartaledd, ar gyfer aelodau sy'n ymddeol yn 60 oed yw fel a ganlyn:

| | **2009 Nifer y blynyddoedd** | 2008 Nifer y blynyddoedd | 2007 Nifer y blynyddoedd |
|---|---|---|---|
| **Prif dybiaethau demograffig** | | | |
| **Ymddeol heddiw** | | | |
| Gwryw | **26.9** | 26.6 | 23.5 |
| Benyw | **29.6** | 29.1 | 25.7 |
| **Ymddeol ymhen 20 mlynedd** | | | |
| Gwryw | **28.9** | 28.1 | 24.5 |
| Benyw | **31.7** | 30.7 | 26.8 |

Dewiswyd y tybiaethau o ran hir oes i adlewyrchu nodweddion a phrofiad aelodau'r cynllun. Gwnaed hyn drwy addasu tablau marwolaethau safonol (PMAC07MC+0.5 a PFAC07MC+1) sy'n adlewyrchu ymchwil ddiweddar i brofiad marwolaethau yn y DU.

Diweddarwyd y tybiaethau demograffig o'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiadau actiwaraidd y cynllun ar 1 Ebrill 2007 i adlewyrchu'r tybiaethau tebygol a gaiff eu defnyddio ar gyfer prisiad actiwaraidd y cynllun ar 1 Ebrill 2010.

# CYSONI SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL

Mae Siarter a Chytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi ei ddatganiad archwiliedig o gyfrifon yn unol â'r Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU (UK GAAP).

Er nad yw'n orfodol, dewisodd y BBC, hyd at 2005, ddilyn darpariaethau cyfrifyddu a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol er mwyn sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail sy'n gyson â rhai cwmnïau yn y DU a ddyfynnir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE. Yn dilyn newidiadau yn y gyfraith cwmnïau, pe bai'r BBC wedi parhau i gyflwyno adroddiadau yn y modd hwn, byddai wedi paratoi ei ddatganiadau ariannol cyfunol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiedir gan yr UE o 1 Ebrill 2005. Fodd bynnag, byddai cyflwyno adroddiadau o dan IFRS yn anghyson â Siarter a Chytundeb y BBC. Serch hynny, mae'r BBC wedi parhau i adolygu'r effaith y byddai mabwysiadu IFRS yn ei chael ar gyfrifon y Grŵp ac wedi cyflwyno crynodeb o'r effaith y byddai mabwysiadu IFRS wedi ei chael ar y datganiadau ariannol.

Ar 31 Mawrth 2009, cyfrifodd y BBC y byddai ei asedau net, pe bai wedi mabwysiadu IFRS, wedi lleihau £183miliwn i £807miliwn (2008: byddai asedau net wedi lleihau £198miliwn i £1,322miliwn).

| | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|
| Asedau net fel y'u cofnodwyd o dan safonau cyfrifyddu'r DU | **990.1** | 1,519.2 |
| Ailddosbarthu prydlesau | **(189.7)** | (196.5) |
| Addasiadau ewyllys da | **21.7** | 10.9 |
| Buddiannau cyflogeion | **(16.5)** | (16.5) |
| Treth ohiriedig | **1.2** | 0.3 |
| Arall | **0.5** | 4.3 |
| Asedau net fel y'u hadroddid o dan IFRS | **807.3** | 1,321.7 |

Byddai rhai o newidiadau cyfrifyddu IFRS, sef ailddosbarthu rhai prydlesau gweithred yn brydlesau cyllid yn bennaf, wedi cael effaith ar gyfrifo benthyciadau Darlledu Cyhoeddus fel y'u diffinnir gan derfyn benthyca'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Pennir terfyn uchaf benthyca'r Gwasanaeth Cyhoeddus o £200miliwn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac fe'i pennir drwy gyfeirio at UK GAAP ac nid IFRS. Byddai benthyciadau Gwasanaeth Cyhoeddus o dan IFRS wedi bod yn £798miliwn, o gymharu â chronfeydd net o £46miliwn o dan UK GAAP (2008: byddai benthyciadau Gwasanaeth Cyhoeddus o dan IFRS wedi bod yn £761miliwn, o gymharu â chronfeydd net o £17miliwn o dan UK GAAP). Seilir diffiniad y Cytundeb o fenthyciadau ar y safonau cyfrifyddu sy'n weithredol yn y DU ym mis Gorffennaf 2006.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009, cyfrifodd y BBC y byddai'r warged am y flwyddyn, pe bai wedi mabwysiadu IFRS, yn cael ei chynyddu £14miliwn i warged o £268miliwn (2008: byddai'r warged am y flwyddyn wedi cael ei lleihau £21miliwn i warged o £81miliwn).

| | 2009 £m | 2008 £m |
|---|---|---|
| Gwarged fel y'i cofnodwyd o dan safonau cyfrifyddu'r DU | **253.7** | 101.7 |
| Ailddosbarthu prydlesau | **6.9** | (20.7) |
| Addasiadau ewyllys da | **4.6** | (0.1) |
| Arall | **2.8** | 0.3 |
| Gwarged fel y'i hadroddid o dan IFRS | **268.0** | 81.2 |

Mae cysoniad manylach rhwng canlyniadau a sefyllfa ariannol y BBC o dan safonau cyfrifyddu'r DU a'r hyn a fyddai wedi cael ei adrodd pe bai IFRS wedi cael eu mabwysiadu, ynghyd â manylion pellach am yr addasiadau, yn cynnwys polisïau cyfrifyddu IFRS a'r tybiaethau sylweddol a wnaed wrth weithredu'r polisïau hynny (megis dyddiad newid i bolisïau cyfrifyddu IFRS) ar gael ar wefan y BBC yn www.bbc.co.uk/annualreport

Os hoffech wybod mwy am flwyddyn y BBC – gan gynnwys datganiadau ariannol llawn a pherfformiad pob gwasanaeth yn erbyn ei Ddatganiad am Bolisi Rhaglenni – yna ewch i
**www.bbc.co.uk/annualreport**

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg ac mewn fersiwn sain.

Os hoffech wybod mwy am sut y caiff y BBC ei redeg yna ewch i **www.bbc.co.uk/info**

BBC Gwybodaeth yw drws rhithwir ein cynulleidfa i'r BBC. Os oes gennych gwestiwn, sylw, cwyn neu awgrym am raglenni a gwasanaethau'r BBC, gallwch gysylltu â ni yma:

BBC Information
PO Box 1922
Glasgow G2 3WT

Ffôn: 03700 100 222* (Mae'r llinellau ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Efallai y caiff galwadau eu monitro neu eu recordio at ddibenion hyfforddiant.)
Ffôn testun: 03700 100 212*
Ffacs: 0141 307 5770

Gwefan: **www.bbc.co.uk/feedback**

Y llynedd cawsom dros 1.6 miliwn o gysylltiadau gan y cyhoedd.


* gelwir rhifau 0370 yn 'ledled y DU' ac nid ydynt yn costio mwy na galwadau i rifau daearyddol 01 neu 02.



Y newyddiadurwr a'r darlledwr Martha Kearney yn cyflwyno *The World at One* ar Radio 4.




Y gweithredwr camera Matt Donald yn canolbwyntio ar gael y llun gorau, yn Stiwdio 7 y Ganolfan Ddarlledu.



Mae'n cymryd amynedd, nerfau cryf a chlymau cryfach i wneud rhaglenni byd natur cofiadwy fel *Human Planet*. Yma dangosir criw'r BBC yn gwylio pysgotwr cregyn llong yn Galicia, Sbaen.



Y cyflwynydd radio Trevor Nelson yn ystod eiliad llai dwys ar ei raglen *1Xtra Breakfast Show*.



Alicia McCarthy, cyflwynydd *The Record Review* yn gwneud paratoadau munud olaf cyn darllediad byw ar BBC Parliament.



Y cyfarwyddwr David Taviner a'i gydweithwyr yn recordio rhifyn o *Songs of Praise* ar leoliad o'r fan Darllediadau Allanol.



Declan Curry yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan ei gydweithiwr Zoe Kleinman ar set *Working Lunch*.

**Papur** Wedi ei argraffu ar Cocoon Offset sydd wedi ei wneud o ffibrau wedi eu hailgylchu 100% o wastraff ôl-ddefnyddwyr yn unig. Ardystir Cocoon Offset yn unol âr rheolau ar gyfer y Forestry Stewardship Council.

FSC ©

100%

**Recycled**
Supporting responsible use of forest resources

Cert no. TT-COC 002228
www.fsc.org
© 1996 Forest Stewardship Council

## GWYBODAETH ARALL/

**Ffotograffiaeth** Mae'r hawlfraint ar gyfer y ddelwedd ar dudalen 19 o fwgwd mosäig Mixtec-Astec yn eiddo i'r Amgueddfa Brydeinig.

Mae'r delweddau canlynol wedi cael eu trwyddedu i'r BBC o dan y cytundeb PACT. Y cwmnïau cynhyrchu annibynnol a elwir yn Ddeiliaid Hawlfraint yw: tudalen 24-25 *Baroque* (ZCZ Films); tudalen 26-27 *In the Night Garden* (Ragdoll Productions); tudalen 32 *Outnumbered* (Hat Trick); tudalen 34 *Natural World* (Tigress Productions); tudalen 35 *Being Human* (Touchpaper Television); tudalen 36 *Science and Islam* (Southern Star Factual); tudalen 37 *Dustbin Baby* (Kindle Entertainment); tudalen 38 *Poetry Pie* (Triffic Films); tudalen 39 *Wallander* (Left Bank Pictures); tudalen 40 *A Rèir na h-Aimsir* (Madmac Productions); tudalen 40 Cwpan Her ALBA (mneTV) a *Britain from Above* (Lion TV).

Y BBC sy'n berchen ar yr hawlfraint ar gyfer yr holl ffotograffau eraill.

Mike Abrahams a dynnodd y lluniau ar y clawr a'r clawr blaen ar y tu mewn ac ar dudalennau 9, 10, 15, 20-23, 28, 31, 46, 61, 64, 70, 78, 80, 84-96, 104-106; cafodd y llun ar dudalen 2-3 ei dynnu gan Alistair Rickman; cafodd y lluniau ar dudalennau 42-45, 49, 61-63, 79, 98-103 (ar wahân i'r lluniau o Reolwyr a Chyfarwyddwyr y BBC, a dynnwyd gan Mike Abrahams) eu tynnu gan Nick Dawe ar gyfer Red Bee Media; cafodd y llun o Gyfarwyddwr BBC Cymru ar dudalen 43 ei dynnu gan Betina Skovbro.

**Dyluniad** luminous.co.uk

**Cyfieithiad** Gwasanaeth Cyfieithu Prysg.

**Argraffiad** Royle Print. Gwneir yr inciau argraffu o olew llysiau nad yw'n beryglus o ffynonellau adnewyddadwy. Caiff dros 90% o doddyddion a datblygyddion eu hailgylchu i'w defnyddio eto ac mae mentrau ailgylchu ar waith ar gyfer pob gwastraff arall sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchiad hwn. Mae Royle Print wedi ei ardystio gan yr FSC ac ISO 14001 ac mae gweithdrefnau llym ar waith i ddiogelu'r amgylchedd ym mhob proses.

**CarbonNeutral**® printing company

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London W1A 1AA
bbc.co.uk
(h) BBC 2009